# GWEITHIO I GYFLAWNI DYFODOL IACHACH I GYMRU



Iechyd Cyhoeddus Cymru
Adroddiad Blynyddol 2019/2020

GIG CYMRU NHS WALES | Iechyd Cyhoeddus Cymru | Public Health Wales

# Cynnwys


Ein Blwyddyn mewn Rhifau 3

Rhagair | Cadeirydd y Bwrdd 4

Rhagair | Prif Weithredwr 6

Adroddiad am ein Perfformiad 7

Ein Hadroddiad Cynaliadwyedd 30

Ein Hadroddiad Atebolrwydd 45

Adroddiad Llywodraethu Corfforaethol 46

Adroddiad Cydnabyddiaeth Ariannol a Staff 101

Adroddiad Atebolrwydd ac Archwilio Cynulliad Cenedlaethol Cymru 119

Tystysgrif ac adroddiad archwilydd annibynnol ar Archwilydd Cyffredinol Cymru i'r Senedd 120

Datganiadau Ariannol 2019/20 123

# Ein Blwyddyn mewn Rhifau

**30,000+**
o atgyfeiriadau i'r Cynllun Cenedlaethol i Atgyfeirio Cleifion i Wneud Ymarfer Corff

**183 o ysgolion**
wedi cyflawni gwobr ysgolion iach lefelau 1-5

Trosglwyddo gwasanaethau rhoi'r gorau i smygu'n llwyddiannus i fyrddau Iechyd Lleol o fis
**Hydref 2019**

**130+**
o deuluoedd yng Ngwent cael cynnig cymorth o ganlyniad i Brosiectau Ymyrraeth Gynnar

Dathlu
**10fed**
pen-blwydd y rhaglen Cynllun Gwên ym mis Medi 2019

**Tuag 1.5m**
o samplau microbioleg wedi eu profi

**340+**
o ymholiadau imiwneiddio wedi eu hateb

Lansio rhaglen Llysgennad Ifanc ym mis **Gorffennaf 2019**

**60+**
o ddigwyddiadau Cynllunio at Argyfwng a Pharhad Busnes gyda **500+** o fynychwyr

Cyflawni cyllideb gytbwys ar gyfer
**2019/20**

**6**
e-ganllaw 'Byddwch y Newid' wedi eu datblygu yn hyrwyddo camau cynaliadwy

**100+**
o staff wedi eu hyfforddi ar barodrwydd pontio o'r UE

**60+**
o ddigwyddiadau Cynllunio at Argyfwng a Pharhad Busnes gyda 500+ o fynychwyr

Gostyngiad o
**31%**
mewn allyriadau o gerbydau Iechyd Cyhoeddus Cymru

**900,000+**
o wahoddiadau sgrinio gyda thros 660,000 wedi eu sgrinio

Gostyngiad o
**87%**
mewn allyriadau sy'n deillio o waredu gwastraff

Gostyngiad o
**18%**
mewn allyriadau o ddŵr a gyflenwyd

Gostyngiad o
**10%**
mewn allyriadau sy'n deillio o ddefnyddio trydan

**750+ o gyfranogwyr**
wedi mynychu Cynhadledd flynyddol Iechyd Cyhoeddus Cymru

**350+**
o staff wedi mynychu'r Gynhadledd Staff Flynyddol ar draws 3 safle yng Nghymru

# Rhagair
## Cadeirydd y Bwrdd

**Yn fy Rhagair y llynedd, dywedais fy mod yn hyderus y byddai Iechyd Cyhoeddus Cymru yn parhau i adeiladu ar ei lwyddiannau niferus yn 2019/20; wrth i 2019 fynd rhagddi, dyma'n union a ddigwyddodd. Ehangodd Iechyd Cyhoeddus Cymru ei rôl fel y Sefydliad Iechyd Cyhoeddus yng Nghymru a chryfhau ei safle fel corff sydd ar flaen y gad yn yr ymgyrch ryngwladol i hyrwyddo tegwch o ran iechyd a lleihau anghydraddoldebau iechyd.**

Wrth weithio'n agos â Swyddfa Ranbarthol Ewrop Sefydliad Iechyd y Byd (WHO) a'r Swyddfa yn Fenis, cafodd Cymru ei chydnabod fel "Dylanwadwr" a "Safle Arloesi Byw" ar gyfer Llesiant a Thegwch Iechyd, un o ddim ond pump yn Rhanbarth Ewropeaidd WHO.

Ar ôl cynnal Asesiad Effaith ar Iechyd newydd ar y goblygiadau i iechyd yn sgil gadael yr Undeb Ewropeaidd darparwyd cyngor i helpu Cymru i fod mor barod â phosibl, tra bod aelodau gwreiddiol Uned Atal Trais Cymru wedi cryfhau ymhellach y dull yn seiliedig ar iechyd cyhoeddus o ymdrin â phlismona a chyfiawnder troseddol.

Cymerodd "Creu Cymru Iachach" gam mawr ymlaen o ganlyniad i sefydlu Grŵp Cydlynu Cymru gyfan a dyrannu £10 miliwn i'w oruchwylio'n benodol gan y Grŵp; roedd hyn yn enghraifft allweddol o rôl Iechyd Cyhoeddus Cymru o ran arwain y system.

Yn sgil y ffocws ar gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant, llwyddodd Iechyd Cyhoeddus Cymru i gyrraedd 100 Uchaf o gyflogwyr ym Mynegai Cydraddoldeb Stonewall, ac ennill statws Arweinwyr Hyderus o ran Anabledd. Mae aelodau'r bwrdd yn ymuno â mi i longyfarch pawb a oedd ynghlwm â sicrhau'r gydnabyddiaeth hon, ac felly hefyd pawb a weithiodd i sicrhau gwobr Aur y Safon Iechyd Corfforaethol ac i ddod â safonau'r Gymraeg yn fyw.

Yn ystod y flwyddyn, gweithiodd aelodau'r bwrdd yn galed hefyd ar fireinio'r seilwaith corfforaethol, gyda mwy fyth o bwyslais ar ansawdd, rheoli risg a llywodraethu. Cyflwynwyd sesiynau 'craffu manwl' fel ffordd o graffu ar ac amlygu meysydd allweddol y Cynllun Gweithredol - roeddem yn gwerthfawrogi'r ffyrdd adeiladol y cymerodd staff ran yn y rhain a dysgodd pawb lawer o'r broses!

Darparodd y Gynhadledd Staff a Chynhadledd flynyddol Iechyd Cyhoeddus Cymru dystiolaeth bellach o'r dalent a'r ymroddiad hwnnw; roedd y lleoliad a ddewiswyd eleni yn gefnlen i'r Gynhadledd flynyddol gyrraedd uchelfannau newydd ac rydym yn llongyfarch yr holl drefnwyr a chyfranwyr. Ni ellid bod wedi arddangos rôl Iechyd Cyhoeddus Cymru o ran arwain y system a phwysigrwydd y sefydliad i Gymru yn well.

Ar ddiwedd Chwarter 3 roedd Iechyd Cyhoeddus Cymru mewn sefyllfa gref; roedd dros 88% o'r camau a nodwyd yn y Cynllun Gweithredol wedi'u cwblhau neu ar y trywydd iawn; roeddem yn rhagweld y byddem yn adennill costau ar ddiwedd y flwyddyn, roedd ein gwaith partneriaeth mor adeiladol ag erioed ac roedd ein henw da rhyngwladol yn ehangu.

Yna daeth COVID-19, pandemig byd-eang nas gwelwyd ei fath ers canrif. O ganlyniad i'n cysylltiadau rhyngwladol, gan gynnwys gydag WNO a Chymdeithas Ryngwladol Sefydliadau Iechyd Cyhoeddus Cenedlaethol (IANPHI), roedd swyddogion gweithredol Iechyd Cyhoeddus Cymru a gweithwyr proffesiynol diogelu iechyd wedi adnabod maint digyffelyb y risg yn gynnar. O dan arweiniad Tracey, rhoddwyd 'Busnes fel Arfer' i'r naill ochr ac, ym mis Chwefror 2020, cymeradwyodd y Bwrdd benderfyniad i symud staff yn gyflym ar draws y sefydliad. Rhoddwyd yr egwyddorion a gynhwyswyd yn y Strategaeth Pobl arloesol, a gymeradwywyd gan y Bwrdd ym mis Ionawr, mewn perthynas â gweithio'n ystwyth, yn hyblyg ac ar ffurf matrics ar waith ar unwaith, gyda staff yn ymgymryd â rolau a swyddogaethau newydd. Daeth mathau newydd o weithio i'r amlwg; dechreuodd ein gweithwyr proffesiynol diogelu iechyd, ein timau

microbioleg a phawb sy'n ymwneud â chefnogi'r system a'r wlad weithio oriau hir. Roedd y gwaith yn cynnwys cefnogi pob corff cyhoeddus drwy ddarparu cyngor a chefnogaeth polisi i'r llywodraeth ar bynciau gan gynnwys cyfarpar diogelu personol, cartrefi gofal, profi a gwyliadwriaeth.

Tra'n ymroi'n llawn i gefnogi'r camau yn erbyn COVID-19, ymdrechodd y tîm hefyd i gynnal gwasanaethau allweddol eraill. Parhaodd y rhaglenni sgrinio cyn geni a sgrinio newydd-anedig, yn ogystal â'r rhaglen Helpa Fi i Stopio, elfennau o gymorth gofal sylfaenol, y Ganolfan ACE, diogelu, ymchwilio a gwerthuso a sganio iechyd rhyngwladol. Gwnaeth staff mewn swyddogaethau galluogi corfforaethol gyfraniad mawr hefyd.

Roeddwn yn dyst i drawsnewidiad cyflym y sefydliad cyfan, a'r cyfan y gallaf ei wneud yw ailadrodd yr ymdeimlad o falchder dwfn ym mhob aelod o staff – roedd eich ymateb yn broffesiynol, yn anhunanol gan weithio'n ddiflino; roedd pob un ohonoch yn wych ac rydych yn parhau i fod yn wych.

Hoffwn ddiolch o galon i gyd-aelodau'r Bwrdd am eu harweiniad gydol y flwyddyn, ond yn arbennig am eu cyngor doeth a'u cefnogaeth ddi-ffael ers dechrau'r pandemig. Yn y cyfnod anodd hwn, llwyddodd y Bwrdd i ddarparu arweinyddiaeth strategol effeithiol a chynnal trefniadau llywodraethu da, yn seiliedig ar ddealltwriaeth glir o rolau a chyfrifoldebau a pharch cydradd rhwng swyddogion anweithredol a gweithredol. Hoffwn ddiolch yn arbennig i'm cydweithwyr gweithredol ar y Bwrdd am arweinyddiaeth sefydliadol ddeheuig a hyderus, yn seiliedig ar wybodaeth ac arbenigedd ar y cyd ac ymrwymiad i wasanaeth cyhoeddus.

Roedd Iechyd Cyhoeddus Cymru yn allweddol o ran tynnu sylw'r system a'r wlad at yr hyn y byddai COVID-19 yn ei olygu; roedd yn galw ar Tracey i ddarparu arweinyddiaeth eithriadol, i weithredu ac yn wir, i drawsnewid, y sefydliad yn gyflym. Roedd ymateb cychwynnol cryf iawn Iechyd Cyhoeddus Cymru i COVID-19 yn deillio o'i llwyddiant yn hynny o beth; rwy'n ei llongyfarch yn galonnog ac yn nodi ar gof a chadw bod ein dyled o ddiolch iddi'n fawr.

Cynnydd y pandemig a'i oblygiadau fydd testun yr adroddiad blynyddol nesaf; rwy'n hyderus, fodd bynnag, y bydd yr adroddiad hefyd yn cofnodi ymateb rhagorol parhaus staff Iechyd Cyhoeddus Cymru, er budd iechyd y cyhoedd ac i ddiogelu pobl Cymru.

**Jan Williams**



Cadeirydd y Bwrdd
Iechyd Cyhoeddus Cymru

# Rhagair
## Prif Weithredwr

**Mae'n bleser gennyf gyflwyno ein Hadroddiad Blynyddol ar gyfer 2019/20.**

Rwy'n falch iawn o rannu gyda chi yn yr adroddiad hwn y gwaith y mae pob un o'n pobl wedi'i wneud dros y flwyddyn ddiwethaf, sy'n dangos ehangder a chwmpas y gwaith sy'n digwydd ar draws ein Sefydliad.

Mae'r adroddiad hwn yn adeiladu ar y cynnydd a wnaed y llynedd wrth gyflwyno ein Strategaeth Hirdymor a chyflawni ein pwrpas sef *'Gweithio i wireddu dyfodol iachach i Gymru'*, yn ogystal â dangos sut rydym yn cyflawni yn erbyn ein saith blaenoriaeth strategol. Fel Sefydliad Iechyd Cyhoeddus cenedlaethol, ein gwaith yw canolbwyntio ar ychwanegu'r gwerth mwyaf a chael yr effaith fwyaf ar iechyd a llesiant yng Nghymru.

Llwyddodd ein timau i gyflawni pethau o gryn bwys yn ystod y flwyddyn. Ni allaf ddechrau ymdrin â phob un o'r rhain yn y cyflwyniad hwn ond, i roi blas i chi, lansiwyd ein brand newydd *Gwelliant Cymru* (1000 o Fywydau gynt) i gefnogi cydweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol i wella diogelwch a chanlyniadau i gleifion, sefydlwyd *Creu Cymru Iachach* - partneriaeth amlasiantaethol i symud buddsoddiad a gwasanaethau tuag at waith atal yn unol â blaenoriaethau y cytunwyd arnynt, sicrhawyd cyllid ychwanegol ar gyfer ein Gwasanaeth Diogelu Iechyd Cenedlaethol, fe wnaethom barhau â'n gwaith cadarn â Sefydliad Iechyd y Byd drwy ein Canolfan Gydweithredol ac i ddatblygu ein dull gwyddor data ymhellach. Fe wnaethom hefyd gyflwyno newidiadau sylweddol i rai o'n rhaglenni sgrinio yn ystod y flwyddyn, gan gynnwys prawf gwahanol (sy'n fwy ystyriol o bobl) ar gyfer ein Rhaglen Sgrinio Coluddion.

Roedd hefyd yn flwyddyn arall lle y canolbwyntiwyd yn benodol ar ein pobl ar draws y sefydliad. Lansiwyd ein Strategaeth Pobl arloesol, aeth ein rhwydweithiau staff o nerth i nerth, fe wnaethom barhau i gynyddu ein ffocws ar lesiant ein pobl a llwyddo i fod yn un o'r 100 Cyflogwr Gorau yn ôl Mynegai Cydraddoldeb yn y Gweithle Stonewall am ein gwaith ar amrywiaeth.

Fodd bynnag, yn ystod chwarter olaf eleni, roeddem yn wynebu'r argyfwng iechyd mwyaf mewn dros 100 mlynedd wrth i effaith pandemig byd-eang y Coronafeirws (COVID-19) ddod i'r amlwg. Mae wedi bod yn gyfnod nas gwelwyd mo'i debyg o'r blaen, a bu newid mawr yn ffocws y sefydliad gyda'n holl bobl ac adnoddau'n cael eu hatgyfeirio i ymateb i'r pandemig COVID-19.

Mae'r sefydliad wedi symud yn gyflym ac ar raddfa eang. Rydym wedi gweld unigolion a thimau yn ymgymryd â rolau a swyddogaethau newydd, datblygiadau TG a data yn cael eu cyflwyno ar garlam, newidiadau i gynlluniau'r ystâd i hwyluso gweithio gartref, datblygu swyddogaethau newydd gan gynnwys canolfannau galwadau a chyswllt a pharodrwydd pawb i chwarae eu rhan yn yr ymateb. Mae ein pobl o bob rhan o'r sefydliad wedi bod, ac yn parhau i fod, yn wirioneddol anhygoel o ran eu hangerdd, eu hymrwymiad a'u proffesiynoldeb.

Yn olaf, hoffwn ddiolch o galon i'r holl bartneriaid yr ydym wedi cydweithio â nhw eleni - yn enwedig ein Llysgenhadon Ifanc sydd wedi bod yn wych yn ein cefnogi drwy'r flwyddyn. Fodd bynnag, ni fyddem wedi gallu cyflawni popeth a wnaethom eleni, a newid cyfeiriad yn llwyr wrth ddefnyddio pawb a phopeth i ymateb i'r pandemig COVID-19, heb angerdd ac ymroddiad y Bwrdd a'n staff anhygoel. Mae ein pobl wedi gweithio ymhell y tu hwnt i'r disgwyliadau er mwyn cadw pobl Cymru'n ddiogel a byddaf yn fythol ddiolchgar am hynny.



**Tracey Cooper**
Prif Weithredwr
Iechyd Cyhoeddus Cymru

# Adroddiad am ein Perfformiad

# Dadansoddi ein perfformiad

Mae gan Iechyd Cyhoeddus Cymru drefniadau ffurfiol i reoli perfformiad, er mwyn monitro a mesur ein cynnydd o dan ein cynllun strategol, a monitro a mesur perfformiad y prif wasanaethau rydym yn eu darparu. Cyflwynir gwybodaeth amserol a chadarn i'n Bwrdd er mwyn rhoi sicrwydd, gan dynnu sylw at unrhyw broblemau a risgiau sy'n dod i'r amlwg a allai alw am gymryd camau lliniaru. Mae hyn yn sicrhau ein bod yn gwneud popeth o fewn ein gallu i greu dyfodol iachach i Gymru.

Cyflawnwyd ein holl ddyletswyddau statudol yn 2019/20, gan gynnwys adennill ein costau a sicrhau bod gennym Gynllun Tymor Canolig Integredig. Er inni ddarparu nifer sylweddol o'r gweithgarwch oedd wedi'i gynllunio yn ystod tri chwarter cyntaf y flwyddyn, cafodd yr angen i gynllunio ac ymateb i'r pandemig COVID-19 effaith fawr ar ein sefydliad, ar y GIG yn ehangach, ac ar y gymdeithas gyfan. Mae wedi gofyn am ymateb dynamig, a hynny wedi rhoi nifer o gyfleoedd inni, yn ogystal ag amlygu risgiau. Bydd angen i'n sefydliad ni a chymdeithas yn ehangach barhau i ymateb i'r pandemig, ac adfer ar ei ôl, drwy gydol 2020/21 ac wedi hynny.

Cyflwynodd y pandemig COVID-19 nifer o heriau inni, gan gynnwys heriau wrth gyflawni ein cynllun strategol, a heriau wrth ddarparu ein prif wasanaethau a rhaglenni. Mae nifer o'r heriau hyn yn cael sylw yn y naratif ac yn y tablau data isod. Yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru, mae'r data ar gyfer nifer bychan o'n meysydd cyflawni wedi'u cyflwyno ar gyfer tri chwarter cyntaf 2019/20 yn unig. Mae hyn gan i'n gwasanaethau a'n rhaglenni ddod i ben am y tro, ar ôl inni symud llawer o'n gweithlu i ymateb i'r pandemig.

Er i COVID-19 effeithio ar ein cyflawniadau yn ystod y chwarter olaf, mae gwybodaeth am y cyfnod hwnnw wedi'i gyflwyno mewn ffurf naratif pan fydd ar gael, yn absenoldeb data swyddogol am berfformiad. Gan hynny, efallai na fydd modd cymharu'r data â data blynyddoedd blaenorol.

Mae'r adrannau canlynol yn rhoi trosolwg cyffredinol o'r cynnydd a wnaed o dan ein blaenoriaethau strategol a sut y bu inni gyflawni yn erbyn ein dangosyddion perfformiad allweddol, gan gynnwys y rheini sy'n rhan o Fframwaith Cyflawni GIG Cymru 2019/20.

## Cyflawni ein Cynllun Strategol

Y camau gweithredu yn ein cynllun blynyddol oedd sail ein cynnydd wrth gyflawni ein cynllun, a chyflwynwyd y wybodaeth honno i'r Bwrdd a Llywodraeth Cymru yn rheolaidd.

Ar ddiwedd Chwarter 3 2019/20, roedd y cynnydd mwyaf wedi'i wneud o dan *Sicrhau dyfodol iach i'r genhedlaeth nesaf* (blaenoriaeth 4), gyda 100% o'r camau gweithredu wedi'u cwblhau/ar y trywydd iawn i gael eu cwblhau o fewn yr amserlenni y cytunwyd arnynt (22 o gamau gweithredu). Yn achos y blaenoriaethau strategol *Dylanwadu ar benderfynyddion ehangach iechyd* (blaenoriaeth 1), *Diogelu'r cyhoedd rhag heintiau a bygythiadau amgylcheddol i iechyd* (blaenoriaeth 5), *Cefnogi datblygu system iechyd a gofal gynaliadwy sy'n canolbwyntio ar atal ac ymyrryd yn gynnar* (blaenoriaeth 6), ac *Adeiladu a symud gwybodaeth a sgiliau i wella iechyd a llesiant ar draws Cymru* (blaenoriaeth 7), roedd y rhain naill ai wedi'u cwblhau neu roeddem ar y trywydd iawn i gwblhau o leiaf 90 y cant o'r camau gweithredu perthnasol.

Gwnaed llai o gynnydd o dan *Hyrwyddo ymddygiad iach* (blaenoriaeth 3) a'n camau galluogi, a'r disgwyl oedd na fyddai 22 y cant a 15 y cant o'r camau'n cael eu cwblhau o fewn yr amserlenni y cytunwyd arnynt. Roedd cyfran sylweddol o'r rhain yn sgil oedi o ganlyniad i brinder capasiti, a methiant i recriwtio pobl i swyddi allweddol.

Oherwydd y gefnogaeth sylweddol a roddwyd i'n hymateb i COVID-19 yn ystod y chwarter olaf, bydd gwaith yn cael ei wneud i asesu effaith lawn hyn ar gyflawni ein cynllun strategol. Yn y tymor byr, mae cynllun chwarterol yn cael ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru yn unol â chanllawiau cynllunio GIG Cymru, a bydd cynlluniau gweithredu'n cael eu creu i gyflymu'r gwaith a wneir ar gamau sydd i'w trosglwyddo o 2019/20.

Ar ddiwedd Chwarter 3 2019/20, roedd lefel dda o gyflawni i'w gweld o dan yr holl flaenoriaethau strategol, gyda dros 88 y cant o'r camau gweithredu (334 ohonynt) yn ein cynllun blynyddol wedi'u cwblhau/ar y trywydd iawn i gael eu cwblhau. Roedd mymryn dros 7 y cant o'r camau gweithredu


(27) yn hwyr yn cael eu cyflawni, ac roedd ffactorau allanol yn effeithio ar y cynnydd yn achos 5 y cant o'r camau gweithredu (17). Roedd cynnydd sylweddol hefyd wedi'i wneud wrth gydweithio i sicrhau bod modd mesur y canlyniadau o dan bob blaenoriaeth strategol. Fodd bynnag, o ganlyniad i'r pandemig COVID-19 a'r angen i symud staff er mwyn ymateb yn effeithiol, gohiriwyd y gwaith o weithredu ein strategaeth hirdymor yn chwarter olaf 2019/20, ac felly nid oes data ar gael ar gyfer y cyfnod hwn.

Mae adroddiad llawn am y cynnydd ar ddiwedd Chwarter 3 2019/20, a hwnnw'n cynnwys gwybodaeth bellach am gamau gweithredu na chafodd eu cwblhau, i'w weld yn Adroddiad Perfformiad Integredig Rhagfyr 2019.


## Blaenoriaethau Strategol 2019/20

| | |
|---|---|
| 1 | Dylanwadu ar benderfynyddion ehangach iechyd |
| 2 | Gwella llesiant meddyliol a chydnerthedd |
| 3 | Hyrwyddo ymddygiad iach |
| 4 | Sicrhau dyfodol iach i'r genhedlaeth nesaf |
| 5 | Diogelu'r cyhoedd rhag heintiau a bygythiadau amgylcheddol i iechyd |
| 6 | Cefnogi datblygu system iechyd a gofal gynaliadwy sy'n canolbwyntio ar atal ac ymyrryd yn gynnar |
| 7 | Adeiladu a symud gwybodaeth a sgiliau i wella iechyd a llesiant ar draws Cymru |

**Ffigur 1: Cynnydd cyffredinol drwy'r holl gynlluniau (yn Chwarter 3 2019/20)**




**Ffigur 2: Cynnydd o dan y Blaenoriaethau Strategol (yn Chwarter 3 2019/20)**




- Wedi'u cwblhau o fewn yr amserlenni y cytunwyd arnynt
- Ar ei hôl hi, ond disgwyl cwblhau o fewn yr amserlenni y cytunwyd arnynt
- Dim disgwyl cwblhau o fewn yr amserlenni y cytunwyd arnynt
- Ffactorau allanol yn effeithio ar gynnydd

## Dangosyddion Perfformiad Allweddol

Mae'r adran nesaf yn rhoi trosolwg o nifer o'n dangosyddion perfformiad allweddol, gan gynnwys y rheini sy'n rhan o Fframwaith Cyflawni GIG Cymru 2019/20. Er mwyn helpu i wella pob un o'n gwasanaethau, rydym yn gosod nifer o dargedau uchelgeisiol yn ein Cynllun Strategol i sicrhau ein bod yn darparu'r gwasanaethau mwyaf effeithiol ac effeithlon y gallwn. Cafodd y dangosyddion perfformiad hyn sylw yn ein Hadroddiad Perfformiad Integredig, sy'n rhoi gwybodaeth o bwys am ein perfformiad o ran materion gweithredol, pobl, ansawdd a chyllid. Y nod yw dangos sut y mae ein perfformiad wedi gwella ynghyd â'r meysydd y mae angen eu gwella. Bydd ein Tîm Gweithredol yn craffu ar y wybodaeth hon bob mis, a bydd ein Bwrdd yn craffu arni bob deufis ym mhob cyfarfod ffurfiol o'r Bwrdd.

Ym mhob maes, rhoddir trosolwg ar ffurf naratif a thablau data i gyd-fynd, gan ddangos ein perfformiad diweddaraf ac unrhyw gyflawniadau, ynghyd â'r heriau rydym wedi'u hwynebu ym mhob un. Rhoddir pwyslais penodol ar effaith COVID-19. Mae ein ffigurau diweddaraf yn cyflwyno darlun amrywiol o ran perfformiad. Er y bu gwelliannau mewn nifer o feysydd, mewn rhai o'n gwasanaethau mae heriau'n dal i fodoli cyn inni gyflawni neu gynnal y safonau cenedlaethol a'r targedau y cytunodd Iechyd Cyhoeddus Cymru arnynt.

## Rhoi'r gorau i smygu

Mae helpu i leihau nifer y bobl sy'n smygu yng Nghymru yn dal i fod yn elfen bwysig yn ein gwaith, law yn llaw â'n partneriaid. Tybaco yw'r ffactor risg uchaf unigol sy'n achosi marwolaethau cynamserol ac anabledd yn y Deyrnas Unedig. Mae'n achosi bron i un ym mhob pum marwolaeth, ac mae'n gyfrifol am tua thraean yr anghydraddoldeb mewn marwolaethau rhwng yr ardaloedd mwyaf a lleiaf difreintiedig yng Nghymru.

Mae ein gwasanaeth Helpa Fi i Stopio yn sicrhau bod holl wasanaethau rhoi'r gorau i smygu y GIG yng Nghymru ar gael i bobl sy'n smygu, gan ei gwneud hi'n haws iddynt ddewis y gefnogaeth orau yn eu hardal leol i roi'r gorau iddi. Yn ôl y data diweddaraf sydd ar gael, ar ddiwedd chwarter 2019/20, roedd 1.8 y cant o'r oedolion sy'n smygu yn ceisio rhoi'r gorau iddi drwy wasanaethau rhoi'r gorau i smygu. Y targed blynyddol yw 5 y cant. Er nad yw'r system ar y trywydd iawn i gyflawni'r targed hwnnw ar hyn o bryd, mae tystiolaeth o gynnydd nodedig yn nifer y smygwyr a gysylltodd â Helpa Fi i Stopio yn y flwyddyn ddiwethaf, ac yn y nifer sy'n derbyn cymorth. Mae'r ffigurau diweddaraf ar gyfer canran y smygwyr a gafodd ddilysiad carbon monocsid llwyddiannus yn dangos bod y ganran yn uwch na'r targed o 40 y cant, ac yn 44.5 y cant ar ddiwedd Chwarter 3 2019/20.

Ar ddiwedd Chwarter 3, roedd 39 o ysgolion uwchradd wedi'u targedu fel rhan o'n Rhaglen Atal Smygu, gyda ffigurau terfynol 2019/20 fymryn yn is na'r targed, sef 55 o ysgolion.

| Dangosydd | Safon/Targed | Perfformiad | | |
|---|---|---|---|---|
| | | 17/18 | 18/19 | Q3 19/20 |
| **Helpa Fi i Stopio** | | | | |
| Canran yr oedolion sy'n smygu sy'n ceisio rhoi'r gorau iddi drwy wasanaethau rhoi'r gorau i smygu | 5% (Targed blynyddol) | Data ddim ar gael | 3.2% | 1.8% (yn Chwarter 2) |
| Canran y smygwyr lle dilyswyd iddynt roi'r gorau iddi'n llwyddiannus yn ôl lefelau CO | 40% | 47% | 46.8% | 44.5% |
| **Rhaglen Atal Smygu** | | | | |
| Nifer yr ysgolion uwchradd a dargedwyd | 60 | 57 | 58 | 39 |

## Y Cynllun Cenedlaethol i Atgyfeirio Cleifion i Wneud Ymarfer Corff

Cynllun sy'n cael ei ariannu gan Lywodraeth Cymru yw'r Cynllun Cenedlaethol i Atgyfeirio Cleifion i Wneud Ymarfer Corff. Mae wedi'i ddatblygu i safoni'r cyfleoedd i atgyfeirio cleifion i wneud ymarfer corff yn holl awdurdodau lleol a byrddau iechyd Cymru. Mae'r cynllun yn targedu cleientiaid sy'n wynebu risg o ddatblygu clefydau cronig, a hynny drwy roi cyfle iddynt ddilyn rhaglen ymarfer corff o safon, a honno wedi'i goruchwylio, i wella'u hiechyd a'u lles.

Roedd perfformiad y cynllun yn dal i fod yn gryf ar ddiwedd 2019/20. Mae'r data diweddaraf yn dangos i'r cynllun gael dros 30,700 o atgyfeiriadau, sy'n rhagori ar y targed o 23,500 o atgyfeiriadau. O blith y rhain, cafodd dros 18,600 o unigolion ymgynghoriad cyntaf, a chwblhaodd dros 10,300 yr ymgynghoriad 16 wythnos, a oedd drachefn yn rhagori ar y targedau perthnasol.

| Dangosydd | Safon/ Targed | Perfformiad | | |
|---|---|---|---|---|
| | | 17/18 | 18/19 | 19/20 |
| Cynllun Cenedlaethol i Atgyfeirio Cleifion i Wneud Ymarfer Corff – nifer yr atgyfeiriadau | 23,500 | 32,775 | 32,691 | 30,744 |
| Cynllun Cenedlaethol i Atgyfeirio Cleifion i Wneud Ymarfer Corff – nifer yr ymgynghoriadau 1af | 16,300 | 19,694 | 19,312 | 18,651 |
| Cynllun Cenedlaethol i Atgyfeirio Cleifion i Wneud Ymarfer Corff – nifer yr ymgynghoriadau 16 wythnos | 6,500 | 9,509 | 10,284 | 10,347 |

## Cymru Iach ar Waith

Mae Cymru Iach ar Waith yn cefnogi pobl yng Nghymru i ddychwelyd i'r gwaith ac aros yn y gwaith yn hwy drwy hybu iechyd a llesiant, cydbwysedd da rhwng bywyd a gwaith, a ffyrdd iach o fyw er mwyn helpu i leihau salwch ac absenoldeb. Mae'r rhaglen yn cael ei darparu ar ffurf partneriaeth rhwng Llywodraeth Cymru, Iechyd Cyhoeddus Cymru a Phrifysgol Caerdydd.

Llwyddodd Cymru Iach ar Waith i sicrhau bod 15 o sefydliadau'n cwblhau asesiad llawn yn 2019/20; y targed oedd 25. Gostyngodd nifer y sefydliadau a gafodd wobr gweithle bach i 30 ar ôl y cynnydd a welwyd y llynedd, ac mae hyn yn is na'r targed o 100 o sefydliadau. Cyrhaeddwyd y targed ar gyfer sefydliadau'r sector preifat a gwblhaodd ffug asesiad, sef 5, gyda'r nifer a gwblhaodd yr asesiad llawn yn is na'r targed, sef 3 sefydliad.

| Dangosydd | Safon/ Targed | Perfformiad | | |
|---|---|---|---|---|
| | | 17/18 | 18/19 | 19/20 |
| Sefydliadau a gwblhaodd asesiad llawn Safon Iechyd Corfforaethol | 25 | 38 | 38 | 15 |
| Sefydliadau a gyflawnodd Wobr Iechyd y Gweithle Bach | 100 | 60 | 78 | 30 |
| Sefydliadau a gwblhaodd ffug asesiad Safon Iechyd Corfforaethol | 25 | 25 | 30 | 16 |
| Sefydliadau'r sector preifat a gwblhaodd ffug asesiad | 5 | 12 | 15 | 5 |
| Sefydliadau'r sector preifat a gwblhaodd asesiad llawn | 5 | 39 | 38 | 3 |

## Cynlluniau Ysgolion Iach – Rhwydwaith Cymru

Mae'r Cynlluniau Ysgolion Iach – Rhwydwaith Cymru yn annog datblygu cynlluniau ysgolion iach lleol o fewn fframwaith cenedlaethol. Mae Sefydliad Iechyd y Byd yn cydnabod bod hyn yn rhan allweddol o hyrwyddo iechyd plant a phobl ifanc, ac mae'r cynllun wedi'i gyflwyno drwy Gymru ers 2000. Mae pob cynllun lleol yn gyfrifol am gynorthwyo'r gwaith o ddatblygu ysgolion sy'n hyrwyddo iechyd yn eu hardaloedd.

Yn ystod 2019/20, cafodd 183 o ysgolion wobr lefel 1-5, gyda'r targed yn 180 o ysgolion. Fodd bynnag, er i nifer yr ysgolion sy'n ymgymryd â'r Wobr Ansawdd Genedlaethol gynyddu o 21 i 25 dros y flwyddyn ddiwethaf, mae'r perfformiad yn dal yn is na'r targed o 50 o ysgolion.

| Dangosydd | Safon/Targed | Perfformiad | | |
|---|---|---|---|---|
| | | 17/18 | 18/19 | 19/20 |
| Cynlluniau Ysgolion Iach - Rhwydwaith Cymru - Ysgolion a gyflawnodd wobr lefel 1-5 | 180 | 225 | 218 | 183 |
| Cynlluniau Ysgolion Iach - Rhwydwaith Cymru - Ysgolion a wnaeth ymgymryd â'r Wobr Ansawdd Genedlaethol | 50 | 29 | 21 | 25 |

Bydd angen diwygio ein trefniadau monitro ar gyfer rhaglenni gwella iechyd yn 2020/21 er mwyn rhoi sylw i effeithiau'r pandemig COVID-19. Er bod rhai rhaglenni wedi'u gohirio neu'n parhau mewn ffurf newydd, mae'r gwaith yn dal i fynd rhagddo i helpu pobl i ddychwelyd i ysgolion a gweithleoedd.

## Creu Cymru Iachach

Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi bod yn cefnogi'r broses o roi *Creu Cymru Iachach* ar waith, sef partneriaeth amlasiantaeth sy'n ceisio mynd ati'n bwrpasol i weithio'n fwy ataliol, a hynny ym mhob sector. Mae *Grŵp Cydlynu Creu Cymru Iachach* wedi'i sefydlu gyda'r nod o gydweithio ar nifer o flaenoriaethau cyffredin ar lefelau lleol a rhanbarthol (a'r pwyslais ar wneud hynny drwy'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol a'r Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus). Drwy wneud hyn, bydd modd cysoni'r dulliau sydd ar gael drwy Gymru gyfan er mwyn sicrhau bod gwahanol elfennau'r system yn gallu cyflawni'r blaenoriaethau hyn, cynghori am y newidiadau polisi a allai fod yn angenrheidiol, a chreu model i gadw golwg ar y symud tuag at waith ataliol ar draws sectorau.

Dyma'r camau gweithredu cychwynnol a osodwyd gan y Grŵp, yn amodol ar rai newidiadau olaf:

- Mynd ati'n bwrpasol i feithrin perthynas ac ymwneud â'r Byrddau Partneriaeth Lleol, Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus, a phartneriaid
- Ar gyfer y blaenoriaethau hyn a'r agenda ataliol ehangach, datblygu a chyflwyno cynllun cyfathrebu ac ymgysylltu eang (gan gynnwys brandio a naratif craidd) drwy'r holl sectorau ac i'r cyhoedd
- Adolygu'r adnoddau sydd wedi'u dyrannu a'r gwariant ar waith ataliol, a datblygu model economaidd i gadw golwg ar wariant drwy'r holl sectorau ar waith ataliol
- Ailfframio'r canlyniadau, y dulliau mesur, a'r dulliau atebolrwydd sy'n cael eu defnyddio drwy'r holl sectorau i roi pwyslais newydd ar waith ataliol
- Rhoi cymorth ac arweiniad i feysydd blaenoriaeth penodol

## Gwasanaeth Diogelu Iechyd Cenedlaethol

Un o'n prif swyddogaethau statudol yw paratoi ar gyfer bygythiadau clefydau heintus a bygythiadau amgylcheddol i'n hiechyd, boed yn rhai sy'n bodoli'n barod neu'n rhai newydd, gan ymateb i'r rheini a'u rheoli'n effeithiol. Ynghyd â chydweithwyr drwy'r holl sefydliad, mae ein timau diogelu iechyd a microbioleg wedi bod yn ganolog i'n hymateb dwys i'r pandemig COVID-19 wrth i hwnnw ddatblygu. Er mwyn sicrhau ein bod yn gallu ymateb i fygythiadau clefydau heintus i boblogaeth Cymru, mae'n hanfodol bod ein gwasanaethau Diogelu Iechyd a Microbioleg yn cydweithio'n agos. Mae hyn wedi bod yn amlwg yn y gwaith allweddol a wnaed i ddatblygu ymateb a chynlluniau gweithredu'r tîm Diogelu Iechyd, ac yn nangosfwrdd Iechyd Cyhoeddus Cymru sy'n cadw gwyliadwriaeth ar COVID-19. Bydd cydweithio hefyd yn mynd rhagddo â chydweithwyr drwy'r holl sefydliad i fodelu effeithiau posibl y nifer sy'n cael eu himiwneiddio a'u brechu, a'r effeithiau dilynol ar iechyd a lles pobl yn y dyfodol.

## Gwasanaethau Microbioleg

Mae ein hisadran Microbioleg yn darparu gwasanaethau microbioleg o labordai ledled Cymru. Mae hyn yn cynnwys gwasanaethau diagnosteg mewn labordai i ysbytai a meddygon teulu, arwain rhaglenni rheoli haint mewn ysbytai, ymwneud â rhaglenni cadw gwyliadwriaeth rhanbarthol a chenedlaethol, a chynorthwyo Timau Diogelu Iechyd i reoli brigiadau o achosion heintus a haint yn y gymuned.

Roedd y perfformiad o dan ein dangosyddion perfformiad allweddol yn dal yn gryf yn 2019/20. Dim ond amseroedd prosesu (Bacterioleg a Firoleg) a oedd yn fwy nag un y cant o dan y lefelau targed. Mae ein labordai microbioleg wedi'u hailachredu o dan Wasanaeth Achredu'r Deyrnas Unedig (UKAS), ac rydym hefyd yn dal i ddarparu gwasanaeth 24 awr, 365 diwrnod y flwyddyn i ymateb i fygythiadau clefydau heintus i boblogaeth Cymru. Ymhlith cyflawniadau eraill mae:

- Datblygu adnodd i reoli'r galw am brofion moleciwlaidd enterig
- Cyflwyno ystod o blatfformau moleciwlaidd cyflym ym mhob un o'n safleoedd fel rhan o'r ymateb i COVID-19
- Treialu'r defnydd o brofion cyflym i gefnogi diagnosis cynharach o samplau meithriniadau gwaed
- Hyrwyddo datblygu proffesiynol i'n staff

Er mwyn sicrhau ein bod yn dal i ddarparu gwasanaethau gyda sicrwydd ansawdd yn ystod y pandemig, rydym wrthi'n datblygu asesiad risg a fydd yn dogfennu'r holl achosion o wyro oddi wrth ein gwaith achrededig dros dro, ac yn rhoi manylion y gweithdrefnau sydd gennym, neu'r gweithdrefnau rydym wedi'u cyflwyno, i liniaru unrhyw risgiau.

| Dangosydd | Safon/Targed | Perfformiad | | |
|---|---|---|---|---|
| | | 17/18 | 18/19 | 19/20 |
| **Microbioleg** | | | | |
| Statws achrediad UKAS i ISO 15189:2012 ar gyfer Microbioleg ac ISO 17025:2005 ar gyfer labordai Bwyd, Dŵr ac Amgylcheddol ar gyfer cwmpas diffiniedig | Achrededig | Achrededig | Achrededig | Achrededig |
| Sicrhau Ansawdd Allanol Perfformiad – Bacterioleg | 97% | 94% | 96% | 97% |
| Sicrhau Ansawdd Allanol Perfformiad – Firoleg | 100% | 100% | 99% | 98% |
| Sicrhau Ansawdd Allanol Perfformiad – Unedau Arbenigol a Chyfeirio | 100% | 100% | 99% | 99% |
| Sicrhau Ansawdd Allanol Perfformiad – Bwyd, Dŵr ac Amgylcheddol | 98% | 99% | 99% | 99% |
| Amseroedd Prosesu – Bacterioleg | 95% | 94% | 95% | 94% |
| Amseroedd Prosesu – Firoleg | 95% | 98% | 96% | 94% |
| Amseroedd Prosesu – Unedau Arbenigol a Chyfeirio | 95% | 96% | 98% | 98% |
| Amseroedd Prosesu – Bwyd, Dŵr ac Amgylcheddol | 95% | 98% | 98% | 98% |

## Brechu ac imiwneiddio

Mae Iechyd Cyhoeddus y Byd yn amcangyfrif bod 3 miliwn o fywydau'n cael eu hachub bob blwyddyn drwy imiwneiddio. Mae'n bwysig bod ein holl blant a babanod yn cael eu himiwneiddio'n llawn i'w gwarchod rhag clefydau a allai fod yn ddifrifol. Mae oedolion hefyd yn elwa o imiwneiddio, gan gynnwys at ddibenion gwaith a theithio. I'r rheini sydd â risg uwch o gael cymhlethdodau o'r ffliw, argymhellir eu bod yn cael y brechlyn blynyddol rhag y ffliw. Mae GIG Cymru yn cynnig tua 1.5 miliwn o ddosau o frechlynnau cyffredin i blant ac oedolion bob blwyddyn, a'r rheini'n amddiffyn pobl rhag 16 o glefydau heintus. Mae ein Rhaglen Frechu yn erbyn Clefydau Ataliadwy yn gweithio i gefnogi'r GIG ehangach yng Nghymru, a hynny drwy ddatblygu polisi, rhoi hyfforddiant a darparu gwybodaeth i gyflawni targedau sy'n ymwneud â nifer o ddangosyddion allweddol ym maes brechu ac imiwneiddio.

Ers y llynedd, bu'r darlun ar y cyfan yn un cadarnhaol wrth edrych ar nifer o'n dulliau mesur perfformiad allweddol. Er i'r niferoedd aros yn gymharol gyson ymhlith plant sy'n cael tri dos o'r brechlyn '6 mewn 1' erbyn eu bod yn 1 oed a dau ddos o'r brechlyn MMR erbyn eu bod yn 5 oed, gwelwyd gwelliannau yn y dangosyddion sy'n edrych ar y niferoedd sy'n cael eu brechu rhag y ffliw, er bod y mwyafrif yn dal o dan y lefelau targed.

Mae COVID-19 wedi effeithio'n sylweddol ar y rhaglenni imiwneiddio sy'n cael eu darparu yng Nghymru, ac o ganlyniad gallai digwydded clefydau y gellir eu hatal drwy frechu gynyddu. Er i imiwneiddio barhau i fabanod, plant cyn oed ysgol a menywod beichiog gan ddilyn canllawiau llym, bydd COVID-19 yn arwain at ostyngiad yng nghyfanswm nifer y brechlynnau a roddir, a bydd hyn yn amlwg yn ffigurau 2020/21.

Er mwyn ymateb i'r pandemig, mae'r gwaith cynllunio ar gyfer y rhaglen ffliw wedi'i ehangu. Mae tîm ein Rhaglen Frechu yn erbyn Clefydau Ataliadwy yn creu cynlluniau sy'n datblygu ar gydweithio er mwyn cyrraedd cynifer o bobl â phosibl gyda chyfuniad o strategaeth gref i gyfathrebu â'r cyhoedd a chefnogaeth i ddarparu gwasanaethau. Bydd y pwyslais ar blant ifanc, staff iechyd a gofal cymdeithasol, ac unigolion sydd â chyflyrau iechyd hirdymor, ac sydd gan hynny â risg uwch o gael COVID-19 difrifol.

| Dangosydd | Safon/ Targed | Perfformiad | | |
|---|---|---|---|---|
| | | 17/18 | 18/19 | 19/20 |
| **Brechu ac imiwneiddio** | | | | |
| Canran y plant a gafodd 3 dos o'r brechlyn '6 mewn 1' erbyn 1 oed | 95% | 95.9% | 95.4% | 95.8% |
| Canran y plant a gafodd ddau ddos o'r brechlyn MMR erbyn 5 oed | 95% | 89.5% | 92.2% | 92.1% |
| Canran y rhai a gafodd eu brechu rhag y ffliw ymhlith y rhai 65 oed a hŷn | 75% | 68.8% | 68.3% | 69.4% |
| Canran y rhai a gafodd eu brechu rhag y ffliw ymhlith y rhai o dan 65 oed mewn grwpiau risg uchel | 55% | 48.5% | 44.1% | 44.1% |
| Canran y rhai a gafodd eu brechu rhag y ffliw ymhlith menywod beichiog | 75% | 72.7% | 74.2% | 78.5% |
| Canran y rhai a gafodd eu brechu rhag y ffliw ymhlith gweithwyr gofal iechyd rheng flaen | 60% | 57.9% | 55.5% | 58.7% |

## Heintiau sy'n Gysylltiedig â Gofal Iechyd

Mae heintiau sy'n gysylltiedig â gofal iechyd yn heintiau sy'n datblygu o ganlyniad uniongyrchol i driniaeth feddygol neu lawfeddygol neu gyswllt mewn lleoliad gofal iechyd. Gellir eu dal mewn ysbytai, lleoliadau iechyd, lleoliadau iechyd yn y gymuned, neu leoliadau gofal cymdeithasol yn y gymuned a gallant effeithio ar gleifion a gweithwyr gofal iechyd. Mae heintiau cyffredin sy'n gysylltiedig â gofal iechyd yn cynnwys Clostridiwm difficile (C.difficile), Staffylococws awrëws (Staff awrëws), a bacteremia E.coli (E.coli).

Mae'r Rhaglen Heintiau sy'n Gysylltiedig â Gofal Iechyd, Ymwrthedd Gwrthficrobaidd a Phresgripsiynu (HARP) yn cefnogi'r GIG yng Nghymru i leihau baich heintiau sy'n gysylltiedig â gofal iechyd ac ymwrthedd gwrthficrobaidd drwy Gymru. Gwneir hyn drwy roi adborth am ddata cadw gwyliadwriaeth a thrwy hyrwyddo ymyriadau a phresgripsiynu gwrthficrobaidd addas er mwyn atal heintiau rhag lledu.

Yn ystod 2019/20, parhawyd i arwain y GIG yn strategol er mwyn ymateb i heriau heintiau sy'n gysylltiedig â gofal iechyd. Buom hefyd yn monitro nifer yr heintiau allweddol yn fisol i holl Fyrddau Iechyd ac Ymddiriedolaethau'r GIG sy'n trin cleifion mewnol yng Nghymru. Dangosodd hyn bod lefelau heintiau sy'n gysylltiedig â gofal iechyd yng Nghymru ar y cyfan wedi aros ar yr un lefel neu wedi gwella o dan y targedau lleihau disgwyliedig cenedlaethol. Yn benodol, gwelwyd gwelliannau yn y cyfraddau Staff awrëws ac E.coli drwy Gymru (26.5 a 78.8 ym mhob 100,000, yn y drefn honno), tra bo cyfraddau C.difficile wedi aros yn fwy cyson dros yr un cyfnod (26.9 ym mhob 100,000). Yn unol â'r newidiadau a wnaed i Fframwaith Cyflawni'r GIG yn 2019/20, cofnodwyd data ar gyfer Klebsiella sp a bacteremia P. aeruginosa am y tro cyntaf a byddant yn parhau i gael eu monitro fel rhan o'n gwaith cadw gwyliadwriaeth.

| Dangosydd | Safon/Targed | Perfformiad | | |
|---|---|---|---|---|
| | | 17/18 | 18/19 | 19/20 |
| **Heintiau sy'n Gysylltiedig â Gofal Iechyd** | | | | |
| Cyfradd clostridiwm difficile (fesul 100,000 o'r boblogaeth)* | ≤25 | 36.7 | 26.5 | 26.9 |
| Cyfradd staffylococws awrëws (fesul 100,000 o'r boblogaeth) | ≤20 | 29.9 | 29.4 | 26.5 |
| Cyfradd bacteremia E.Coli (fesul 100,000 o'r boblogaeth) | ≤67 | 83.3 | 79.1 | 78.8 |
| Cyfradd bacteremia Klebsiella sp (fesul 100,000 o'r boblogaeth)** | Gostyngiad blynyddol o 10% | Dim cofnod | Dim cofnod | 20.0 |
| Cyfradd bacteremia P. aeruginosa (fesul 100,000 population)** | | Dim cofnod | Dim cofnod | 6.3 |

* Y gostyngiad disgwyliedig wedi'i ddiwygio yn 2019/20
** Cofnodwyd dangosyddion am y tro cyntaf yn 2019/20 yn unol â Fframwaith Cyflawni GIG Cymru

## Sgrinio

Un o'n swyddogaethau statudol yw darparu rhaglenni sgrinio i'r boblogaeth. Rydym yn darparu saith rhaglen sgrinio genedlaethol ac yn cydlynu'r rhwydwaith clinigol a reolir drwy Gymru Gyfan ar gyfer sgrinio cynenedigol. Mae'r rhaglenni sgrinio i'r boblogaeth yn gwahodd y bobl gymwys yn y boblogaeth sydd mewn risg i gael prawf sgrinio. Y nod yw canfod unigolion sy'n debygol o elwa o ragor o brofion neu driniaeth i leihau'r risg o glefydau neu gymhlethdodau. Mae ein rhaglenni naill ai'n rhoi cymorth ataliol sylfaenol i geisio lleihau achosion o glefydau (e.e. Sgrinio Serfigol) neu'n rhoi cymorth ataliol eilaidd i geisio rhoi diagnosis cynnar i leihau effaith y clefyd (e.e. Sgrinio'r Fron).

Wrth i'r pandemig COVID-19 ddatblygu yng Nghymru, rhoddwyd ystyriaeth ofalus i gydbwyso manteision a risgiau parhau i gynnig y rhaglenni sgrinio, yn unol â chanllawiau'r llywodraeth ar gyfer y boblogaeth a chamau yr oedd y byrddau iechyd wedi'u cymryd i flaenoriaethu eu hymateb i COVID-19. Ar ôl y cyhoeddiad gan Lywodraeth y DU ar 16 Mawrth, a gynghorai bobl i osgoi unrhyw gyswllt cymdeithasol dianghenraid ac unrhyw deithio dianghenraid, cynhaliodd yr Is-adran Sgrinio asesiad risg o'i gallu i ddarparu rhaglenni sgrinio, ac o ba mor ddiogel fyddai gwneud hynny. Arweiniodd hyn at ohirio'r holl raglenni sgrinio am gyfnod amhenodol, gydag eithriad rhaglenni Sgrinio Cynenedigol Cymru, Sgrinio Smotyn Gwaed Newydd-anedig a Sgrinio Clyw Babanod, gan fod y cyfnodau sydd ar gael i ymyrryd yn fyr yn achos y rhain.

Blaenoriaeth o bwys inni dros y blynyddoedd diwethaf fu cynnal neu wella ein perfformiad ym mhob un o'n rhaglenni. Mae hyn wedi'i nodi yn ein Cynllun Strategol ac wedi'i seilio ar gyfres o ddulliau sy'n mesur perfformiad pob rhaglen. Ar ddiwedd Chwarter 3 2019/20, roedd mwyafrif ein dangosyddion sgrinio naill ai wedi gwella neu wedi aros yn gyson. Yn benodol, bu gwelliant sylweddol o ran cyfran y llythyron canlyniadau Sgrinio Llygaid Diabetig a gynhyrchir o fewn 3 wythnos i sgrinio, ar ôl cyrraedd y ffigur isaf o 4.3% ym mis Mai 2019. Mae'r perfformiad wedi aros yn gyson uwchben y safon, gyda'r prydlondeb bellach yn uwch na 90 y cant ers mis Gorffennaf 2019. Parhau i wella hefyd wnaeth cyfradd yr ailadrodd y gellir ei osgoi yn achos sgrinio smotyn gwaed newydd-anedig, ac roedd yn agos at gyrraedd y safon o 2 y cant yn 2019, ar ôl gostwng o 14.5 y cant ym mis Ebrill i 4. 4 y cant ym mis Rhagfyr 2019. Yn achos y rhaglenni sydd wedi parhau yn ystod y pandemig, mae data ar ddiwedd Chwarter 4 2019/20 yn dangos bod y perfformiad wedi aros yn gyson.

Gwnaed llai o gynnydd gyda'r apwyntiadau asesu a geir o fewn tair wythnos i sgrinio Bron Brawf Cymru hyd at ddiwedd Chwarter 3 2019/20. Parhau wnaeth y prinder staff meddygol ym mhob rhanbarth ond roedd hyn yn arbennig o wir yn y gorllewin, lle'r oedd angen mwy o amser i wneud darlleniadau mamogram oherwydd capasiti staff, a hynny'n effeithio'n uniongyrchol ar yr amseroedd aros am asesiadau. Er i berfformiad amseroedd aros am golonosgopi o dan y rhaglen sgrinio coluddion wella o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol, wynebwyd heriau o hyd wrth geisio cyrraedd y safon. Mae recriwtio i lenwi swyddi ymgynghorwyr mewn Byrddau Iechyd yn dal yn heriol, a hynny'n cael effaith ar nifer y colonosgopyddion sydd ar gael i sgrinio rhestrau endosgopi.

Mae gwaith sylweddol wedi'i wneud i asesu'r risgiau er mwyn ailgyflwyno rhaglenni sgrinio i'r boblogaeth yn raddol. Mae hyn wedi golygu cynllunio'n ofalus i roi sylw i unigolion cymwys sydd heb eu gwahodd yn ystod y cyfnod o saib, y rheini sydd heb eu hasesu ymhellach yn y llwybr, a'r rheini y mae angen eu gwahodd yn rheolaidd dros weddill y flwyddyn. Bydd hyn yn arwain at weithgarwch ychwanegol sylweddol a bydd angen asesu sut y gellir adfer hynny'n ddiogel. Gan y bydd y rhaglenni sgrinio wedi'u gohirio am o leiaf dri mis, disgwylir y bydd angen 12 mis ar bob rhaglen i adfer yn llawn, a chyfnod hwy na hynny yn achos rhai rhaglenni.

| Dangosydd | Safon/Targed | Perfformiad | | |
|---|---|---|---|---|
| | | 17/18 | 18/19 | Q3 19/20 |
| **Sgrinio** | | | | |
| Sgrinio'r fron: anfonwyd canlyniadau normal o fewn pythefnos i'r prawf sgrinio | 90% | 91.4% | 92.3% | 90.7% |
| Sgrinio'r fron: apwyntiadau asesu o fewn tair wythnos i'r prawf sgrinio | 90% | 65.1% | 65.5% | 48.9% |
| Sgrinio'r fron: canran y menywod a wahoddwyd o fewn 36 mis i'r sgrinio blaenorol | 90% | 88.6% | 86.5% | 87.2% |
| Cwmpas sgrinio serfigol | 80% | 76.3% | 75.5% | 73.6% |
| Amseroedd aros sgrinio serfigol ar gyfer canlyniadau: o fewn pedair wythnos | 95% | 93.3% | 93.9% | 95.9% |
| Cwmpas sgrinio coluddion | 60% | 52.2% | 53.6% | 56.9% |
| Amser aros sgrinio coluddion ar gyfer colonosgopi | 90% | 47.5% | 38.5% | 54.4% |
| Canran a gafodd oruchwyliaeth ymlediad aortig abdomenol: bach | 90% | 91.0% | 91.4% | 90.8% |
| Canran a gafodd oruchwyliaeth ymlediad aortig abdomenol: canolig | 90% | 90.9% | 94.2% | 92.0% |
| Canran sgrinio clyw babanod sy'n cwblhau'r rhaglen o fewn pedair wythnos | 90% | 98.4% | 98.6% | 98.2% |
| Canran sgrinio clyw babanod sy'n cwblhau'r weithdrefn asesu erbyn tri mis oed | 85% | 89.8% | 92.6% | 94.5% |
| Cwmpas sgrinio smotyn gwaed newydd-anedig | 95% | 94.4% | 93.2% | 94.5% |
| Cyfradd ailadrodd y gellir ei osgoi sgrinio smotyn gwaed newydd-anedig | ≤2% | 4.8% | 7.3% | 6.5% |
| Cwmpas Sgrinio Llygaid Diabetig - canlyniad a nodwyd yn y 12 mis diwethaf | 80% | Data ddim ar gael | 67.5% | 66.1% |
| Llythyrau Canlyniadau Sgrinio Llygaid Diabetig wedi'u hargraffu o fewn 3 wythnos i'r dyddiad sgrinio | 85% | Data ddim ar gael | 35.2% | 70.2% |

## Ein staff

Mae ein staff drwy'r holl sefydliad wedi cael blwyddyn tu hwnt o brysur, ond un gynhyrchiol iawn. Mae hyn wedi bod yn arbennig o wir yn ystod chwarter olaf y flwyddyn, ac mae ymateb y staff sy'n cefnogi'r pandemig COVID-19 yn dal i fod yn gwbl ryfeddol. Mae ein staff wedi addasu i heriau sylweddol wrth inni symud drwy wahanol gyfnodau'r ymateb i'r pandemig. Mae unigolion a thimau wedi ysgwyddo rolau/swyddogaethau newydd; mae datblygiadau technoleg gwybodaeth a data wedi'u rhoi ar lwybr carlam i gyrraedd lefel newydd; bu newidiadau i gynlluniau'r ystad i alluogi pobl i weithio gartref; datblygwyd canolfannau cyswllt a gwasanaethau 24/7; a dangosodd bawb barodrwydd i chwarae'u rhan yn ein hymateb.

Mae gwarchod a chefnogi ein gweithlu yn ystod y pandemig yn dal i fod yn rhan bwysig o'n hymateb i COVID-19. Mae'r sefydliad wedi cyfathrebu'n rheolaidd i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i staff ac mae wedi cyflwyno nifer o adnoddau cefnogi, cefnogaeth ychwanegol i ofalu am les pobl, a threfniadau 'cadw mewn cysylltiad'. Bydd ein gweithlu'n allweddol wrth inni barhau i ddarparu'r ymateb brys i COVID-19 drwy gydol 2020/21.

Cafodd ein dangosyddion allweddol ar gyfer ein gweithlu eu monitro'n ofalus yn ystod 2019/20. Er y bu mymryn o ostyngiad yn y ffigurau absenoldeb salwch eleni, ni chafwyd y cynnydd sydyn a ragwelwyd yn sgil COVID-19. Er bod ein ffigurau cydymffurfio statudol a gorfodol yn is na ffigurau'r llynedd, ni fu gostyngiad sylweddol yn y ffigurau cydymffurfio ym maes hyfforddiant ers dechrau'r ymateb dwys, ac mae'r ffigurau cydymffurfio yn dal i fod yn uwch na'r targed o 85 y cant ar gyfer Cymru Gyfan.

Mae ymdrechion dygn wedi'u gwneud i wella ein ffigurau cydymffurfio ar gyfer arfarniadau staff anfeddygol (Fy Nghyfraniad i), a hynny wedi arwain at gynnydd yn y cyfraddau cydymffurfio o'u cymharu â blynyddoedd blaenorol, ond mae'n dal yn is na'r targed cenedlaethol o 85 y cant. Mae'n ddealladwy y gall arfarniadau diwedd blwyddyn fod wedi'u gohirio oherwydd y pandemig, ond hyd yn oed wedyn mae ein Tîm Gweithredol wedi cymeradwyo cynllun i fynd i'r afael â'r gyfradd gydymffurfio, yn ogystal â rhoi sylw i ganfyddiadau adolygiad Archwilio Mewnol. Arhosodd y gyfradd gydymffurfio yn gryf o ran y staff meddygol sy'n cael arfarniad ail-ddilysu, ar 100 y cant ddiwedd mis Rhagfyr 2019. Yn sgil ymateb y GIG drwy Gymru gyfan i'r pandemig, gohiriodd y Prif Swyddog Meddygol yr Arfarniadau Ailddilysu Meddygol am gyfnod amhenodol.

Mae gwaith yn cael ei wneud i ddeall holl oblygiadau'r broses adfer i'n pobl. Yn benodol, disgwylir y bydd hyn yn ymwneud â'r adnoddau y bydd eu hangen i gefnogi'r ymateb parhaus i COVID-19, i ddarparu gwasanaethau hanfodol, ac i gyflawni ein cyfrifoldebau statudol. Er mwyn sicrhau ein bod yn dal i allu ymateb yn effeithiol i'r pandemig, darparu ein gwasanaethau iechyd cyhoeddus ehangach, a rhoi'r gefnogaeth angenrheidiol i'n staff, bydd angen i Iechyd Cyhoeddus Cymru gyflwyno amryw o gamau sy'n canolbwyntio ar bobl. Bydd angen inni hefyd sicrhau bod ein seilwaith sefydliadol wedi'i gynllunio ac yn gweithredu'n effeithiol, ac yn unol â'r ddeddfwriaeth ar gyfer diogelwch cleifion a staff.

| Dangosydd | Safon/Targed | Perfformiad | | |
|---|---|---|---|---|
| | | 17/18 | 18/19 | 19/20 |
| **Gweithlu** | | | | |
| Cyfradd absenoldeb oherwydd salwch (cyfradd dreigl flynyddol) | ≤3.25% | 4.01% | 3.87% | 3.97% |
| Canran cydymffurfio ar gyfer yr holl gymwyseddau Lefel 1 a gwblhawyd o fewn y Fframwaith Sgiliau a Hyfforddiant Craidd | 85% | 86.4% | 91.8% | 89.5% |
| Cydymffurfio ag arfarniad Fy Nghyfraniad – wedi'i gofnodi ar y Cofnod Staff Electronig | 90% | 55.8% | 55.8% | 71.4% |
| Canran y staff meddygol sydd wedi cael arfarniad ailddilysu yn y 15 mis diwethaf | 100% | 100% | 100% | 100% (yn Chwarter 3) |

## Pryderon a chwynion

Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi ymrwymo i wrando'n astud ac ymateb yn briodol i brofiad defnyddwyr gwasanaethau, cwynion, achosion a honiadau. Mae pryderon yn rhoi adborth gwerthfawr, ac mae Iechyd Cyhoeddus Cymru yn awyddus i ddysgu o hynny. Fe'u gwelir fel ffordd gadarnhaol o gyflwyno newid. Bydd y Tîm Gweithredol a'r Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Gwella yn adolygu'r adroddiad chwarterol, Gweithio i Wella. Diben yr adroddiad hwn yw canfod problemau a thriongli themâu i'n helpu i ddysgu gwersi drwy'r holl sefydliad. Y Panel Profiad Defnyddwyr Gwasanaeth a Dysgu yw'r fforwm a ddefnyddir i sicrhau bod gwersi'n cael eu rhannu ac yn destun craffu drwy'r holl sefydliad.

Yn ystod 2019/20, cafodd Iechyd Cyhoeddus Cymru 113 o gwynion ffurfiol a chwynion 'yn y fan a'r lle'. O'r cwynion ffurfiol a gafwyd, ymatebwyd i 36 ohonynt o fewn y targed o 30 diwrnod. Er y gwelwyd cynnydd yn nifer y cwynion o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol, mae'r ffigur hwn bellach yn cynnwys cwynion ffurfiol a chwynion 'yn y fan a'r lle' ill dau. Rhoddwyd gwybod i Lywodraeth Cymru am chwe digwyddiad difrifol yn 2019/20, gyda 83 y cant o ymchwiliadau'n cael eu cwblhau o fewn yr amserlenni targed. Er bod y ffigur fymryn o dan y targed o 90 y cant, mae hyn oherwydd cymhlethdod yr ymchwiliadau, gan gynnwys gwaith adolygu helaeth a gwaith i sicrhau ansawdd ein cronfeydd data, a'r angen i edrych ar gofnodion sydd wedi'u harchifo. Rydym yn cymryd y gwaith hwn yn llwyr o ddifrif, a rhoddir gwybod i Lywodraeth Cymru am yr holl amgylchiadau sydd ynghlwm wrth bob ymchwiliad.

| Dangosyddion | Safon/Targed | Perfformiad | | |
|---|---|---|---|---|
| | | 17/18 | 18/19 | 19/20 |
| **Pryderon a Chwynion** | | | | |
| Nifer y pryderon/cwynion ysgrifenedig a gafwyd | N/A | 52 | 59 | 113* |
| Nifer y pryderon/cwynion ysgrifenedig yr ymatebwyd iddynt o fewn yr amserlenni targed | 75% | 73% | 59% | 36%** |
| Nifer y digwyddiadau difrifol y rhoddwyd gwybod amdanynt | N/A | 2 | 7 | 6 |
| Ymchwiliadau i ddigwyddiadau difrifol a gwblhawyd o fewn yr amserlenni targed | 90% | 0% | 57% | 83% |

* Yn cynnwys cwynion ffurfiol ac 'yn y fan a'r lle'
** Dim ond i gwynion ffurfiol y mae'r targed o 30 diwrnod gwaith yn berthnasol

## Ansawdd a gwella

Mae ein Strategaeth Ansawdd a Gwella ar gyfer 2020-23 yn cefnogi ein gweledigaeth i ddod yn sefydliad sy'n perfformio'n dda. Gan ddefnyddio dull ymchwil ac arloesi gwelliant 90 diwrnod Gwelliant Cymru yn sylfaen, mae'r cynllun wedi'i seilio ar dystiolaeth o bwys. Mae ein diffiniad o ansawdd yn cwmpasu chwe maes, sef: diogel; amserol; effeithlon; effeithiol; teg; a chanolbwyntio ar bobl/y boblogaeth.

Drwy ganolbwyntio ar reoli i sicrhau ansawdd, byddwn yn ceisio canfod anghenion ein poblogaeth a'n pobl sy'n defnyddio ein gwasanaethau. Bydd hyn yn ein galluogi i flaenoriaethu dyluniad ein gwaith, gan ei ailddylunio a'i wella er mwyn cyflawni disgwyliadau neu fynd y tu hwnt i hynny. Byddwn yn sicrhau ein bod yn ddibynadwy wrth ateb anghenion y boblogaeth a gwasanaethau bob dydd, gan ganfod unrhyw fylchau mewn perfformiad yn gynnar a chefnogi gwelliannau o dan bob Blaenoriaeth Strategol gan ddefnyddio cyfres safonol o ddulliau sy'n lleihau anghysondebau yn ein gwaith.

Bydd dull gwella parhaus yn cael ei gyflwyno ym mhob rhan o'r sefydliad i sicrhau gwell canlyniadau ac effaith, ac mae hynny'n hollbwysig er mwyn inni gyflawni ein blaenoriaethau strategol. Byddwn yn parhau i ysgogi, arwain ac angori pob darn o waith yng Nghymru sy'n ymwneud â diogelu, cydraddoldeb a hawliau dynol, gan gefnogi sefydliadau'r GIG i wella amrywiaeth y gweithlu a ffyrdd o weithio a sicrhau bod iechyd a gofal cymdeithasol yn cyfrannu at ddiogelu'r cyhoedd.

## Rheoli risg

Mae rheoli risg yn sylfaenol i redeg sefydliad llwyddiannus sy'n perfformio'n dda. Dylai hyn fod yn ganolog i brosesau gwneud penderfyniadau a dyrannu adnoddau, a hynny ar lefel weithredol a strategol. Dylai'r broses o reoli risg geisio canfod cyfleoedd i arloesi a buddsoddi, ochr yn ochr â'r angen i liniaru risgiau.

Rydym wedi parhau i ddatblygu a chryfhau ein trefniadau rheoli risg, a hynny ar lefel strategol a gweithredol. Mae gwaith yn dal i gael ei wneud i wreiddio rheoli risg ar bob lefel yn y sefydliad, ac mae hynny'n cynnwys rhoi hyfforddiant parhaus i bob perchennog risg. Mae hyn wedi galluogi'r sefydliad i fesur ei berfformiad o dan y prif risgiau strategol, i greu ei broffil risg, ac i gynnal dadansoddiadau thematig drwy'r defnydd o'r Gofrestr Risgiau Strategol, y Gofrestr Risgiau Corfforaethol, a chofrestri risgiau lleol.

Fel rhan o'n hymateb i'r pandemig, rydym wedi datblygu fframwaith risgiau strategol ar gyfer COVID-19 ac wedi cynnal dadansoddiad PESTLE (Gwleidyddol, Economaidd, Cymdeithasegol, Technolegol, Cyfreithiol, Amgylcheddol) fel rhan o'n cyngor polisi i Lywodraeth Cymru. Rydym hefyd yn cydnabod bod risgiau sylweddol i iechyd a lles y cyhoedd a allai ddeillio o'r camau a gymerir i reoli lledaeniad COVID-19. Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru yn cynnal arolwg o'r boblogaeth ac Asesiadau o'r Effaith ar Iechyd, ac yn edrych ar wersi i'w dysgu o'r gymuned iechyd cyhoeddus yn rhyngwladol er mwyn deall risgiau o'r fath a rhoi sail dystiolaeth i fynd i'r afael â COVID-19 drwy Gymru mewn ffordd sy'n canolbwyntio ar iechyd y cyhoedd.

## Datblygu ein trefniadau rheoli perfformiad

Parhawyd i ddatblygu ein trefniadau rheoli perfformiad ac adrodd yn ystod 2019/20, fel ein bod mewn sefyllfa well i fonitro ein cynnydd o dan ein blaenoriaethau strategol a'n prif nodau llwyddiant. O ganlyniad i'n hymateb parhaus i COVID-19, rydym wedi addasu ein trefniadau perfformiad a sicrwydd i adlewyrchu blaenoriaethau'r sefydliad a'r prif feysydd a gaiff sylw yn ystod gweddill 2020/21. Mae hyn yn dangos ein perfformiad mewn sawl maes, gan gynnwys: cyflawni swyddogaethau statudol a darparu gwasanaethau hanfodol; ein hymateb parhaus i COVID-19; a helpu'r sefydliad i adfer.

Mae ein hymateb cychwynnol wedi dangos gwerth data cadarn o ansawdd da sy'n cael eu cyflwyno mewn ffyrdd hygyrch, hawdd eu deall. Mae nifer o ddatblygiadau ar y gweill a fydd yn sail i'n cynllun adfer yn y dyfodol, gan gynnwys: datblygu dangosyddion ansawdd/llwyddiant ar gyfer ein ffrydiau gwaith iechyd cyhoeddus yn y rhaglen sy'n ymateb i'r pandemig; parhau i wella ein hadroddiad integredig am berfformiad er mwyn rhoi sylw i COVID-19 a gwybodaeth sy'n bwysig i'r busnes; a dangosfwrdd perfformiad a sicrwydd i roi gwybodaeth amserol a chadarn i'n helpu i wneud penderfyniadau. Rhoddir sicrwydd i'r Bwrdd, ei Bwyllgorau a'r Tîm Gweithredol drwy nifer o ffynonellau, gan gynnwys adroddiadau perfformiad rheolaidd, adroddiadau penodol am wasanaethau/meysydd, a diweddariadau rheolaidd a gaiff eu creu fel rhan o'n hymateb.

## Sut y cyflawnwyd ein Hamcanion Llesiant

Pan gyflwynwyd Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 am y tro cyntaf, 'deddf iechyd y cyhoedd' oedd hon yn ein golwg ni, a'n bwriad oedd hyrwyddo'r ddeddfwriaeth. Crëwyd Hyb Iechyd a Chynaliadwyedd i helpu'r sefydliad yn fewnol ac yn allanol i wireddu'r uchelgais hon, a defnyddiwyd y Ddeddf i lywio datblygiad ein strategaeth hirdymor a'i saith o flaenoriaethau strategol/amcanion llesiant.

Yn ystod 2019/20, parhawyd i ddilyn rhaglen waith i wreiddio datblygu cynaliadwy ym mhopeth a wnawn, yn ogystal â chefnogi pobl eraill i wneud yr un fath. Mae ein gwaith yn dal i esblygu i wreiddio datblygu cynaliadwy yn rhan o'r ymateb i Covid-19, fel ein bod yn ystyried materion ehangach fel cynaliadwyedd amgylcheddol a goblygiadau gadael yr UE wrth ddilyn dull integredig o hyrwyddo a gwarchod llesiant. Yma, rydym yn disgrifio enghreifftiau o'r hyn rydym wedi'i wneud a sut rydym wedi gweithio i gyflawni ein huchelgais, sef sicrhau bod y Ddeddf yn rhywbeth byw yn ein gwaith o ddydd i ddydd, a hynny drwy bum ffrwd waith:

- **Arwain a rhoi gwybodaeth**
- **Cynyddu ein cyrhaeddiad a'n heffaith, a hynny drwy gydweithio**
- **Datblygu ac arloesi**
- **Monitro ac adrodd**
- **Gweithio gyda rhanddeiliaid allweddol yng Nghymru ac Ewrop**

### Arwain a rhoi gwybodaeth

#### Gwella ymwybyddiaeth a dealltwriaeth ymhlith y staff

Rydym wedi parhau i ymwneud â'r staff er mwyn gwella'u hymwybyddiaeth a'u dealltwriaeth o'r cyfleoedd a'r heriau sydd ynghlwm wrth roi'r Ddeddf ar waith, a hynny drwy weithio'n agos gyda'n timau corfforaethol; drwy gyflwyniadau yn ein digwyddiadau Croesawu, Ymgysylltu, Rhwydweithio, Datblygu; a thrwy gyfarfodydd tîm a gweithgorau drwy'r holl sefydliad.

Rydym yn gwerthfawrogi sesiynau ymgysylltu a chefnogi mwy anffurfiol, o dan arweiniad y staff, fel sesiynau cynnal a chadw Dr Bike gyda Hyfforddiant Beicio Cymru, a sesiynau i gyfnewid hen ddillad a thrugareddau am rai cydweithwyr. Mae sesiynau o'r fath wedi bod o fudd i'n staff ac wedi ein galluogi i gyfathrebu negeseuon pwysig am lesiant cenedlaethau heddiw a'r dyfodol.

#### Ein Cynllun Bioamrywiaeth

Ym mis Ebrill 2019, cyhoeddwyd ein cynllun bioamrywiaeth (Gwneud lle i natur) er mwyn cynnal a gwella bioamrywiaeth a hyrwyddo cadernid ecosystemau. Mae'r cynllun yn ofyniad statudol o dan Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016; gallwch ddarllen ein hadroddiad cynnydd cyntaf fan hyn.

#### Grŵp Hyrwyddwyr Caffael

Mae grŵp o hyrwyddwyr caffael Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi sicrhau bod cynaliadwyedd yn rhan hollbwysig o'i waith, ac mae'n defnyddio adnoddau Wrap Cymru yn sail i'r gwaith hwn. Ym mis Tachwedd 2019, cydlynodd y grŵp ymateb y sefydliad i adolygiad Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol o brosesau caffael cynaliadwy mewn cyrff cyhoeddus.

#### Yr Egwyddor Datblygu Cynaliadwy: Adolygiad o'r Llenyddiaeth

Ym mis Medi 2019, cyhoeddodd yr Hyb Iechyd a Chynaliadwyedd adolygiad o'r llenyddiaeth (a luniwyd gan Brifysgol Kingston, Llundain) ynghylch rhoi'r egwyddor datblygu cynaliadwy ar waith. Roedd yr adroddiad yn crynhoi'r dystiolaeth ac yn cyflwyno pum prif argymhelliad ynghylch sut i droi datblygu cynaliadwy yn gamau gweithredu i unigolion, timau, sefydliadau a systemau.

Rydym wedi bod yn rhannu'r gwersi hyn â'r holl gyrff cyhoeddus yng Nghymru, ac â sefydliadau'n fewnol, gan geisio troi'r pum ffordd gynaliadwy o weithio yn realiti; mae cyfres o ffeithluniau wedi'u creu i gyd-fynd â hyn. Ymhlith yr enghreifftiau cynnar o gyhoeddiadau sy'n cael sylw yn yr adolygiad o'r llenyddiaeth mae:

- Cylchlythyr Iechyd a Datblygu Cynaliadwy Sefydliad Iechyd y Byd (Ewrop)
- Cylchlythyr Rhwydwaith Rhanbarthau Iechyd Sefydliad Iechyd y Byd (Ewrop)

## Cynyddu ein cyrhaeddiad a'n heffaith, a hynny drwy gydweithio

### Rhwydwaith Newid yn yr Hinsawdd / Datgarboneiddio yn y GIG ehangach yng Nghymru

Rydym wedi bod yn cydweithio â chydweithwyr yn GIG Cymru a Llywodraeth Cymru i gynnull rhwydwaith o staff o'r holl sector cyhoeddus i fynd i'r afael â datgarboneiddio a newid yn yr hinsawdd. Nod y gwaith hwn yw sicrhau'r potensial mwyaf o gyflwyno newidiadau ar raddfa fawr drwy godi proffil y modd y mae'r sector iechyd yn ymateb i'r argyfwng newid hinsawdd, a rhannu'r cynnydd hwn â chydweithwyr.

### Cyfrannu at rwydweithiau 'cenedlaethau'r dyfodol' ehangach

Mae'r Hyb Iechyd a Chynaliadwyedd wedi bod yn rhan o nifer o rwydweithiau i ganfod cyfleoedd i gydweithio er mwyn sicrhau canlyniadau cyffredin, gan gynnwys Cydlynwyr Datblygu Cynaliadwy Cymru (SDCC+), Rhwydwaith Cyrff Cyhoeddus Cenedlaethol, Hub Cymru Africa, a Cynnal Cymru.

## Datblygu ac arloesi

I godi mwy o ymwybyddiaeth am y Ddeddf a dealltwriaeth ohoni, mae'r sefydliad wedi datblygu mwy o gynnyrch i helpu i wreiddio datblygu cynaliadwy yn ei waith. Mae'r rhain wedi'u datblygu ar y cyd, gyda'r nod o'u defnyddio drwy holl awdurdodau a chyrff cyhoeddus Cymru. Er enghraifft, datblygwyd e-ganllaw Ni yw'r Newid, 'Helpu natur i ffynnu', gyda Phartneriaeth Bioamrywiaeth Cymru ar gyfer staff dros 200 o awdurdodau cyhoeddus Cymru, i'w helpu i roi cynlluniau bioamrywiaeth eu sefydliadau ar waith (o dan Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016). Croesawodd aelodau Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru y cam hwn, gan ddweud y byddai o fudd i'r cyhoedd.

- Mae e-ganllawiau **'Ni yw'r Newid'** yn cyflwyno camau cynaliadwy i ysgogi a herio staff i sicrhau'r effeithiau cadarnhaol gorau posibl o dan y chwe nod llesiant. Mae chwech o adnoddau wedi'u datblygu sy'n rhoi sylw i themâu o dan bedair colofn datblygu cynaliadwy, sy'n cynnwys materion o bwys yng Nghymru ac yn fyd-eang.
- Nod yr adnodd **'SIFT'** yw ysgogi a herio timau i roi arferion datblygu cynaliadwy ar waith. Rydym wedi datblygu SIFT ymhellach ar ôl cael adborth gan randdeiliaid, gan gynnwys llywodraeth leol, y GIG a Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol, gan gynnwys ffeithlun ynghylch sut i gyflwyno gweithdy SIFT.
- Rydym wedi gweithio gyda'r Fforwm Dyfodol Rhyngwladol i greu cyfres o *'gardiau procio'* ym maes cenedlaethau'r dyfodol (wedi'u seilio ar ymchwil a phrofiad ymarferol), a'u nod yw ysbrydoli timau i edrych ar ddarlun eang ein hamgylchiadau ac ar y tymor hir, gan gynnwys wrth ddefnyddio'r adnodd SIFT. I gyd-fynd â'r cardiau hyn ceir fideos a thaflenni gwybodaeth sy'n annog defnyddwyr i roi cynnig ar wahanol ffyrdd o weithio gyda'r adnodd.
- Rydym wedi creu fideo ynghylch gwreiddio'r dull datblygu cynaliadwy yng ngwaith Cymru (ac yng ngwaith Iechyd Cyhoeddus Cymru) er mwyn rhoi gwybodaeth i gynulleidfaoedd yng Nghymru ac yn rhyngwladol. Ymhlith y cynnwys mae nodau llesiant Cymru a'r pum ffordd o weithio (yr egwyddor datblygu cynaliadwy)

Mae rhagor o wybodaeth am yr adnoddau ar gael fan hyn.

### Cefnogi 'gweithio a meddwl hirdymor'

Ar ôl llwyddiant ein cynhadledd genedlaethol 'Ffurfio ein Dyfodol yng Nghymru' ym mis Mawrth 2019, buom yn gweithio gyda Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol i ddatblygu pecyn cymorth Tri Gorwel. Pecyn yw hwn sy'n helpu cyrff cyhoeddus i feddwl a chynllunio'n well at y tymor hir drwy ddilyn gweledigaeth glir a rhoi ystyriaeth i dueddiadau'r dyfodol. Gan weithio gyda'r canllaw rhwydd hwn, buom hefyd yn cefnogi cyfres o weithdai a sesiynau hyfforddi allanol i roi sail i adroddiad 'Cenedlaethau'r Dyfodol 2020' y Comisiynydd. Gallwch ddarllen mwy a gweld y pecyn cymorth fan hyn.

### Cyfrannu at dreftadaeth iach

Gan gydweithio ag Arts Wales, cyflwynwyd pum sioe deithiol drwy Gymru er mwyn rhoi llwyfan i waith sefydliadau celfyddydol a diwylliannol ym maes iechyd, a'r cysylltiadau rhwng hynny ag iechyd a lles meddyliol a chorfforol. Mae'r adroddiad ac astudiaethau achos gan Rwydwaith Iechyd Cyhoeddus Cymru i'w gweld fan hyn. Cafodd y dull o weithio sylw hefyd yng nghyfnodolyn Swyddfa Ranbarthol Ewrop Sefydliad Iechyd y Byd, 'Public Health Panorama', a hynny mewn rhifyn arbennig ar y celfyddydau ac iechyd. Mae hwn i'w weld fan hyn.

### Cefnogi'r 'Siarter Teithio Iach'

Ym mis Ebrill 2019, llofnododd Iechyd Cyhoeddus Cymru Siarter Teithio Iach Caerdydd, sef siarter newydd i gefnogi ac annog ein staff ac ymwelwyr i deithio mewn ffyrdd cynaliadwy wrth fynd a dod o'n safleoedd. Drwy ein Hyb Iechyd a Chynaliadwyedd, rydym wedi bod yn helpu sefydliadau eraill i hyrwyddo eu Siarter yn eu gweithleoedd hwy drwy amryw o adnoddau cyfathrebu.

## Monitro ac adrodd

### Gweithio gyda Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol

Ym mis Mai 2019, croesawodd aelodau'r Bwrdd Sophie Howe, Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol, i'w cyfarfod. Rhoddodd adborth ar ymarfer hunanfyfyrio'r sefydliad, a edrychai ar sut yr oeddem wedi cyflawni ein hamcanion llesiant yn 2017-18.

Rhoddodd y Comisiynydd ganmoliaeth i'r modd yr oedd Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi gwneud y gwaith hunanfyfyrio hwn, gan gydnabod bod gan Iechyd Cyhoeddus Cymru rôl arweiniol yn y system.

Ym mis Rhagfyr 2019, rhannodd y Comisiynydd ganfyddiadau'r ymarfer hunanfyfyrio hwn â chyrff cyhoeddus, a'u cyflwyno mewn gweithdai i gyrff cyhoeddus a drefnwyd gan Swyddfa Archwilio Cymru (gweler isod). Cyfeiriwyd at Iechyd Cyhoeddus Cymru yn yr adroddiad:

1. Rhoddwyd cydnabyddiaeth gadarnhaol i waith y sefydliad ar ei ddiwylliant, ei brosesau cyflawni a'i brosesau gwneud penderfyniadau wrth roi'r Ddeddf ar waith
2. Tynnwyd sylw at brosiect economi gylchol 'Ein Gofod', yn enwedig gan ei fod wedi'i arwain gan dîm corfforaethol
3. Cafodd y sefydliad gydnabyddiaeth am helpu i ddylunio methodoleg gwaith monitro ac asesu'r Comisiynydd.

Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru hefyd wedi'i gynrychioli ar Fwrdd 'Academi Arweinyddiaeth Cenedlaethau'r Dyfodol' y Comisiynydd, sy'n cefnogi pobl ifanc rhwng 18 a 30 oed. Mae un o'n Llysgenhadon Ifanc yn aelod o'r Academi.

### Gweithio gydag Archwilydd Cyffredinol Cymru

Yng ngwanwyn 2019, cymerodd Iechyd Cyhoeddus Cymru ran yng ngwaith Swyddfa Archwilio Cymru i asesu i ba raddau yr oedd cyrff cyhoeddus yn gweithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy. Edrychodd Swyddfa Archwilio Cymru ar sut yr oedd Iechyd Cyhoeddus Cymru yn datblygu ei strategaeth hirdymor; dilynwyd hyn gan weithdy lle datblygwyd camau gwella. Casgliad Swyddfa Archwilio Cymru oedd bod Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi gwneud cynnydd da wrth ddilyn yr egwyddor datblygu cynaliadwy a'r pum ffordd o weithio, er ei fod yn cydnabod bod mwy o waith o hyd i'w wneud.

## Gweithio gyda rhanddeiliaid o bwys yng Nghymru ac Ewrop

### Rhaglen Gweithredu ar y Cyd ar Degwch Iechyd Ewrop 2018-21

Rydym wedi bod yn cymryd rhan yn y pecyn gwaith Iechyd ym Mhob Polisi fel rhan o Raglen Gweithredu ar y Cyd ar Degwch Iechyd Ewrop. Fel rhan o hyn, cyflwynwyd canfyddiadau yr adolygiad o'r llenyddiaeth ar wreiddio'r egwyddor datblygu cynaliadwy, ynghyd â'r cynnyrch a ddefnyddiwn i hwyluso datblygu cynaliadwy. Cafodd yr adnoddau hyn gryn groeso, gyda chynrychiolwyr o sawl gwlad yn gwirfoddoli i brofi'r adnoddau yng nghyd-destun eu gwledydd hwy.

### Gweithio gyda Llywodraeth Cymru

Yn haf 2019, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru yr adroddiad atodol i adolygiad cenedlaethol gwirfoddol y Deyrnas Unedig o'i chynnydd tuag at gyflawni nodau datblygu cynaliadwy 2030. Roedd yr adroddiad yn rhoi sylw i waith Iechyd Cyhoeddus Cymru ym maes ansawdd aer, gweithgarwch corfforol a'r celfyddydau ac iechyd, a rhoddwyd sylw i ddau o adnoddau'r Hyb Iechyd a Chynaliadwyedd wrth roi cipolwg ar weithgarwch (Ni yw'r Newid a'r adnodd SIFT). Nod hyn oedd helpu'r sefydliad a gwasanaethau cyhoeddus eraill yng Nghymru gyda'u nodau llesiant a'u ffyrdd o weithio. Mae modd darllen yr adroddiad fan hyn.

# Ein Hadroddiad Cynaliadwyedd

## 1 Cyflwyniad

Mae'r Adroddiad Cynaliadwyedd blynyddol yn rhoi crynodeb o'n perfformiad yn ystod 2019/20, gan gynnwys gwybodaeth am ein prif gyflawniadau. Mae hyn yn adlewyrchu ein hymrwymiad parhaus i wreiddio datblygu cynaliadwy yn ein gwaith, ac i wella perfformiad go iawn yn y maes hwn.

## 2 Cyd-destun polisi

Rydym wedi llunio'r adroddiad hwn ar gyfer 2019/20 i gydymffurfio â gofynion y sector gyhoeddus a geir yn Llawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth. Mae hyn yn ei gwneud yn ofynnol i endidau sy'n dod dan gwmpas adrodd ymrwymiadau Materion Gwyrdd y Llywodraeth ac nad ydynt wedi'u heithrio gan gyfyngiad de-minimis nac eithriad arall o dan Faterion Gwyrdd y Llywodraeth (neu bolisïau olynol eraill) lunio adroddiad cynaliadwyedd i'w gynnwys yn sylwadau'r rheolwyr, a hynny'n unol â chanllawiau Adrodd ar Gynaliadwyedd yn y Sector Cyhoeddus a gyhoeddwyd gan Drysorlys EM.

## 3 Cefndir a phroffil

Sefydlwyd Iechyd Cyhoeddus Cymru yn un o ymddiriedolaethau'r GIG ar 1 Hydref 2009, fel un o gyrff annibynnol y GIG gyda ffocws iechyd clir a phenodol, a chylch gwaith i weithredu ar draws pob maes sy'n ymwneud ag iechyd y cyhoedd.

Rydym yn ddarparwr gwasanaeth pwysig gyda chyrhaeddiad drwy Gymru gyfan. Yn ystod 2019/20, ein cyllideb flynyddol oedd £153 miliwn ac rydym yn gyflogwr o bwys yn y sector cyhoeddus, gyda 1802 o weithwyr cyfwerth ag amser cyflawn.

Mae ein hystad wedi'i lleoli ar draws Cymru, ac ar hyn o bryd mae gennym 64 eiddo:

- 22 eiddo yn y de-ddwyrain
- 23 safle yn y canolbarth a'r gorllewin
- 19 safle yn y gogledd

Defnyddir y safleoedd hyn fel a ganlyn:

- 26 Canolfan Sgrinio
- 8 Labordy
- 27 Swyddfa
- 1 Cyfleuster Storio Cofnodion
- 2 Garej

Mae'r portffolio presennol yn cynnwys eiddo sydd dan berchnogaeth (1), dan brydles (18) neu'n cael eu darparu gan sefydliadau eraill y GIG neu eu rhannu â hwy (45). Mae hyn yn creu her o ran cyflwyno adroddiadau cywir ac wrth geisio cael data am gynaliadwyedd. O ganlyniad i'r strwythur presennol, dim ond mewn 24 o eiddo y mae gwybodaeth ariannol ac anariannol ar gael. Yn achos y 45 eiddo sy'n cael eu darparu gan sefydliadau eraill y GIG/eu rhannu â hwy, y sefydliad hwnnw sy'n adrodd am gyfleustodau a gwastraff, ac felly nid yw'r wybodaeth honno wedi'i chofnodi yn yr adroddiad hwn.

Mae'r trefniadau llywodraethu ar gyfer rheoli amgylcheddol wedi'u seilio ar y canlynol:

- Caiff data am berfformiad ynni, gwastraff a dŵr eu casglu gan y Swyddog Cydymffurfio a'u hadrodd drwy'r system rheoli cyfleusterau.
- Mae'r Swyddog Cydymffurfio yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf yn rheolaidd i'r Pennaeth Ystadau ac Iechyd a Diogelwch am reoli'r amgylchedd a chynaliadwyedd, ac mae'n rheoli'r meysydd hyn o ddydd i ddydd.
- Mae'r grŵp cynaliadwyedd amgylcheddol yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Uwch Dîm Arwain am ei Gynllun Gweithredu Cynaliadwyedd Amgylcheddol er mwyn gwreiddio cynaliadwyedd amgylcheddol yn holl waith y sefydliad.
- Y Dirprwy Brif Weithredwr/Cyfarwyddwr Gweithrediadau a Chyllid yw'r arweinydd ar gyfer holl faterion rheoli'r amgylchedd yn Iechyd Cyhoeddus Cymru. Cyflwynir y wybodaeth a'r materion diweddaraf i'r Bwrdd a'r Tîm Gweithredol drwy adroddiad chwarterol.

# 4 Crynodeb o'n perfformiad

## 4.1 Y Grŵp Cynaliadwyedd Amgylcheddol

Yn ystod 2019/20, mae'r Grŵp Cynaliadwyedd Amgylcheddol wedi dechrau rhoi gweledigaeth y sefydliad ar waith er mwyn dod yn sefydliad lle mae 'cynaliadwyedd amgylcheddol wedi'i wreiddio'n wirioneddol drwy wybodaeth, cydweithio, ymgysylltu ac arloesi'.

Bydd hyn yn cael ei gyflawni drwy gynlluniau gweithredu a ddatblygwyd yn 2018 gan bum ffrwd waith y Grŵp Cynaliadwyedd Amgylcheddol.

### 4.1.1 Adeiladau, ynni a gwastraff

Dangosodd ein Hadroddiad Cynaliadwyedd Blynyddol ar gyfer 2018/19 mai un o'r pethau sy'n cyfrannu fwyaf at ein hôl-troed carbon yw teithio busnes; roedd yn gyfrifol am 30 y cant o'r allyriadau carbon a gynhyrchid gan y sefydliad ar y pryd. Dyma gyfran sylweddol o'n hôl-troed carbon, ac mae'r ffrwd waith adeiladau, ynni a gwastraff wedi bod yn chwilio am ffyrdd i leihau'r allyriadau hyn drwy ddulliau trafnidiaeth gwahanol.

Ym mis Hydref 2019, dechreuodd treial tri mis yn defnyddio tri cherbyd trydan gwahanol (BMW i3, Nissan Leaf a Renault Zoe), gyda'r nod o'n helpu i benderfynu pa mor hyfyw fyddai darparu ceir i'w rhannu, yn ogystal â pha mor hyfyw fyddai darparu cerbydau trydan ar gyfer y teithiau a wneir gan staff Iechyd Cyhoeddus Cymru. Cafodd y sefydliad gefnogaeth wych gan y staff, gyda'r tri cherbyd yn cael eu defnyddio bob dydd dros gyfnod y treial. Gofynnwyd i'r staff gwblhau ffurflenni adrodd, ac roedd yr ymateb cyffredinol yn gadarnhaol iawn. Dangosodd yr ymateb fod cerbydau trydan yn opsiwn hyfyw i'r sefydliad cyn belled â bod y seilwaith ar gael i gefnogi hynny, fel mannau gwefru cerbydau a mannau parcio wedi'u neilltuo i'r cerbydau ym mhen y daith. Bu oedi oherwydd COVID-19 cyn gwneud rhagor o waith ar y prosiect hwn, ond byddwn yn ceisio cydweithio â Gwasanaeth Ynni Llywodraeth Cymru i sicrhau bod cynllun yn cael ei greu i gyflwyno cerbydau trydan i'n fflyd.

Ar ôl yr adolygiad a gynhaliwyd yn 2019 i ganfod lleoliadau lle gellid disodli'r goleuadau presennol â goleuadau LED, cynhaliodd Iechyd Cyhoeddus Cymru broses gaffael ym mis Chwefror 2020 i ddyfarnu contract ar gyfer cyflenwi a gosod goleuadau LED mewn pedwar lleoliad, gyda'r potensial i arwain at ostyngiad o 22 tunnell y flwyddyn yn allyriadau carbon y sefydliad. Dyfarnwyd y contract ac roedd y gwaith i fod i ddechrau ddiwedd mis Mawrth 2020, ond oherwydd COVID-19, bu oedi.

### 4.1.2 Teithio gwyrdd

Ym mis Ebrill 2019, llofnodwyd Siarter Teithio Iach Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Caerdydd. Drwy wneud hyn, roeddem yn ymrwymo i weithio gydag 14 o sefydliadau eraill y sector cyhoeddus yng Nghaerdydd i leihau teithio dianghenraid drwy fuddsoddi mewn seilwaith telegyfathrebu a Skype, yn ogystal â hyrwyddo teithio iach.

Yn ystod mis Mehefin 2019, cynhaliodd y Grŵp Teithio Gwyrdd dreial tri mis, lle'r oedd beic ar gael i'r staff ei rannu ac i'w ddefnyddio i deithio i gyfarfodydd yn ystod oriau gwaith. Byddai hyn yn galluogi'r staff i gyrraedd apwyntiadau'n haws, i gadw'n iach, i leihau llygredd aer, ac i arbed arian i'r GIG a fyddai wedi'i wario ar gostau parcio neu dacsis. Roedd y treial yn llwyddiant, ac mae'r beic bellach ar gael i'r holl staff sy'n gweithio yn Rhif 2 Capital Quarter. Yn sgil llwyddiant y cynllun hwn, bydd y Grŵp Teithio Gwyrdd yn ceisio cyflwyno'r cynllun hwn yn ein lleoliadau eraill yng Nghymru.

Ym mis Gorffennaf 2019, cryfhawyd ein polisi gweithio hyblyg i gydnabod y cysylltiad rhwng gweithio hyblyg a theithio llesol. Mae'r polisi hwn yn galluogi gweithwyr i gyflwyno cais i weithio'n hyblyg er mwyn teithio i'r gwaith ar adegau sy'n cyd-fynd ag amserlenni trafnidiaeth gyhoeddus. Mae hefyd yn rhoi digon o amser i bobl gerdded a seiclo, yn ogystal â gweithio gartref. Byddai trefnu i aelod o staff amser llawn weithio gartref un diwrnod yr wythnos yn arwain at ostyngiad o 20 y cant yn ei ôl-troed carbon, drwy beidio â gorfod teithio i'r gwaith ac yn ôl. Disgwylir y bydd COVID-19 yn effeithio ymhellach ar hyn, ac yn arwain at sefyllfa lle bydd mwy o staff yn gweithio o bell. Gobeithiwn y bydd y ffyrdd newydd hyn o weithio, gan ddefnyddio technoleg newydd a'r gallu i gynnal cyfarfodydd rhithiol, yn hwb i'r newid hwn mewn patrymau gweithio, ac yn cyfrannu ymhellach at leihau ôl-troed carbon sefydliadau.

### 4.1.3 Arweinyddiaeth, ymgysylltu a dysgu

Drwy waith yr Hyb Iechyd a Chynaliadwyedd, mae'r ffrwd waith Arweinyddiaeth, Ymgysylltu a Dysgu yn arwain at gyflwyno newid ymddygiadol yn y sefydliad drwy ddatblygu adnoddau Ni yw'r Newid.

Mae'r adnoddau hyn wedi'u rhannu â thimau drwy'r sefydliad, gan gynnwys timau iechyd cyhoeddus lleol, gyda'r nod o leihau ein heffaith ar yr amgylchedd a lleihau allyriadau carbon. Mae e-ganllawiau ac e-bosteri Ni yw'r Newid yn awgrymu camau cynaliadwy y gellid eu cymryd i herio staff i leihau eu heffeithiau negyddol a chynyddu eu heffeithiau cadarnhaol cymaint ag y bo modd, a hynny o dan bob un o'r nodau llesiant. Ceir cysylltiad rhwng hynny a'r gwasanaethau a'r polisïau sydd gan y sefydliad i gefnogi'r gwaith hwn.

### 4.1.4 Monitro a gwerthuso

Mae'r ffrwd waith Monitro a Gwerthuso yn gweithio i gasglu gwybodaeth am y dangosyddion cynaliadwyedd y gellir eu mesur ar lefel sefydliadol. I ddechrau, bwriedir edrych ar ddangosyddion allyriadau carbon fel y defnydd o ynni a dŵr, maint gwastraff a'r modd y caiff ei ddidoli, a milltiroedd busnes. Ar ôl ymchwilio i bob un o'r ffactorau hyn, bwriad y grŵp yw sefydlu ffigur sylfaen ar gyfer pob dangosydd a bwrw ymlaen i fonitro'r newid ac effaith cynlluniau dros gyfnod o amser.

### 4.1.5 Lleihau plastigion

Ym mis Tachwedd 2019, gwnaethom ymrwymiad i fod yn sefydliad diblastig erbyn 2023, blwyddyn yn gynt na'r targed a osodwyd gan Lywodraeth Cymru. Mae'r Tîm Gweithredol wedi cytuno i'r canlynol erbyn 2020:

- Peidio â phrynu deunydd ysgrifennu sydd â llawer o gynnwys plastig
- Lleihau nifer y lleoliadau sydd â chyfarpar oeri dŵr 100%
- Gweithio gydag arlwywyr allanol i sicrhau mai dim ond plastig y gellir ei ailddefnyddio sy'n cael ei ddefnyddio wrth drefnu arlwyo
- Gweithio gyda thîm caffael Cydwasanaethau GIG Cymru i leihau'r cynnwys plastig mewn nwyddau a gwasanaethau
- Defnyddio weipiau diblastig yn lle'r holl weipiau gwrthfacterol pan fydd hynny'n bosibl
- Peidio â chaffael eitemau hyrwyddo sydd â llawer o gynnwys plastig

Cytunwyd y byddai angen inni leihau nifer y ciniawau bys a bawd sy'n cael eu darparu drwy'r sefydliad. Er mwyn eu helpu i wneud gwell penderfyniadau, mae canllawiau wedi'u rhoi i staff sy'n trefnu arlwyo fel y gallant ystyried pryd i ddarparu arlwyo, ynghyd ag ystyried yr effaith amgylcheddol wrth archebu.

### 4.1.6 Edrych ymlaen

Yn y dyfodol, bydd y Grŵp Cynaliadwyedd Amgylcheddol yn parhau â'r cynnydd sy'n cael ei wneud ym mhob ffrwd waith, ac yn gweithio tuag at gyflawni ei amcanion yn y tymor byr, y tymor canolig, a'r tymor hir.

Erbyn 2024, byddwn yn gwneud y canlynol:

- Cyflawni ein haddewid i fod yn sefydliad diblastig
- Cynyddu nifer y cerbydau plygio i mewn, hybrid, neu gwbl drydan sydd gan y sefydliad
- Cynyddu cyfran y staff sy'n seiclo i'r gwaith, o'r gwaith, ac yn y gwaith bob wythnos
- Lleihau cyfran y teithiau a wneir mewn ceir yn cymudo i'r gwaith ac o'r gwaith
- Cyflwyno cam gweithredu amgylcheddol yn y broses 'Fy nghyfraniad i'
- Lansio modiwl hyfforddiant ar gynaliadwyedd amgylcheddol
- Cyflawni achrediad ISO14001 ac ISO5001
- Lleihau costau argraffu'r sefydliad
- Cyflwyno egwyddorion hierarchaidd 'lleihau, ailddefnyddio ac ailgylchu' wrth gaffael a defnyddio deunyddiau drwy'r sefydliad
- Cynnwys gwybodaeth am gynaliadwyedd amgylcheddol yn ein proses recriwtio, gan gynnwys ein proses gynefino

Erbyn 2030, byddwn yn gwneud y canlynol:

- Creu dangosfwrdd ar gyfer y Grŵp Cynaliadwyedd Amgylcheddol i ddangos data amgylcheddol, a hwnnw ar gael i'r holl staff
- Bod yn sefydliad diblastig o ran deunyddiau nad ydynt hanfodol
- Bod yn garbon niwtral mewn termau net
- Defnyddio cerbydau nwyddau trwm allyriadau isel iawn, pan fydd galw
- Cynhyrchu dim gwastraff i'w dirlenwi

## 4.2 Archwilio mewnol

Ym mis Mai 2019, cynhaliodd y tîm Archwilio Mewnol adolygiad o'r Adroddiad Cynaliadwyedd ar sail yr adroddiad a grëwyd ar gyfer 2018/19. Nod yr archwiliad oedd gwerthuso a phenderfynu pa mor ddigonol oedd y trefniadau rheoli wrth greu Adroddiad Cynaliadwyedd 2018/19 fel rhan o'r Cyfrifon a'r Adroddiad Blynyddol, er mwyn rhoi sicrwydd i Bwyllgor Archwilio'r sefydliad bod risgiau sy'n berthnasol i gyflawni amcanion y system yn cael eu rheoli'n iawn.

Rhoddwyd sicrwydd sylweddol ynghylch effeithiolrwydd y system reoli fewnol sy'n rheoli'r risg yn gysylltiedig â chreu'r Adroddiad Cynaliadwyedd. Gwnaed un argymhelliad yn yr adroddiad, sydd i'w weld yn Nhabl 1, ynghyd â manylion y cynnydd sydd wedi'i wneud:

**Tabl 1: Argymhelliad archwilio mewnol**

| Argymhelliad | Y camau a gymerwyd |
|---|---|
| Dylai'r rheolwyr sicrhau bod y broses sicrhau ansawdd yn cael ei dilyn mewn ffordd gyson. | Yn y gorffennol, byddai'r gwaith i sicrhau ansawdd y data yn cael ei wneud ar ddiwedd y flwyddyn ar ôl casglu'r wybodaeth. Er mwyn lleihau'r potensial o wallau yn y dyfodol, bydd y Swyddog Cydymffurfio yn cynnal gwiriadau sicrhau ansawdd bob chwarter ar yr holl ddata sydd wedi'u casglu hyd at y pwynt hwnnw. Bydd hyn yn sicrhau bod nifer o gyfleoedd i ganfod unrhyw wallau wrth gasglu'r data. |

## 5 Allyriadau nwyon tŷ gwydr

Mae'r tabl canlynol yn dangos perfformiad y sefydliad o ran allyriadau, defnyddio ynni, a dangosyddion ariannol ar gyfer ynni a theithio busnes yn 2019/20:

**Tabl 2: allyriadau nwyon tŷ gwydr**

| Allyriadau nwyon tŷ gwydr | | 2017-18 | Newid canrannol | 2018-19 | Newid canrannol | 2019-20 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Dangosyddion Anariannol (1000 Tunnell CO2e) | Cyfanswm Allyriadau Gros | 2.424 | -56.22% | 1.061 | 4.62% | 1.11 |
| | Allyriadau Gros Cwmpas 1 (uniongyrchol) | 1.218 | -69.63% | 0.370 | -11.54% | 0.327 |
| | Allyriadau Gros Cwmpas 2 a 3 (anuniongyrchol) | 1.206 | -42.67% | 0.691 | 13.27% | 0.783 |
| Defnydd Ynni Cysylltiedig (KWh) | Trydan: Na ellir ei adnewyddu | 1,426,314 | -70.75% | 417,201 | 0.18% | 417,951 |
| | Trydan: Adnewyddadwy | 0 | N/A | 793,931 | -5.73% | 748,425 |
| | Nwy | 711,235 | -36.47% | 451,880 | 0.77% | 455,379 |
| Dangosyddion Ariannol (£) | Gwariant ar Ynni | 234,767 | -0.54% | 233,495 | -3.39% | 225,585 |
| | Gwariant ar deithio busnes swyddogol | 554,525 | -4.47% | 529,737 | 48.9% | 783,478 |

## 5.1 Perfformiad

### 5.1.1 Allyriadau nwyon tŷ gwydr

Yn 2019/20, bu cynnydd yng nghyfanswm yr allyriadau gros o'i gymharu â 2018/19, gyda chynnydd o 4.62 y cant ar ffigurau'r llynedd, fel y gwelir yn nhabl 2. Mae hyn yn llwyr oherwydd y cynnydd mewn allyriadau Cwmpas 3 a welwyd eleni, a rhoddir mwy o fanylion am hyn isod. Rydym wedi ymrwymo i leihau allyriadau nwyon tŷ gwydr 3 y cant bob blwyddyn, yn unol â Strategaeth Newid yn yr Hinsawdd Llywodraeth Cymru.

O dan Gwmpas 1, bu gostyngiad o 11.54 y cant yn allyriadau'r sefydliad o'i gymharu â 2018/19. Mae hyn yn bennaf yn sgil gostyngiad sylweddol yn yr allyriadau a gynhyrchwyd gan fflyd gerbydau'r sefydliad (30.72 y cant yn achos cerbydau teithwyr ac 17.79 yn achos cerbydau nwyddau trwm). Cerbydau yw'r rhain a ddefnyddir ar gyfer ein gwasanaethau Sgrinio Llygaid Diabetig ac Ymlediadau Aortig Abdomenol. O dan Gwmpas 1 y daw ail gyfrannwr mwyaf y sefydliad at allyriadau. Defnyddir tanwydd, a diesel coch yn benodol, i bweru'r unedau symudol a ddefnyddir i sgrinio'r fron. Mae hyn ynddo'i hun yn gyfrifol am 13 y cant o gyfanswm yr allyriadau a gynhyrchir gan y sefydliad. Mae'r sefydliad ar hyn o bryd yn edrych ar y posibilrwydd o ddefnyddio dulliau gwahanol o bweru cerbydau, fel generaduron solar i'n hunedau sgrinio symudol ynghyd ag adnewyddu ein fflyd drwy gyflwyno cerbydau trydan.

O dan Gwmpas 2, sef trydan a gaiff ei gynhyrchu ar gyfer ein heiddo, bu gostyngiad o 9.54 yn allyriadau'r sefydliad o'i gymharu â 2018/19. Ar hyn o bryd, dim ond pum eiddo sydd gennym drwy'r ystad lle nad oes cyflenwad o ffynonellau adnewyddadwy. Mae allyriadau'r pum lleoliad hwn yn gyfrifol am 9.62 o gyfanswm allyriadau'r ystad.

O dan Gwmpas 3, bu cynnydd o 17.97 yn allyriadau'r sefydliad o'i gymharu â 2018/19. Mae hyn yn bennaf oherwydd cynnydd sylweddol (38.93 y cant) yn yr allyriadau a gynhyrchwyd drwy deithio busnes yn y sefydliad. Teithio busnes sy'n gyfrifol am 85.21 y cant o'r allyriadau a gynhyrchwyd o dan Gwmpas 3, a dyma'r elfen unigol fwyaf sy'n cyfrannu at allyriadau drwy'r sefydliad. Fodd bynnag, oherwydd y bu oedi wrth adrodd yn ystod 2019/20, dylid cydnabod bod y sefydliad wedi gallu casglu mwy o ddata o hawliadau a wnaed gan staff yn ystod chwarter olaf y flwyddyn, o'i gymharu â 2018/19. Bydd hyn yn gyfrifol am rywfaint o'r cynnydd yn yr allyriadau a gofnodwyd. Mae'r sefydliad hefyd yn creu allyriadau drwy logi bysiau i gludo disgyblion i gymryd rhan yn y rhaglen atal smygu a ddarperir mewn ysgolion drwy Gymru, ac nid oedd gwybodaeth am yr allyriadau hyn ar gael ar gyfer adroddiadau blaenorol.

Rydym hefyd wedi cofnodi gostyngiad o 86.77 y cant yn yr allyriadau gwaredu gwastraff. Mae hyn yn bennaf yn sgil gwelliannau wrth amcangyfrif pwysau'r gwastraff y mae'r sefydliad yn ei gynhyrchu, ac mae Adran 6 ar reoli gwastraff yn rhoi mwy o fanylion am hyn. Rydym hefyd yn dargyfeirio mwy o'n gwastraff o safleoedd tirlenwi; anfonwyd mwy o wastraff i ganolfannau ailgylchu ac i adfer ynni drwy losgi gwastraff yn ystod 2018/19. Gan fod y dulliau hyn o waredu gwastraff yn creu llai o allyriadau, rydym wedi gweld gwelliannau sylweddol yn y maes hwn.

Rydym wedi gweld gostyngiad yn yr allyriadau o'r cyflenwad dŵr (17.58 y cant) ac o wastraff dŵr (17.49 y cant) yn ystod 2019/20, sydd hefyd yn helpu i wrthbwyso'r cynnydd mewn allyriadau o deithio busnes.

Mae'r llinell sylfaen ar gyfer yr allyriadau carbon a gaiff eu cynhyrchu gan y sefydliad wedi'i hailosod i lefel 2017/18. Mae hyn oherwydd y gwelliannau yn y data sydd ar gael ac sy'n cael eu cofnodi, o'u cymharu â'r data a oedd ar gael yn ystod 2016/17. Mae hyn wedi gwella'n gallu i gymharu'r data sydd ar gael i'r sefydliad. Mae hyn hefyd yn ein galluogi i gymharu ein cyflawniadau ochr yn ochr â tharged Llywodraeth Cymru, sef sicrhau gostyngiad o 40 y cant mewn allyriadau nwyon tŷ gwydr erbyn 2020 fel rhan o'r Strategaeth Newid yn yr Hinsawdd. Bydd hyn yn rhoi gwir adlewyrchiad inni o'n perfformiad o'i gymharu â'n llinell sylfaen. Cynrychiolir hyn yn y tabl isod.

**Tabl 3: Canlyniadau sy'n cymharu'n uniongyrchol â'r llinell sylfaen**

Canlyniadau sy'n cymharu'n uniongyrchol â'r llinell sylfaen

| Allyriadau | Cyfanswm 2017-18 | Cyfanswm 2019-20 | Canran y newid o gymharu â'r llinell sylfaen | Canran y newid o gymharu â'r llinell sylfaen |
|---|---|---|---|---|
| S1 – Tanwydd | 313026.10 | 227906.94 | -27.19% | -73.13% |
| S1 – Oeri ac allyriadau eraill | 777007.44 | 7308.00 | -99.06% | |
| S1 – Cerbydau Teithwyr | 112783.12 | 77770.47 | -31.04% | |
| S1 – Cerbydau Dosbarthu | 15488.15 | 14336.54 | -7.44% | |
| S2 – Trydan | 501435.12 | 106828.25 | -78.70% | -78.70% |
| S3 – Tanwydd Ffynnon i'r Tanc | 58661.99 | 43953.63 | -25.07% | -4.00% |
| S3 – Tanwydd Trosglwyddo a Dosbarthu | 46882.96 | 25310.37 | -46.01% | |
| S3 – Trydan y DU a Thramor Ffynnon i'r Tanc | 87418.82 | 18434.07 | -78.91% | |
| S3 – Cyflenwad Dŵr | 1335.41 | 2223.69 | 66.52% | |
| S3 – Trin Dŵr | 2618.15 | 4357.49 | 66.43% | |
| S3 – Gwaredu Gwastraff | 48512.72 | 5699.57 | -88.25% | |
| S3 – Teithio Busnes ar y Tir | 351706.29 | 441834.21 | 25.63% | |
| S3 – Cerbydau Teithwyr a Theithio Busnes ar y Tir Ffynnon i'r Tanc | 103434.38 | 130882.29 | 26.54% | |
| S3 – Cerbydau dosbarthu a Chludo Nwyddau Ffynnon i'r Tanc | 3721.24 | 3445.34 | -7.41% | |
| **CYFANSWM YR ALLYRIADAU** | **2424031.89** | **1110290.85** | **-54.20%** | **-54.20%** |

Cyfrifwyd yr allyriadau gros drwy ddefnyddio'r canllawiau ar gyfer mesur ac adrodd am allyriadau nwyon tŷ gwydr ac Adroddiad Ffactorau Trosi Nwyon Tŷ Gwydr Llywodraeth y DU ar gyfer Cwmnïau. Fel y gwelir uchod, o'i gymharu â'n llinell sylfaen newydd yn 2017/18, rydym wedi llwyddo i leihau cyfanswm yr allyriadau 54.2 y cant. O ganlyniad, rydym wedi rhagori ar ein targed, sef leihau allyriadau carbon 40 y cant erbyn 2020, yn unol â Strategaeth Newid yn yr Hinsawdd Llywodraeth Cymru.

Er ein bod wedi cyflawni ein targed, sef sicrhau gostyngiad o 40 y cant, mae Iechyd Cyhoeddus Cymru yn cydnabod bod llawer mwy o waith i'w wneud a gwelliannau i'w cyflwyno o hyd. Ein nod yw gwella ymhellach y modd rydym yn casglu gwybodaeth am allyriadau Cwmpas 3 ar gyfer adroddiadau yn y dyfodol, yn ogystal â sicrhau bod cynaliadwyedd yn parhau i gael ei wreiddio yn niwylliant y sefydliad, er mwyn helpu i leihau'r allyriadau a gynhyrchir gan ein gwaith ymhellach.

### 5.1.2 Defnyddio trydan a nwy

Fel y dangoswyd yn nhabl 2 uchod, rydym wedi gweld gostyngiad cyffredinol yn y defnydd o drydan (3.7 y cant) ar draws yr ystad. Yn fwy arwyddocaol, mae 64.17 y cant o'r trydan a ddefnyddir ar draws yr ystad yn cael ei gyflenwi drwy ein contract ynni adnewyddadwy i fusnesau gyda Nwy Prydain, gan sicrhau ein bod yn defnyddio ynni gwyrdd pan fydd hynny'n bosibl. Mae'r eiddo eraill sydd gennym wedi'u prydlesu, ac nid oes rheolaeth gennym dros y contractau ynni a ddefnyddir ynddynt. Bydd y sefydliad yn ceisio trafod â'r landlordiaid i weld a fyddai modd iddynt newid eu contractau ynni presennol ar gyfer y lleoliadau hynny er mwyn defnyddio ynni gwyrdd. Rydym hefyd wedi gweld mymryn o gynnydd yn y defnydd o nwy (0.77 y cant) drwy'r ystad, ond mae disgwyl y mân amrywiadau hyn o'r naill flwyddyn i'r llall, ac mae hynny'n ddibynnol iawn ar y tywydd yn ystod misoedd y gaeaf.

Am yr ail flwyddyn o'r bron, rydym yn gallu cofnodi gostyngiad yng nghyfanswm ein gwariant ar ynni. Mae hyn yn adlewyrchiad o'r gwaith a wneir gan y Grŵp Rheoli Risg Pris Ynni ar gyfer GIG Cymru, sy'n ceisio sicrhau bod Byrddau Iechyd ac Ymddiriedolaethau'r GIG yn cael y pris gorau am yr ynni a ddefnyddiant.

### 5.1.3 Gwariant ar deithio busnes

Fel y gwelir yn Nhabl 2, bu cynnydd o 48.9 y cant yn y gwariant a gofnodwyd ar deithio busnes (fflyd lwyd) yn y sefydliad. Dyma'r tro cyntaf i'r gwariant hwn gynyddu mewn 5 mlynedd o gofnodi. Gellir priodoli rhywfaint o'r cynnydd hwn i'r ffaith bod y sefydliad wedi cofnodi ei wariant ar logi bysiau am y tro cyntaf. At hynny, oherwydd oedi yn y broses gofnodi yn sgil COVID-19, rydym wedi gallu casglu mwy o ddata o'n fflyd lwyd ar gyfer chwarter olaf 2019/20, a bydd hyn yn cyfrannu at y cynnydd a gofnodwyd o'i gymharu â'r cyfnodau adrodd blaenorol. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod nad yw cynnydd o dros £200,000 mewn gwariant ar ein fflyd lwyd yn dderbyniol. Er mwyn lleihau ôl-troed y sefydliad, ynghyd â'n gwariant, mae angen gwneud rhagor o waith i sicrhau nad yw pobl yn teithio ar fusnes yn ddianghenraid, gan sicrhau bod modd dargyfeirio'r cyllid hwn i rannau eraill o'r sefydliad.

Yn y dyfodol, byddwn yn parhau i gynnal trafodaethau â'r staff er mwyn lleihau milltiroedd busnes ein fflyd lwyd. Mae rhagor o waith hefyd yn mynd rhagddo i edrych ar hyfywedd ychwanegu cerbydau trydan at ein fflyd, gan sicrhau ar yr un pryd bod y strwythur iawn gennym i gefnogi hyn.

## 5.2 Camau i wella'r trefniadau casglu data yn 2020/21

- Er mwyn cael data cywir, cynnal rhagor o drafodaethau â landlordiaid am y posibilrwydd o ddarparu costau defnydd ac ynni cyfatebol neu osod is-fesuryddion yn y mannau y mae Iechyd Cyhoeddus Cymru yn eu defnyddio.
- Cynnal trafodaethau â landlordiaid i asesu'r posibilrwydd o ymuno â thariff ynni gwyrdd.
- Mwy o waith i adolygu darparwyr ynni, er mwyn gallu darparu data cyson a sicrhau gwerth am arian.
- Cynnal trafodaethau â chyflenwyr ynni i wella trefniadau casglu data a chyflwyno mesuryddion clyfar pan fyddant ar gael.
- Sicrhau y bydd opsiynau fel gosod mesuryddion ar wahân neu is-fesuryddion yn cael eu trafod mewn unrhyw brydlesi newydd a gaiff eu llofnodi gan y sefydliad lle caiff safleoedd eu rhannu.

## 6 Rheoli gwastraff

Mae'r tabl isod yn dangos perfformiad rheoli gwastraff y sefydliad yn 2019/20:

**Tabl 4: rheoli gwastraff**

| Gwastraff | | 2015-16 | 2016-17 | 2017-18 | 2018-19 | 2019-20 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Dangosyddion Anariannol (tunelli) | Cyfanswm y Gwastraff | 652.05 | 538.55 | 585.79 | 629.69 | 139.98 |
| | Tirlenwi | 642.58 | 445.15 | 457.54 | 377.68 | 35.69 |
| | Ailddefnyddiwyd / Ailgylchwyd | 9.47 | 92.46 | 120.25 | 224.65 | 74.08 |
| | Compostio | Dd/B | 0.13 | 4.16 | Dd/B | Dd/B |
| | Treulio anaerobig | Dd/B | Dd/B | Dd/B | 9.12 | 8.32 |
| | Llosgi ac adfer ynni | Dim data ar gael | 0.81 | 3.83 | 18.24 | 22.11 |
| | Llosgi heb adfer ynni | | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Dangosyddion Ariannol (£) | Cyfanswm y Gost Waredu | 35,078 | 46,342 | 48,907 | 53,597 | 54,531 |
| | Tirlenwi | 13,994 | 18,395 | 20,890 | 17,725 | 13,999 |
| | Ailddefnyddiwyd/Ailgylchwyd | 11,649 | 19,034 | 17,632 | 21,811 | 27,003 |
| | Compostio | Dd/B | Dd/B | 259 | Dd/B | Dd/B |
| | Treulio anaerobig | Dd/B | Dd/B | Dd/B | 578 | 480 |
| | Llosgi ac adfer ynni | 9,435 | 8,913 | 10,125 | 13,483 | 13,050 |
| | Llosgi heb adfer ynni | | 0 | 0 | 0 | 0 |

## 6.1 Dadansoddi'r trefniadau rheoli gwastraff

Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru yn cydnabod ei gyfrifoldebau o ran rheoli gwastraff yn effeithiol, ac mae wedi gwneud gwelliannau sylweddol o ran casglu data. Adlewyrchir hyn yn ffigurau perfformiad 2019/20. Gwelwyd y gwelliant mwyaf yn y modd yr amcangyfrifir pwysau gwastraff pan na fydd gwybodaeth ar gael gan y cludwr gwastraff. Yn ystod 2019/20, mae Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi bod yn defnyddio cyfrifiannell pwysau gwastraff WRAP, sy'n rhoi ffactorau dwysedd cywirach ar gyfer y gwastraff a gynhyrchwn ar hyn o bryd. Mae hyn wedi cyfrannu at gofnodi gostyngiad o 490 tunnell mewn gwastraff (77.77 y cant) o'i gymharu â 2018/19.

Amcangyfrifir mai dim ond 25.5 y cant o gyfanswm y gwastraff a gynhyrchir gan y sefydliad a anfonwyd i safleoedd tirlenwi yn 2019/20, o'i gymharu â 60 y cant yn 2018/19. Cyflawnwyd hyn drwy well arferion rheoli gwastraff drwy ein holl sefydliad, gyda mwy o ddulliau gwaredu gwahanol ar gael i'r staff.

O ganlyniad, mae cyfran y gwastraff sy'n cael ei anfon i'w ailgylchu wedi cynyddu, gyda 52.9 y cant o'r gwastraff yn cael ei waredu fel hyn, o'i gymharu â dim ond 35.7 y cant yn 2018/19. Anogir staff yn bwrpasol i sicrhau eu bod yn defnyddio'r dulliau gwaredu cywir, ac mae disgwyl i'r holl staff ailgylchu pan fydd modd. Defnyddir y dull hwn hefyd gyda'n gwastraff papur cyfrinachol, gan sicrhau bod cymaint â phosibl ohono'n cael ei anfon i'w ailgylchu, gan sicrhau ein bod yn cydymffurfio'n llwyr â'r ddeddfwriaeth berthnasol a'n dyletswydd gofal.

Bydd Iechyd Cyhoeddus Cymru yn parhau i gyflwyno meddalwedd SafeQ ar gyfer pob contract am lungopiwyr newydd, sy'n galluogi'r sefydliad i fonitro'r defnydd o argraffwyr. Darperir adroddiadau defnydd i bob Cyfarwyddiaeth yn y lleoliadau lle mae meddalwedd SafeQ ar y dyfeisiau, er mwyn annog y staff i leihau eu gwastraff papur.

Mae'r gwastraff a gaiff ei waredu drwy dreulio anaerobig yn dal yn gyson â'r ffigurau a gofnodwyd yn ystod 2018/19. Dim ond dau safle (Rhif 2 Capital Quarter a'r River House) sydd â chytundeb i waredu gwastraff bwyd. Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru yn llwyr ddisgwyl i hyn gynyddu yn y dyfodol, wrth i fwy o safleoedd gyflwyno camau i waredu gwastraff bwyd yn unol â pholisi eu cyngor lleol.

Rydym hefyd yn cofnodi cynnydd o 3.87 tunnell yn y gwastraff a gaiff ei anfon i adfer ynni drwy losgi. Cafodd cyfanswm o 22.11 tunnell o wastraff (15.8 y cant o'r gwastraff a gynhyrchwyd) ei waredu drwy'r dull hwn, sy'n cynnwys gwastraff busnes a anfonwyd i gyfleuster adfer ynni Viridor yng Nghaerdydd. Mae disgwyl i'r ffigur hwn gynyddu wrth i fwy o wastraff gael ei anfon i adfer ynni ac wrth i'r galw am ein Gwasanaethau Sgrinio gynyddu, gan fod angen i'r rhain waredu eu gwastraff clinigol drwy'r dull hwn.

Bu gostyngiad o £3,726 yng nghyfanswm cost y gwastraff a anfonwyd i safleoedd tirlenwi, a byddwn yn dal i ymchwilio i'r opsiynau ar gyfer lleihau'r costau hyn ymhellach, a gobeithiwn adlewyrchu hyn yn 2020/21. O ganlyniad uniongyrchol i hyn, bu cynnydd o £5,192 yng nghyfanswm cost y gwastraff a anfonwyd i'w ailgylchu. Ac edrych ar yr holl ffrydiau gwastraff, mae'r sefydliad wedi gwario £934 yn fwy nag yn 2018/19. Fodd bynnag, gellir priodoli hyn i gostau uwch yn unol â chwyddiant.

## 6.2 Camau i wella'r trefniadau casglu data yn 2020/21

- Cynnal rhagor o drafodaethau â chludwyr gwastraff cyfrinachol, ailgylchu a thirlenwi er mwyn sicrhau bod modd darparu gwybodaeth gywirach am bwysau gwastraff.

## 7 Y defnydd o adnoddau cyfyngedig

Mae'r tabl canlynol yn dangos perfformiad yr Ymddiriedolaeth wrth ddefnyddio dŵr yn 2019/20:

**Tabl 5: Y defnydd o adnoddau cyfyngedig**

| Y defnydd o adnoddau cyfyngedig | | | 2015-16 | 2016-17 | 2017-18 | 2018-19 | 2019-20 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Dangosyddion Anariannol (000m³) | Defnydd Dŵr (Ystad Swyddfeydd) | Cyflenwyd | 2.111 | 2.052 | 1.675 | 5.922 | 4.612 |
| | Defnydd Dŵr (Ystad Di-swyddfa) | Cyflenwyd | 2.281 | 1.791 | 2.207 | 1.921 | 1.852 |
| | Defnydd Dŵr (Cyfanswm yr Ystad) | Cyflenwyd | 4.392 | 3.843 | 3.882 | 7.843 | 6.464 |
| Dangosyddion Ariannol (£) | Costau Cyflenwi Dŵr (Ystad Swyddfeydd) | | 8,526 | 7,453 | 6,079 | 9,735 | 16,364 |
| | Costau Cyflenwi Dŵr (Ystad Di-swyddfa) | | 6,804 | 5,699 | 7,247 | 5,650 | 5,318 |
| | Cyfanswm Costau Cyflenwi Dŵr | | 15,330 | 13,152 | 13,326 | 15,385 | 21,682 |

### 7.1 Dadansoddi'r defnydd o adnoddau

Mae ein cofnodion yn dangos gostyngiad o 17.58 y cant yn y defnydd cyffredinol o ddŵr o'i gymharu â 2018/19. Pan nad oedd data ar gael, sef yn y safleoedd sy'n cael eu prydlesu lle nad yw ein landlord yn rhoi gwybodaeth am ein defnydd, rydym wedi amcangyfrif y defnydd ar sail cyfartaledd y metrau ciwbig y bydd pob aelod o staff yn eu defnyddio yn y lleoliadau lle mae data ar gael. Yn ystod 2019/20, y cyfartaledd oedd 5.9 metr ciwbig i bob aelod o staff bob blwyddyn. Dyma ostyngiad o un metr ciwbig i bob aelod o staff bob blwyddyn ochr yn ochr â'r meincnod a osodwyd yn 2018/19.

Gyda gweithlu sy'n tyfu, mae'r sefydliad yn deall ei bod yn anochel y bydd lleihau'r defnydd o ddŵr yn anodd. Wrth i faint ein hystâd dyfu, bydd camau i gydymffurfio â diogelwch dŵr hefyd yn effeithio ar y defnydd, gan fod angen dulliau tynnu dŵr rheolaidd drwy'r ystad ar gyfer safleoedd defnydd isel.

Mae'r sefydliad yn ymwybodol nad yw oedran a chyflwr y rhan fwyaf o'n hystad yn hwyluso defnydd effeithlon o'n cyflenwadau dŵr. Byddwn yn mynd ati'n bwrpasol i geisio gwella a lleihau maint ein hystad drwy ein rhaglen Ein Gofod, yn ogystal â thrwy weithio gyda staff i ganfod ffyrdd i arbed dŵr drwy ein Grŵp Cynaliadwyedd Amgylcheddol.

Cynyddodd cyfanswm cost ein cyflenwad dŵr £6,297 o'i gymharu â 2018/19. Wrth ddadansoddi'r data, gellir priodoli'r cynnydd hwn i newid yng nghostau'r landlord am ddefnyddio dŵr yn Rhif 2 Capital Quarter, a gynyddodd £6,076 yn ystod 2019/20.

### 7.2 Camau i wella'r trefniadau casglu data yn 2020/21

- Cynnal trafodaethau â pherchnogion eiddo i edrych ar y posibilrwydd o ddarparu amcangyfrif o'r dŵr a ddefnyddir yn seiliedig ar eu hanfonebau a nifer y staff sy'n defnyddio'r adeilad, neu osod is-fesuryddion i gael darlleniadau cywir.

## 8 Cyfyngiadau ar gasglu data

Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru yn wynebu nifer o heriau wrth geisio cael gafael ar ddata cywir, ac mae'r rhain i gyd i'w gweld isod:

- Dim ond pan fydd mesuryddion cywir a chadarn ar gael ar gyfer y cyfleustodau a gyflenwir y gellir darparu data am gynaliadwyedd
- Pan fyddwn yn gweithio mewn adeiladau sy'n cael eu rhannu, nid oes mesuryddion (is-fesuryddion) yn y rhannau o'r adeiladau lle mae staff Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi'u lleoli, ac mae hynny'n golygu nad oes data am ddefnydd ar gael. Nid yw rhai landlordiaid wedi gallu darparu gwybodaeth am y defnydd cyfatebol a chostau'r cyfleustodau hyd yma. Rydym yn talu'r costau nwy, trydan, dŵr a gwastraff drwy dâl gwasanaeth, ac nid yw hwn yn rhoi manylion y gwahanol wasanaethau, felly nid oes modd eu cofnodi.
- Rydym yn aml yn gweithio mewn rhannau bychain iawn o leoliadau sy'n cael eu rhannu, lle mae'r defnydd yn isel ac ni fyddai gosod mesuryddion ychwanegol (is-fesuryddion) bob amser yn hyfyw neu'n gost-effeithiol
- Bu'n rhaid amcangyfrif rhywfaint o ddata ar gyfer y pedwerydd chwarter gan nad oedd yr anfonebau ar gael ar adeg llunio'r adroddiad.
- Pan fydd data wedi'u darparu ar gyfer gwastraff tirlenwi ac ailddefnyddio/ailgylchu, mae'r tunelli wedi'u hamcangyfrif gan dybio bod cynwysyddion/biniau/sachau 99 y cant yn llawn wrth gael eu gwagio, gan nad oes dulliau ar gael i gofnodi union bwysau'r gwastraff.
- Pan nad oes gwybodaeth ar gael am bwysau gwastraff, mae wedi'i amcangyfrif gan ddefnyddio cyfrifiannell pwysau gwastraff busnes WRAP.
- Pan nad oes data ar gael, nodir hynny yn Atodiad A.

# Atodiad A

**Tabl 6: Data sydd ddim ar gael am ddefnydd**

Nid oedd data am ddefnydd ar gael ar gyfer y safleoedd yn y tabl hwn:

| Cyfeiriad | Gwybodaeth am drydan | Gwybodaeth am nwy | Gwybodaeth am ddŵr | Gwybodaeth am wastraff |
|---|---|---|---|---|
| **Tŷ Clwydian** | Ddim ar gael | Ddim ar gael | Ar gael | Ar gael |
| **Adeilad 1 Parc Dewi Sant** | Ddim ar Gael | Ddim ar Gael | Ar gael | Ar gael |
| **Bloc St Annes Parc Dewi Sant** | Ddim ar Gael | Ddim ar Gael | Ar gael | Ar gael |
| **River House** | Ar gael | Ddim yn berthnasol | Ddim ar Gael | Ar gael |

**Tabl 7: Data sydd ddim ar gael am wariant**

Nid oedd data am wariant ar gael ar gyfer y safleoedd yn y tabl hwn:

| Cyfeiriad | Cost Trydan | Cost Nwy | Cost Dŵr | Cost Gwastraff |
|---|---|---|---|---|
| **Tŷ Clwydian** | Ddim ar Gael | Ddim ar Gael | Ar gael | Ar gael |
| **Adeilad 1 Parc Dewi Sant** | Ddim ar Gael | Ddim ar Gael | Ddim ar Gael | Ar gael |
| **Bron Brawf Cymru Llandudno** | Ar gael | Ddim yn berthnasol | Ddim ar Gael | Ar gael |
| **Bloc St Annes Parc Dewi Sant** | Ddim ar Gael | Ddim ar Gael | Ddim ar Gael | Ar gael |
| **Llys Britannia** | Ar gael | Ddim yn berthnasol | Ddim ar Gael | Ar gael |
| **River House** | Ar gael | Ddim yn berthnasol | Ddim ar Gael | Ar gael |

## Tueddiadau Gwariant Hirdymor

| | £000oedd 2015/16 | £000oedd 2016/17 | £000oedd 2017/18 | £000oedd 2018/19 | £000oedd 2019/20 | Cyfanswm % Cynnydd | 12 mis % Cynnydd |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Gwariant** | | | | | | | |
| Llywodraeth Cymru/BILlau/Ymddiriedolaethau/ Awdurdodau Lleol | 18,390 | 20,717 | 23,149 | 22,291 | 23,404 | 27.26% | 4.99% |
| Gwariant ar Gyflogau | 65,070 | 72,370 | 77,194 | 82,839 | 94,165 | 44.71% | 13.67% |
| Gwariant Arall nad yw'n Gyflogau | 22,036 | 24,641 | 25,064 | 27,073 | 32,377 | 46.93% | 19.59% |
| Dibrisiad ac Amhariadau | 3,276 | 3,462 | 3,528 | 3,200 | 3,006 | -8.24% | -6.06% |
| Gwariant Gros | 108,772 | 121,190 | 128,935 | 135,403 | 152,952 | 40.62% | 12.96% |
| | | | | | | | |
| **Refeniw** | | | | | | | |
| Refeniw o Weithgareddau Gofal Cleifion | -85,975 | -92,376 | -91,925 | -94,334 | -105,300 | 22.48% | 11.62% |
| Refeniw Gweithredol Arall | -22,836 | -28,861 | -37,062 | -41,047 | -47,611 | 108.49% | 15.99% |
| Incwm Gros | -108,811 | -121,237 | -128,987 | -135,381 | -152,911 | 40.53% | 12.95% |
| | | | | | | | |
| Refeniw Buddsoddi, Costau Cyllid ac Enillion a Cholledion Eraill | 22 | 31ß | 24 | -48 | -83 | | |
| (Gwarged)/Diffyg a Gadwyd | -17 | -16 | -28 | -26 | -42 | | |
| (Gwarged)/Diffyg Cronnol | -67 | -83 | -111 | -137 | -179 | | |

# Ein Hadroddiad Atebolrwydd

# Adroddiad Llywodraethu Corfforaethol

## Adroddiad Cyfarwyddwyr Iechyd Cyhoeddus Cymru 2019/20

Yn unol â'r Llawlyfr Adrodd Ariannol (FReM), rhaid i Adroddiad y Cyfarwyddwyr gynnwys y canlynol, oni bai eu bod yn cael eu datgelu yn rhywle arall yn yr Adroddiad Blynyddol a'r Cyfrifon ac os felly darperir croesgyfeiriad:

| Gofyniad | Croesgyfeiriad |
|---|---|
| **1.** Enwau'r Cadeirydd a'r Prif Weithredwr, ac enwau unrhyw unigolion a oedd yn gyfarwyddwyr ar yr endid ar unrhyw adeg yn y flwyddyn ariannol a hyd at y dyddiad y cymeradwywyd yr Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon. | Gweler Atodiad 1 yn y Datganiad Llywodraethu Blynyddol. |
| **2.** Cyfansoddiad y bwrdd rheoli (gan gynnwys aelodau ymgynghorol ac anweithredol) a oedd ag awdurdod neu gyfrifoldeb am gyfarwyddo neu reoli prif weithgareddau'r endid yn ystod y flwyddyn. | Gweler Atodiad 1 yn y Datganiad Llywodraethu Blynyddol. |
| **3.** Enwau'r cyfarwyddwyr a oedd yn rhan o bwyllgor neu bwyllgorau archwilio. | Gweler Atodiad 1 yn y Datganiad Llywodraethu Blynyddol. |
| **4.** Manylion swyddi cyfarwyddwr cwmni a buddiannau arwyddocaol eraill a oedd yn cael eu dal gan aelodau'r bwrdd rheoli, a allai wrthdaro â'u cyfrifoldebau rheoli. Lle mae Cofrestr Buddiannau ar gael ar-lein, gellir darparu dolen we yn lle datgeliad manwl yn yr adroddiad blynyddol. | Gweler y Gofrestr Buddiannau 2019/20. |
| **5.** Gwybodaeth am ddigwyddiadau a oedd yn gysylltiedig â data personol lle rhoddwyd gwybod yn ffurfiol i swyddfa'r comisiynydd gwybodaeth am y rhain. Adroddiadau ar ddigwyddiadau a oedd yn gysylltiedig â data personol gan gynnwys "digwyddiadau anffafriol difrifol" a oedd yn ymwneud â cholli data neu dorri cyfrinachedd a manylion sut y caiff y risgiau i wybodaeth eu rheoli. | Gweler yr adran Achosion o Fynediad Diawdurdod at Ddata (tudalen 89) o'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol hwn. |
| **6.** Gwybodaeth am faterion amgylcheddol, cymdeithasol a chymunedol. | Gweler yr Adroddiad Cynaliadwyedd Blynyddol 2019/20 am wybodaeth am faterion amgylcheddol.<br>Gweler yr Adroddiad Blynyddol a'r adroddiad ar Lesiant Cenedlaethau'r Dyfodol i gael gwybodaeth am faterion Cymdeithasol a Chymunedol |
| **7.** Fel corff sy'n dal gwybodaeth yn y sector cyhoeddus, mae Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi cydymffurfio â'r gofynion o ran dyrannu costau a chodi tâl a nodir yng nghanllawiau Trysorlys EM. | |

## Datganiad am Gyfrifoldebau'r Prif Weithredwr fel Swyddog Atebol

Mae Gweinidogion Cymru wedi cyfarwyddo mai'r Prif Weithredwr ddylai weithredu fel swyddog atebol yr Ymddiriedolaeth.

Caiff cyfrifoldebau perthnasol swyddogion atebol, gan gynnwys eu cyfrifoldeb am briodoldeb a rheoleidd-dra'r arian cyhoeddus y maent yn atebol amdano, ac am gadw cofnodion priodol, eu nodi ym memorandwm y swyddog atebol a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru.

Mae'n ofynnol i'r swyddog atebol gadarnhau, hyd y gŵyr hi, nad oes unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol nad yw archwilwyr yr endid yn ymwybodol ohoni, a bod y swyddog atebol wedi cymryd yr holl gamau y dylai fod wedi'u cymryd i'w gwneud ei hun yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol ac i gadarnhau bod archwilwyr yr endid yn ymwybodol o'r wybodaeth honno.

Mae'n ofynnol i'r swyddog atebol gadarnhau bod yr adroddiad blynyddol a'r cyfrifon yn eu cyfanrwydd yn deg, yn gytbwys ac yn ddealladwy a'i bod yn cymryd cyfrifoldeb personol am yr adroddiad blynyddol a'r cyfrifon a'r barnau sy'n ofynnol i gadarnhau eu bod yn deg, yn gytbwys ac yn ddealladwy.

Hyd eithaf fy ngwybodaeth a'm cred, rwyf wedi cyflawni'r cyfrifoldebau a nodir yn fy llythyr penodi fel swyddog atebol mewn modd priodol.

Llofnod:



Prif Weithredwr
**Dr Tracey Cooper**
Dyddiad: 25 Mehefin 2020

## Datganiad am Gyfrifoldebau'r Cyfarwyddwyr mewn Perthynas â'r Cyfrifon

O dan Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006 mae'n ofynnol i'r cyfarwyddwyr baratoi cyfrifon ar gyfer pob blwyddyn ariannol. Mae gweinidogion Cymru, gyda chymeradwyaeth y Trysorlys, yn cyfarwyddo bod y cyfrifon hyn yn rhoi darlun cywir a theg o gyflwr materion yr Ymddiriedolaeth ac o incwm a gwariant y bwrdd iechyd am y cyfnod hwnnw.

Wrth baratoi'r cyfrifon hynny, mae'n ofynnol i'r cyfarwyddwyr:

- gymhwyso ar sail gyson yr egwyddorion cyfrifyddu a nodir gan weinidogion Cymru gyda chymeradwyaeth y Trysorlys;
- ffurfio barnau ac amcangyfrifon sy'n gyfrifol ac yn ddarbodus;
- datgan a ddilynwyd safonau cyfrifyddu, yn amodol ar unrhyw wyriadau perthnasol a gaiff eu datgelu a'u hegluro yn y cyfrifon.

Mae'r cyfarwyddwyr yn cadarnhau eu bod wedi cydymffurfio â'r gofynion uchod wrth baratoi'r cyfrifon.

Y cyfarwyddwyr sy'n gyfrifol am gadw cofnodion cyfrifyddu priodol sy'n datgelu â chywirdeb rhesymol ar unrhyw adeg beth yw sefyllfa ariannol yr awdurdod ac i'w galluogi i sicrhau bod y cyfrifon yn cydymffurfio â'r gofynion a nodir yn y cyfarwyddyd a grybwyllir uchod gan weinidogion Cymru.

Ar Orchymyn y Bwrdd

Llofnod:



Cadeirydd
**Jan Williams OBE**
Dyddiad: 25 Mehefin 2020



Prif Weithredwr
**Dr Tracey Cooper**
Dyddiad: 25 Mehefin 2020



Cyfarwyddwr Cyllid
**Huw George**
Dyddiad: 25 Mehefin 2020

# Datganiad Llywodraethu Blynyddol 2019/20

## Diben y Ddogfen a Chrynodeb Ohoni:

Mae'n ofynnol i Iechyd Cyhoeddus Cymru ddarparu Datganiad Llywodraethu Blynyddol fel rhan o'r Adroddiad Atebolrwydd, sy'n rhan o'r Adroddiad Blynyddol a'r Cyfrifon 2019/20. Mae'r wybodaeth a ddarperir yn y Datganiad hwn wedi cael ei chrynhoi gan ddefnyddio gwybodaeth a dogfennau sicrwydd a goladwyd drwy gydol y flwyddyn ariannol. Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ganllawiau yn y Llawlyfr ar gyfer Cyfrifon. Mae'r Llawlyfr Adrodd Ariannol (FReM), a gyhoeddwyd gan Drysorlys Ei Mawrhydi, wedi cael ei ddefnyddio i helpu i lunio'r Datganiad terfynol hefyd.

Rhoddodd y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu Corfforaethol ystyriaeth i'r drafft ar gyfer ei gyflwyno yn ei gyfarfod ar 18 Mai 2020.

Cyflwynwyd y fersiwn terfynol hwn i'r Pwyllgor ar 23 Mehefin 2020 er mwyn i'r Bwrdd ei gymeradwyo ar 25 Mehefin 2020. Cymeradwyodd y Bwrdd y Datganiad hwn i'w gyflwyno i Lywodraeth Cymru yng nghyfarfod y Bwrdd ar 25 Mehefin 2020.

# Cynnwys


**1. Cwmpas Cyfrifoldeb 52**

**2. Fframwaith Llywodraethu 53**

**2.1 Effaith COVID-19 55**

**2.2 Strwythur Llywodraethu 55**

2.2.1 Strwythur Llywodraethu'r Bwrdd 55
2.2.2 Strwythur Llywodraethu'r Weithrediaeth 56

**2.3 Gwelliannau i'r Fframwaith Llywodraethu 57**

2.3.1 Adolygu'r Rheolau Sefydlog 57
2.3.2 Cynllun Dirprwyo 57
2.3.3 Datblygu'r Gofrestr Risgiau Strategol a Chyfundrefn ehangach Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd 57
2.3.4 Adolygu Amodau Gorchwyl Pwyllgorau'r Bwrdd 58
2.3.5 Cylch Perfformiad ac Effeithiolrwydd 58
2.3.6 Strwythur y Tîm Gweithredol a'r Cyfarwyddiaethau 60
2.3.7 Sesiynau Datblygu'r Bwrdd 62

**2.4 Materion allweddol a ystyriwyd gan y Bwrdd 63**

2.4.1 Adroddiadau at Wraidd y Mater 63
2.4.2 Strategaeth Pobl 2020-2030 63
2.4.3 Cymeradwyo'r Cynllun Strategol ar gyfer 2020-23 63
2.4.4 Hunanasesu – Trefniadau Llywodraethu Ansawdd 63
2.4.5 Diweddariad ar dwbercwlosis a chytuno ar fframwaith Uwchgyfeirio 64
2.4.6 Amcanion Cydraddoldeb Strategol 64
2.4.7 Creu Cymru Iachach 64
2.4.8 Gweithio mewn Partneriaeth 64
2.4.9 Pontio o'r Undeb Ewropeaidd 65
2.4.10 Helpa Fi i Stopio 65
2.4.11 Llysgenhadon Ifanc 65
2.4.12 Coronafeirws Newydd (COVID-19) 65
2.4.13 Sesiynau Preifat y Bwrdd 66

**2.5 Aelodaeth o'r Bwrdd a'r Tîm Gweithredol 66**

2.5.1 Ymadawiad a phenodiad Cyfarwyddwyr Anweithredol 66
2.5.2 Cynllunio ar gyfer Olyniaeth y Bwrdd 67
2.5.3 Penodiadau ac Ymadawiadau Uwch Aelodau o Staff 67
2.5.4 Cynrychiolaeth Staff yng Nghyfarfodydd y Bwrdd a Phwyllgorau 67
2.5.5 Amrywiaeth y Bwrdd 67

**2.6 Pwyllgorau'r Bwrdd 67**

2.6.1 Y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu Corfforaethol 68
2.6.2 Y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Gwella 71
2.6.3 Y Pwyllgor Pobl a Datblygu Sefydliadol 73
2.6.4 Pwyllgor Gwybodaeth ac Ymchwil y Bwrdd 74
2.6.5 Y Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol a Thelerau Gwasanaeth 75
2.6.6 Cyfarfodydd y Bwrdd a'r Pwyllgor a gynhaliwyd yn ystod 2019/20 76

**3. Diben y System o Reolaeth Fewnol 77**

**3.1 Capasiti Trin Risgiau 77**

**4. Trefniadau Llywodraethu Ansawdd 79**

4.1 Y Gyfarwyddiaeth Ansawdd, Nyrsio a Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd 79
4.2 Llywodraethu Gwybodaeth 80

**5. Safonau Iechyd a Gofal 81**

**6. Iechyd a Diogelwch 81**

**7. Strategaeth Tymor Hir 82**

**8. Ein Cynllun Strategol (Cynllun Tymor Canolig Integredig) 83**

**9. Datgeliadau Gorfodol 84**

9.1 Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Hawliau Dynol 84
9.2 Y Gymraeg 85
9.3 Ymdrin â Chwynion a Phryderon 86
9.4 Ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth 86
9.5 Ceisiadau Gwrthrych am Wybodaeth 86
9.6 Cynaliadwyedd a'r Cynllun Cyflawni ar gyfer Lleihau Carbon 86
9.7 Cynllunio at Argyfwng/Argyfyngau Sifil 88
9.8 Parhad Busnes 89
9.9 Achosion o Fynediad Diawdurdod at Ddata 89
9.10 Cod Llywodraethu Corfforaethol y DU 90
9.11 Cynllun Pensiynau'r GIG 90
9.12 Cyfarwyddiadau Gweinidogol 90

**10. Cyrff a Letyir 90**

10.1 Cydweithrediad Iechyd GIG Cymru 90
10.2 Uned Cyflawni Ariannol 91

**11. Staff ac Ymgysylltu â Staff 91**

**12. Adolygu Effeithiolrwydd 92**

12.1 Archwilio Mewnol 92
12.2 Atal Twyll 94
12.3 Archwilio Allanol – Archwilio Cymru (AC*) 94
12.4 Ansawdd Data 94

**13. Casgliad 95**

## 1. Cwmpas Cyfrifoldeb

Fel Sefydliad Iechyd y Cyhoedd cenedlaethol Cymru, ein gweledigaeth yw *'Gweithio i gyflawni dyfodol iachach i Gymru'*. Mae'r datganiad llywodraethu blynyddol hwn yn adlewyrchu'r ail flwyddyn y gweithredwyd ein Strategaeth Hirdymor newydd a gymeradwywyd yn 2017/2018.

Y Bwrdd sy'n atebol am bennu'r cyfeiriad strategol, pennu diwylliant a thôn ar gyfer y sefydliad, sicrhau bod trefniadau llywodraethu a rheoli risg effeithiol yn eu lle, a monitro perfformiad o ran cyflawni ein cynllun strategol yn effeithiol. Fel Prif Weithredwr Iechyd Cyhoeddus Cymru, mae gen i gyfrifoldeb am sicrhau bod gennym drefniadau llywodraethu effeithiol a chadarn yn ogystal â system rheolaeth fewnol gadarn sydd o gymorth i gyflawni diben a blaenoriaethau strategol y sefydliad, gan ddiogelu arian cyhoeddus ac asedau'r sefydliad ar yr un pryd. Cyflawnir y rhain yn unol â'm cyfrifoldebau fel Swyddog Atebol a ddyrannwyd gan y Cyfarwyddwr Cyffredinol Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn Llywodraeth Cymru.

Ar adeg cwblhau'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol hwn, mae Iechyd Cyhoeddus Cymru a'r GIG yng Nghymru'n wynebu pwysau digynsail a chynyddol wrth gynllunio a darparu gwasanaethau i ddiwallu anghenion y rhai yr effeithir arnynt gan bandemig y coronafeirws (COVID-19) – argyfwng iechyd y cyhoedd sy'n achosi pryder yn rhyngwladol.

Mae'r ymateb sy'n ofynnol i'r pandemig wedi golygu bod angen i'r sefydliad gynyddu swyddogaethau diogelu iechyd a diagnostig i lefel na wnaed erioed o'r blaen. O ganlyniad, ym misoedd olaf y flwyddyn ariannol addaswyd blaenoriaethau'r sefydliad at ddibenion gwahanol i ganolbwyntio'n llwyr ar gydlynu, cyngor, cymorth a'r ymateb i COVID-19. Yn ogystal â'r swyddogaethau a gyflawnir gennym, effeithiwyd ar ein staff hefyd gan y mesurau cymdeithasol mewn perthynas â chyfnod y cyfyngiadau symud o ddiwedd mis Mawrth ac un ffocws allweddol fu cynorthwyo ein pobl i weithio mewn amgylchedd o'r fath.

Mae hyn yn golygu bod ein pobl ar draws y sefydliad wedi datblygu sgiliau mewn gweithgareddau newydd ac wedi gorfod gweithio'n wahanol iawn yn fewnol a chyda'n partneriaid a'n rhanddeiliaid. Bu'n angenrheidiol felly ein bod yn diwygio agweddau ar y modd yr ydym yn cyflawni ein fframwaith llywodraethu a gweithredol. Gan gydnabod hyn, ysgrifennodd Dr Andrew Goodall, y Cyfarwyddwr Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol/Prif Weithredwr GIG Cymru at holl Brif Weithredwyr y GIG yng Nghymru, mewn perthynas â "Chanllawiau Penderfynu ac Ariannol COVID-19". Roedd y llythyr yn cydnabod y byddai sefydliadau'n debygol o wneud penderfyniadau a allai fod yn anodd a hynny'n gyflym a heb sylfaen dystiolaeth gadarn neu gymorth unigolion allweddol, a fyddai ar gael dan amgylchiadau gweithredu arferol. Serch hynny, mae'n dal yn ofynnol inni ddangos bod y drefn o ran gwneud penderfyniadau wedi bod yn effeithlon ac y deil brawf craffu o ran cydymffurfio â Rheoli Arian Cyhoeddus Cymru a dangos Gwerth am Arian pan fydd argyfwng COVID-19 wedi cilio a'r sefydliad yn dychwelyd at amodau gweithredu mwy normal.

I ddangos hyn rydym yn cofnodi sut y mae effeithiau COVID-19 wedi dylanwadu ar unrhyw newidiadau i brosesau penderfynu arferol, er enghraifft gan ddefnyddio cofrestr i gofnodi unrhyw wyriadau oddi wrth weithdrefnau gweithredu arferol.

Lle y bo'n berthnasol mae'r rhain, a chamau gweithredu eraill a gymerwyd, wedi cael eu hegluro yn y Datganiad Llywodraethu Blynyddol hwn.

Mae gennyf gyfrifoldeb cyffredinol personol am reoli a staffio'r sefydliad. Mae'n ofynnol i mi fy sicrhau fy hun, ac felly'r Bwrdd, bod trefniadau rheolaeth Weithredol y sefydliad yn addas i'w diben ac yn galluogi arweinyddiaeth effeithiol. Mae'r datganiad canlynol yn dangos y mecanweithiau a'r dulliau a ddefnyddiwyd i'm galluogi i gael y sicrwydd hwnnw.

## 2. Fframwaith Llywodraethu

Rydym wedi parhau i esblygu ac aeddfedu ein trefniadau llywodraethu ar draws y sefydliad. Yn dilyn cymeradwyo'r Cynllun Strategol ar gyfer 2019, mae ein ffocws wedi newid i gyflawni'r deilliannau o fewn y blaenoriaethau strategol, a chyflawni ein Strategaeth Tymor Hir.

Mae'r Bwrdd yn gweithredu fel corff penderfynu corfforaethol, gyda Chyfarwyddwyr Gweithredol a Chyfarwyddwyr Anweithredol yn aelodau llawn a chyfartal ac yn rhannu cyfrifoldeb corfforaethol am holl benderfyniadau'r Bwrdd. Mae Cyfarwyddwyr eraill o fewn y tîm Gweithredol yn bresennol yng nghyfarfodydd y Bwrdd hefyd.

Yn arbennig, mae gan y Bwrdd gyfrifoldeb am bennu'r cyfeiriad strategol, y fframwaith llywodraethu, y tôn a diwylliant sefydliadol, llywio'r parodrwydd i dderbyn risgiau, goruchwylio risgiau strategol, datblygu perthnasoedd cryf â rhanddeiliaid a phartneriaid allweddol, a chyrraedd nodau a chyflawni amcanion Iechyd Cyhoeddus Cymru yn llwyddiannus. Hefyd, mae gan Gyfarwyddwyr Gweithredol gyfrifoldeb ar lefel y Bwrdd am gyflawni ein swyddogaethau'n effeithiol. Cefnogir y bwrdd gan Ysgrifennydd y Bwrdd a Phennaeth Uned Fusnes y Bwrdd.

Y cynllun strategol hwn yw'r ail gynllun tair blynedd i gyflawni ein Strategaeth Tymor Hir newydd, sy'n rhychwantu'r cyfnod o 2018 i 2030. Gan adeiladu ar flwyddyn gyntaf lwyddiannus, mae'n nodi'r camau gweithredu y byddwn yn eu cymryd dros y tair blynedd nesaf i barhau â'n gwaith tuag at gyflawni ein Strategaeth Tymor Hir newydd a sut yr ydym yn bwriadu cyflawni ein diben, sef *'Gweithio i gyflawni dyfodol iachach i Gymru'*. Mae'n dangos sut y byddwn yn canolbwyntio ein hymdrechion, drwy gyflawni ein saith blaenoriaeth strategol, ar wneud y gwahaniaeth mwyaf posibl i iechyd a llesiant cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol.

Eleni, rydym wedi sefydlu'r Grwpiau Blaenoriaeth Strategol i ganlyn arni â'r ffrydiau gwaith ym mhob maes blaenoriaeth, ac wedi sicrhau bod y trefniadau llywodraethu a'r ffactorau galluogi priodol yn tanategu'r broses benderfynu.

Mae'r Bwrdd wedi canolbwyntio ar nifer o feysydd i ysgogi gwelliannau yn ystod y flwyddyn, sy'n cynnwys:

- Sicrhau goruchwyliaeth strategol ar faterion 'y darlun mawr' a sganio'r gorwel; mae hyn wedi cynnwys presenoldeb yng nghyfarfodydd y Bwrdd o blith nifer o bartneriaid allweddol
- Tracio'r modd y cyflawnir cerrig milltir strategol
- Gwella rolau Pwyllgorau'r Bwrdd
- Ailalinio'r modd y dyrennir adnoddau mewnol.

Mae'r Bwrdd wedi parhau â'i raglen o ddatblygu a dysgu, gan fyfyrio'n gyson ynghylch ei effeithiolrwydd, fel Bwrdd llawn ac yn gweithio drwy ei Bwyllgorau. Mae Cadeiryddion Pwyllgorau a Swyddogion Gweithredol arweiniol wedi gwneud peth gweithgarwch datblygu ar y cyd i ddatblygu effeithiolrwydd pellach ar lefel pwyllgorau.

Cafodd strwythur cyfredol y Bwrdd a Phwyllgorau ei gymeradwyo ym mis Awst 2018, a bu'n weithredol o 1 Ebrill 2019. Ers diwygio'r strwythur hwn, mae'r ffocws eleni wedi bod ar wreiddio rolau'r Pwyllgorau a datblygu dull mwy systematig o ran sicrwydd. Yn ystod y flwyddyn gwnaed nifer o welliannau i gryfhau'r seilwaith corfforaethol ymhellach, gan hefyd ddarparu ffocws cryfach ar ansawdd, rheoli risg a llywodraethu (gweler yr adrannau cyfatebol yn nes ymlaen yn yr adroddiad hwn).

Mae'r Bwrdd wedi ceisio cynyddu ei amlygrwydd a hybu mwy byth o dryloywder yn ystod y flwyddyn. Hyd at fis Chwefror 2020, roeddem yn ffrydio holl gyfarfodydd cyhoeddus y Bwrdd yn fyw drwy'r cyfryngau cymdeithasol gyda sesiwn holi ac ateb lle'r roedd cwestiynau'n cael eu cyflwyno i'r Bwrdd eu hateb. Rhoddwyd y gorau i hyn dros dro o ganlyniad i COVID-19 a'r newid i weithio o bell a chyfyngiadau cymdeithasol. Byddwn yn parhau i ddatblygu a hyrwyddo hyn yn ystod 2020/21. *(Mae Adran 2.2.11 o'r adroddiad hwn yn darparu rhagor o wybodaeth am effaith COVID-19 ar y trefniadau hyn).*

**Ffigur 1: Strwythur y Bwrdd a Phwyllgorau a gymeradwywyd gan y Bwrdd ym mis Gorffennaf 2018 ac sy'n weithredol ers 1 Ebrill 2019.**

**Fforwm Partneriaeth Lleol**

## Bwrdd Iechyd Cyhoeddus Cymru

Bydd y Bwrdd yn sicrhau ei fod yn cael y sicrwydd angenrheidiol gan y Pwyllgorau fel y nodir isod sy'n darparu tystiolaeth o gydymffurfiaeth sefydliadol

**Y Tîm Gweithredol**

### Y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu Corfforaethol

**Meysydd Craffu a Sicrwydd**

- Llywodraethu Corfforaethol
- Uniondeb
- Cydymffurfiaeth reoliadol
- Rheoli Risg
- Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd
- Rheolaeth Gyllidebol ac Ariannol
- Cyfrifon ac Adroddiadau Blynyddol
- Datganiad Llywodraethu Blynyddol
- Gwasanaeth Archwilio Mewnol
- Cysylltiadau i Swyddfa Archwilio Cymru
- Atal Twyll

### Y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Gwella

**Meysydd Craffu a Sicrwydd**

- Llywodraethu Clinigol
- Rheoli Risg
- Profiad defnyddwyr gwasanaethau
- Effeithiolrwydd clinigol
- Rhannu dysg ac arfer gorau
- Safonau Iechyd a Gofal
- Rheoli Risg Clinigol
- "Gweithio i Wella"
- Diogelu

### Y Pwyllgor Pobl a Datblygu Sefydliadol

**Meysydd Craffu a Sicrwydd**

- Datblygu sefydliadol
- Rheoli risg
- Diwylliant a gwerthoedd
- Mapio Gallu/Sgiliau
- Cynllunio'r gweithlu
- Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Hawliau Dynol
- Y Gymraeg
- Iechyd, Diogelwch a Lles Gweithwyr
- Absenoldeb salwch, Adolygiad Perfformiad a Datblygiad (Fy Nghyfraniad), Hyfforddiant Gorfodol

### Y Pwyllgor Gwybodaeth, Ymchwil a Hysbysrwydd

**Meysydd Craffu a Sicrwydd**

- Gwybodaeth
- Deallusrwydd Iechyd
- Gweithgareddau ymchwil
- Ansawdd data
- Deddfwriaeth llywodraethu gwybodaeth: Diogelu Data, Rhyddid Gwybodaeth, Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol a'r Cynllun Cyhoeddi
- Rheoli Cofnodion

### Y Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol a Thelerau Gwasanaeth

**Meysydd Craffu a Sicrwydd**

- Cyflog a thelerau ac amodau gwasanaeth ar gyfer Cyfarwyddwyr Gweithredol ac aelodau o staff ar y lefel uchaf
- Monitro amcanion a pherfformiad ar gyfer Cyfarwyddwyr Gweithredol
- Cymeradwyo ceisiadau o dan y Cynllun Rhyddhau'n Gynnar o Wiwirfodd a dileu swyddi

### Fforwm Cynghori'r Bwrdd ar Dechnoleg ac Arloesi ym maes Iechyd a Llesiant

**Meysydd Cyngor**

- Manteisio ar dechnolegau newydd a phresennol sy'n canolbwyntio ar arloesi ac addasu'r technolegau hynny
- Sganio'r gorwel yn strategol
- Canolbwyntio ar wella iechyd a llesiant yn sylweddol drwy ystyried, mabwysiadu a manteisio ar yr dulliau arloesol / technolegau hyn

**Bydd rhai themâu yn rhedeg drwy'r holl Bwyllgorau, er enghraifft:**

Rheoli Perfformiad

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

Safonau Iechyd a Gofal (gyda'r Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Gwella yn ystyried yr adroddiad blynyddol)

## 2.1 Effaith COVID-19

Datganodd Sefydliad Iechyd y Byd ar 13 Mawrth 2020 fod Coronafeirws Newydd, COVID-19, yn bandemig. Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi bod wrthi'n rheoli'r Coronafeirws Newydd fel digwyddiad ers diwedd mis Ionawr gyda strwythur y Drefn Reoli Aur yn cwrdd am y tro cyntaf ar 25 Chwefror 2020.

Ar 28 Chwefror 2020, rhoddodd y Bwrdd gymeradwyaeth i symud staff yn gyflym ar draws y sefydliad i gefnogi'r ymateb i COVID-19. Ac eithrio cynnal gwasanaethau microbioleg a diogelu iechyd, gwasanaethau sgrinio, cyfathrebu a seilwaith, daeth ymateb i COVID-19 i fod yr unig flaenoriaeth ar gyfer y sefydliad nes rhoddid gwybod yn wahanol.

Mae symud adnoddau o fewn y sefydliad i ateb y gofynion arwain a chefnogi sy'n ymwneud â rolau a chyfrifoldebau Iechyd Cyhoeddus Cymru, yn ogystal â chefnogi'r system iechyd a gofal cymdeithasol ehangach, wedi bod, ac yn dal i fod, yn ymgymeriad sylweddol. Newidiodd ffurf a ffocws y sefydliad cyfan yn sylweddol gyda'r mwyafrif llethol o staff yn cael eu dargyfeirio i gyflawni gweithgareddau hanfodol COVID-19.

I ategu'r system iechyd a gofal cymdeithasol ehangach, mae ymdrech ac adnoddau sylweddol wedi cael eu neilltuo i sicrhau bod y gwasanaethau a'r arbenigedd gofynnol wedi cael eu darparu yn ystod pob un o gyfnodau'r pandemig. Mae hyn wedi cynnwys gwasanaethau y mae Iechyd Cyhoeddus Cymru yn uniongyrchol gyfrifol amdanynt yn ogystal â rhoi arweinyddiaeth a chymorth i'r system iechyd a gofal cymdeithasol ehangach. Fel Sefydliad Iechyd y Cyhoedd cenedlaethol Cymru, mae gennym hefyd rôl arwyddocaol i roi cyngor arbenigol ynghylch iechyd y cyhoedd i Weinidogion Cymru ac i Lywodraeth Cymru. Mae chwarae rhan weithredol mewn ymgysylltiad pedair gwlad beunyddiol â'r asiantaethau eraill ar gyfer iechyd y cyhoedd yn y Deyrnas Unedig wedi bod yn weithgaredd rheolaidd ar gyfer yr ymateb i COVID-19. Hefyd, mae cysylltu â Sefydliadau Iechyd y Cyhoedd Cenedlaethol eraill ledled y byd er mwyn cymhwyso gwersi a'u rhannu o fewn Cymru wedi bod yn weithgaredd allweddol i ni.

Ar 17 Mawrth 2020, cymeradwyodd Cynulliad Cenedlaethol Cymru *Reoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws) (Cymru) 2020*. Darparodd y Ddeddf bwerau ychwanegol i orfodi'r rhai a oedd wedi'u cyfarwyddo i hunanynysu (yng nghyd-destun lleihau lledaeniad clefyd heintus) i gydymffurfio â'r cyfarwyddyd hwnnw. Roedd y rheoliadau hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i Iechyd Cyhoeddus Cymru gydymffurfio â mesurau cadw pellter cymdeithasol yn y gweithlu, gofynion yr ydym yn dal i gydymffurfio â hwy.

## 2.2 Strwythur Llywodraethu

Yn sgîl y pandemig, mae newidiadau wedi cael eu gwneud i strwythurau llywodraethu'r weithrediaeth a'r Bwrdd. Caiff y newidiadau hyn eu crynhoi isod.

### 2.2.1 Strwythur Llywodraethu'r Bwrdd

Cydnabuom yn y cyfnod digynsail hwn, fod cyfyngiadau ar Fyrddau a Phwyllgorau'n gallu cwrdd yn ffisegol lle nad yw hyn yn angenrheidiol ac y gellir gwneud hyn drwy ddulliau eraill.

Yn sgil y risg i iechyd y cyhoedd a oedd yn gysylltiedig â'r pandemig, gwaharddodd Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru fwy na dau o bobl rhag ymgynnull yn gyhoeddus. Felly nid oedd yn bosibl cydymffurfio â Deddf Cyrff Cyhoeddus (Derbyn i Gyfarfodydd) 1960 i ganiatáu i'r cyhoedd fynychu cyfarfodydd ein Bwrdd a Phwyllgorau o ganol mis Mawrth 2020.

#### Amrywiadau i'r Rheolau Sefydlog

Ar 26 Mawrth 2020, cymeradwyodd y Bwrdd nifer o amrywiadau i'r Rheolau Sefydlog yng ngoleuni COVID-19 a'i oblygiadau ar gyfer cyflawni'r Rheolau Sefydlog. Mae papur y Bwrdd, gyda manylion llawn yr amrywiadau a gymeradwywyd, ar gael ar wefan Iechyd Cyhoeddus Cymru. I grynhoi, y newidiadau a gymeradwywyd oedd:

- newid i raglen Pwyllgorau'r Bwrdd, gyda'r Pwyllgor Pobl a Datblygu Sefydliadol a'r Pwyllgor Gwybodaeth ac Ymchwil ill dau'n cael eu hatal am y tro hyd y gellir rhagweld
- ailgyfeirio materion Llywodraethu Gwybodaeth i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu Corfforaethol a materion Iechyd a Diogelwch i'r Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Gwella
- newid y broses gymeradwyo ar gyfer polisïau sy'n gysylltiedig â Phobl ac Adnoddau Dynol
- atal cynllun blynyddol y Bwrdd am y tro hyd y gellir rhagweld
- roedd y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol yn annhebygol o gael ei gynnal erbyn diwedd mis Gorffennaf 2020

- roedd cyfarfodydd y Bwrdd yn annhebygol o fod ar gael yn eu cyfanrwydd saith niwrnod cyn cyfarfodydd
- nid oedd modd cynnal cyfarfodydd y Bwrdd yng ngŵydd y cyhoedd.

Ar y sail bod y Bwrdd yn annhebygol o gwrdd yn y cnawd hyd y gellir rhagweld, cytunwyd y byddai'n cwrdd drwy ddulliau electronig/teleffoni. O ganlyniad, ni fyddai aelodau'r cyhoedd yn gallu bod yn bresennol nac arsylwi ac ni fyddai cyfarfodydd y Bwrdd yn cael eu ffrydio'n fyw o fis Mawrth ymlaen.

I'w gwneud yn bosibl bod mor dryloyw ac agored â phosibl ar yr adeg anarferol hon, rydym wedi ymrwymo i wneud y canlynol:

- cyhoeddi agendâu mor bell ymlaen llaw â phosibl – yn ddelfrydol, saith niwrnod
- cyhoeddi adroddiadau mor bell ymlaen llaw â phosibl – gan gydnabod y bydd rhai'n adroddiadau a gyflwynir gerbron yn y cyfarfod ac felly'n cael eu cyhoeddi ar ôl hynny. Byddwn hefyd yn cynyddu ein defnydd o adroddiadau ar lafar a fydd yn cael eu cofnodi yng nghofnodion cyfarfodydd
- cyhoeddi set ddrafft o gofnodion y cyfarfod i'r cyhoedd eu gweld cyn gynted â phosibl
- ar gyfer pob un o'r uchod, byddwn yn cyhoeddi dolen glir i'n tudalennau gwe a chyfrifon ar y cyfryngau cymdeithasol yn cyfeirio at ragor o wybodaeth.

Er mwyn sicrhau bod busnes y Bwrdd yn cael ei gynnal mewn modd mor agored a thryloyw â phosibl, rhoddodd y Bwrdd nifer o fesurau ar waith. *(Ceir rhagor o wybodaeth am effaith COVID-19 ar y trefniadau llywodraethu yn adran 2.2.11 o'r adroddiad hwn).*


Y bwriad o fis Mehefin ymlaen yw y bydd yr arfer o ffrydio cyfarfodydd y Bwrdd yn fyw yn cael ei adfer i alluogi'r cyhoedd i wylio cyfarfodydd y Bwrdd, ar yr amod y gellir sefydlu trefniadau TG priodol i roi cymorth i ffrydio'n fyw erbyn yr amser hwn.

### 2.2.2 Strwythur Llywodraethu'r Weithrediaeth

Cyfarfu'r Tîm Gweithredol Busnes yn fisol am y mwyafrif o'r flwyddyn er mwyn arwain, goruchwylio a rheoli perfformiad a busnes corfforaethol y sefydliad. Am yr 11 mis cyn mis Chwefror ac yn ystod mis Chwefror, cyfarfu'r Tîm Gweithredol Busnes yn unol â'r amserlen.

Mae'r ymateb i COVID-19 wedi golygu bod angen gweithgarwch cydgysylltu ac adnoddau yn ychwanegol at y rhai a ddarperir gan gapasiti gweithredol arferol. Ar 25 Chwefror, sefydlwyd strwythur y drefn reoli Aur a symudwyd adnoddau yn y sefydliad i ymateb i COVID-19 fel ei unig flaenoriaeth. Y Grŵp Aur sy'n gyfrifol am reoli'r digwyddiad, sef COVID-19. Rhoddodd y Tîm Gweithredol Busnes y gorau i gwrdd ar y sail bod yr holl adnodd sefydliadol yn cael ei ddargyfeirio i reoli'r digwyddiad. Gan hynny, daeth Aur i fod y swyddogaeth ar gyfer arwain y digwyddiad gyda'r Prif Weithredwr a'r tri Chyfarwyddwr Strategol yn arwain y digwyddiad (y maent i gyd yn aelodau o'r Bwrdd Gweithredol a hwythau'n cael eu cefnogi gan dri Chyfarwyddwr Digwyddiad), ac aelodau ychwanegol o'r Tîm Gweithredol yn mynychu at ddiben arwain rhaglenni dynodedig o waith. Mae cyfarfodydd wythnosol ychwanegol i roi cyfle i aelodau'r Weithrediaeth roi eu pennau ynghyd wedi parhau.

Ceir crynodeb o'r strwythur isod:




Mae aelodau o'r Tîm Gweithredol yn chwarae rhan weithredol yn y trefniadau rheoli Digwyddiad gyda'r amodau gorchwyl ar gyfer y grŵp Aur wedi'u diwygio i adlewyrchu'r Grŵp Aur fel y cyfrwng ar gyfer prosesau penderfynu corfforaethol perthnasol.

O fis Mehefin 2020, bydd y Tîm Gweithredol Busnes yn cael ei ailgynnull wrth i'r digwyddiad symud i'r cyfnod nesaf a bydd yn cefnogi'r Grŵp Aur o safbwynt strategol. Y Grŵp Aur fydd yn dal i oruchwylio'r digwyddiad a bydd yn adrodd wrth y Tîm Gweithredol Busnes.

## 2.3 Gwelliannau i'r Fframwaith Llywodraethu

Yn ystod y flwyddyn, mae gwaith wedi bod yn mynd rhagddo i gryfhau fframwaith llywodraethu'r sefydliad ymhellach a phrofi ei gadernid. Roedd hyn yn cynnwys y prif feysydd canlynol:

### 2.3.1 Adolygu'r Rheolau Sefydlog

Ar 13 Medi 2019, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru Reolau Sefydlog Enghreifftiol diwygiedig, y gofynnwyd inni eu hymgorffori a'u mabwysiadu erbyn 30 Tachwedd 2019. Rydym wedi mabwysiadu'r Rheolau Sefydlog a'r drefn Cadw a Dirprwyo Pwerau ar gyfer rheoleiddio trafodion a busnes[1]. Maent yn seiliedig ar Reolau Sefydlog Enghreifftiol sydd wedi'u bwriadu ar gyfer GIG Cymru a'r disgwyliad yw y bydd y sefydliad yn ymlynu wrth y rhain oni bai bod angen gwirioneddol i wyro oddi wrthynt. Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi crynodeb o'r newidiadau a wnaed a chyfarwyddiadau ar adrannau a allai fod yn rhai i benderfynu arnynt yn lleol a'r rhai sy'n ddarostyngedig i Gyfarwyddyd Gweinidogol neu sy'n ofyniad deddfwriaethol.

Mae'r Rheolau Sefydlog wedi'u bwriadu i drosi'r gofynion statudol a nodir yn *Rheoliadau Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru (Aelodaeth a Gweithdrefnau) 2009* (fel y'u diwygiwyd) yn arfer gweithredol o ddydd i ddydd. Ynghyd â mabwysiadu cynllun penderfyniadau a gadwyd ar gyfer y Bwrdd, cynllun dirprwyo i swyddogion ac eraill, a Chyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog, maent yn darparu'r fframwaith rheoleiddiol ar gyfer cynnal busnes y sefydliad. Mae'r dogfennau hyn, ynghyd â'r ystod o bolisïau corfforaethol a bennwyd gan y Bwrdd, yn cyfrannu at y Fframwaith Llywodraethu.

Mae'r rhain ar gael ar y wefan: (https://phw.nhs.wales/about-us/policies-and-procedures/policies-and-procedures-documents/corporate-governance-communications-and-finance-policies/)

### 2.3.2 Cynllun Dirprwyo

I gynorthwyo'r Bwrdd i gyflawni ei ystod lawn o gyfrifoldebau strategol a bod ag amser a lle i ganolbwyntio ar faterion yn y dyfodol, adolygwyd y cynllun dirprwyo, a phenderfynodd y Bwrdd ddatblygu cynllun uwchgyfeirio (ac isgyfeirio) i wella sicrwydd y prosesau penderfynu priodol i gyflawni ei ddeilliannau ar lefel gorfforaethol yn y ffordd orau. Mae'r cynllun dirprwyon cynorthwyo'r Bwrdd i fod â hyder a chymryd sicrwydd bod busnes y sefydliad yn cael ei ddirprwyo'n effeithiol i'w Bwyllgorau a/neu grwpiau ymgynghorol, ei Brif Weithredwr a'i Dîm Gweithredol neu i bartïon perthnasol eraill.

Cytunodd y Bwrdd mai ei weledigaeth ar gyfer y fframwaith hwn oedd:

*'Bydd ein ffordd o weithio'n sicrhau bod y penderfyniadau iawn yn cael eu gwneud ar yr adeg iawn gan y bobl iawn am y rhesymau iawn'.*

Bydd gwaith datblygu pellach yn parhau yn 2020/21 ar y Cynllun Dirprwyo a bydd yn ystyried unrhyw newidiadau a wneir i'r Cynllun Dirprwyo Enghreifftiol sy'n cael ei adolygu gan Lywodraeth Cymru ar hyn o bryd.

### 2.3.3 Datblygu'r Gofrestr Risgiau Strategol a Chyfundrefn ehangach Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd

Mae'r Gofrestr Risgiau Strategol yn darparu risgiau wedi'u hadnabod a'u dadansoddi'n glir ac yna sicrwydd ynghylch rheoli'r risgiau hynny ar gyfer y tîm Gweithredol.

Tanategir y Gofrestr Risgiau Strategol gan y saith blaenoriaeth strategol a nodir yn y Cynllun Strategol (Cynllun Tymor Canolig Integredig), ac fe'i cefnogir gan brosesau rheoli risgiau cadarn. Y Bwrdd sy'n gyfrifol am bennu'r parodrwydd i dderbyn risgiau strategol ac am sicrhau bod strategaeth rheoli risgiau briodol yn ei lle. Mae gan y Gofrestr Risgiau Strategol rôl allweddol o ran rhoi sicrwydd i'r Bwrdd a rhoi cymorth i oruchwylio risgiau strategol.

Mae'r Gofrestr Risgiau Strategol yn alinio risgiau strategol, rheolaethau allweddol, y parodrwydd i dderbyn risgiau a sicrwydd ynghylch rheolaethau ochr yn ochr â phob blaenoriaeth. Nodir bylchau lle mae rheolaethau allweddol yn annigonol i liniaru'r risg o beidio â chyflawni amcanion. Mae hyn yn galluogi'r Bwrdd i graffu ar gynlluniau gweithredu sydd wedi'u bwriadu i gau'r bwlch a'u monitro.

[1] Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi mabwysiadu'r Rheolau Sefydlog enghreifftiol yn llawn, gydag un diwygiad i Adran 6.4.3: newid cylchrediad yr agenda a phapurau ategol i aelodau'r Bwrdd/Pwyllgorau o 10 i 7 diwrnod calendr cyn cyfarfod.

Yn ystod 2019/20, mae'r Gofrestr Risgiau Strategol wedi cael ei diwygio a'i datblygu i ddarparu lefel gryfach a mwy cadarn o sicrwydd ar gyfer y Bwrdd, Pwyllgorau'r Bwrdd a'r Tîm Gweithredol.

Mae'r datblygiad hwn yn rhoi mwy o ddealltwriaeth i'r Bwrdd am ansawdd y sicrwydd ym mhob maes risg ac yn helpu i asesu ansawdd a dibynadwyedd rheolaethau'n well. Bydd y dull newydd yn llywio ein hagendâu'n fwy agored ac yn darparu golwg fwy eglur ar yr hyn y dylai'r Pwyllgorau, y Bwrdd a fforymau eraill fod yn canolbwyntio arno o ran cael sicrwydd a goruchwylio risgiau strategol.

### 2.3.4 Adolygu Amodau Gorchwyl Pwyllgorau'r Bwrdd

Mae amodau gorchwyl Pwyllgorau wedi cael eu hadolygu eleni a chytunodd y Bwrdd ar fân newidiadau ym mis Tachwedd 2019. Cafodd Amodau Gorchwyl y Pwyllgor Gwybodaeth ac Ymchwil eu hadolygu ym mis Medi 2019. Mae papurau sy'n ymwneud â'r newidiadau hyn ar gael ar ein gwefan.

### 2.3.5 Cylch Perfformiad ac Effeithiolrwydd

Mae'r Bwrdd yn datblygu model i ddwyn ynghyd yr holl elfennau o'r adolygiad o berfformiad ac effeithiolrwydd mewn cylch blynyddol. Mae'r elfennau canlynol o'r cylch wedi bod yn eu lle eleni:

#### a) Sicrwydd Allanol a Mewnol i'r Bwrdd

Yn ystod y flwyddyn rydym wedi cynnal neu gymryd rhan mewn nifer o asesiadau sy'n darparu ffynonellau sicrwydd mewnol ac allanol i gynorthwyo'r Bwrdd i gynnal ei asesiad effeithiolrwydd blynyddol, a chaiff y prif adolygiadau sy'n ymwneud â'r Bwrdd eu nodi isod.

- Mae Archwilio Cymru wedi cwblhau'r **Adolygiad Asesu Strwythuredig yn 2019/20**, sy'n canolbwyntio ar drefniadau corfforaethol, gan gynnwys y trefniadau llywodraethu, ar gyfer sicrhau bod adnoddau'n cael eu defnyddio'n effeithlon, yn effeithiol ac yn ddarbodus. Casgliad yr asesiad hwn ar y cyfan oedd bod yr Ymddiriedolaeth yn cael ei harwain yn dda a'i llywodraethu'n dda ar y cyfan a bod y Bwrdd yn parhau i weithredu'n effeithiol, a cheisio cyfleoedd i wella.
- Mae'r tîm Archwilio Mewnol wedi cynnal adolygiad o **'Swyddogaethau'r Bwrdd a Phwyllgorau'** fel rhan o'i gynllun gwaith ar gyfer 2019/20. Amcan yr adolygiad ar y cyfan oedd gwerthuso a phennu digonolrwydd y systemau a'r rheolaethau sydd yn eu lle mewn perthynas â dau o'n Pwyllgorau. Cyflwynwyd yr adolygiad hwn i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu Corfforaethol ym mis Mai 2020, a 'sylweddol' oedd y sgôr archwilio a roddwyd ganddo.
- Rydym wedi cwblhau'r **"Hunanasesiad Cymru Gyfan o Drefniadau Llywodraethu Ansawdd Cyfredol" gan Lywodraeth Cymru** ar gais y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol. *(Darperir rhagor o wybodaeth yn adran 2.2.4 o'r adroddiad hwn)*
- Rydym wedi cwblhau asesiad yn erbyn Llywodraethu Corfforaethol yn Adrannau'r Llywodraeth Ganolog: **Cod Arfer Da 2017**. Defnyddiwyd y dull "Cydymffurfio" neu "Egluro" mewn perthynas â'r Cod Arfer Da. Cyflwynwyd hwn i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu Corfforaethol ym mis Mawrth 2020 a gymerodd **sicrwydd** ynghylch ein cydymffurfiaeth â Llywodraethu Corfforaethol yn Adrannau'r Llywodraeth Ganolog – Cod Ymarfer 2017. *(Darperir rhagor o wybodaeth yn adran 9.10 o'r adroddiad hwn)*

#### b) Effeithiolrwydd Pwyllgorau'r Bwrdd

Mae rhaglen yn ei lle i sicrhau bod Pwyllgorau'r Bwrdd yn adolygu'r gweithgarwch canlynol ar gyfer pob Pwyllgor:

- Amodau Gorchwyl a Threfniadau Gweithredu
- Holiadur Effeithiolrwydd Pwyllgorau
- Adroddiad Blynyddol Pwyllgorau ar Weithgarwch i'r Bwrdd
- Adolygiad Pwyllgor o effeithiolrwydd gan gynnwys adolygiad o'r Gweithdai a holiadur Effeithiolrwydd Pwyllgorau; *(rhagor o wybodaeth isod)*
- Sesiwn adborth ar ddiwedd pob cyfarfod.

Rhwng mis Ionawr a mis Awst 2019, cwblhawyd holiadur ar-lein gan aelodau o'r Pwyllgorau Archwilio a Llywodraethu Corfforaethol, Pobl a Datblygiad Sefydliadol ac Ansawdd, Diogelwch a Gwella. Roedd y cwestiynau'n seiliedig yn bennaf ar y cwestiynau hunanasesu awgrymedig yn y Llawlyfr Pwyllgorau Archwilio (2012) ac wedi'u haddasu ar gyfer pob Pwyllgor. Cafodd canlyniadau'r priod holiaduron eu bwydo i mewn i dri gweithdy ar gyfer Pwyllgorau a gynhaliwyd rhwng mis Mai a mis Awst 2019. Roedd y fformat ar gyfer pob un yr un fath ac yn cynnwys:

- y cyd-destun y mae'r pwyllgor yn gweithredu ynddo
- adolygiad o'n gwaith

- gweledigaeth a'r cyfeiriad ar gyfer y dyfodol
- y cynllun gweithredu cysylltiedig
- camau nesaf a chasgliadau.

Ym mis Gorffennaf 2018, cytunodd y Bwrdd ar strwythur Pwyllgorau newydd ac amodau gorchwyl diwygiedig ar gyfer pob Pwyllgor. Oherwydd hyn, sefydlwyd y Pwyllgor Gwybodaeth ac Ymchwil, gyda'r cyfarfod cyntaf yn cael ei gynnal ym mis Ebrill 2019. Fel Pwyllgor newydd, penderfynwyd beidio â gofyn i'r Pwyllgor Gwybodaeth ac Ymchwil gynnal hunanasesiad nac adolygiad o effeithiolrwydd, er bod hyn i fod i ddigwydd y flwyddyn nesaf. Fodd bynnag, mae unrhyw ganfyddiadau perthnasol o'r adolygiad mewnol hwn yn cael eu cymhwyso i'r Pwyllgor newydd lle y bo'n briodol.

Cafodd y trafodaethau o bob gweithdy eu datblygu'n gynllun gweithredu i gofnodi'r themâu cyffredin ar draws Pwyllgorau yn ogystal â chamau gweithredu ar gyfer Pwyllgorau penodol (ac eithrio'r Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol a Thelerau Gwasanaeth).

Roedd themâu cyffredin a ddeilliodd o'r drafodaeth yn cynnwys:

- sicrhau bod cysylltiad eglur rhwng yr agenda a'r Gofrestr Risgiau Strategol a'r Gofrestr Risgiau Corfforaethol.
- gwella'r ymgysylltu gweithredol gan holl fynychwyr y Pwyllgorau.
- mynd ati ymhellach i hybu ein diwylliant o fod yn agored ac yn dryloyw.
- sicrhau cysondeb o ran aelodaeth a phresenoldeb.
- adolygu rôl Pwyllgorau i graffu ar berfformiad.
- creu rhagor o amser ar gyfer adolygu a myfyrio parhaus.
- egluro rolau a chyfrifoldebau ar gyfer pawb sy'n mynychu cyfarfodydd Pwyllgorau.
- egluro trefniadau dirprwyo ac uwchgyfeirio yn enwedig mewn meysydd lle ceir gorgyffwrdd â Phwyllgorau eraill.

### c) Meini Prawf Bwrdd Uchel Ei Berfformiad

Yn sesiwn Datblygu'r Bwrdd ym mis Chwefror 2020, bu aelodau'r Bwrdd yn ystyried datblygiad model Bwrdd Uchel Ei Berfformiad.

Bydd datblygiadau yn y dyfodol o ran y model Bwrdd Uchel Ei Berfformiad yn cynnwys y Bwrdd yn cynnal hunanasesiad o'i berfformiad ei hun, sesiwn ddatblygu a hwylusir yn allanol i adolygu canlyniad yr ymarfer hunanasesu a datblygu rhaglen datblygu'r Bwrdd flynyddol i ddiwallu anghenion tirwedd sy'n esblygu drwy'r amser. Yn sgîl y gwaith parhaus sy'n gysylltiedig â'r ymateb i COVID-19, bydd y gwaith hwn yn cael ei gwblhau'n hwyrach yn 2020/21.

### d) Arfarniad y Cadeirydd gyda'r Gweinidog

Mae Cadeirydd y Bwrdd yn cynnal arfarniad Blynyddol gyda'r Gweinidog, gan gynnwys pennu amcanion ar ddechrau'r flwyddyn, adolygiad canol blwyddyn o berfformiad yn erbyn yr amcanion hyn, ac arfarniad diwedd blwyddyn o berfformiad yn ystod y flwyddyn.

### e) Adolygiad Cadeirydd Iechyd Cyhoeddus Cymru dan arweiniad yr Is-gadeirydd

Rhwng mis Ebrill a mis Mehefin 2019, cynhaliwyd adolygiad mewnol o berfformiad y Cadeirydd gan yr Is-gadeirydd. Sefydlwyd y broses hon yn 2019 a bydd yn cael ei hailadrodd yn flynyddol. Mae'n rhoi cyfle ar gyfer arfarniad effeithiol o'r Cadeirydd ar lefel y Bwrdd a'r Weithrediaeth ac mae'n ychwanegol at yr adolygiad a gynhelir gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol.

### f) Arfarniad y Prif Weithredwr

Mae'r Prif Weithredwr yn cynnal arfarniad Blynyddol gyda Chadeirydd y Bwrdd, gan gynnwys pennu amcanion ar ddechrau'r flwyddyn, Adolygiad canol blwyddyn o berfformiad yn erbyn yr amcanion hyn, ac arfarniad diwedd blwyddyn o berfformiad yn ystod y flwyddyn. Mae gan y Prif Weithredwr hefyd adolygiad diwedd blwyddyn gyda'r Cadeirydd a'r Cyfarwyddwr Cyffredinol Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a Phrif Weithredwr GIG Cymru sy'n gyson â'r dynodiad fel Swyddog Atebol.

### g) Arfarniad Cyfarwyddwyr Anweithredol gyda Chadeirydd a Bwrdd ac arfarniadau'r Tîm Gweithredol gyda'r Prif Weithredwr

Mae Cadeirydd y Bwrdd yn cynnal adolygiad chwemisol o berfformiad a datblygiad personol Cyfarwyddwyr Anweithredol. Mae'r Prif Weithredwr yn gwneud yr un modd gyda'r Tîm Gweithredol. Mae'r broses arfarnu ar gyfer y ddau grŵp yn cynnwys pennu amcanion, adolygiad canol blwyddyn ac adolygiad diwedd blwyddyn. Mae'r Cadeirydd hefyd yn cwrdd â phob Cyfarwyddwr Gweithredol i drafod eu rôl fel aelod o'r Bwrdd yn flynyddol.


### 2.3.6 Strwythur y Tîm Gweithredol a'r Cyfarwyddiaethau

Mae'r Tîm Gweithredol yn cynnwys y Prif Weithredwr a Chyfarwyddwyr (y mae rhai ohonynt yn Gyfarwyddwyr Gweithredol) ac mae ganddo gyfrifoldeb am arweinyddiaeth a rheolaeth weithredol ar y sefydliad. Mae Ffigur 2 yn dangos Strwythur y Tîm Gweithredol a'r Cyfarwyddiaethau a oedd ar waith yn ystod 2019/20.

Mae craffu ar berfformiad ariannol, ansawdd a rheoli risg, gwybodaeth am y gweithlu a chyflawni yn erbyn cynlluniau strategol a gweithredol y sefydliad yn digwydd yng nghyfarfodydd y Bwrdd, Pwyllgorau'r Bwrdd, a chyfarfodydd y Tîm Gweithredol ac yng nghyfarfodydd amryw dimau gweithredol ar draws y sefydliad.

Newidiodd ffurf cyfarfodydd y Tîm Gweithredol ym mis Mawrth 2020 o ganlyniad i bandemig COVID-19; gweler adran 2.1 (Effaith COVID-19) am ragor o fanylion.

**Ffigur 2: Strwythur y Tîm Gweithredol a'r Cyfarwyddiaethau a oedd ar waith o 1 Ebrill 2019**



### 2.3.7 Sesiynau Datblygu'r Bwrdd

Mae'r Bwrdd wedi ystyried ei effeithiolrwydd a'i ddatblygiad parhaus drwy gydol 2019/20. Yn ystod y flwyddyn, cynhaliodd y Bwrdd nifer o sesiynau datblygu, ac roedd y testunau'n cynnwys y canlynol.

#### a) Gwerth, Effaith a Mesur

Cynhaliodd y Bwrdd sesiwn a oedd yn darparu trosolwg o'r gwaith i ffocysu'r sefydliad ar gyflawni deilliannau gwell i bobl Cymru a bu'n trafod sut y mae gan y Bwrdd rôl allweddol o ran goruchwylio'r broses o gyflawni'r strategaeth.

#### b) Mesurau Deilliannau

Yn y sesiwn hon cafodd y Bwrdd ddiweddariad ar y gwaith i ddatblygu deilliannau allweddol, y dull a fabwysiadwyd a'r cynnydd a wnaed hyd yma a rhoddodd ystyriaeth i fabwysiadu tri 'uchelgais ar lefel system' i ganlyn arni â hwy yn erbyn y strategaeth tymor hir.

Roedd y sesiwn yn gyfle i'r Bwrdd ystyried fframwaith, sydd wedi llunio'r dull o gyflawni'r gwaith wrth edrych tua'r dyfodol.

#### c) Iechyd Cyhoeddus Cymru – Sefydliad sy'n Dysgu

Cynhaliodd y Bwrdd sesiwn i fyfyrio ar ganfyddiadau'r *'Adolygiad o drefniadau llywodraethu ansawdd ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg'* (Tachwedd 2020) a beth mae hyn yn ei olygu i ni o ran parhau â'n taith fel sefydliad sy'n dysgu ac yn gwella.

Bu'r Bwrdd yn myfyrio ynghylch y canlynol:

- y themâu lefel uchel o'r argymhellion sy'n deillio o'r adroddiad a sut y gallent fod yn berthnasol i ni
- mathau o sicrwydd sydd gennym ar hyn o bryd
- diffiniad o sefydliad sy'n dysgu a deall sut y gellir cymhwyso hynny yng nghyd-destun iechyd y cyhoedd
- sefydliad / Bwrdd uchel ei berfformiad.

Bu'r Bwrdd yn ystyried trosolwg o fethodoleg gwella ansawdd, rhai astudiaethau achos a chynnig i symud y gwaith yn ei flaen o fewn Iechyd Cyhoeddus Cymru.

#### d) Rheoli ar gyfer Ansawdd

Yn y sesiwn hon, bu'r Bwrdd yn trafod sut y gallai dulliau o reoli ar gyfer ansawdd ein cynorthwyo i barhau ar ein siwrne fel sefydliad uchel ei berfformiad ac mewn ymateb i'r Bil Ansawdd ac Ymgysylltu (Cymru) sy'n dod i'r amlwg a Chynllun Ansawdd a Diogelwch Llywodraeth Cymru.

#### e) Tueddiadau o ran Marwolaethau a Disgwyliad Oes

Roedd y sesiwn hon yn cynnwys cyflwyniad a oedd yn nodi'r sefyllfa sy'n dirywio mewn perthynas â thueddiadau o ran marwolaethau a disgwyliad oes yng Nghymru; gan gynnwys y newidiadau sylweddol mewn tueddiadau o ran marwolaethau a disgwyliad oes yng Nghymru ac yn rhyngwladol ers 2010/11, ein sylfaen wybodaeth a bylchau, a gwersi o Wledydd eraill.

Cytunodd y Bwrdd fod angen gwaith pellach, a hwnnw wedi'i ategu gan ddata cyflym, deinamig a hygyrch a set glir o gwestiynau ymchwil.

#### f) Rhaglenni Sgrinio Seiliedig ar y Boblogaeth yng Nghymru

Roedd y sesiwn yn cynnwys cyflwyniad ar 'Gwrs bywyd rhaglen sgrinio seiliedig ar y boblogaeth i leihau baich clefydau' ac yna sesiwn benodol a oedd yn canolbwyntio ar 'Wella'r niferoedd sy'n cael profion sgrinio am Ganser y Coluddyn a lleihau anghydraddoldebau o fewn hynny'.

Bu'r Bwrdd yn ystyried sut y gallem leihau ymhellach yr anghydraddoldeb o ran y rhai sy'n cael y profion sgrinio. Roedd cefnogaeth gref i ddull seiliedig ar risg o flaenoriaethu adnoddau i leihau'r anghydraddoldeb o ran manteisio ar raglenni sgrinio. Roedd y Bwrdd yn cefnogi hyn yn gryf, gan gydnabod yr angen am drafodaethau gyda Llywodraeth Cymru mewn perthynas â'r effaith ar y system dangosyddion perfformiad a mesur perfformiad ar hyn o bryd.

#### g) Newid Ymddygiad

Yn y sesiwn hon cyflwynwyd y gwaith parhaus i integreiddio gwyddor ymddygiadol fel rhan o waith y sefydliad drwy:

- egluro pwysigrwydd gwyddor ymddygiadol ac ymyriadau ymddygiadol mewn ymarfer ym maes iechyd y cyhoedd
- rhannu'r modd y datblygwyd ac y gweithredwyd ein dull dadansoddi ymddygiadol o fewn y Rhaglen 10 Cam i Bwysau Iach.

#### h) Diogelu a Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015

Darparodd y sesiwn hon ddiweddariad ar gyfer y Bwrdd ar eu rolau a'u cyfrifoldebau o ran sicrhau eu bod yn mynd ati'n effeithiol i gyflawni eu dyletswyddau Diogelu a'u dyletswyddau deddfwriaethol dan y Ddeddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol.

## 2.4 Materion allweddol a ystyriwyd gan y Bwrdd

Yn ystod y flwyddyn, mae'r Bwrdd wedi ystyried nifer o faterion allweddol ac wedi gweithredu lle'r oedd yn briodol, a cheir crynodeb o'r rhain isod:

### 2.4.1 Adroddiadau at Wraidd y Mater

Mae'r Bwrdd wedi cwblhau nifer o adroddiadau at wraidd y mater, gan amcanu at ddarparu golwg fanwl ar feysydd penodol yn y sefydliad:

#### a) Recriwtio

Cafodd y Bwrdd adroddiad at wraidd y mater ar Recriwtio, a oedd yn nodi'r cysylltiadau hanfodol rhwng recriwtio a chyflawni ein Strategaeth Tymor Hir, ein Strategaeth Pobl a Chynllun y Gweithlu. Bu'r Bwrdd yn myfyrio ar y gwaith a oedd ar y gweill, a oedd yn tanategu'r Cynllun Strategol a'r Strategaeth Pobl a cheisiodd sicrwydd ynghylch y gweithgarwch recriwtio gofynnol yn chwarter cyntaf 2020-21 fel elfen hollbwysig i'w gwneud yn bosibl cyflawni'r cynllun gweithredol.

Bu'r Bwrdd yn ystyried ac yn trafod yr angen i ddatblygu yn y meysydd canlynol.

- dull strategol ar lefel ryngwladol, ac effaith yr ansicrwydd ynghylch safbwynt y DU ar fewnfudo ar ymdrechion recriwtio Ewropeaidd / rhyngwladol
- yr angen i gryfhau cysylltiadau â sefydliadau addysg, gan nodi'r buddsoddiad yn y cynllun i raddedigion
- sefydlu cysylltiadau â marchnadoedd newydd ar gyfer recriwtio, yn ogystal â sicrhau bod Iechyd Cyhoeddus Cymru'n cadw'r rhai sy'n hyfforddi yng Nghymru.

#### b) Blaenoriaeth Strategol 3 – Hybu Ymddygiadau Iach

Nododd y Bwrdd gymhlethdod y pwnc yma, a bod cyflawni'n ddibynnol, i raddau helaeth, ar weithio mewn partneriaeth gydag eraill. Roedd rôl arweinyddiaeth system Iechyd Cyhoeddus Cymru'n golygu eiriolaeth, gan gynnwys darparu tystiolaeth gref ac ystyrlon.

Bu'r Bwrdd yn myfyrio ynghylch sut yr oedd llwyddiant yn edrych i Iechyd Cyhoeddus Cymru, gan gyfeirio at y potensial ar gyfer y system fesur. Amlygwyd yr angen am ddull creadigol o fynd ati i recriwtio, gweithio yn y ffordd orau bosibl â'r byd academaidd a dull rhagweithiol lle'r oedd gwyddor data ac ymchwil yn y cwestiwn.

### 2.4.2 Strategaeth Pobl 2020-2030

Cyfrannodd y Bwrdd at ddatblygu Strategaeth Pobl y sefydliad ar adeg gynnar, gyda'r trafodaethau'n canolbwyntio ar ragamcanu deilliannau 2030 yn erbyn pob un o'r themâu strategol drafft a'r camau gweithredu strategol y mae eu hangen i gyflawni yn erbyn y deilliannau hynny. Roedd hwn yn ddarn o waith sylweddol a arweiniwyd gan y Tîm Gweithredol a'r tîm Pobl a Datblygu Sefydliadol, ar y cyd â thimau o bob rhan o'r sefydliad.

Cymeradwyodd y bwrdd y Strategaeth Pobl ar 23 Ionawr ar ôl i'r Pwyllgor Pobl a Datblygu Sefydliadol ei hystyried yn ei gyfarfod ar 2 Hydref 2019.

### 2.4.3 Cymeradwyo'r Cynllun Strategol ar gyfer 2020-23

Cymeradwyodd y Bwrdd Gynllun Strategol 2020-2023 (Cynllun Tymor Canolig Integredig) diwygiedig a diweddaredig a oedd yn nodi'r rolau, risgiau a chanlyniadau allweddol ac yn darparu mwy o atebolrwydd yn erbyn uchelgeisiau sefydliadol. Mae'r cynllun strategol yn rhoi cymorth i gyflawni'r Strategaeth Tymor Hir 2018-2030 *'Gweithio i gyflawni dyfodol gwell i Gymru'*, ac yn darparu gwybodaeth am y modd y bydd ein cynlluniau tymor canolig yn cyfrannu at ein nodau tymor hir.

### 2.4.4 Hunanasesu – Trefniadau Llywodraethu Ansawdd

Yn dilyn cyhoeddi adroddiad Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru ac Archwilio Cymru a oedd yn dwyn y teitl *'Adolygiad o drefniadau llywodraethu ansawdd ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg'* (Tachwedd 2020), gofynnodd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i bob Bwrdd Iechyd a phob un o Ymddiriedolaethau'r GIG yng Nghymru asesu eu hunain yn erbyn yr argymhellion a darparu cynlluniau ar gyfer adolygu trefniadau yn y dyfodol a/neu gam gweithredu angenrheidiol i'w gymryd.

Cafodd yr hunanasesiad ei lywio gan ystod o ffynonellau gwybodaeth gorfforaethol, gan gynnwys canfyddiadau adroddiadau archwilio mewnol a thystiolaeth o ganfyddiadau Asesiad Strwythuredig Archwilio Cymru yn 2019, ynghyd â ffynonellau sicrwydd eraill a allai gefnogi'r asesiad megis adolygiadau mewnol neu allanol. Roedd barn broffesiynol yn rhan o'r broses asesu hefyd.

Rhoddodd y Bwrdd ystyriaeth i'r adroddiad Hunanasesiad o Drefniadau Llywodraethu Ansawdd Cyfredol, a myfyriodd ynghylch ei gyfraniad sylweddol i'r adroddiad hunanasesu a gyflwynwyd i Lywodraeth Cymru ym mis Ionawr 2020.

Nododd y Bwrdd y byddai'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu Corfforaethol, a'r Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Gwella'n bwrw ymlaen â threfniadau monitro parhaus.

### 2.4.5 Diweddariad ar dwbercwlosis a chytuno ar fframwaith Uwchgyfeirio

Cafodd y Bwrdd ddiweddariadau rheolaidd ar yr Achos o Dwbercwlosis yn Llwynhendy, a oedd yn cynnwys y trefniadau llywodraethu a sicrwydd a oedd yn eu lle, y fframwaith uwchgyfeirio diwygiedig ar gyfer achosion, cyfathrebu a'r broses fewnol o fyfyrio a dysgu. Ar gais y Prif Weithredwr, cynhaliwyd adolygiad mewnol cyflym o'r achos gan y Cyfarwyddwr Gweithredol Gwasanaethau Iechyd y Cyhoedd, gyda chymorth Cyfarwyddwr Anweithredol. Wedyn dewisodd y Weithrediaeth a'r Bwrdd gomisiynu adolygiad allanol o'r achos a gwnaethant hynny mewn cytundeb â Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda, a oedd yn gyfrifol am yr agweddau clinigol ar y llwybr gofal. Mae'r aelodau o'r panel ar gyfer yr adolygiad wedi cael eu penodi a bu oedi cyn parhau â'r adolygiad oherwydd pandemig COVID-19 a bydd yn cael ei gwblhau cyn gynted â'i bod yn rhesymol ymarferol. Mae'r ymateb i'r achos wedi parhau.

### 2.4.6 Amcanion Cydraddoldeb Strategol

Rhoddodd y Bwrdd ystyriaeth i'r Amcanion Cydraddoldeb Strategol ym mis Gorffennaf 2019 gan gyfrannu cyn i'r amcanion gael eu cyhoeddi ar gyfer ymgynghori â'r cyhoedd.

Yn dilyn ymgynghori, cafodd yr amcanion eu hystyried gan y Pwyllgor Pobl a Datblygu Sefydliadol ym mis Chwefror 2020, a byddant yn cael eu hystyried gan y Bwrdd maes o law.

### 2.4.7 Creu Cymru Iachach

I ymateb i'r heriau a'r cyfleoedd sy'n wynebu ein poblogaeth yng Nghymru, datblygwyd cynnig yn 2019 i ysgogi camau gweithredu ar draws y sectorau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol, yn seiliedig ar flaenoriaethau seiliedig-ar-dystiolaeth i greu newid a reolir i weithgarwch atal a thrawsnewid deilliannau iechyd yng Nghymru.

Y cynnig, y cyfeirir ato fel *Creu Cymru Iachach, yw'r elfen atal o Cymru Iachach – ein cynllun ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol.*

Cafodd hwn ei gymeradwyo gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn ystod 2019 a sefydlwyd Grŵp Cydlynu Strategol i lywio'r camau gweithredu sy'n ofynnol i roi'r blaenoriaethau yn Creu Cymru Iachach ar waith. Mae'r blaenoriaethau hyn yn rhychwantu ehangder yr effaith fwyaf i drawsnewid iechyd a llesiant yng Nghymru drwy ffocws ar atal ac ymyrryd yn gynnar. Y blaenoriaethau yw:

1. mynd i'r afael â'r penderfynyddion ehangach
2. sicrhau'r dechrau gorau mewn bywyd: optimeiddio ein blynyddoedd cynnar
3. galluogi ymddygiadau iach
4. lleihau i'r eithaf effaith ffactorau risg clinigol a baich clefydau
5. galluogi trawsnewid.

Bu oedi gyda'r gwaith Creu Cymru Iachach oherwydd yr ymateb system-gyfan i COVID-19 a bydd yn cael ei ailgynnull cyn gynted ag y bo'n ymarferol.

Cafodd y Bwrdd nifer o ddiweddariadau drwy gydol y flwyddyn am Creu Cymru Iachach gan gydnabod rôl y sefydliad fel arweinydd system yn y gwaith hwn.

Myfyriodd y Bwrdd hefyd ar yr ymgysylltiad â Cymru Well Wales a llwyddiant cynnar sicrhau buddsoddiad ar gyfer atal a'r blynyddoedd cynnar.

### 2.4.8 Gweithio mewn Partneriaeth

Mae'r Bwrdd wedi cynnal nifer o gyflwyniadau a thrafodaethau a oedd yn ymwneud â phartneriaethau strategol gan gynnwys:

#### a) Chwaraeon Cymru

Ymunodd Cadeirydd a Phrif Weithredwr Chwaraeon Cymru â'r Bwrdd a buont yn trafod yr aliniad rhwng strategaethau Chwaraeon Cymru ac Iechyd Cyhoeddus Cymru, sy'n adlewyrchu agenda Cenedlaethau'r Dyfodol i wella llesiant corfforol a meddyliol y boblogaeth. Yn ystod y drafodaeth pwysleisiwyd pwysigrwydd y bartneriaeth gyda Chwaraeon Cymru (a Cyfoeth Naturiol Cymru) a rôl y bartneriaeth o ran cyflawni agweddau arwyddocaol ar ein strategaeth.

### b) Y Comisiynydd Pobl Hŷn

Ymunodd y Comisiynydd Pobl Hŷn â'r Bwrdd i drafod meysydd gydag Iechyd Cyhoeddus Cymru y mae gan y ddau ohonynt fuddiant ynddynt, gan gynnwys alinio'r agenda heneiddio'n dda â Blaenoriaeth Strategol Iechyd Cyhoeddus Cymru i ddylanwadu ar benderfynyddion ehangach iechyd.

Roedd pwyslais y drafodaeth ar ddathlu cyfraniad pobl hŷn i gymdeithas, yr angen am gynllunio seilwaith yn y tymor hir mewn ardaloedd trefol a gwledig, taro cydbwysedd rhwng yr angen i reoli gweithwyr proffesiynol ac asesiad arwyddol o risg, anghydraddoldebau rhwng y rhywiau mewn henaint a mesuriadau o hapusrwydd a bodlonrwydd mewn henaint.

### c) Heddlu De Cymru

Bu Prif Gwnstabl Heddlu De Cymru'n trafod y bartneriaeth a'r agenda cydweithio rhwng yr Heddlu ac Iechyd Cyhoeddus Cymru gyda'r Bwrdd, gan amlygu'r gwaith mewn partneriaeth dros Gymru gyfan, y manteision sy'n deillio o'r rhaglen Camau Cynnar Gyda'n Gilydd a'r cyfleoedd a gynigir gan waith a noddir gan y Swyddfa Gartref mewn perthynas ag atal a lleihau trais. Amlygwyd effeithiolrwydd y dull partneriaeth, yn enwedig o ran argyfyngau sifil, cydnerthedd lleol a'r paratoadau ar gyfer gadael yr Undeb Ewropeaidd.

### 2.4.9 Pontio o'r Undeb Ewropeaidd

Cyflawnodd Iechyd Cyhoeddus Cymru rôl arwyddocaol o ran cefnogi Llywodraeth Cymru, a'r system ehangach, mewn perthynas â goblygiadau posibl y broses o Bontio o'r Undeb Ewropeaidd.

Roedd hyn yn cynnwys cynnal Asesiad o'r Effaith ar Iechyd mewn perthynas â'r goblygiadau ar gyfer iechyd a llesiant yng Nghymru - y cafodd y cyntaf ohonynt ei gyhoeddi ym mis Ionawr 2019 gyda fersiwn ddilynol wedi'i diweddaru yn cael ei gyhoeddi ym mis Medi 2019. Yn yr un modd, rhoddwyd cymorth ac adnoddau uniongyrchol i Lywodraeth Cymru i alluogi'r trefniadau cyflym ar gyfer rheoli argyfyngau ledled y GIG a gofal cymdeithasol. Yn fewnol, sefydlodd y sefydliad drefniadau parhad busnes er mwyn lliniaru unrhyw effeithiau uniongyrchol o ganlyniad i adael yr Undeb Ewropeaidd ar swyddogaethau'r sefydliad.

Cafodd y Bwrdd ddiweddariad ar Bontio o'r Undeb Ewropeaidd ym mhob cyfarfod, ac yn sesiynau datblygu'r Bwrdd. Cynhaliodd y Bwrdd nifer o sesiynau i geisio sicrwydd mewn perthynas â pharodrwydd Iechyd Cyhoeddus Cymru a'r systemau iechyd a gofal cymdeithasol ehangach. Roedd hyn yn cynnwys trosolwg ar gyfer y Bwrdd ar y diweddariadau allweddol i'r Asesiad o Effaith Brexit ar Iechyd, ac ystyriwyd effeithiau strategol a gweithredol Brexit, yn enwedig senario 'Brexit heb gytundeb', ar ein cynlluniau a'n gwasanaethau. Defnyddiodd y Bwrdd y cyfleoedd strategol i lywio trafodaethau ynglŷn â sut i roi'r trawsnewid angenrheidiol ar waith.

### 2.4.10 Helpa Fi i Stopio

Cafodd y Bwrdd gyflwyniad ar y dull marchnata cymdeithasol cynyddol a ddefnyddir fel rhan o *Helpa Fi i Stopio*, a esboniodd sut y gallai hyn fod â pherthnasedd ehangach i ddefnyddio marchnata cymdeithasol cynyddol mewn meysydd eraill yn y sefydliad. Rhoddodd y Bwrdd ystyriaeth i'r gwaith adeiladol mewn partneriaeth gydag asiantaeth S3 sy'n defnyddio technegau marchnata er llesiant cymdeithas, y dull sy'n canolbwyntio ar gwsmeriaid a addaswyd i weddu i anghenion cwsmeriaid ac a ymatebodd i dueddiadau; trosglwyddo sgiliau ar draws y ddau sefydliad a'r aliniad â gweledigaeth Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol o ran marchnata cymdeithasol, technoleg ddigidol a data mawr.

### 2.4.11 Llysgenhadon Ifanc

Cafodd y Bwrdd ddiweddariadau rheolaidd gyda'n Llysgenhadon Ifanc a ychwanegodd werth gwych at drafodaeth y Bwrdd yn ogystal â digwyddiadau megis ein Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol. Gan weithio mewn partneriaeth, cafodd y rhaglen Llysgenhadon Ifanc ei lansio yn y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol ym mis Gorffennaf 2019. Yn ystod y flwyddyn, mae Llysgenhadon Ifanc a'r Bwrdd wedi cytuno ar raglen o waith ar gyfer y cyfnod o 2020/21 ymlaen, a fydd yn cynnwys presenoldeb rheolaidd yng nghyfarfodydd y Bwrdd gan ein Llysgenhadon Ifanc. Cytunwyd ar y cynllun newydd ym mis Chwefror 2020 a bydd yn cael ei roi ar waith yn 2020/21.

### 2.4.12 Coronafeirws Newydd (COVID-19)

Mae'r Bwrdd wedi bod yn ymgysylltu'n weithredol â'r datblygiadau o ran Coronafeirws Newydd (COVID-19) er yr achos yr adroddwyd arno yn Tsieina ym mis Rhagfyr 2019.

Yn ogystal â deall y sefyllfa fyd-eang a'r dirwedd newidiol yn Ewrop, y DU a Chymru, mae'r Bwrdd wedi cael a chraffu ar bapurau briffio cynhwysfawr ar y camau gweithredu a gymerwyd hyd yma mewn perthynas â'r achos.

Yn dilyn y datblygiadau ym mis Ionawr a mis Chwefror gydag achos wedi'i gadarnhau yn y DU ac yna yng Nghymru, parhaodd y Bwrdd i gael diweddariadau cynhwysfawr a threuliodd gryn dipyn o amser yn trafod y materion strategol i gefnogi ein hymateb. Yn un o gyfarfodydd y Bwrdd ym mis Chwefror, rhoddodd y Bwrdd gymeradwyaeth i symud adnoddau o fewn y sefydliad i ymateb i COVID-19.

Mae'r Bwrdd yn dal i gael diweddariadau rheolaidd ar y sefyllfa gynyddol gyda'r ymateb i COVID-19 ac mae'r Bwrdd ei hun wedi dilyn y canllawiau cenedlaethol gan gymryd mesurau i alluogi'r Bwrdd a Phwyllgorau i barhau i weithredu o bell, gydag agendâu llai yn canolbwyntio ar rolau statudol a sicrwydd craidd.

Roedd angen nifer o newidiadau i ffordd y Bwrdd o weithio a gaiff eu crynhoi isod:

- Cymerwyd Cam Gweithredu gan y Cadeirydd ar ran y Bwrdd i roi cymeradwyaeth i gynnal cyfarfod y Bwrdd ar 26 Mawrth drwy ddulliau electronig / teleffoni ac nid yng ngŵydd y cyhoedd
- Yn ei gyfarfod ym mis Mawrth 2020, cymeradwyodd y Bwrdd nifer o drefniadau llywodraethu interim a arweiniodd at amrywiadau i'r Rheolau Sefydlog a gofynion statudol eraill. Mae'r papurau ar gael ar y wefan yma. Nododd y Bwrdd hefyd y byddai'r achos yn tarfu ar gyflawni rhai o'n swyddogaethau statudol.

### 2.4.13 Sesiynau Preifat y Bwrdd

Cynhaliodd y Bwrdd Sesiwn Breifat gan y Bwrdd ar ddiwedd pob sesiwn gyhoeddus yn 2019/20 i ystyried busnes cyfrinachol. Treuliwyd cyfran fawr o'r amser mewn sesiwn breifat yn ystyried agweddau ar faterion arwyddocaol megis yr Achos o Dwbercwlosis yn Llwynhendy a'r Coronafeirws Newydd (COVID-19).

## 2.5 Aelodaeth o'r Bwrdd a'r Tîm Gweithredol

Mae cyfansoddiad y Bwrdd yn cydymffurfio â *Rheoliadau Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Iechyd Gwladol Iechyd Cyhoeddus Cymru (Aelodaeth a Gweithdrefn) 2009 (fel y'u diwygiwyd).* Yn ychwanegol at gyfrifoldebau ac atebolrwydd a nodir yn y telerau ac amodau penodiad, mae aelodau'r Bwrdd hefyd yn cyflawni nifer o rolau Hyrwyddo lle maent yn gweithredu fel llysgenhadon (gweler Atodiad 1). Fel y nodwyd yn flaenorol mae'r Bwrdd yn cynnwys Cyfarwyddwyr Anweithredol a Gweithredol.

Yn ogystal â'r Cyfarwyddwyr Gweithredol a benodwyd yn unol â'r *Rheoliadau*, mae unigolion wedi cael eu penodi i swyddi Cyfarwyddwyr eraill hefyd. Maent hwy, ynghyd â Chyfarwyddwyr Gweithredol, yn aelodau o'r Tîm Gweithredol. Mae ganddynt wahoddiad sefydlog i gyfarfodydd y Bwrdd lle gallant gyfrannu at drafodaethau er nad oes ganddynt hawliau pleidleisio.

### 2.5.1 Ymadawiad a phenodiad Cyfarwyddwyr Anweithredol

Ers mis Gorffennaf 2018, bu lle gwag ar gyfer Cyfarwyddwr Anweithredol (Cyffredinolwr) llawn-amser. Fel trefniant interim, ysgwyddodd Dyfed Edwards, a oedd yn cyflawni rôl 0.5, rôl lawn-amser o 1 Gorffennaf 2018. Yn dilyn ymarfer recriwtio llwyddiannus, penodwyd Dyfed i swydd lawn-amser barhaol o 3 Rhagfyr 2019. Arweiniodd y penodiad hwn at le gwag ar sail rhannu swydd ar gyfer y rôl Awdurdod Lleol (yr oedd Dyfed wedi ei llenwi'n flaenorol).

Cwblhaodd Shantini Paranjothy, Cyfarwyddwr Anweithredol (Prifysgol) ei chyfnod yn ei swydd ar 31 Mawrth 2020.

Mae'r Athro Stephen Palmer wedi parhau fel Cyfarwyddwr Anweithredol ar sail interim i gyflenwi'r swydd wag (Iechyd y Cyhoedd). Bydd y trefniant interim hwn yn parhau nes penodir deiliad swydd parhaol.

Ar 23 Mawrth 2020, ataliodd Llywodraeth Cymru bob ymgyrch Penodiad Cyhoeddus Gweinidogol ar unwaith. Ar adeg eu hatal, roedd proses recriwtio wrthi'n mynd rhagddi i recriwtio'r tair swydd:

- Rôl Prifysgol (Yn wag ers 31 Mawrth 2020)
- Rôl 0.5 Awdurdod Lleol (Yn wag ers 3 Rhagfyr 2019)
- Portffolio Iechyd y Cyhoedd (Mae Stephen Palmer yn dal i lenwi'r swydd ar sail interim)

Bwriedir i'r prosesau recriwtio ar gyfer y swyddi Prifysgol a phortffolio Iechyd y Cyhoedd ailgychwyn ym mis Gorffennaf 2020, tra bo cymeradwyaeth gan y Gweinidog sy'n gyfrifol am Benodiadau Cyhoeddus yn yr arfaeth. Bydd y broses recriwtio ar gyfer y swydd Awdurdod Lleol 0.5 yn ailgychwyn yn ddiweddarach; bydd hyn yn cael ei adolygu'n gyson wrth i ymateb iechyd y cyhoedd i COVID-19 ddatblygu.

### 2.5.2 Cynllunio ar gyfer Olyniaeth y Bwrdd

Mae cynllunio ar gyfer olyniaeth wedi cael ei ystyried yn weithredol yn ystod y flwyddyn ac yn dilyn yr adolygiad o sgiliau'r Bwrdd, sgiliau sy'n ofynnol ar gyfer y dyfodol a chyfnodau penodiadau, lansiwyd yr ymgyrch recriwtio y cyfeirir ato uchod.

Mae gennym amserlen glir o gyfnodau penodiadau ac rydym yn monitro hyn yn weithredol ar sail barhaus i sicrhau bod gan y Bwrdd y sgiliau a'r penodiadau priodol fel sy'n ofynnol i ddiwallu anghenion cyfeiriad strategol y sefydliad yn ogystal â chydymffurfio â'n Rheolau Sefydlog a'n Rheoliadau.

### 2.5.3 Penodiadau ac Ymadawiadau Uwch Aelodau o Staff

Mae strwythur cyfredol y Tîm Gweithredol wedi bod yn ei le ers 1 Ebrill 2019. Digwyddodd y newidiadau canlynol i ddeiliaid swyddi yn ystod y flwyddyn:

#### Cyfarwyddwr Gweithredol Iechyd a Llesiant

Penodwyd Jyoti Atri yn Gyfarwyddwr Gweithredol Interim Iechyd a Llesiant o 25 Chwefror 2019 am gyfnod o 6 mis tra bo proses i recriwtio Cyfarwyddwr Gweithredol parhaol ar gyfer y swydd hon yn yr arfaeth.

Yn dilyn ymgyrch aflwyddiannus i benodi i swydd y Cyfarwyddwr, mae Jyoti Atri wedi parhau i gyflawni'r rôl hon ar sail interim. Bydd rôl barhaol y Cyfarwyddwr yn cael ei hail-hysbysebu'n ddiweddarach gan ystyried y pandemig cyfredol.

#### Cyfarwyddwr Pontio – Gwybodaeth

Penodwyd Sian Bolton yn Gyfarwyddwr Pontio – Gwybodaeth ym mis Ebrill 2019.

Yn dilyn ymgyrch aflwyddiannus i benodi i swydd y Cyfarwyddwr, mae Sian Bolton wedi parhau i gyflawni'r rôl hon ar sail interim. Bydd rôl barhaol y Cyfarwyddwr yn cael ei hail-hysbysebu'n ddiweddarach gan ystyried y pandemig cyfredol.

#### Cyfarwyddwr Gwella Ansawdd a Diogelwch Cleifion y GIG/Cyfarwyddwr Gwelliant Cymru

Ar 1 Ebrill 2019, John Boulton oedd y Cyfarwyddwr Interim ar gyfer Gwella Ansawdd a Diogelwch Cleifion y GIG/ Cyfarwyddwr y Gwasanaeth Gwella 1000 o Fywydau tan 31 Awst 2019 ar secondiad o Fwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan.

Ar 1 Medi 2019, penodwyd John Boulton yn Gyfarwyddwr parhaol ar gyfer Gwella Ansawdd a Diogelwch Cleifion y GIG/ Cyfarwyddwr y Gwasanaeth Gwella / Gwelliant Cymru yn dilyn ymgyrch recriwtio.

### 2.5.4 Cynrychiolaeth Staff yng Nghyfarfodydd y Bwrdd a Phwyllgorau

Gwahoddir cynrychiolwyr Undebau i holl gyfarfodydd y Bwrdd, Datblygu'r Bwrdd a Phwyllgorau perthnasol drwy gydol y flwyddyn. Anogir cynrychiolwyr Undebau i fod â rôl lawn a gweithredol yn nhrafodaethau'r Bwrdd, ac mae'r Bwrdd yn cydnabod rôl bwysig Undebau o ran cyfrannu at ein sefydliad.

Rydym wedi parhau i ymgysylltu â'r holl Undebau a chynrychiolwyr ar y Fforwm Partneriaeth Staff i roi anogaeth ar gyfer mwy o gynrychiolaeth o blith staff yng nghyfarfodydd y Bwrdd a Phwyllgorau'r Bwrdd.

### 2.5.5 Amrywiaeth y Bwrdd

Mae'r Bwrdd yn cydnabod pwysigrwydd sicrhau ystod amrywiol o gefndiroedd, sgiliau a phrofiadau i ychwanegu gwerth at drafodaethau a phenderfyniadau'r Bwrdd.

Ar gyfer y cyfnod 2019/20, o ran cydbwysedd rhwng y rhywiau, roedd 66% o aelodau'r Bwrdd yn fenywod, 34% yn ddynion. Roedd 17% o'r aelodau o gefndir Du ac Ethnig Lleiafrifol, a datganodd 0% fod ganddynt anabledd. Mae un aelod o'r Bwrdd yn siaradwr Cymraeg rhugl ac mae dau arall yn ddysgwyr ar lefel uwch.

Mae'r Bwrdd yn ymrwymedig iawn i wella amrywiaeth a sicrhau ystod briodol o sgiliau a phrofiadau i gyflawni ei rôl, a bydd rhagor o waith yn cael ei wneud yn 2020/21 i ystyried sut y gall ein hamrywiaeth gael ei gwella ymhellach.

## 2.6 Pwyllgorau'r Bwrdd

Yn ystod 2019/20 roedd pump o Bwyllgorau sefydlog y Bwrdd yn weithredol, a'r rheiny'n cael eu cadeirio gan Gyfarwyddwyr Anweithredol. Mae gan y Pwyllgor rolau allweddol mewn perthynas â'r system llywodraethu a sicrwydd, gwneud penderfyniadau, craffu, trafodaethau datblygu, asesu risgiau cyfredol, a monitro perfformiad.

Sefydlodd y Bwrdd Bwyllgor Gwybodaeth ac Ymchwil yn ystod 2018/19, gyda'i gyfarfod cyntaf yn cael ei gynnal ym mis Ebrill 2019.

Ac eithrio'r Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol a Thelerau Gwasanaeth, mae papurau a chofnodion ar gyfer pob cyfarfod yn cael eu cyhoeddi ar ein gwefan. Cynhelir sesiynau preifat

y Pwyllgorau yn ôl y gofyn i gael a thrafod gwybodaeth sensitif neu a ddiogelir.

Mae Cadeiryddion y Pwyllgorau'n atebol i'r Bwrdd drwy adroddiad Cadeiryddion cyfansawdd, sy'n darparu trosolwg o eitemau a ystyriwyd gan y Pwyllgor ac yn amlygu unrhyw faterion / themâu traws-bwyllgor neu eitemau y mae angen eu dwyn i sylw'r Bwrdd.

Mae pob pwyllgor yn cynhyrchu adroddiad blynyddol, sy'n darparu crynodeb o fusnes a gyflawnwyd yn ystod y flwyddyn. Mae Adroddiadau Blynyddol Pwyllgorau'n rhoi sicrwydd i'r Bwrdd eu bod yn gweithio'n effeithiol ac yn cyfrannu at yr asesiad ar y cyfan o effeithiolrwydd y Bwrdd. Maent hefyd yn darparu cyfle ychwanegol i godi unrhyw feysydd y mae angen i'r Bwrdd roi sylw iddynt.

Nid ydym wedi sefydlu Pwyllgor Cronfeydd Elusennol, gan nad oes gennym ein helusen ein hunain. Mae gennym fynediad at gronfa a weinyddir gan Ymddiriedolaeth GIG Felindre ac mae gan y Cyfarwyddwr Cyllid Gweithredol awdurdod dirprwyedig i reoli'r gronfa hon.

Mae'r paragraffau canlynol yn darparu uchafbwyntiau o adroddiadau a gafwyd gan Bwyllgorau drwy gydol y flwyddyn. Mae'r uchafbwyntiau hyn yn darparu tystiolaeth o'r fframwaith llywodraethu ar waith.

### 2.6.1 Y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu Corfforaethol

Cyfarfu'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu Corfforaethol bum gwaith yn ystod 2019/20 ac roedd ganddo gworwm ar bob un o'r pum achlysur. Mae'r Pwyllgor yn darparu cyngor a sicrwydd ar gyfer y Bwrdd ynghylch y systemau rheolaeth fewnol, llywodraethu a defnydd effeithlon ac effeithiol o adnoddau drwy oruchwylio a monitro rhaglen o archwilio mewnol ac allanol.

Yn ystod y flwyddyn, cafodd a thrafododd y Pwyllgor nifer o adroddiadau a gynhyrchwyd gan y tîm Archwilio Mewnol. Caiff y rhain eu rhestru yn Ffigur 3 isod, ynghyd â'r sgôr sicrwydd a roddwyd.

**Ffigur 3: Sgoriau Sicrwydd Adroddiadau Archwilio Mewnol 2019/20**

| | Lefel sicrwydd a roddwyd | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Adroddiad** | **Dim sicrwydd** | **Sicrwydd cyfyng-edig** | **Sicrwydd rhesymol** | **Sicrwydd sylweddol** |
| Datganiad Ansawdd Blynyddol | | | | ✓ |
| Adroddiad ar Gynaliadwyedd Amgylcheddol | | | | ✓ |
| Fframwaith Ansawdd ac Effaith | | | ✓ | |
| Datganiadau o Fuddiant | | | ✓ | |
| Rhyddid Gwybodaeth | | | | ✓ |
| Rheoli a Monitro Perfformiad ac Adrodd Arno | | | | ✓ |
| Cronfa Risg Cymru | | | | ✓ |
| Rheoli Contractau | | | ✓ | |
| Rheoli Rhybuddion | | ✓ | | |
| Rheoli Swyddi Gwag | | | ✓ | |
| Datblygiad Personol/ Fy Nghyfraniad | | ✓ | | |
| Y Bwrdd a Phwyllgorau | | | | ✓ |
| Adolygiad TG – Storfa Ddata | | | ✓ | |
| Rheoli Risg | | | ✓ | |
| Materion Ariannol Craidd | | | | ✓ |
| Cynllunio Tymor Hir | | | ✓ | |

Yn 2018/19, nid oedd unrhyw adroddiadau a oedd yn rhoi sicrwydd cyfyngedig; gan hynny nid oedd unrhyw adroddiadau dilynol yn 2019/20.

Yn ystod 2019/20, cyhoeddwyd dau adroddiad a oedd yn rhoi sicrwydd cyfyngedig mewn perthynas â Rheoli Rhybuddion a Datblygiad Personol/ Fy Nghyfraniad. Mae Camau Gweithredu gan y Rheolwyr wedi cael eu derbyn ar gyfer y ddau adroddiad gyda chynlluniau gweithredu mewnol yn cael eu rhoi ar waith. Bydd gwaith dilynol yn cael ei wneud i wirio'r camau gweithredu a byddant yn cael eu hadolygu yn 2020/21 gan Archwilwyr Mewnol a'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu Corfforaethol.

Gellir gweld yr holl adroddiadau archwilio mewnol, gan gynnwys y ddau adroddiad a roddodd sicrwydd cyfyngedig ar ein gwefan yn adran y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu Corfforaethol. Caiff Adroddiadau Archwilio Mewnol eu cynnwys yng nghyfarfodydd Pwyllgorau unigol.

Roedd gwaith archwilio mewnol yn yr arfaeth ond ni chafodd ei ddechrau yn y meysydd canlynol, oherwydd bod y staff perthnasol wedi cael eu symud i gefnogi'r ymateb i COVID-19:

- Cynllunio'r Gweithlu
- Adolygiad o Gyfarwyddiaeth (Sgrinio Llygaid Diabetig Cymru)
- Adrodd ar Ddigwyddiadau.

Cyflawnodd Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru nifer o swyddogaethau ar ran Iechyd Cyhoeddus Cymru, gan gynnwys y swyddogaeth archwilio mewnol, cymorth caffael, gweithgareddau datblygu pobl a datblygu sefydliadol a chyngor cyfreithiol.

Cafodd y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu Ansawdd adroddiadau gan y swyddogaeth archwilio mewnol, sy'n rhoi sicrwydd iddo bod y swyddogaethau hyn yn effeithlon ac yn gost-effeithiol. Mae gennym hefyd gynrychiolaeth ar Bwyllgor Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru lle mae unrhyw faterion, sydd wedi cael eu hadnabod, yn cael eu rhannu a'u bwydo'n ôl i'r Pwyllgor. Mae'r Pwyllgor hefyd yn cael adroddiadau mewn perthynas â gwasanaethau caffael i sicrhau'r Pwyllgor ei fod yn gweithredu'n unol â gofynion y Cyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog.

Darparodd Archwilio Cymru (AC) adroddiadau rheolaidd ar gyfer y Pwyllgor ar gynnydd gydag archwiliadau allanol a bu'n monitro cynnydd yn erbyn argymhellion:

### Asesiad Strwythuredig Archwilio Cymru

Rhoddodd y Pwyllgor ystyriaeth i'r adroddiad Asesu Strwythuredig gan Archwilio Cymru (AC), gan nodi'r adroddiad cadarnhaol nad oedd yn cynnwys unrhyw argymhellion ar gyfer gwelliannau.

### Memorandwm Datganiadau Ariannol

Cafodd y Pwyllgor y Memorandwm Datganiadau Ariannol gan AC, a oedd yn nodi bod gan y sefydliad broses effeithiol ar gyfer cau'r cyfrifon, a arweiniodd at farn ddiamod ar y Datganiadau Ariannol.

### Adroddiad Blynyddol AC 2019

Cafodd y Pwyllgor Adroddiad Blynyddol AC ar gyfer 2019 a oedd yn crynhoi'r gwaith archwilio a wnaed yn ystod 2019, a nododd ei fod yn adroddiad cadarnhaol.

### Archwiliad AC o Roi Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ar Waith

Cafodd y Pwyllgor adroddiad AC ar yr Adolygiad o Roi Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ar Waith, gan nodi ei fod yn adroddiad cadarnhaol a oedd yn nodi'r ffyrdd cadarnhaol yr ydym wedi newid ein ffyrdd o weithio.

Cafodd y Pwyllgor yr **eitemau sefydlog** canlynol hefyd:

- O fis Awst 2019, cytunodd y Pwyllgor i gael diweddariad chwarterol ar **Berfformiad Ariannol** y Sefydliad, gan drafod ac adolygu'r modd y cyflawnwyd arbedion effeithlonrwydd
- **Adroddiad caffael** a **Cholledion a Thaliadau Arbennig** i sicrhau'r Pwyllgor bod y rhain yn unol â gofynion y Cyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog (CAS)
- **Adroddiad ar Gynnydd o ran Atal Twyll**
- Cafodd y Pwyllgor bapurau briffio ar **Effaith gadael yr Undeb Ewropeaidd** ar y sefydliad, a'r gwaith ar barodrwydd i liniaru digwyddiadau parhad busnes a/neu ddigwyddiadau cynllunio at argyfwng posibl a allai godi. Adolygodd y Pwyllgor y meysydd gwaith sy'n flaenoriaeth, a chafodd sicrwydd y byddai risgiau unigol yn cael eu rheoli drwy gofrestr risgiau'r sefydliad.

Darparodd adroddiad ar y **Fframwaith Cydweithio** gan y Bwrdd sicrwydd bod cynnydd effeithiol yn cael ei wneud i sicrhau bod yr holl femoranda a chytundebau'n cael eu datblygu yn unol â'r fframwaith hwn.

Rhoddodd y Pwyllgor ystyriaeth i bapur a oedd yn darparu sicrwydd ynghylch gweithredu'r **Polisi a Gweithdrefn Datganiadau o Fuddiant, Rhoddion, Lletygarwch a Nawdd**.

Rhoddodd y Pwyllgor ystyriaeth i adroddiad a oedd yn rhoi sicrwydd ynghylch y modd yr oedd y sefydliad yn cydymffurfio â ***Llywodraethu Corfforaethol yn Adrannau'r Llywodraeth Ganolog: Cod Ymarfer 2017.***

Yn ogystal â'r diweddariad Chwarterol ar **Atal Twyll**, cafodd y Pwyllgor yr Adroddiadau canlynol ar Atal Twyll hefyd:

- Adroddiad blynyddol 2018-20
- Offeryn Hunanadolygu Atal Twyll 2018-19
- Cynllun Gwaith Atal Twyll 2019-20.

Cymeradwyodd y Pwyllgor y **Polisi a Gweithdrefn** hysbysu ynghylch difrod neu golled i eiddo personol hefyd.

Cafodd y Pwyllgor y **Gofrestr Risgiau Strategol** mewn cyfarfodydd ac mae'n goruchwylio'r elfennau hynny o'r Gofrestr Risgiau Strategol sy'n rhan o gylch gwaith y Pwyllgor. Cafodd y Gofrestr Risgiau Strategol a'r **Gofrestr Risgiau Corfforaethol** yn ei chyfanrwydd hefyd er mwyn ceisio sicrwydd bod y risgiau'n cael eu rheoli'n effeithiol a bod y rheolaethau sydd yn eu lle'n ddigonol ac yn addas i'w diben. Cyflawnodd y Pwyllgor ei rôl i graffu ar y Weithrediaeth mewn perthynas â rheoli'r risgiau, yn arbennig i brofi effeithiolrwydd y rheolaethau ac i wneud argymhellion i gryfhau'r amgylchedd rheoli lle'r oedd angen.

Cynhaliwyd cyfarfod olaf y flwyddyn ar 19 Mawrth 2020. Yn sgîl y materion parhaus i'r sefydliad o ran ymateb i'r achos o COVID-19, cynhaliwyd y cyfarfod yn electronig.

### 2.6.2 Y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Gwella

Cyfarfu'r Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Gwella bedair gwaith yn ystod 2019/20 ac roeddent yn gyfarfodydd â chworwm ar bob un o'r pedwar achlysur.

Mae'r Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Gwella'n cynorthwyo'r Bwrdd i gyflawni ei swyddogaethau i gyflawni ei gyfrifoldebau o ran ansawdd a diogelwch. Mae'r Pwyllgor yn gyfrifol am geisio sicrwydd ynghylch pob agwedd ar ansawdd gwasanaethau a gofal clinigol, systemau llywodraethu gan gynnwys risg ar gyfer safonau clinigol, corfforaethol a rheoleiddiol ar gyfer ansawdd a diogelwch. Yn dilyn rhoi'r Strwythur Pwyllgorau newydd ar waith ym mis Ebrill 2019, nid oedd Llywodraethu Gwybodaeth a Diogelwch Gwybodaeth yn rhan o gylch gwaith y Pwyllgor hwn mwyach, a hwythau wedi trosglwyddo i'r Pwyllgor Gwybodaeth ac Ymchwil newydd a sefydlwyd.

Ym mhob cyfarfod, cafodd y Pwyllgor **stori profiad defnyddwyr gwasanaethau** o safbwynt defnyddwyr gwasanaethau neu aelod o staff. Roedd y storïau'n cynnwys gwersi a ddysgwyd a chamau gweithredu a gymerwyd mewn ymateb i'r negeseuon allweddol o'r stori. Sicrhaodd hyn fod y pwyllgor yn craffu ac yn rhoi pwyslais ar wneud defnyddwyr gwasanaethau'n ganolog i wella, datblygu a chynllunio gwasanaethau.

Ym mis Tachwedd 2019, cymeradwyodd y Pwyllgor y **Cynllun Archwilio Ansawdd a Chlinigol 2019/20**, yn dilyn gwelliannau a nodwyd gan y Pwyllgor pan roddodd ystyriaeth i'r cynllun am y tro cyntaf ym mis Awst 2019, mewn perthynas â chynyddu cynrychiolaeth archwiliadau ar draws ehangder y sefydliad. Byddai 'adroddiadau at wraidd y mater' yn cael eu cynhyrchu mewn perthynas ag archwiliadau unigol yn ôl y gofyn. Cyflwynwyd y cynllun hwn i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu Gwybodaeth hefyd er gwybodaeth.

Ymgymerodd y Pwyllgor â gwaith craffu pellach ar y meysydd canlynol yn ystod 2019/20:

- Diweddariad ar yr **Ymgyrch Ffliw**, gan gael sicrwydd ynghylch cyflawni ymgyrch 2018/19, gan nodi bod y cyfraddau derbyn yn uwch na tharged Llywodraeth Cymru o 60%, a bod rhaglen werthuso gadarn yn ei lle a fyddai'n parhau i wella'r llwyddiant hwn
- Adroddiad y **Datganiad Ansawdd Blynyddol**, gan ei argymell i'r Bwrdd i gael ei gymeradwyo
- Y **Bil Ansawdd ac Ymgysylltu (Cymru)** – gan gyfrannu at yr adborth a gyflwynwyd ar ran y sefydliad i Lywodraeth Cymru
- Diweddariad ar **Sefydlogi Microbioleg** – gan gyflwyno argymhellion i'r Bwrdd ei fod yn ystyried y datganiad o weledigaeth, y model a oedd yn cael ei gynnig a'r risgiau a manteision mewn mwy o fanylder
- **Adolygiad Chwemisol o Bolisïau** – mae o fewn cylch gwaith y Pwyllgor ei fod yn cael sicrwydd ynghylch y drefn flaenoriaethu a'r cynnydd sy'n cael ei wneud i adolygu polisïau, gweithdrefnau a dogfennau rheoli ysgrifenedig eraill

- Adroddiad ar yr **Archwiliad o Wersi a Ddysgwyd o Gwynion** – gan nodi bod cynnydd pellach yn cael ei wneud i sicrhau effeithiolrwydd y modd y rheolir cwynion a fyddai'n cael ei ystyried ymhellach gan y Pwyllgor
- **Diweddariad ar y Fframwaith Ansawdd ac Effaith** – a oedd yn canolbwyntio ar y gwaith a oedd yn mynd rhagddo i gyflawni gwelliannau i'r fframwaith Ansawdd ac Effaith, gan ofyn am fwy o eglurder ynghylch cymhlethdod y perthnasoedd rhwng ffrydiau gwaith y sefydliad ar ddeilliannau, trawsnewid ac ansawdd, a fyddai'n cael ei ddarparu ar gyfer y Bwrdd
- **Diweddariad ar y trefniadau ar gyfer Dyfeisiau Meddygol** – a oedd yn canolbwyntio'r drafodaeth ar y gwaith i gryfhau trefniadau ar gyfer rheoli dyfeisiau meddygol fel rhan o'r gwaith gwella ar drefniadau llywodraethu integredig yn fwy eang
- **Cynllun Amlinellol Ansawdd a Gwella Drafft** – ystyriaeth i'r cynlluniau a oedd ar waith i ddatblygu'r Strategaeth Ansawdd a Gwella nesaf
- Y **fframwaith ar gyfer sicrhau profiad defnyddwyr gwasanaethau** – gan nodi'r gwaith pellach a oedd yn yr arfaeth i gwrdd â dyheadau'r sefydliad bod profiad defnyddwyr gwasanaethau'n cael ei wreiddio'n fwy a gwybodaeth amdano'n cael ei chasglu'n rheolaidd fel rhan o'r drefn arferol.

Cafodd y Pwyllgor yr **Adroddiadau at Wraidd y Mater a Storïau Profiad Defnyddwyr Gwasanaethau** canlynol hefyd:

- **Adroddiad at Wraidd y Mater Diogelu Iechyd** gan gael sicrwydd bod y gwasanaethau ymateb Diogelu Iechyd Acíwt yn cael eu darparu'n ddiogel ac yn effeithiol ac i'r safonau ansawdd disgwyliedig
- **Adroddiad at Wraidd y Mater Sgrinio Serfigol** a stori Profiad Defnyddwyr Gwasanaethau – Roedd y ffocws ar y dulliau i wella ymgysylltiad a'r nifer sy'n defnyddio gwasanaethau sgrinio yn y gymuned, gan gynnwys ymgyrchoedd ar y cyfryngau cymdeithasol ac ymgysylltu â defnyddwyr gwasanaethau a chael adborth ganddynt
- Adroddiad at wraidd y mater a diweddariad am brofiad defnyddwyr gwasanaethau ar y rhaglen **1000 o Ddiwrnodau Cyntaf**
- Adroddiad at wraidd y mater am brofiad defnyddwyr gwasanaethau o **Sgrinio'r Coluddyn Cymru**, a oedd yn nodi lefelau'r defnydd o sgrinio, gan geisio sicrwydd bod gan y gwasanaeth gynlluniau i fynd ati'n weithredol i wella'r niferoedd sy'n ei ddefnyddio
- Adroddiad at wraidd y mater a diweddariad ar gynnydd mewn perthynas â **Rhaglen Sgrinio Ymlediad Aortaidd yn yr Abdomen Cymru**, gyda'r ffocws ar eu cyflawniadau, heriau a risgiau allweddol a datblygiad y gwasanaeth yn y dyfodol. Ochr yn ochr â hyn roedd stori profiad defnyddwyr gwasanaethau gan rywun o fewn y rhaglen
- Adroddiad at wraidd y mater a diweddariad ar gynnydd mewn perthynas â'r **Cynlluniau Ysgolion Iach – Rhwydwaith Cymru**. Ochr yn ochr â hyn roedd stori profiad defnyddwyr gwasanaethau gan rywun o fewn y rhaglen. Nododd y Pwyllgor ei bryderon ynghylch sut y gellid dangos gwerth am arian heb drefniadau gwerthuso cadarn.

Cafodd y Pwyllgor yr **eitemau sefydlog** canlynol yn chwarterol hefyd:

- **Adroddiad Gweithio i Wella** – dadansoddiad o ddigwyddiadau, cwynion, hawliadau a chanmoliaeth i adnabod tueddiadau, themâu a gwersi a ddysgwyd. Yn ei gyfarfod ym mis Chwefror, rhoddodd y Pwyllgor ystyriaeth i gyflwyniad am y Dangosfwrdd Sicrhau Ansawdd Drafft a fyddai'n datblygu'r lefel o sicrwydd a gwybodaeth a ddarperir ar gyfer y Pwyllgor yn y dyfodol
- Cafwyd diweddariad am **hawliadau** yn sesiynau preifat y Pwyllgor oherwydd sensitifrwydd yr wybodaeth
- Diweddariadau am y **system rheoli rhybuddion**, gan gael sicrwydd bod y system yn effeithiol ac yn gweithio'n briodol. Cafodd y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Gwella'r papur system rheoli rhybuddion yn ei gyfarfod ym mis Chwefror 2020 ar gyfer y cyfnod 2019/20. Ers hynny, cyhoeddwyd adroddiad terfynol yr adolygiad Archwilio Mewnol o Reoli Rhybuddion, a chafodd sgôr sicrwydd cyfyngedig. Cyflwynwyd yr Adroddiad Terfynol Archwilio Mewnol hwn i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu Corfforaethol yn ei gyfarfod ar 19 Mawrth 2020 a bydd y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Gwella'n ei gael ac yn ei ystyried ym mis Mai 2020. Mae'r holl ymatebion gan reolwyr wedi

cael eu cwblhau heblaw am un, sydd i fod i gael ei gwblhau ym mis Mehefin 2020.

Cafodd y Pwyllgor **Adroddiadau Blynyddol** a oedd yn rhoi sylw i'r meysydd canlynol: Diogelu Corfforaethol; Gweithio i Wella; ac Atal a Rheoli Heintiau. Cafodd y Pwyllgor Adroddiad Blynyddol Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru hefyd, gan gyfeirio at yr adran penodol ar gyfer Iechyd Cyhoeddus Cymru.

Cafodd yr holl **ddigwyddiadau difrifol** y rhoddwyd gwybod amdanynt o fewn Iechyd Cyhoeddus Cymru eu hadolygu gan y Pwyllgor. Ar gyfer pob digwyddiad difrifol, holodd y Pwyllgor pa wersi oedd wedi cael eu dysgu ac adolygodd y cynllun gweithredu, a oedd yn nodi'r gwelliannau a wnaed o ganlyniad. *(Ceir rhagor o wybodaeth am ddigwyddiadau difrifol yn adran 9.3 o'r adroddiad hwn)*

Cymeradwyodd y Pwyllgor y **Polisi Atal a Rheoli Heintiau** a'r **Polisi a Gweithdrefn Dihalogi**.

Cafodd y Pwyllgor y detholiad perthnasol o'r **Gofrestr Risgiau Strategol** mewn cyfarfodydd yn ychwanegol at y detholiad perthnasol o'r Gofrestr Risgiau Corfforaethol. Cydnabu'r Pwyllgor bwysigrwydd y Gofrestr Risgiau Strategol a chytunodd y dylai gael ei hadolygu'n gynharach ar agenda pob cyfarfod er mwyn i'r aelodau allu amlygu unrhyw feysydd y mae angen gwybodaeth ychwanegol amdanynt er mwyn cael sicrwydd priodol.

### 2.6.3 Y Pwyllgor Pobl a Datblygu Sefydliadol

Cyfarfu'r Pwyllgor Pobl a Datblygu Sefydliadol bedair gwaith yn ystod 2019/20 ac roedd y cyfarfodydd yn rhai â chworwm ar bob un o'r pedwar achlysur.

Mae'r Pwyllgor Pobl a Datblygu Sefydliadol yn cynorthwyo'r Bwrdd i gyflawni ei swyddogaethau o ran cwrdd â'i gyfrifoldebau mewn perthynas â materion y gweithlu. Mae'r Pwyllgor yn gyfrifol am geisio sicrwydd ynghylch pob agwedd ar hyn gan gynnwys strategaethau a chynlluniau pobl, cynllunio'r gweithlu, goblygiadau datblygu sefydliadol, diwylliant, iechyd, diogelwch a llesiant, cydraddoldeb, amrywiaeth a hawliau dynol a darpariaeth cyfrwng Cymraeg.

Roedd crynodeb o'r eitemau allweddol a gafodd y Pwyllgor yn 2019/20 yn cynnwys:

- Stori Profiad Staff o'r Ymgyrch Ffliw Staff 2018/19
- Diweddariadau am gynnydd o ran **ymgysylltu â staff** a chynllun gweithredu ar gyfer meysydd sy'n flaenoriaeth mewn ymateb i Arolwg Staff 2018
- Adolygu **Amodau Gorchwyl y Grŵp Iechyd a Diogelwch** a chael sicrwydd bod mesurau llywodraethu a gweithrediadau priodol yn eu lle i sicrhau bod y Grŵp Iechyd a Diogelwch, a oedd yn adrodd wrth y Pwyllgor, yn gweithio'n effeithiol
- Diweddariad am **Reoli Presenoldeb yn y gwaith**, a rheoli hyn yn effeithiol yn unol â'r Polisi Rheoli Presenoldeb yn y Gwaith Cymru Gyfan newydd
- **Diweddariad am y Fforwm Partneriaeth** a mabwysiadu Amodau Gorchwyl y Fforwm Partneriaeth yn dilyn eu hadolygu
- Cefnogaeth ar gyfer dysgu lefel uwch a'r **Fframwaith Ansawdd a Gyrfa** ar gyfer gweithwyr cymorth gofal iechyd. Cafodd y Pwyllgor sicrwydd ynghylch yr amrywiaeth o opsiynau hyfforddi ar gyfer staff newydd a phresennol a bod dysgu a datblygu ar gyfer staff yn flaenoriaeth
- Cyflawni'r Safon Iechyd, Llesiant ac Iechyd Corfforaethol Aur
- Cymeradwyo'r gwaith a oedd yn cael ei wneud mewn perthynas â **'Dod yn Sefydliad Noddfa'**
- Adroddiad diweddaru ar **Hyfforddiant a Datblygu**
- Diweddariadau chwemisol am gynnydd o ran rhoi'r **Strategaeth Pobl** ar waith
- Diweddariad am weithgarwch y Grŵp Tasg a Gorffen mewn ymateb i Adroddiad Archwilio Cymru ar **'Drefniadau Cydweithredol ar gyfer Rheoli Adnoddau Iechyd Cyhoeddus Lleol'**, a chael sicrwydd ynghylch y gweithgarwch parhaus o ran pobl mewn ymateb i Adroddiad Archwilio Cymru.

#### Adroddiadau Archwilio Cymru

Cafodd y Pwyllgor orchwyl i oruchwylio'r fframwaith a sefydlwyd a'r ymgysylltiad â meddygon ymgynghorol o ganlyniad i'r **Adolygiad o Gontractau Meddygon Ymgynghorol** gan Archwilio Cymru ym mis Ionawr 2019. Cafodd y Pwyllgor y diweddariad am y cynllun gweithredu, gan nodi heriau o ran cynllunio swyddi, a chrynodeb o weithgareddau.

Mae'r Pwyllgor yn cael **diweddariadau gan gyfarwyddiaethau** am Bobl a Datblygu Sefydliadol ar sail rhaglen dreigl:

- **Y Gyfarwyddiaeth Iechyd a Llesiant –** trafodwyd cynllunio ar gyfer olyniaeth o ran talent, cynnydd lefel Meistr a'r adnoddau cyllid sydd ar gael, a'r cynllun gweithredu mewn ymateb i adolygiad Archwilio Cymru o drefniadau cydweithredol ar gyfer rheoli adnoddau iechyd cyhoeddus lleol
- Diweddariad gan y **Gyfarwyddiaeth Gweithrediadau a Chyllid** ynghyd â **stori profiad staff**, a oedd yn canolbwyntio ar y gwahanol ddulliau ymgysylltu ac adborth yn y Gyfarwyddiaeth, a myfyrdodau dechreuwr newydd yn y maes gwasanaeth
- Diweddariad gan y **Gyfarwyddiaeth Gwasanaethau Iechyd y Cyhoedd** ochr yn ochr â Stori Profiad Staff gan **Dîm Diogelu Iechyd yr Amgylchedd**;
- Rhoddodd **Stori Profiad Staff** 'Fy Siwrne i Iechyd y Cyhoedd' gan aelod o staff o Brosiect y Sefydliad Iechyd gipolwg ar ei phrofiad cychwynnol o ymuno ag Iechyd Cyhoeddus Cymru, gan gynnwys integreiddio dechreuwyr newydd i'r lleoliad gwaith amlswyddogaethol
- **Stori Profiad Staff** o'r Ymgyrch Ffliw Staff 2018/19, gyda'r Pwyllgor yn cydnabod camau ychwanegol i ymgysylltu â staff a'u cynnwys ar draws safleoedd swyddfeydd.

Cafodd y Pwyllgor yr eitemau sefydlog canlynol yn chwarterol hefyd:

- **Adroddiad Iechyd a Diogelwch** – cafodd y Pwyllgor ddiweddariadau chwarterol gan y Grŵp Iechyd a Diogelwch a chafodd sicrwydd ynghylch cynnydd gyda Chynllun Gweithredu GIG yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch. Ategwyd yr adroddiad gan y Gofrestr Risgiau Iechyd a Diogelwch *(Ceir rhagor o wybodaeth am Iechyd a Diogelwch yn adran 6 o'r adroddiad hwn)*
- Diweddariad am **Safonau'r Gymraeg** (Gofal Iechyd) – roedd y diweddariad hwn yn canolbwyntio ar gynnydd o ran rhoi'r safonau ar waith. *(Ceir rhagor o wybodaeth am y Gymraeg yn adran 9.2 o'r adroddiad hwn)*

Mae'r Pwyllgor wedi cyflawni ei gyfrifoldebau o ran **cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant**. Adolygodd y Pwyllgor y cynnydd gyda'r Cynllun Cyflawni ar gyfer Cynllun Cydraddoldeb Strategol Iechyd Cyhoeddus Cymru a chymeradwyo'r adroddiad blynyddol ar y Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2018/19. Ystyriodd y Pwyllgor hefyd welliannau i safle Iechyd Cyhoeddus Cymru ym Mynegai Cydraddoldeb Stonewall. Ystyriodd y Pwyllgor hefyd y Cynllun Cydraddoldeb Strategol ac Amcanion Cydraddoldeb drafft ar gyfer 2020-2024 ac argymell wrth y Bwrdd eu bod yn cael eu cymeradwyo. *(Ceir rhagor o wybodaeth am gydraddoldeb yn adran 9.1 o'r adroddiad hwn)*

Cymeradwyodd neu mabwysiadodd y Pwyllgor y **polisïau a gweithdrefnau** canlynol yn ystod 2019/20: Polisi Gweithio Hyblyg a diwygiadau i Bolisi Rheoli Presenoldeb yn y Gwaith Cymru Gyfan.

Cafodd y Pwyllgor ddiweddariad am **achosion disgyblu** staff a'r gwersi a ddysgwyd yn ystod sesiynau preifat o'r Pwyllgor.

Cafodd y Pwyllgor **Adroddiadau Blynyddol** a oedd yn cynnwys y canlynol:

- Adroddiad Blynyddol Iechyd a Diogelwch gan gynnwys y Gofrestr Risgiau Iechyd a Diogelwch
- Adroddiad blynyddol Ailddilysu ac Arfarnu: Meddygon ymgynghorol, nyrsys a gweithwyr proffesiynol perthynol i iechyd yn Iechyd Cyhoeddus Cymru
- Adroddiad Cydraddoldeb Blynyddol 2018-19
- Cymeradwyo'r Adroddiad Blynyddol ar y Bwlch Cyflog Rhwng y Rhywiau
- Cofrestru Nyrsys Iechyd y Cyhoedd Cymru.

Cafodd y Pwyllgor y detholiad perthnasol o'r **Gofrestr Risgiau Strategol** ym mhob cyfarfod yn ychwanegol at y **Gofrestr Risgiau Corfforaethol**.

#### 2.6.4 Pwyllgor Gwybodaeth ac Ymchwil y Bwrdd

Er mwyn mynd ati'n effeithiol i gyflawni ei gyfrifoldebau o ran goruchwylio'r broses o gyflawni'r Strategaeth Tymor Hir newydd, 2018-2030 (a blaenoriaethau strategol newydd cysylltiedig), rhoddodd y Bwrdd gymeradwyaeth i sefydlu Pwyllgor Gwybodaeth ac Ymchwil newydd. Sefydlwyd y Gyfarwyddiaeth Gwybodaeth newydd o 1 Ebrill 2019.

Rôl y Pwyllgor hwn yw rhoi cyngor a sicrwydd i'r Bwrdd mewn perthynas ag ansawdd ac effaith ein gweithgareddau gwybodaeth, cudd-wybodaeth iechyd ac ymchwil a'r trefniadau ansawdd data a llywodraethu gwybodaeth yn y sefydliad. Felly ysgwyddodd y Pwyllgor hwn yr agweddau craffu a sicrwydd mewn perthynas â llywodraethu gwybodaeth yr arferid eu cael yn y Pwyllgor Ansawdd, Diogelu a Gwella.

Cyfarfu'r Pwyllgor Gwybodaeth ac Ymchwil bedair gwaith yn ystod 2019/20 ac roedd y cyfarfodydd yn rhai â chworwm ar bob un o'r pedwar achlysur.

Roedd rhai o'r eitemau allweddol a gafodd y Pwyllgor yn 2019/20 yn cynnwys:

- **Adroddiad diweddaru am Ystadegau Swyddogol**, a oedd yn rhoi sicrwydd ynghylch y modd y mae'r sefydliad yn rheoli ystadegau, a chymeradwyodd ddatganiad cydymffurfio gwirfoddol ar gyfer cynhyrchion ystadegol nad oeddent wedi'u rhyddhau eto fel ystadegau swyddogol
- **Strategaeth Ymchwil a Gwerthuso**, gan gynnwys y cynllun cyflawni ar ei chyfer, gan gytuno sut y byddai'r Pwyllgor yn adolygu'r modd y cyrhaeddir cerrig milltir a thargedau allweddol o fewn y strategaeth dair blynedd
- Adroddiad ar drefniadau **Llywodraethu Ymchwil** Iechyd Cyhoeddus Cymru
- Adroddiad Uchafbwyntiau Blynyddol Ymchwil a Gwerthuso
- Deilliannau'r Archwiliad annibynnol o gydymffurfio â'r **broses ar gyfer ymgeisio am ganiatadau ymchwil** yn Iechyd Cyhoeddus Cymru
- Diweddariad Blynyddol **Gwerthuso ac Effaith**, a oedd yn rhoi dealltwriaeth sylfaenol dda am werthuso ac effaith ar draws y sefydliad.

Cafodd y Pwyllgor yr **Adroddiad ar Berfformiad o ran Llywodraethu Gwybodaeth** yn chwarterol hefyd, a oedd yn darparu barn gyfunol am berfformiad y System Rheoli Llywodraethu Gwybodaeth, gan adlewyrchu ehangder a dyfnder materion llywodraethu gwybodaeth ar draws y sefydliad.

Cafodd y Pwyllgor yr **Adroddiadau at Wraidd y Mater a Storïau Profiad Defnyddwyr Gwasanaethau** canlynol hefyd:

- **Canolfan Gydweithio Sefydliad Iechyd y Byd** – ystyriaeth fanwl i strwythurau llywodraethu'r ganolfan, mynd ar drywydd gweithgareddau sy'n rhoi sicrwydd ynghylch y sefydliad a chyflawni hyn yn unol â blaenoriaethau ac amcanion strategol sefydliadol
- **Rhoi Gwybodaeth ar Waith (Canllawiau Tystiolaeth)** – adroddiad at wraidd y mater a Stori Profiad Defnyddwyr Gwasanaethau gan yr isadran Gwella Iechyd, gan argymell bod y Bwrdd yn mabwysiadu'r egwyddorion yn y canllawiau tystiolaeth i lywodraethu adolygiadau o dystiolaeth a'u defnyddio o fewn y sefydliad
- **Adroddiad at wraidd y mater Cudd-wybodaeth Iechyd** ar y gwasanaeth tystiolaeth, a oedd yn nodi'r angen i ddatblygu'r dull gweithio matrics sefydliadau i ganlyn arni â gweithio integredig
- **Profiadau Iechyd Ceiswyr Lloches** – Stori Profiad Defnyddwyr Gwasanaethau a oedd yn darparu dealltwriaeth am raglen gyda Phrifysgol Abertawe. Roedd ffocws y drafodaeth ar y dull cydweithredol gyda phartneriaid yn y trydydd sector, a sut yr oedd effaith yn cael ei mesur
- Adroddiad at Wraidd y Mater ar y **Gronfa Partneriaethau Ymchwil**, gyda'r ystyriaethau ynddo'n canolbwyntio ar reoli'r gronfa, ei pherthynas â'r sefydliad ehangach ac aliniad â blaenoriaethau strategol
- Adroddiad at Wraidd y Mater ar **Reoli Ansawdd Data** i ddeall ac amlygu dibyniaeth y sefydliad ar ddata cywir a'r angen i gynnal archwiliad sylfaenol
- Adroddiad at wraidd y mater ar **Berthnasoedd Academaidd** ar gyfer dealltwriaeth, gan ganolbwyntio ar y dull sy'n cael ei ddefnyddio ar draws y sefydliad i feithrin a gwreiddio gallu ymchwil staff fel rhan ganolog o'r Strategaeth Pobl newydd, a datblygu model diwygiedig o gontractau anrhydeddus
- **Gwobrau Amser Ymchwil Glinigol** – Stori Profiad Defnyddwyr Gwasanaethau, a oedd yn nodi'r deilliannau cadarnhaol ac ymarferol i iechyd y cyhoedd a defnyddwyr gwasanaethau yn yr enghreifftiau a drafodwyd, ac yn amlygu'r gwaith rhagorol a oedd yn cael ei wneud drwy'r gwobrau hyn.

Cymeradwyodd y Pwyllgor y **Polisi a Gweithdrefn Ymchwil a Chamymddwyn**.

Cafodd y Pwyllgor yr **Adroddiad Blynyddol Seiberddiogelwch**.

Cafodd y Pwyllgor y detholiad perthnasol o'r **Gofrestr Risgiau Strategol** ym mhob cyfarfod yn ychwanegol at y detholiad perthnasol o'r **Gofrestr Risgiau Corfforaethol**.

### 2.6.5 Y Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol a Thelerau Gwasanaeth

Cyfarfu'r Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol a Thelerau Gwasanaeth saith gwaith yn ystod

2019/20 ac roeddent yn gyfarfodydd â chworwm ar chwech o'r saith achlysur. Ar yr un achlysur pan nad oedd cworwm, cafodd y penderfyniadau a wnaed eu cadarnhau yn ei gyfarfod nesaf a chan y Bwrdd.

Rôl y Pwyllgor yw cymeradwyo, a darparu sicrwydd ar gyfer y bwrdd ynghylch materion sy'n ymwneud â phenodi, terfynu cyflogaeth, cydnabyddiaeth ariannol a thelerau gwasanaeth y Prif Weithredwr, Cyfarwyddwyr Gweithredol ac uwch aelodau eraill o staff o fewn y fframwaith a bennwyd gan Lywodraeth Cymru yn unol â'r cynllun dirprwyo.

Cymeradwyodd y Pwyllgor hefyd gynigion a oedd yn ymwneud â threfniadau terfynu cyflogaeth, gan gynnwys y rhai dan y Cynllun Rhyddhad Cynnar Gwirfoddol, gan sicrhau bod taliadau terfynu cyflogaeth yn cael eu cyfrifo'n briodol ac yn destun craffu priodol yn unol â'r canllawiau perthnasol gan Lywodraeth Cymru.

Cafodd y materion a gymeradwywyd gan y Pwyllgor eu cadarnhau gan y Bwrdd llawn hyd at a chan gynnwys cyfarfod y Bwrdd ar 30 Tachwedd 2019. Yng nghyfarfod y Bwrdd ym mis Tachwedd, cafodd amodau gorchwyl y Pwyllgor eu diwygio gan olygu na fyddai angen i nifer o benderfyniadau a fyddai'n cael eu gwneud gan y Pwyllgor yn y dyfodol gael eu cadarnhau gan y Bwrdd. Mae'r Adroddiad ar Gydnabyddiaeth Ariannol yn darparu gwybodaeth berthnasol am y materion a ystyriwyd gan y Pwyllgor yn ystod 2019/20.

### 2.6.6 Cyfarfodydd y Bwrdd a'r Pwyllgor a gynhaliwyd yn ystod 2019/20

Mae Ffigur 4 yn nodi dyddiadau cyfarfodydd y Bwrdd a Phwyllgorau a gynhaliwyd yn ystod 2019/20. Ac eithrio un o gyfarfodydd y Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol a Thelerau Gwasanaeth, roedd holl gyfarfodydd ein Bwrdd a Phwyllgorau yn rhai â chworwm yn ystod y cyfnod hwn. Mae trefniadau uwchgyfeirio yn eu lle i sicrhau, os na fydd cyfarfod Pwyllgor yn un â chworwm, bod unrhyw faterion sy'n achosi pryder sylweddol yn cael eu dwyn i sylw Cadeirydd y Bwrdd.

**Ffigur 4: Cyfarfodydd y Bwrdd a Phwyllgorau 2019/20**

| Bwrdd/ Pwyllgor | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cyfarfodydd y Bwrdd** | 29 Mai* | 30 Mai | 22 Awst | 25 Gorff | 26 Medi | 28 Tach | 23 Ion | 20 Chwe (Sesiwn Breifat) | 28 Chwe (Sesiwn Breifat) | 26 Maw** |
| **Sesiynau Datblygu'r Bwrdd** | 25 Ebr | 27 Meh | 22 Awst | 31 Hyd | 12 Rhag | 20 Chwe | | | | |
| **Archwilio a Llywodraethu Corfforaethol** | 1 Mai | 29 Mai | 25 Medi | 15 Ion | 19 Maw | | | | | |
| **Gwybodaeth ac Ymchwil** | 17 Ebr | 24 Gorff | 9 Hyd | 6 Chwe | | | | | | |
| **Ansawdd, Diogelwch a Gwella** | 16 Ebr | 6 Awst | 12 Tach | 11 Chwe | | | | | | |
| **Pobl a Datblygu Sefydliadol** | 24 Ebr | 3 Gorff | 2 Hyd | 27 Chwe | | | | | | |
| **Cydnabyddiaeth Ariannol a Thelerau Gwasanaeth** | 27 Meh | 22 Awst | 31 Hyd | 12 Rhag | 23 Ion | 27 Ion | 26 Maw | | | |

* *Cyfarfod eithriadol a gynhaliwyd i gymeradwyo'r cynnwys i'w cyflwyno mewn perthynas â Safonau'r Gymraeg*

** Cyfarfod agored gan y Bwrdd oedd hwn; fodd bynnag, oherwydd COVID-19, nid oedd yn bosibl caniatáu i'r cyhoedd fod yn bresennol yng nghyfarfodydd ein Bwrdd a'n Pwyllgorau o ganol mis Mawrth 2020.

## 3. Diben y System o Reolaeth Fewnol

Mae'r system o reolaeth fewnol wedi'i bwriadu i reoli risg i lefel resymol yn hytrach na dileu'r holl risgiau. Felly dim ond sicrwydd rhesymol o effeithiolrwydd y gall ei roi ac ni all roi sicrwydd llwyr.

Mae'r system o reolaeth fewnol yn seiliedig ar broses barhaus sydd wedi'i bwriadu i adnabod a blaenoriaethu'r risgiau i gyflawni'r polisïau a'r amcanion a chyrraedd y nodau, i werthuso'r tebygolrwydd y bydd y risgiau hynny'n cael eu gwireddu a'r effaith pe baent yn cael eu gwireddu, ac i'w rheoli'n effeithlon, yn effeithiol ac yn ddarbodus. Mae'r system o reolaeth fewnol wedi bod yn ei lle am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2020 a hyd at ddyddiad cymeradwyo'r adroddiad blynyddol a chyfrifon.

Rydym yn defnyddio system a phroses Cofrestr Risgiau Strategol i fonitro, ceisio sicrwydd a sicrhau yr eir i'r afael â diffygion drwy graffu gan y Bwrdd a'i bwyllgorau.

Caiff rheolaethau allweddol eu diffinio fel y rheolaethau a'r systemau hynny sy'n bodoli i roi cymorth i gyflawni amcanion strategol y Bwrdd. Mae enghreifftiau o reolaethau allweddol yn cynnwys:

- Cynlluniau dirprwyo
- Polisïau a gweithdrefnau
- Data ar berfformiad
- Gwybodaeth am reolaeth ariannol
- Prosesau Ansawdd a Diogelwch

Caiff effeithiolrwydd y system o reolaeth fewnol ei asesu gan ein harchwilwyr mewnol ac allanol.

### 3.1 Capasiti Trin Risgiau

Fel rhan o'r broses gynllunio ac o ddatblygu'r Strategaeth Tymor Hir, a oedd yn cynnwys ymgysylltu'n llawn â rhanddeiliaid, adnabuwyd saith risg strategol. Mae ymgysylltu'n parhau i ddigwydd gyda rhanddeiliaid i reoli'r risgiau hyn drwy gyfarfodydd adolygu perfformiad gyda Llywodraeth Cymru a chyfarfodydd Gweithrediaeth-i-Weithrediaeth gydag Iechyd Cyhoeddus Cymru a byrddau iechyd. Ym mis Mawrth 2019, cymeradwyodd y Bwrdd y risgiau strategol a oedd yn wynebu'r sefydliad ar gyfer 2019/20. Ym mis Rhagfyr 2019, cafodd wythfed risg strategol mewn perthynas â rheoli ansawdd data ei hadnabod hefyd ac mae'r gwaith mewn perthynas â hyn yn cael ei ddatblygu ar hyn o bryd.

Cymeradwyodd y Bwrdd y Polisi Rheoli Risgiau ym mis Mehefin 2017 a Gweithdrefn Rheoli Risgiau ym mis Mawrth 2018, sy'n cynnwys y gofyniad ar gyfer Datganiad Blynyddol o Barodrwydd i Dderbyn Risg. Cafodd y Datganiad o Barodrwydd i Dderbyn Risg ei gynnwys yn y Cynllun Blynyddol ar gyfer 2018-19. Mae'r Polisi a Gweithdrefn yn cael eu hadolygu ar hyn o bryd ar gyfer eu hailgyhoeddi yn 2020/21.

Mae Ffigur 5 yn nodi'r risgiau strategol allweddol ynghyd â'r sgoriau risg asesedig (unwaith y mae mesurau rheoli risg presennol wedi cael eu cymryd i ystyriaeth).

**Ffigur 5: Risgiau Strategol Allweddol Iechyd Cyhoeddus Cymru 2019/20**

| Risg Strategol | Sgôr Risg* Uchafswm Sgôr 20 |
|---|---|
| Ceir risg y bydd Iechyd Cyhoeddus Cymru'n ei gael ei hun heb y gweithlu y mae ei angen arno i gyflawni ei flaenoriaethau strategol | 8 |
| Ceir risg y bydd Iechyd Cyhoeddus Cymru yn methu ag ymateb yn effeithiol i flaenoriaethau newydd ac sy'n dod i'r amlwg gan y Llywodraeth a achosir gan agenda wleidyddol sy'n ddeinamig ac yn esblygu | 8 |
| Ceir risg y bydd Iechyd Cyhoeddus Cymru yn methu â chyflawni manteision i iechyd y boblogaeth drwy arweinyddiaeth sefydliadol a system aneffeithiol (gan gynnwys aliniad gwael â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015) | 12 |
| Ceir risg y bydd Iechyd Cyhoeddus Cymru yn methu â chyflawni ei swyddogaethau statudol fel y nodir yng Ngorchymyn Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru (Sefydlu) 2009, i'r safonau ansawdd, perfformiad a chydymffurfio sy'n ofynnol | 10 |
| Ceir risg na fydd Iechyd Cyhoeddus Cymru'n cydymffurfio â'i rwymedigaethau statudol a rheoleiddiol i'r fath raddau fel ei fod yn methu â chyflawni ei flaenoriaethau strategol | 16 |
| Ceir risg y bydd Iechyd Cyhoeddus Cymru yn methu â dylanwadu ar bartneriaid allweddol i'r dyfnder sy'n ofynnol i'w alluogi i ddarparu'r arweinyddiaeth ofynnol i ganlyn arni â gwaith traws-sector hanfodol | 8 |
| Ceir risg y bydd Iechyd Cyhoeddus Cymru yn ei gael ei hun heb yr adnoddau ariannol sy'n ofynnol i gyflawni ei flaenoriaethau strategol | 5 |

* Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru yn defnyddio matrics 5x5 i gyfrifo'r sgôr risg. Defnyddir y dull hwn yn eang o fewn y GIG. Caiff y tebygolrwydd y bydd y risg yn digwydd ac effaith hynny eu hasesu ar raddfa o un i bump, ac yna caiff y ddau sgôr eu lluosi i gael y sgôr risg terfynol (rhwng un a 25 gydag un yn cynrychioli'r isaf). Ceir rhagor o wybodaeth yng Ngweithdrefn Rheoli Risgiau Iechyd Cyhoeddus Cymru.

Cafodd y Bwrdd ddiweddariadau ar bob risg a'r priod gamau gweithredu yng nghyfarfodydd y Bwrdd drwy gydol y flwyddyn ar ffurf y Gofrestr Risgiau Strategol sy'n rhan o gyfundrefn ehangach Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd. Cymeradwyodd unrhyw ddiwygiadau i Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd, gan gynnwys yr estyniad i ddyddiadau cwblhau camau gweithredu unigol.

Bellach mae dros 100 o Drinwyr Risgiau wedi cael eu hyfforddi ar draws y sefydliad a'u rôl yw cefnogi cyfarwyddwyr a Pherchnogion Risgiau eraill, a chynigir hyfforddiant i'r holl uwch reolwyr y mae disgwyl iddynt ysgwyddo cyfrifoldebau perchnogion risgiau. Mae dogfennau canllaw, Trinwyr Risg enwebedig, a ffurflen i'w chyflwyno sydd ar gael ar y meddalwedd hysbysu ynghylch digwyddiadau a rheoli risgiau ar y we, Datix, oll yn rhoi cymorth i staff hysbysu ynghylch risgiau ar draws y sefydliad. Mae hyn yn gwneud y drefn o adnabod risgiau, hysbysu yn eu cylch a'u rheoli'n fwy syml ac effeithiol.

Ar lefel weithredol, mae cyfarwyddwyr Gweithredol/Isadrannol yn gyfrifol am adolygu Cofrestrau Risgiau eu Cyfarwyddiaeth/Isadran yn rheolaidd, ac am sicrhau bod rheolaethau a chynlluniau gweithredu effeithiol yn eu lle a monitro cynnydd. Mae gwaith i graffu ar Gofrestrau Risgiau Cyfarwyddiaethau'n digwydd yng nghyfarfodydd yr Uwch Dîm Arwain ar sail cylchdro bob mis.

Mae'r Tîm Gweithredol yn adolygu'r Gofrestr Risgiau Corfforaethol yn ei gyfarfod busnes rheolaidd, ac mae'r Gofrestr Risgiau Strategol hefyd yn cael ei hadolygu'n fisol yn barod i gael ei hystyried yng nghyfarfodydd ffurfiol y Bwrdd.

Cyhoeddir y Gofrestr Risgiau Strategol ar ein gwefan gyda phapurau'r Bwrdd ar gyfer cyfarfodydd y Bwrdd.

Ym mis Ionawr 2020, cawsom adroddiad sicrwydd rhesymol gan y tîm archwilio mewnol yn dilyn archwiliad o'r system rheoli risgiau.

Wrth i argyfwng COVID-19 ddatblygu ac i Iechyd Cyhoeddus Cymru symud i'w lefel uwch o ran ymateb i argyfwng, symudodd y sefydliad yn gyflym i adnabod risgiau strategol a gweithredol. Ychwanegwyd deg risg weithredol newydd at y Gofrestr Risgiau Corfforaethol ac maent yn cael eu rheoli'n weithredol ar hyn o bryd gan berchnogion risgiau Gweithredol. Mae'r risgiau hyn yn ymwneud yn bennaf â chyflawni ymateb effeithiol i'r argyfwng, atal gweithgareddau presennol dros dro a llesiant ac argaeledd ein gweithlu.

Hefyd, bu cryn dipyn o drafod ar lefel y Bwrdd am risgiau strategol, ond gyda'r sefyllfa sydd wrthi'n esblygu mae'r rhain wedi bod yn cael eu hadolygu'n gyson. Mae dwy risg strategol sydd fwy neu lai'n cwmpasu ein hymateb i'r argyfwng a'n hadferiad ar ei ôl. Rhagwelir y bydd y fersiynau terfynol o'r risgiau hyn gyda'r holl fanylion rheoli gofynnol yn cael eu cyflwyno i gyfarfod ffurfiol y Bwrdd ym mis Mai i gael eu cymeradwyo.

Mae maes arall o ran rheoli risgiau wedi esblygu wrth ddatblygu'r Cynllun Ymateb Diogelu Iechyd y Cyhoedd. Cynhaliwyd asesiad cynhwysfawr o fygythiadau ac o ganlyniad mae un risg strategol a 10 risg weithredol wedi cael eu hadnabod. Mae'r rhain yn cael eu rheoli'n weithredol ar eu cofrestr risgiau eu hunain fel rhan o'r dull rhaglen o gyflawni'r cynllun ac fe'u tanategir gan gyfres o gofrestrau risgiau ar gyfer ffrydiau gwaith, lle mae risgiau gweithredol i gyrraedd y cerrig milltir cyflawni yn y cynllun yn cael eu rheoli.

Mae'r Bwrdd a'r Weithrediaeth yn cydnabod bod y risgiau a oedd yn bodoli cyn COVID-19 yn dal i fygwth y sefydliad ac mae'r rhain yn cael triniaeth reoli briodol, gan gofio'r angen i flaenoriaethu gweithgareddau a neilltuo adnoddau priodol i reoli'r risgiau hynny sy'n creu'r bygythiad mwyaf.

## 4. Trefniadau Llywodraethu Ansawdd

Mae'r trefniadau canlynol yn eu lle ar gyfer asesu ansawdd gwaith Iechyd Cyhoeddus Cymru.

### 4.1 Y Gyfarwyddiaeth Ansawdd, Nyrsio a Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd

O 1 Ebrill 2019, ysgwyddodd y Gyfarwyddiaeth Ansawdd, Nyrsio a Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd gyfrifoldeb am lywodraethu integredig. Mae hyn yn cynnwys llywodraethu clinigol, gwybodaeth a chorfforaethol. Mae'r tîm yn cydweithio'n agos gydag Ysgrifennydd y Bwrdd a Phennaeth Uned Fusnes y Bwrdd sydd â chyfrifoldeb am gefnogi elfennau llywodraethu'r Bwrdd ar gyfer y sefydliad. Cafodd y gyfarwyddiaeth ei hailstrwythuro yn ystod 2019/20 i adlewyrchu'r newidiadau newydd hyn ac mae'n gyfrifol am y swyddogaethau canlynol:

- Ansawdd a Safonau
- Rheoli Risg a Llywodraethu Gwybodaeth
- Gweithio i Wella (digwyddiadau, cwynion a hawliadau)
- Llywodraethu integredig
- Ymgysylltu â Defnyddwyr Gwasanaethau
- Atal a Rheoli Heintiau (gan weithio'n fewnol)
- Diogelu (gan weithio'n fewnol)
- Tîm Diogelu Cenedlaethol (gan weithio'n allanol)
- Arweinyddiaeth a chymorth i agenda Cymru gyfan y GIG ar gyfer Cydraddoldeb a Hawliau Dynol (gan weithio'n allanol)
- Goruchwyliaeth Broffesiynol ar gyfer Nyrsio/Bydwreigiaeth, Gwyddonwyr Gofal Iechyd, Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd a gweithwyr cymorth Gofal Iechyd.

Mae gan y Cyfarwyddwr Gweithredol Ansawdd, Nyrsio a Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd gyfrifoldeb i arwain, llywio a mynd ati'n barhaus i wella ein systemau, prosesau a threfniadau ar gyfer ansawdd ac elfennau o lywodraethu ar draws y sefydliad. Mae hefyd yn atebol am y trefniadau goruchwylio proffesiynol ar gyfer nyrsys a bydwragedd, Gwyddonwyr Gofal Iechyd, Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd a Gweithwyr Cymorth Gofal Iechyd. Mae'r Cyfarwyddwr Gweithredol yn aelod o'r Tîm Gweithredol, sy'n atebol ar y cyd am reolaeth weithredol ar y sefydliad a chyflawni'r amcanion corfforaethol.

Mae gan y Cyfarwyddwr Gweithredol Ansawdd, Nyrsio a Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd gyfrifoldeb ar y cyd â'r Cyfarwyddwr Gweithredol Gwasanaethau Iechyd y Cyhoedd/ Cyfarwyddwr Meddygol am drefniadau llywodraethu clinigol ar draws y sefydliad.

Gan adeiladu ar waith y Fframwaith Ansawdd ac Effaith a roddwyd ar waith rhwng 2016 a 2019, ac yn ngoleuni'r Bil Ansawdd ac Ymgysylltu (Cymru) sy'n cael ei ddatblygu rydym yn ceisio mynd i'r lefel nesaf o aeddfedrwydd o ran ein dull o fynd ar drywydd ansawdd a gwella, drwy ddatblygu a gweithredu Strategaeth Ansawdd a Gwella newydd. Bydd hyn wedi'i fwriadu i'n cynorthwyo i ddod yn sefydliad uchel ei berfformiad sy'n cyrraedd ei nodau strategol ac yn optimeiddio ansawdd ein gwasanaethau, swyddogaethau a rhaglenni.

Rydym yn y broses o ddatblygu ein set newydd o Ddangosyddion Perfformiad Allweddol ar gyfer 20/21 sydd wedi'u halinio â'n deilliannau strategol a byddwn yn diweddaru ein metrigau perfformiad a ystyrir drwy feysydd ansawdd cydnabyddedig.

Ceir nifer o grwpiau corfforaethol presennol sy'n cefnogi gwaith y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Gwella, sy'n cynorthwyo'r Bwrdd i gyflawni ei swyddogaethau o ran cyflawni ei gyfrifoldebau mewn perthynas ag ansawdd a diogelwch. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Panel Profiad Defnyddwyr Gwasanaethau a Dysgu
- Grŵp Diogelu
- Grŵp Atal a Rheoli Heintiau.

*(Ceir rhagor o wybodaeth am y Pwyllgorau yn adran 2.2.4 o'r adroddiad hwn.)*

Fel rhan o'n gwaith datblygu ym maes llywodraethu integredig, byddwn yn adolygu'r trefniadau a'r mecanweithiau sy'n bodoli ar hyn o bryd, i weld sut y gallwn gryfhau a gwella ein dull a'i integreiddio'n well i gefnogi'r agenda ansawdd wrth edrych tua'r dyfodol.

Cynhyrchir y Datganiad Ansawdd Blynyddol (DAB) ar gyfer y cyhoedd ac mae'n darparu gwybodaeth am waith, swyddogaeth a chynnydd Iechyd Cyhoeddus Cymru. Fe'i datblygir gydag ymwneud gan ddefnyddwyr gwasanaethau a rhwydweithiau presennol yn y trydydd sector sy'n cynrychioli'r cyhoedd. Bydd y DAB 2019/20 yn cael ei gyhoeddi ar ein gwefan yn ddim hwyrach na 30 Medi 2020.

Am yr ail flwyddyn yn olynol, rydym wedi rhoi cymorth i gyhoeddi DAB pobl ifanc a berodd i'r sefydliad gynnal nifer o ddigwyddiadau preswyl ar gyfer pobl ifanc. Fe wnaethom hefyd estyn ein cymorth ar gyfer yr Uwchgynhadledd Ieuenctid drwy gyflwyno digwyddiad yng Ngogledd Cymru. Cynhaliwyd Uwchgynadleddau Ieuenctid Gogledd a De Cymru gan ddenu dros 160 o bobl ifanc rhwng 11 a 23 oed. Yn ddaearyddol, roedd y rhai a ddaeth yn cynrychioli Cymru gyfan.

Gwnaed gwaith pellach i gynorthwyo pobl ifanc nas clywir yn aml i fod yn bresennol ac roedd y gynrychiolaeth yn cynnwys pobl ifanc o'r grwpiau canlynol:

- Pobl Lesbiaidd, Hoyw, Ddeurywiol a Thrawsrywiol
- Pobl ag anableddau dysgu
- Plant sy'n derbyn gofal
- Ceiswyr lloches a ffoaduriaid.

Cynigiodd yr Uwchgynhadledd Ieuenctid gyfle i'r bobl ifanc gefnogi datblygiadau mewn ystod o agendâu iechyd y cyhoedd.

Rydym hefyd yn cydnabod bod cyd-ddibyniaeth rhwng yr agenda ansawdd a'n trefniadau llywodraethu corfforaethol, llywodraethu gwybodaeth a rheoli risgiau a thros y flwyddyn sydd i ddod byddwn yn canolbwyntio'n fwy ar sut yr ydym yn datblygu ein systemau, prosesau a diwylliant llywodraethu integredig o fewn y sefydliad.

## 4.2 Llywodraethu Gwybodaeth

Mae gennym drefniadau sydd wedi hen ennill eu plwyf ar gyfer llywodraethu gwybodaeth i sicrhau bod gwybodaeth yn cael ei rheoli yn unol â chyfraith a rheoliadau perthnasol ar lywodraethu gwybodaeth a chanllawiau Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth. Yn ystod 2019/20 ysgwyddodd y Pwyllgor Gwybodaeth ac Ymchwil gyfrifoldeb ar ran y Bwrdd am gael sicrwydd bod y system Llywodraethu Gwybodaeth yn gweithredu'n effeithiol ac yn goruchwylio materion llywodraethu gwybodaeth.

Y Gwarcheidwad Caldicott yw'r person cyfrifol ar gyfer diogelu cyfrinachedd gwybodaeth cleifion a defnyddwyr gwasanaethau a galluogi trefniadau priodol ar gyfer rhannu gwybodaeth. Y Cyfarwyddwr Gweithredol Gwasanaethau Iechyd y Cyhoedd/Cyfarwyddwr Meddygol sy'n cyflawni'r rôl hon.

Yr Uwch Swyddog Risg Gwybodaeth (SIRO) yw'r Cyfarwyddwr Gweithredol Ansawdd, Nyrsio a Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd. Rôl y SIRO yw bod yn eiriolwr dros risg gwybodaeth ar y Bwrdd. Mae'r SIRO yn gyfrifol am sefydlu fframwaith atebolrwydd o fewn y sefydliad i gyflawni dull cyson a chynhwysfawr o asesu risg gwybodaeth.

Y Prif Swyddog Risg yw'r Pennaeth Llywodraethu Gwybodaeth hefyd ac mae'n dal swydd ffurfiol Swyddog Diogelu Data fel sy'n ofynnol yn ôl Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data 2016 (GDPR). Mae gan y rôl hon gyfrifoldeb am weithredu'r system reoli sy'n ateb ein gofynion Llywodraethu Gwybodaeth, ac am sicrhau y cydymffurfir â'r holl ddeddfwriaeth a rheoliadau perthnasol.

Yn sgîl cylch gwaith Cymru gyfan Iechyd Cyhoeddus Cymru, ynghyd â'r gwasanaethau amrywiol y mae'n eu darparu, cydnabyddir bod ar y Gwarcheidwad angen cymorth cynrychiolwyr priodol i'w gwneud yn bosibl cyflawni dyletswyddau'r rôl, fel y nodir uchod. Mae cynrychiolwyr Caldicott wedi cael eu hadnabod ac mae'n ofynnol, ar y cyd â'r Gwarcheidwad Caldicott a'r SIRO, eu bod yn cwblhau'r hyfforddiant Gwarcheidwad Caldicott/ SIRO y cytunwyd arno a hynny'n flynyddol, fel un o ofynion y rôl.

Rydym wedi cymryd camau mawr tuag at gydymffurfio â gofynion y Rheoliad Cyffredinol ar Reoli Data, a ddaeth i rym yn y DU ym mis Mai 2018 ynghyd â Deddf Diogelu Data newydd 2018.

## 5. Safonau Iechyd a Gofal

*Safonau Iechyd a Gofal* Llywodraeth Cymru yw'r fframwaith a ddefnyddir gan holl sefydliadau GIG Cymru fel sail i allu adnabod cryfderau a meysydd i'w gwella yn y sefydliad. Mae ein dull o ran y Safonau Iechyd a Gofal wedi bod yn destun adroddiad Archwilio Mewnol, y cawsom lefel sicrwydd 'sylweddol' ynddo. *(Ceir rhagor o wybodaeth am yr Adroddiadau Archwilio Mewnol yn adran 2.4.1 o'r adroddiad)*

Mae'r prosesau wedi gwreiddio'n dda gyda Chyfarwyddiaethau/ Isadrannau'n hunanasesu yn erbyn pob un o'r safonau i benderfynu pa feysydd sy'n gwneud yn dda ac adnabod meysydd lle gall fod angen gwelliannau. Mae'r broses adolygu gan gymheiriaid yn ei gwneud yn bosibl craffu ar hunanasesiadau Cyfarwyddiaethau/Isadrannau ac roedd cynrychiolwyr o'r tîm Archwilio Mewnol yn bresennol yn y digwyddiad hwn i arsylwi ar y broses a oedd yn cael ei dilyn fel rhan o'u harchwiliad o'r trefniadau ar gyfer Safonau Iechyd a Gofal. Mae disgwyl i Gyfarwyddiaethau/ Isadrannau ddangos bod y safonau'n cael eu cymhwyso ac yn cael eu cyrraedd neu yr eir y tu hwnt iddynt yn barhaus.

Mae'r camau gweithredu a adnabyddir gan Gyfarwyddiaethau fel rhan o'r broses hunanasesu'n cael eu hymgorffori o fewn y fframwaith monitro perfformiad, a gaiff ei gwblhau'n chwarterol, a'u monitro drwy'r trefniadau perfformiad sefydliadol. Bydd adroddiad hunanasesu sefydliadol cyfunol yn seiliedig ar ddatganiadau o'r naw Cyfarwyddiaeth ynghyd â'u hadroddiadau hunanasesu'n cael ei gyflwyno maes o law. Bu oedi gyda hyn eleni oherwydd effaith COVID-19.

## 6. Iechyd a Diogelwch

Mae'r Grŵp Iechyd a Diogelwch yn is-grŵp i'r Pwyllgor Pobl a Datblygu Sefydliadol. Mae'r grŵp yn rhoi cyngor a sicrwydd i'r Pwyllgor Pobl a Datblygu Sefydliadol, y Bwrdd a'r Swyddog Atebol. Mae hyn yn cynnwys pa un a oes trefniadau effeithiol yn eu lle i sicrhau cydymffurfiaeth ar draws y sefydliad â Pholisi Iechyd a Diogelwch Iechyd Cyhoeddus Cymru, cymeradwyo a monitro'r modd y cyflawnir y cynllun gweithredu Iechyd a Diogelwch a sicrhau y cydymffurfir â'r Safonau Iechyd a Gofal ar gyfer Cymru. Mae'r grŵp yn cael un adroddiad ar ystadau ac iechyd a diogelwch sy'n cynnwys cydymffurfio, risgiau, digwyddiadau a materion iechyd a diogelwch. Mae hyn yn galluogi'r grŵp i ganolbwyntio ar faterion neu heriau allweddol ac i adnabod unrhyw risgiau sefydliadol y mae gofyn eu huwchgyfeirio at y Gofrestr Risgiau Iechyd a Diogelwch Corfforaethol.

Yn 2018/19 cymerwyd nifer o gamau gweithredu i gryfhau'r modd y mae materion iechyd a diogelwch yn cael eu llywodraethu. Mae'r rhain wedi cael eu rhoi ar waith a'u datblygu ymhellach yn ystod 2019/20 gan gynnwys:

- Cau'r Cynllun Gweithredu Iechyd a Diogelwch gwreiddiol a sefydlu cynllun gweithredu 5 mlynedd treigl sy'n cael ei fonitro drwy'r Grŵp Iechyd a Diogelwch yn chwarterol
- Mae'r Gofrestr Risgiau Iechyd a Diogelwch wedi cael ei monitro'n barhaus i sicrhau bod yr holl risgiau ar y gofrestr yn cael eu hadolygu a'u diweddaru

- Cynnal cyfradd gydymffurfio o 100% ar draws ein hystâd; asbestos; diogelwch nwy; bacteria clefyd y llengfilwyr; tân a gwifrau sefydlog (tystysgrif bob 5 mlynedd)
- Gwaith a gwblhawyd ym maes Microbioleg yn dilyn sicrhau cyllid cyfalaf i wella amgylcheddau labordai microbioleg, gan ddarparu cyfleusterau llesiant gwell ar gyfer staff
- Dull Iechyd, Diogelwch a Llesiant wedi'i ddatblygu ar gyfer Iechyd Cyhoeddus Cymru.

Cyfrifoldeb y Dirprwy Brif Weithredwr/ Cyfarwyddwr Gweithredol Gweithrediadau a Chyllid yw trosolwg weithredol. Ar lefel weithredol, mae'r Pennaeth Ystadau (Cyfleusterau) a'r Tîm Iechyd a Diogelwch yn dal i adeiladu fframwaith a diwylliant iechyd a diogelwch cadarnhaol.

Cymeradwyodd y Bwrdd y Polisi Iechyd a Diogelwch diwygiedig ym mis Mawrth 2018. Mae is-bolisïau a chasgliad o weithdrefnau a dogfennau rheoli manwl yn ategu'r polisi.

## 7. Strategaeth Tymor Hir

Ers lansio ein Strategaeth Tymor Hir yn 2018, rydym wedi bod yn sefydlu trefniadau newydd ar gyfer rheoli ein blaenoriaethau. Mae'r rhain wedi cael eu datblygu i gefnogi ein trawsnewid sefydliadol gyda ffocws ar wella'r modd yr ydym yn cydweithio ar draws y sefydliad ac yn gweithio gyda phartneriaid. Mae gan bob un o'n blaenoriaethau strategol Gyfarwyddwr Gweithredol arweiniol ac mae grwpiau blaenoriaeth strategol yn cael eu cadeirio gan aelod o'r Uwch Dîm Arwain. Mae hyn yn gyson â'n cyfeiriad teithio tuag at arddull matrics o weithio a ategir gan fecanweithiau llywodraethu a goruchwylio aeddfed yn ogystal â monitro'r mesurau yn y Fframwaith Deilliannau Iechyd y Cyhoedd yr ydym yn ceisio dylanwadu arnynt. Nod trosfwaol pob grŵp blaenoriaeth strategol yw ystyried a yw'r gwaith ar y trywydd iawn i gyflawni'r deilliannau yn y Strategaeth Tymor Hir. Mae'r trefniadau'n cynnwys cyfrifoldeb am lywodraethu, a dirprwyo ein prif flaenoriaethau o'n Tîm Gweithredol i'r grwpiau blaenoriaeth strategol.

Yn haf 2018, lansiwyd ein Strategaeth Tymor Hir *'Gweithio i gyflawni dyfodol iachach i Gymru'*. Rydym wedi gwneud gwaith sylweddol yn ystod 2019/20 i barhau â'n Gweledigaeth 2030 (Strategaeth Tymor Hir). Mae hyn wedi ein galluogi i ganolbwyntio ar sut orau y gallwn weithio gyda'n partneriaid i gael yr effaith fwyaf ar wella iechyd a llesiant a lleihau anghydraddoldebau iechyd yng Nghymru.

I gyflawni gwelliant trawsnewidiol ar y cyfan yn iechyd a llesiant y boblogaeth y mae'i angen arnom yng Nghymru, fe wnaethom gydnabod bod angen i ni symud i ffwrdd oddi wrth feddwl am y tymor byr a bod â dull strategol mwy hirdymor o ran sut y byddwn yn mynd i'r afael yn effeithiol â materion iechyd y cyhoedd.

Bydd ein dull mwy hirdymor yn:

- Cyflawni'r mwyaf y gallwn i bobl Cymru
- Ateb a mynd y tu hwnt i ofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru)
- Cydweithio gyda'n partneriaid yn y meysydd lle ceir yr angen mwyaf (meysydd pwnc)
- Deall yr heriau sy'n ein hwynebu wrth inni symud tuag at boblogaeth sy'n heneiddio gyda heriau iechyd sy'n fwy o faint ac yn fwy cymhleth.

Yn ystod 2019, rydym wedi parhau â'n gwaith i gyflawni'r saith blaenoriaeth a adnabuwyd gennym wrth ddatblygu ein Strategaeth Tymor Hir. Ar gyfer 2020/21, rydym wedi ymrwymo i raglen i drawsnewid ein swyddogaethau galluogi. Rydym wedi adnabod wyth maes lle'r ydym yn bwriadu gwneud gwelliannau; a danategir gan Ansawdd a'n Strategaeth Ansawdd a Gwella arfaethedig.

Bydd ein strategaeth Ansawdd a Gwella'n atgyfnerthu ein dull sefydliadau o gyflawni ansawdd drwy ffyrdd newydd o weithio a thrawsnewid ein swyddogaethau galluogi. Bydd hyn yn galluogi gwelliant parhaus i ddigwydd ar draws pob maes yn y sefydliad i gyflawni deilliannau gwell ac effaith well, sy'n allweddol i gyflawni ein Strategaeth Tymor Hir.

Y tu hwnt i'r prosesau gwella hyn, rydym wedi adnabod tair thema gydberthynol sy'n drawsnewidiol:

- Mabwysiadu ffyrdd newydd o weithio
- Cyflawni'n gall gan ddefnyddio gwybodaeth
- Blaenoriaethu ein harlwy ddigidol i wella deilliannau.

Yn 2020, cafodd y sefydliad sgôr sicrwydd rhesymol gan y tîm Archwilio Mewnol yn dilyn adolygiad o'r Broses Cynllunio Tymor Hir. *(Ceir rhagor o wybodaeth am yr Adroddiadau Archwilio Mewnol yn adran 2.4.1 o'r adroddiad hwn)*

I gael rhagor o wybodaeth, mae'r Strategaeth Tymor Hir ar gael yn Gymraeg neu Saesneg.

## 8. Ein Cynllun Strategol (Cynllun Tymor Canolig Integredig)

Ym mis Ionawr 2020, cymeradwyodd y Bwrdd ein Cynllun Tymor Canolig Integredig ar gyfer 2020-23 a gyflwynwyd wedyn i'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ym mis Mawrth 2020 i gael ei gymeradwyo.

Yn dilyn asesiad cadarn, barnwyd fod y Cynllun Tymor Canolig yn un y gellir ei gymeradwyo, sydd o fudd i ni ar gyfer y dyfodol ac yn darparu llinell sylfaen ar gyfer trafodaethau cynllunio yn y dyfodol. Fodd bynnag, yng ngoleuni heriau presennol COVID-19, penderfynwyd oedi gyda phrosesau'r Cynllun a galluogi ein holl adnoddau i gael eu hailgyfeirio at gynnal gwasanaethau allweddol.

Nes bydd y Cynllun Tymor Canolig Integredig ar gyfer 2020-23 wedi cael ei adolygu ymhellach gan y Gweinidog, mae'r Cynllun ar gyfer 2019-22 yn dal i fod yn ei le, gan felly fodloni'r ddyletswydd statudol i ni fod â chynllun cymeradwy yn ei le.

Yn ystod y pandemig, rydym wedi datblygu cynlluniau cyflawni sy'n canolbwyntio ar ein rôl ar gyfer COVID-19. Roedd cynllun cam un yn cwmpasu'r cyfnod o fis Mai i fis Mehefin 2020, bydd Cam 2 yn cwmpasu'r cyfnod o fis Mehefin i fis Awst 2020.

Ein cynllun wedi'i ddiweddaru yw'r flwyddyn derfynol yn y cylch cynllunio tair blynedd cyfredol i gyflawni ein Strategaeth Tymor Hir newydd, sy'n rhychwantu'r cyfnod o 2018 i 2030. Gan adeiladu ar ail flwyddyn lwyddiannus, mae'n manylu ar y camau gweithredu y byddwn yn eu cymryd dros y tair blynedd nesaf i barhau â'n gwaith tuag at gyflawni ein Strategaeth Tymor Hir newydd a sut yr ydym yn bwriadu cyflawni ein diben, sef *'Gweithio i gyflawni dyfodol iachach i Gymru'*. A hithau wedi'i fframio o fewn cyd-destun Cymru Iachach, y Cynllun Tymor Canolig Integredig cenedlaethol a Blaenoriaethau Gweinidogol, mae'n dangos sut y byddwn yn canolbwyntio ein hymdrechion, drwy gyflawni ein saith blaenoriaeth strategol, ar wneud y gwahaniaeth mwyaf posibl i iechyd a llesiant cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol.

Roedd perfformiad ariannol yn gyson â'r Cynllun Tymor Canolig Integredig cymeradwy ac mae Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi parhau i gyflawni ei dyletswydd ariannol statudol i adennill costau yn ystod 2019-20.

Mae ein Cynllun Strategol yn cael ei ddiweddaru'n flynyddol drwy ein prosesau busnes a chynllunio strategol. Mae ein trefniadau llywodraethu newydd ar gyfer rheoli ein blaenoriaethau strategol wedi bod yn parhau i esblygu a datblygu. Mae hyn yn cynnwys cyfrifoldeb am lywodraethu ac arwain blaenoriaethau'n cael ei ddirprwyo gan y Tîm Gweithredol i sicrhau ein bod yn dal ar y trywydd iawn o ran cyflawni ein Strategaeth Tymor Hir a chynllunio ar gyfer y dyfodol. Mae Grŵp Cydlynu Blaenoriaethau Strategol wedi cael ei greu i ddarparu goruchwyliaeth ar y cyd rhwng y grwpiau Blaenoriaeth Strategol a chytuno ar newidiadau i'r cynllun.

Trafodwyd fersiynau drafft o'r Cynllun Strategol gyda'r Tîm Gweithredol a'r Bwrdd fel rhan o'r broses ddatblygu. Mae'r grwpiau Blaenoriaeth Strategol wedi canolbwyntio ar ddatblygu set o fesurau deilliannau ar gyfer trafodaethau wedi'u hwyluso yn eu maes a bydd y broses hon yn parhau yn ystod 2020 gydag ymwneud gan Gyfarwyddwyr Anweithredol. Ystyriodd y Bwrdd hefyd y sefyllfa ariannol a strategaeth y gyllideb ac adolygu risgiau strategol y sefydliad yn un o sesiynau datblygu'r Bwrdd ym mis Ionawr 2020. Cafodd y Cynllun Strategol ei gymeradwyo'n ffurfiol gan y Bwrdd ym mis Ionawr 2020.

Cafodd ein cynnydd o ran cyflawni ein cynlluniau ei reoli'n weithredol gan y Bwrdd fel rhan o'n trefniadau rheoli perfformiad. Yn ystod 2019/20, fe wnaethom barhau i ddatblygu ein hadroddiad perfformiad integredig sy'n darparu gwybodaeth allweddol am ein perfformiad gweithredol, pobl, ansawdd ac ariannol ac mae bellach yn adlewyrchu ein Blaenoriaethau Strategol. Mae ein tîm Gweithredol yn craffu ar ein hadroddiad perfformiad integredig yn fisol ac mae'r Bwrdd yn craffu arno bob dau fis ym mhob un o gyfarfodydd ffurfiol y Bwrdd. Mae'r wybodaeth sydd wedi'i chynnwys yn yr adroddiadau hyn yn galluogi ein Bwrdd i gael sicrwydd ynghylch y gwasanaethau yr ydym yn eu darparu a bod cynnydd yn cael ei wneud yn erbyn y camau gweithredu sydd wedi'u cynnwys yn y Cynllun Tymor Canolig Integredig. Cafwyd sicrwydd pellach o adborth y Tîm Gweithredol ar y Cyd rhwng Iechyd Cyhoeddus Cymru a Llywodraeth Cymru a gynhaliwyd ar ganol y flwyddyn.

Rydym wedi adnabod perfformiad fel un o'r meysydd allweddol yn ein gweithgarwch trawsnewid mewnol i helpu i sicrhau ein bod yn cyflawni ein strategaeth hirdymor yn effeithiol.

Ystyrir bod y weledigaeth o symud tuag at wybodaeth integredig fwy amserol a gronynnog am berfformiad, sy'n cael ei dadansoddi'n gadarn, yn allweddol i'n galluogi i wneud penderfyniadau effeithiol.

Yn ystod 2019/20, fe wnaethom sefydlu rhaglen o waith i'n helpu i roi ein Fframwaith Perfformiad ar waith. Mae hon yn canolbwyntio ar gynhyrchu ein Hadroddiad Perfformiad Integredig misol gan ddefnyddio offer gwybodaeth busnes a datblygu nifer fach o ddangosyddion perfformiad allweddol, y byddwn yn adrodd wrth y Tîm Gweithredol a'r Bwrdd arnynt.

Bydd hyn yn darparu gwybodaeth fwy integredig a chydgysylltiedig ar ein cyfer sy'n ein galluogi i wneud penderfyniadau effeithiol a deall sut yr ydym yn cyflawni yn erbyn ein Strategaeth a'n Cynlluniau.

Fel rhan o symud ein Strategaeth yn ei blaen nodwyd nifer o feysydd gan gynnwys llywodraethu, cynllunio, rheoli perfformiad, cyfathrebu ac ymgysylltu a dyluniad sefydliadol. Yn seiliedig ar y gwaith cynnar i ganlyn arni â'r themâu hyn cydnabuom fod hyn yn ein symud tuag at raglen o drawsnewid. Bydd hyn yn elfen allweddol o'n gwaith ar gyfer 2020/21.

Mae effeithiau COVID-19, ac ymateb y sefydliad i reoli'r digwyddiad, wedi golygu nad yw pob agwedd ar y Cynllun Strategol wedi cael eu cyflawni o ddiwedd mis Chwefror 2020. Mae hyn yn debygol o barhau ymhell i mewn i 2020/21.

Ar 28 Chwefror, penderfynodd y Bwrdd gymeradwyo proses gyflym i symud staff ar draws y sefydliad i gefnogi'r ymateb i COVID-19. Ac eithrio cynnal gwasanaethau microbioleg a diogelu iechyd, gwasanaethau sgrinio, gwasanaethau cyfathrebu a seilwaith, ymateb i COVID-19 fydd unig flaenoriaeth y sefydliad hyd oni hysbysir yn wahanol.

Mae adroddiad diwygiedig ar berfformiad wedi cael ei ddatblygu ac fe'i cyflwynwyd i'r Bwrdd ym mis Ebrill 2020 gan ddarparu crynodeb o'n perfformiad mewn meysydd gweithgarwch allweddol. Bydd datblygu'r cynllun adfer sefydliadol o gymorth inni gynllunio pryd a sut y bydd y gwasanaethau hynny sydd naill ai wedi'u hatal yn llwyr neu nad ydynt yn llwyr weithredol, yn ailgychwyn.

# 9. Datgeliadau Gorfodol

## 9.1 Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Hawliau Dynol

Rydym yn llwyr ymrwymedig i gyflawni'r dyletswyddau cyffredinol a phenodol a nodir yn Nyletswyddau Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus (2011). Mae mesurau rheoli yn eu lle i sicrhau y cydymffurfir â holl rwymedigaethau'r sefydliad dan ddeddfwriaeth cydraddoldeb, amrywiaeth a hawliau dynol.

Rydym wedi parhau i gyflawni'r amcanion cydraddoldeb presennol a nodir yn ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2016 – 2020 a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2016, ond rydym hefyd wedi ymgynghori â staff a'r cyhoedd i adnabod a datblygu set newydd o amcanion cydraddoldeb strategol ar gyfer y cyfnod o fis Ebrill 2020 i fis Mawrth 2024. Bydd hon yn cael ei chyhoeddi yn 2020/21. Rydym hefyd yn arbennig o awyddus i hybu cydraddoldeb drwy weithredu cadarnhaol gan sicrhau bod yr hyn a wnawn fel rhan o'n busnes pob dydd yn deg, yn gwbl hygyrch ac yn gynhwysol i'r holl boblogaethau ac unigolion, gan gynnwys y rhai a warchodir rhag gwahaniaethu dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010.

Er mwyn cefnogi'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol diwygiedig, mae cynllun cyflawni'n cael ei ddatblygu. Mae Grŵp Cyfeirio Rhanddeiliaid sy'n cynnwys sefydliadau allanol sy'n cynrychioli'r gwahanol nodweddion gwarchodedig wedi cael ei sefydlu hefyd i fonitro a goruchwylio'r cynnydd sy'n cael ei wneud tuag at gyflawni'r amcanion. Yn gorfforaethol, caiff y trefniadau llywodraethu ar gyfer cydraddoldeb eu rheoli drwy'r Pwyllgor Pobl a Datblygu Sefydliadol. Adroddir yn rheolaidd wrth y Pwyllgor Pobl a Datblygu Sefydliadol ar gynnydd yn erbyn y camau gweithredu yn y Cynllun Cydraddoldeb Strategol. *(Ceir rhagor o wybodaeth am y Pwyllgorau yn adran 2.2.3 o'r adroddiad hwn.)*

O ran cyflawni yn erbyn y cynllun hwn, gwnaed ymrwymiad cadarn gan holl rannau a lefelau'r sefydliad i ystyried cydraddoldeb fel rhan o'r gwaith y maent yn ei wneud. Yn unol â dyletswyddau adrodd y sector cyhoeddus, rydym ar fin cyhoeddi ein hadroddiad ar gyfer 2018-19 sy'n amlygu'r cynnydd hyd yma. Rydym wedi cyhoeddi adroddiad ar wahân ar ein Bwlch Cyflog Rhwng y Rhywiau, yr adroddwyd arno hefyd ar borth y Llywodraeth. Rydym hefyd wedi adrodd ar ein data ynghylch cyflogaeth, hyfforddiant a chydraddoldeb.

Rydym yn cydnabod bod angen inni barhau i sicrhau bod y gwasanaethau yr ydym yn eu darparu'n gynhwysol a bod y gweithlu sydd gennym yn amrywiol. Gan bod cydraddoldeb yn hanfodol i bob rhan o'n busnes, mae meysydd gwasanaeth, adrannau a thimau'n cael eu hannog i ystyried effeithiau'r hyn y maent yn ei wneud mewn perthynas â chydraddoldeb. Rhaid i waith barhau hefyd, i leihau anghydraddoldebau. Rydym yn annog rhagor o bobl o gymunedau gwarchodedig i lywio ein gwaith. Wrth fabwysiadu'r arfer hwn, byddwn yn datblygu partneriaethau cryf gyda phobl o gymunedau gwarchodedig ac yn dysgu oddi wrthynt a chyda hwy. Rydym yn ymrwymedig i nifer o fentrau sy'n gysylltiedig â'r gweithlu ac enillom statws Arweinydd Hyderus o ran Anabledd ym mis Gorffennaf 2019, ac rydym wrthi ar hyn o bryd yn gweithio ar asesiad o'n cynhwysiant ar gyfer staff o grwpiau Pobl Dduon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig. Rydym hefyd yn aelod o Gynllun Hyrwyddwyr Amrywiaeth Stonewall, ac roeddem yn y 100fed safle allan o 502 o sefydliadau a gymerodd ran yn y Mynegai Cydraddoldeb yn y Gweithle; cynnydd o 73 o leoedd o'i gymharu â'n safle y llynedd, a olygodd ein bod yn rhestr y 100 Cyflogwr uchaf yn y DU am y tro cyntaf. Mae hyn wedi dangos gwelliant helaeth, gyda gwaith pellach yn yr arfaeth i barhau ar ein siwrne o ran cynhwysiant. Bydd cefnogi mentrau o'r fath yn ein symud ymlaen fel sefydliad o ran amrywiaeth y gweithlu.

Drwy gyflawni ein camau gweithredu yn unol â'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol, bydd y gwaith hwn yn gwneud cyfraniad sylweddol tuag at wireddu ein gweledigaeth ar gyfer Cymru.

## 9.2 Y Gymraeg

Rydym yn cydnabod bod darpariaeth o ran gofal ac iaith yn mynd law yn llaw. Gall ansawdd darpariaeth o ran gofal, diogelwch cleifion, urddas a pharch gael eu peryglu gan fethiant i gyfathrebu gyda chleifion a defnyddwyr gwasanaethau yn eu hiaith gyntaf. Dim ond drwy gyfrwng y Gymraeg y mae llawer o bobl yn gallu cyfathrebu a chyfranogi'n effeithiol yn eu gofal fel partneriaid cydradd. Rydym yn ymrwymedig i ddiwallu anghenion a dewisiadau iaith Gymraeg defnyddwyr ein gwasanaethau.

Dros y degawd diwethaf, rydym wedi gweithio'n galed i wella argaeledd, hygyrchedd, ansawdd a chydraddoldeb ein gwasanaethau cyfrwng Cymraeg drwy roi ein Cynllun Iaith Gymraeg a *'Mwy Na Geiriau'*, fframwaith strategol Llywodraeth Cymru ar gyfer gwasanaethau Cymraeg mewn iechyd, gwasanaethau cymdeithasol a gofal cymdeithasol, ar waith. Mae ein gwaith i hyrwyddo a datblygu'r defnydd o'r Gymraeg yn ategu nod Llywodraeth Cymru i fod â miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. Rydym wedi adrodd yn fewnol ar gynnydd wrth ein Grŵp Iaith Gymraeg, ein Tîm Gweithredol, y Pwyllgor Pobl a Datblygu Sefydliadol a'r Bwrdd. Yn allanol, rydym wedi cyflwyno Adroddiadau Monitro Blynyddol ar y Cynllun Iaith Gymraeg i Gomisiynydd y Gymraeg ac adroddiadau ar gynnydd gyda *'Mwy Na Geiriau'* i Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol Llywodraeth Cymru fel rhan o'r wybodaeth a gyflwynwyd gennym mewn perthynas â Fframwaith Cyflawni'r GIG.

Mae ein gweithgareddau ac adroddiadau monitro wedi ein harwain i'r casgliad bod llawer i'w wneud o hyd i sicrhau bod defnyddwyr gwasanaethau'n gallu cael mynediad at yr ystod lawn o wasanaethau Cymraeg heb oedi ble bynnag y maent yn byw yng Nghymru. Rydym wedi bod yn ddarostyngedig i Reoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 7) ers 30 Mai 2019. Mae'r safonau, sydd wedi disodli ein Cynllun Iaith Gymraeg, wedi darparu ysgogiad, ffocws a momentwm newydd i gyflawni ein rhwymedigaethau o ran y Gymraeg. Mae gennym dîm iaith Gymraeg sy'n tyfu, ystod o gynlluniau gweithredu, a 'Hwb' – ein hadran iaith Gymraeg ar ein mewnrwyd staff sy'n cynnwys amrywiaeth o gyngor, canllawiau ac offer ymarferol. Mae'r rhain o gymorth i roi'r safonau ar waith fel y mae mentrau megis ein cronfa ddata dewis iaith newydd, mynediad at wasanaethau cyfieithu a dosbarthiadau hyfforddiant iaith Gymraeg ar-lein, a'n rhwydwaith dysgwyr Cymraeg. Mae ein Tîm Gweithredol a'n Bwrdd wedi monitro cynnydd yn fanwl drwy gydol y broses o roi'r safonau ar waith. Maent wedi bod yn cael adroddiadau cydymffurfio rheolaidd sy'n dangos cynnydd da ac yn amlygu heriau ymarferol. Caiff risgiau a heriau o ran rhoi'r safonau ar waith eu cofnodi ar ein Cofrestr Risgiau. Ym mis Hydref 2020, byddwn yn cyflwyno ein Hadroddiad Blynyddol cyntaf ar Safonau'r Gymraeg i Bwyllgor Pobl a Datblygu Sefydliadol y Bwrdd a bydd ar gael ar ein gwefan.

Yn ategu'r agweddau cydymffurfio ar ein gwaith mae ein safbwynt bod y Gymraeg yn elfen bwysig o'n diwylliant sefydliadol. Mae arnom eisiau i'r Gymraeg fod yn rhan naturiol ac annatod o'r hyn a wnawn bob dydd. Rydym yn cydnabod bod angen newid diwylliant ac rydym yn disgwyl

i'n Polisi a Gweithdrefn cyntaf ar ddefnyddio'r Gymraeg yn ein gweinyddiaeth fewnol helpu yn hynny o beth. Hefyd, fe wnaethom lansio Rhaglen Hyrwyddo'r Gymraeg fewnol ym mis Medi 2019 gyda'n Hwythnos Iaith Gymraeg gyntaf erioed a'n cylchlythyr Cymraeg misol *Iaith Pawb*.

## 9.3 Ymdrin â Chwynion a Phryderon

Mae gennym drefniadau i'n galluogi i reoli ac ymateb i gwynion a phryderon er mwyn ateb gofynion *Rheoliadau'r GIG (Trefniadau Pryderon, Cwynion ac Iawn) (Cymru) 2011 a Chanllawiau Polisi Cymru Gyfan ar gyfer Gweithio i Wella.* Mae'r Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Gwella'n goruchwylio cwynion a phryderon. *(Ceir rhagor o wybodaeth am ystyriaeth i gwynion gan Bwyllgorau yn adran 2.2.4 o'r adroddiad hwn)*

Yn 2019/20, rhoddwyd gwybod i Lywodraeth Cymru am wyth Digwyddiad Difrifol gan yr Isadran Sgrinio. Hefyd, cafwyd 49 o gwynion ffurfiol ar gyfer y cyfnod ac ymatebwyd i 86% ohonynt o fewn 30 diwrnod gwaith.

Cafodd adolygiad o'r broses ad-dalu hawliadau o fewn Iechyd Cyhoeddus Cymru ei gynnal gan y tîm Archwilio Mewnol hefyd yn unol â Chynllun Archwilio Mewnol 2019-20, a rhoddwyd sgôr sicrwydd 'sylweddol' i'r broses. *(Ceir rhagor o wybodaeth am ystyriaeth i hawliadau gan Bwyllgorau yn adran 2.2.4 o'r adroddiad hwn).*

## 9.4 Ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth

Mae Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 yn rhoi hawl i'r cyhoedd gael mynediad at gofnodion a gwybodaeth a ddelir gan gyrff cyhoeddus ac mae'n darparu ymrwymiad i fod yn fwy agored a thryloyw yn y sector cyhoeddus. Yn 2019/20, cawsom 107 o geisiadau am wybodaeth erbyn diwedd mis Mawrth 2020.

Atebwyd 102 o'r rhain o fewn y targed o 20 diwrnod, ac ymatebwyd i dri y tu allan i'r terfyn amser. Y rheswm dros un o'r rhain oedd oedi cyn cael yr wybodaeth gan y gwasanaeth/yr adran a oedd yn ei dal, ac roedd yr ail yn ymholiad cymhleth a oedd yn ymwneud â chais gwrthrych am wybodaeth. Ceir saib gydag un ymateb ac mae un yn mynd i gael ei anfon yn fuan. Ymholiadau sy'n ymwneud â COVID-19 yw'r ceisiadau rhyddid gwybodaeth hyn; bu cynnydd a oedd i'w ddisgwyl mewn ymholiadau o'r fath a byddant yn parhau i mewn i'r chwarter nesaf.

Yn 2019, cafodd y sefydliad sgôr sicrwydd 'sylweddol' gan y tîm archwilio mewnol am y modd yr oeddem yn cydymffurfio o ran ymdrin â cheisiadau Rhyddid Gwybodaeth. *(Ceir rhagor o wybodaeth am yr Adroddiadau Archwilio Mewnol yn adran 2.4.1 o'r adroddiad hwn)*

## 9.5 Ceisiadau Gwrthrych am Wybodaeth

Yn 2019/20, cawsom 11 o geisiadau gwrthrych am wybodaeth. Atebwyd saith o'r rhain o fewn y targed, sef un mis calendr. O'r pedwar a oedd yn weddill, achoswyd un gan anawsterau o ran cael gafael ar yr ymholwr unwaith y daethpwyd o hyd i'r wybodaeth, achoswyd un gan oedi cyn trosglwyddo'r cais i'r tîm Risg a Llywodraethu Gwybodaeth ar gyfer gweithredu ac achoswyd dau gan oedi cyn cael yr wybodaeth yr oedd ei hangen gan Wasanaeth Gwybodeg GIG Cymru.

## 9.6 Cynaliadwyedd a'r Cynllun Cyflawni ar gyfer Lleihau Carbon

Rydym yn ymrwymedig i sefydlu datblygu cynaliadwy fel prif egwyddor drefniadol cyrff y sector cyhoeddus yng Nghymru drwy sicrhau ffocws clir ar ganlyniadau a bod penderfyniadau strategol yn seiliedig ar ystyriaeth o benderfynyddion ehangach iechyd a llesiant. Rydym yn cydnabod bod cysylltiad annatod rhwng datblygu cynaliadwy ac iechyd y cyhoedd a bod angen camau gweithredu cydategol a chydgysylltiedig i fynd i'r afael â'r heriau allweddol sy'n wynebu Cymru mewn perthynas â'r ddau.

Ceir nifer o ysgogiadau deddfwriaethol ar gyfer datgarboneiddio ar lefel y DU a'r UE. Y cyntaf ohonynt oedd *'Deddf Newid Hinsawdd y DU 2008'*, c yn 2010 cyhoeddodd Llywodraeth Cymru *'Cymru'n Un: Cenedl Un Blaned'*, ei strategaeth gyntaf ar y newid yn yr hinsawdd. Yng Nghymru, defnyddir dwy ddeddfwriaeth benodol i lywio gweithgarwch datgarboneiddio; *'Deddf yr Amgylchedd (Cymru) Act 2016' a 'Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015'.*

Mae Deddf yr Amgylchedd yn cynnwys ymrwymiad y bydd Llywodraeth Cymru yn lleihau allyriadau carbon Cymru o leiaf 80% erbyn 2050, yn erbyn y llinell sylfaen yn 1990. Rydym yn monitro ôl troed carbon y sefydliad gan ddefnyddio 2016/17 fel ffigwr sylfaenol ac rydym wedi mabwysiadu menter Llywodraeth Cymru i sicrhau bod cynaliadwyedd wedi'i sefydlu ym mhopeth a wnawn.

Rydym wedi ymrwymo i fabwysiadu'r un targedau â'r rhai a nodir gan Lywodraeth Cymru yn y Strategaeth ar y Newid yn yr Hinsawdd,

sef targed i leihau allyriadau nwyon tŷ gwydr 3% o un flwyddyn i'r llall a tharged allyriadau ar y cyfan o 40% erbyn 2020. Rydym yn dal i fod ar y trywydd iawn i gyrraedd y targed hwn a ninnau wedi lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr 5% yn 2016/17, 17.14% yn 2017/18 a 56.22% yn 2018/19.

Rydym yn ymrwymedig i gynaliadwyedd amgylcheddol drwy'r canlynol:

- Mae ein Strategaeth Tymor Hir 2018-30 yn ymrwymedig i ymdrin ag effeithiau'r newid yn yr hinsawdd fel mesur o'i llwyddiant
- Gweithio tuag at lefel blatinwm y Safon Iechyd Corfforaethol
- Gweithio tuag at y safon a gydnabyddir yn rhyngwladol BS EN ISO 14001:2015, sydd wedi'i gynnwys yn ein Cynllun Strategol
- Aliniad â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, yn enwedig y nodau 'Cymru gydnerth' a 'Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang'.

Mae gennym ddwy brif raglen sy'n mynd i'r afael â'r mater hwn – ein Rhaglen Cynaliadwyedd Amgylcheddol, sydd â ffocws mewnol, a'r Hwb Iechyd a Chynaliadwyedd sy'n cefnogi cynaliadwyedd fel ffordd o weithio ledled Cymru. Yn ychwanegol at hyn, rydym hefyd yn gwneud gwaith ar ddulliau economi gylchol.

### a) Rhaglen Cynaliadwyedd Amgylcheddol

Sefydlwyd Grŵp Cynaliadwyedd Amgylcheddol yn 2017. Mae gan y grŵp gynrychiolaeth o'r Hwb Iechyd a Chynaliadwyedd, Iechyd yr Amgylchedd, ac mae'n cynnwys gwirfoddolwyr o bob rhan o'r sefydliad. Mae hon bellach yn rhaglen ffurfiol, gyda chydlyniad dros y pum ffrwd waith bwrpasol:

- Lleihau Plastigau
- Teithio Gwyrdd
- Ystadau, adeiladau a gwastraff
- Monitro a Gwerthuso
- Arweinyddiaeth, Ymgysylltu a Dysgu

Mae'r ffrydiau gwaith hyn wedi bod yn gweithio i fynd i'r afael â newid ymddygiadol yn y sefydliad a chyflawni manteision cyflym. Mae angen gwaith pellach i sefydlu diwylliant o weithio'n gynaliadwy ym mhopeth a wnawn, a lleihau ein hallyriadau carbon.

Cwblhawyd yr adolygiad archwilio mewnol blynyddol o'r Adroddiad Cynaliadwyedd Amgylcheddol ar gyfer 2018/19 yn unol â'r Cynllun Archwilio Mewnol, a darparodd sgôr sicrwydd sylweddol. *(Ceir rhagor o wybodaeth am yr Adroddiadau Archwilio Mewnol yn adran 2.4.1 o'r adroddiad hwn)*

### b) Yr economi gylchol a datgarboneiddio

Mae economi gylchol yn seiliedig ar dair prif egwyddor: dylunio i atal gwastraff a llygredd; adfywio systemau naturiol; a chadw cynhyrchion a deunyddiau mewn defnydd. Yn 2017, defnyddiwyd dull economi gylchol i adnewyddu tri safle. Drwy ail-weithgynhyrchu ein dodrefn swyddfa gan ddefnyddio busnesau mentrau cymdeithasol lleol, sicrhawyd cyd-fanteision lluosog:

- Datgarboneiddio, llai o wastraff i safleoedd tirlenwi, a llai o ddefnydd o adnoddau crai
- Hyfforddiant a chyflogaeth ar gyfer pobl anabl
- Hybu amcanion cymdeithasol busnesau cymdeithasol.

Drwy ddefnyddio dull economi gylchol wrth gaffael adeilad ein swyddfa newydd yng nghanol Caerdydd, arweiniodd camau gweithredu at y canlynol:

- 94% o'r eitemau ailgyfarparu'n cael eu hailddefnyddio neu eu hail-wneud
- 41 tunnell o wastraff yn cael ei ddargyfeirio o safleoedd tirlenwi
- Arbed tua 134 o dunelli o CO2.

Drwy gyllid Llywodraeth Cymru, cynhaliwyd astudiaeth ddichonoldeb rhwng mis Mawrth a mis Mehefin 2019 a wnaeth archwilio i ba raddau y gellid harneisio cylcholdeb ar draws sector cyhoeddus Cymru.

### c) Yr Hwb Iechyd a Chynaliadwyedd

Mae'r Hwb Iechyd a Chynaliadwyedd yn ein cefnogi gyda'i gyfraniad tuag at nodau llesiant Cymru, Nodau Datblygu Cynaliadwy ehangach y Cenhedloedd Unedig, ac o ran cymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy. Mae'r Hwb yn cydweithio'n agos gyda chyrff cyhoeddus eraill a sefydliadau rhanddeiliaid traws-sector ac i gefnogi'r cyrff a'r sefydliadau hynny i gefnogi newid system a chryfhau effaith Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) ar iechyd y cyhoedd, iechyd planedol a chynaliadwyedd amgylcheddol.

Mae'r Hwb yn ymgysylltu'n sylweddol â staff i godi ymwybyddiaeth a chynyddu dealltwriaeth am y cyfleoedd i gefnogi bioamrywiaeth, gan gynnwys:

- Rhoi cyflwyniad ar gynaliadwyedd amgylcheddol a lleihau carbon yn y digwyddiad sefydlu staff 'Croeso, Ymgysylltu, Rhwydweithio, Datblygu', sy'n digwydd deirgwaith y flwyddyn
- Rhedeg diwrnodau codi ymwybyddiaeth a threialu digwyddiadau 'marchnad fach' i ymgysylltu â chydweithwyr ledled Cymru
- Rhoi cymorth i gyflawni ein rhaglen cynaliadwyedd amgylcheddol, gan gynnwys cadeirio'r gweithgor 'Arweinyddiaeth, Ymgysylltu a Dysgu', fel y crybwyllwyd uchod.

Mae'r Hwb wedi cydlynu a chyhoeddi ein Cynllun Bioamrywiaeth *'Gwneud Lle i Natur'* i gynnal a gwella bioamrywiaeth a hybu cydnerthedd ecosystemau, sy'n cynnwys:

- Caffael cynaliadwy, megis prynu papur o goedwigoedd cynaliadwy, defnyddio llai o bapur ac argraffu llai, sicrhau y prynir cyflenwadau glanhau bioddiraddadwy, prynu llai o nwyddau newydd lle y bo'n bosibl a chefnogi'r economi gylchol drwy brynu nwyddau a wnaed o ddeunyddiau a ailddefnyddiwyd / ailgylchwyd, wedi'u caffael yn lleol lle y bo'n bosibl
- Cefnogi bioamrywiaeth drwy roi anogaeth ar gyfer ystod amrywiol o blanhigion a chynefinoedd blodau gwyllt i ddenu pryfed peillio a gadael ardaloedd o laswellt heb eu torri i ddarparu lloches a chynefin ar gyfer pryfed ac anifeiliaid eraill.

Mae'r Hwb yn parhau i gynorthwyo Byrddau Iechyd ac Ymddiriedolaethau GIG Cymru i gydymffurfio â'r Ddyletswydd Bioamrywiaeth yn Neddf yr Amgylchedd.

Ar ben hynny, mae Memorandwm Dealltwriaeth wedi cael ei ddatblygu rhwng Cyfoeth Naturiol Cymru a ninnau i alluogi mwy o gydweithio ac i gefnogi dull ar y cyd o gyflawni amcanion llesiant.

## 9.7 Cynllunio at Argyfwng/Argyfyngau Sifil

Rydym yn gyfrifol am ddarparu parodrwydd ar gyfer argyfyngau iechyd y cyhoedd, cydnerthedd yn wyneb argyfyngau o'r fath ac arwain ymatebion iddynt, a chyngor gwyddonol a thechnegol ar bob lefel sefydliadol, gan weithio mewn partneriaeth gyda sefydliadau eraill i ddiogelu iechyd y cyhoedd yng Nghymru. Mae'r *Ddeddf Argyfyngau Sifil (2004)* yn gosod nifer o ddyletswyddau diogelu sifil ar Iechyd Cyhoeddus Cymru mewn perthynas â'r canlynol:

- Asesu risgiau
- Cynlluniau at argyfwng
- Rhybuddio a Hysbysu
- Rhannu gwybodaeth
- Cydweithredu gydag ymatebwyr lleol.

I gyflawni'r dyletswyddau (y mae angen eu datblygu mewn amgylchedd amlasiantaeth) mewn modd effeithiol, mae gennym gynrychiolaeth ar bob un o'r pedwar Fforwm Cydnerthedd Lleol yng Nghymru. Mae hyn yn ei gwneud yn bosibl sefydlu a chynnal trefniadau amlasiantaeth effeithiol i ymateb i argyfwng. Mae'r sefydliad yn cydweithio'n rheolaidd gydag asiantaethau partner i ddatblygu cynlluniau hyblyg i alluogi ymateb effeithiol ar y cyd i ddigwyddiad, er mwyn sefydlu cydnerthedd yn wyneb ystod eang o heriau aflonyddol. Fel ymatebydd Categori Un, mae'n ofynnol dan y *Ddeddf Argyfyngau Sifil (2004)* ein bod yn cynnal ac yn datblygu cynlluniau i sicrhau, os oes argyfwng yn digwydd neu'n debygol o ddigwydd, bod y sefydliad yn gallu cyflawni ei swyddogaethau hyd y bo angen neu'n ddymunol at ddiben atal yr argyfwng, lleihau, rheoli neu liniaru ei effeithiau, neu gymryd camau gweithredu eraill mewn cysylltiad ag ef. Adolygwyd a chytunwyd ar y Cynllun Ymateb i Argyfwng gan y Bwrdd ym mis Medi 2018.

Mae ein Cynllun Ymateb i Argyfwng yn nodi trefniadau'r sefydliad i ymateb i unrhyw argyfwng, digwyddiad neu achos sy'n effeithio ar adnoddau a galluoedd iechyd y cyhoedd neu'n ei gwneud yn ofynnol symud yr adnoddau a'r galluoedd hynny y tu hwnt i weithredoedd arferol. Rydym yn parhau i gymryd rhan mewn hyfforddiant ac ymarferion yn fewnol ac yn allanol. Rydym hefyd yn parhau i gynnal ymarfer byw bob tair blynedd, ymarfer pen bwrdd ac ymarfer ffisegol i sefydlu'r ganolfan

reoli'n flynyddol a phrofi trefniadau rhaeadru cyfathrebiadau bob chwe mis fel sy'n ofynnol gan *Arweiniad Craidd Cyhoeddus Cynllunio at Argyfwng GIG Cymru*.

Mae gennym Grŵp Cynllunio at Argyfwng a Pharhad Busnes i gydgysylltu gweithgarwch cynllunio at argyfwng yn y sefydliad. Mae gan y grŵp gynllun gwaith sefydledig sydd, dros gyfnod o dair blynedd, yn amcanu at lywio gwelliannau pellach ar gyfer cynllunio ac ymateb.

Fel yr amlygwyd yn flaenorol, achosodd yr angen i gynllunio ac ymateb i bandemig COVID-19 nifer o heriau i ni. Canfuwyd nifer o risgiau sy'n newydd ac yn dod i'r amlwg. Er bod gennym gynllun digwyddiadau a pharhad busnes mawr yn ei le, fel sy'n ofynnol yn ôl *Deddf Argyfyngau Sifil 2004*, mae maint ac effaith y pandemig wedi bod yn ddigynsail.

Cymerwyd camau gweithredu sylweddol ar lefel genedlaethol a lleol i baratoi ac ymateb i'r effaith debygol ar y sefydliad a'r boblogaeth. Mae hyn hefyd wedi golygu gweithio mewn partneriaeth ar yr ymateb amlasiantaeth fel aelod allweddol o'r Grwpiau Cydgysylltu Strategol. Mae lefel o ansicrwydd yn dal i fod ynghylch yr effaith gyffredinol y bydd hyn yn ei chael ar ddarparu gwasanaethau gan y sefydliad yn y dyfodol agos ac yn y tymor hwy, er fy mod yn ffyddiog bod yr holl gamau gweithredu priodol yn cael eu cymryd. Rydym yn parhau i gydweithio'n agos gydag ystod eang o bartneriaid, gan gynnwys Llywodraeth Cymru wrth iddi barhau â'i hymateb, a chynllunio i mewn i'r cyfnod adfer. Bydd angen sicrhau bod hyn yn cael ei danategu gan drefniadau rheoli risgiau cadarn a'r gallu i adnabod, asesu a lliniaru risgiau a allai effeithio ar allu'r sefydliad i gyflawni ei amcanion strategol.

## 9.8 Parhad Busnes

Mae angen i'r GIG allu cynllunio ac ymateb i ystod eang o ddigwyddiadau ac argyfyngau. Felly mae angen inni sicrhau bod gwasanaethau allweddol yn cael eu cynnal pan ydynt yn wynebu digwyddiadau sy'n tarfu arnynt.

Mae ein Fframwaith Parhad Busnes yn darparu'r egwyddorion, y dull a'r tybiaethau sy'n llywio'r gwaith i ddatblygu trefniadau parhad busnes, eu rhoi ar waith a'u cynnal yn barhaus o fewn y sefydliad. Y fframwaith hwn sy'n pennu amcanion parhad busnes y sefydliad ac mae'n ymrwymiad ffurfiol i gyflawni'r rhaglen rheoli parhad busnes a gwelliant parhaus.

Mae'r Fframwaith Parhad Busnes yn eistedd ochr yn ochr â Phroses Rheoli Digwyddiadau Parhad Busnes ac fe'i tanategir gan gynlluniau parhad busnes Cyfarwyddiaethau/Isadrannau unigol. Mae'r rhain yn nodi'r camau gweithredu a phrosesa penodol ar gyfer galw cynlluniau, rolau a chyfrifoldebau i rym a sut y bydd effaith y risgiau'n cael ei rheoli. Y rheswm dros hyn yw er mwyn sicrhau bod gweithgareddau hollbwysig yn gallu cael eu hadfer mewn graddfeydd amser priodol. Pennir cyfeiriad y cynlluniau gan asesiadau o'r risgiau i adnabod peryglon a bygythiadau y mae angen i'r sefydliad gynllunio ar eu cyfer, yng nghyd-destun gweithgareddau hollbwysig.

I ddatblygu a chryfhau ein trefniadau parhad busnes ymhellach, mae cynllun gwaith Cynllunio at Argyfwng a Pharhad Busnes yn dal i gael ei roi ar waith a'i ddatblygu. Mae'r cynllun gwaith yn cynnwys camau gweithredu a gwersi a adnabuwyd drwy brofi a dysgu o ddigwyddiadau. Caiff y broses o weithredu'r cynllun gwaith ei goruchwylio gan y Grŵp Cynllunio at Argyfwng a Pharhad Busnes, sy'n cynnwys cynrychiolaeth o'n holl wasanaethau yn Iechyd Cyhoeddus Cymru.

Yn ystod pandemig COVID-19, tynnwyd ar ein cynlluniau parhad busnes i roi cymorth i reoli'r ymateb i'r argyfwng.

## 9.9 Achosion o Fynediad Diawdurdod at Ddata

Rhoddir gwybod am ddigwyddiadau llywodraethu gwybodaeth gwirioneddol a 'thrwch blewyn' drwy system rheoli digwyddiadau'r sefydliad. Ers mis Mai 2018, mae'n ofynnol bod achosion o dorri diogelwch data personol (fel y diffinnir yn y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data) yn cael eu hasesu safbwynt risgiau ac yn yr achosion mwyaf difrifol yn cael eu gwneud yn hysbys i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth. Rhoddir gwybod yn chwarterol i'r Pwyllgor Gwybodaeth ac Ymchwil am yr holl achosion o fynediad diawdurdod at ddata. Lle y bo'n briodol rhoddir gwybod i Lywodraeth Cymru amdanynt a chynhelir ymchwiliadau llawn i'r digwyddiadau.

Yn ystod 2019/2020, cofnodwyd cyfanswm o dri achos o fynediad diawdurdod at ddata yr oedd yn ofynnol rhoi gwybod amdanynt, ac fe'u dygwyd i sylw Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth a Llywodraeth Cymru. Ar gyfer pob un o'r tri, ymatebodd Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth i ddweud eu bod yn fodlon ar y

camau gweithredu yr oeddem wedi'u cymryd ac nad oedd unrhyw weithredu pellach yn ofynnol ar eu rhan hwy.

### 9.10 Cod Llywodraethu Corfforaethol y DU

Mae'n ofynnol i ni gydymffurfio â *Chod Llywodraethu Corfforaethol y DU: Llywodraethu Corfforaethol yn Adrannau'r Llywodraeth Ganolog: Cod Arfer Da 2017.*

Mae'r wybodaeth a roddir yn y datganiad llywodraethu hwn yn darparu asesiad o'r modd yr ydym yn cydymffurfio â phrif egwyddorion y Cod fel y maent yn berthnasol i un o sefydliadau sector cyhoeddus y GIG yng Nghymru. Goleuwyd yr asesiad hwn gan hunanasesiad y sefydliad yn erbyn y Safon Llywodraethu, Arweinyddiaeth ac Atebolrwydd (fel rhan o'r Safonau Iechyd a Gofal), ac fe'i hategwyd gan dystiolaeth o archwiliadau mewnol ac allanol. Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru yn dilyn ysbryd y Cod yn effeithiol ac yn cynnal ei fusnes yn agored ac yn unol â'r Cod. Mae'r Bwrdd yn cydnabod nad yw pob elfen adrodd o'r Cod yn cael eu nodi yn y datganiad llywodraethu hwn ond yr adroddir yn fwy llawn arnynt yn Adroddiad Blynyddol ehangach y sefydliad.

Darparwyd adroddiad ar gyfer y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu Corfforaethol yn ei gyfarfod ar 19 Mawrth 2020 a oedd yn nodi sut y mae'r sefydliad wedi cydymffurfio â'r cod. Roedd yr adroddiad yn nodi na fu unrhyw wyriadau oddi wrth y Cod Llywodraethu Corfforaethol yr adroddwyd arnynt. Cwblhawyd yr asesiad hwn cyn yr effaith a nodwyd o ganlyniad i bandemig COVID-19.

### 9.11 Cynllun Pensiynau'r GIG

Fel cyflogwr â staff sydd â hawl i fod yn aelodau o Gynllun Pensiwn y GIG, mae mesurau rheoli yn eu lle i sicrhau y cydymffurfir â'r holl rwymedigaethau cyflogwr sydd wedi'u cynnwys yn rheoliadau'r Cynllun. Mae hyn yn cynnwys sicrhau bod didyniadau o gyflogau, cyfraniadau cyflogwr a thaliadau i mewn i'r Cynllun yn unol â rheolau'r Cynllun, a bod cofnodion Cynllun Pensiwn aelodau'n cael eu diweddaru'n gywir yn unol â'r graddfeydd amser a nodir yn y Rheoliadau. Mae Nodyn 11 i'r cyfrifon yn darparu manylion y cynllun, sut y mae'n gweithredu a hawl cyflogeion.

### 9.12 Cyfarwyddiadau Gweinidogol

Er bod Cyfarwyddiadau Gweinidogol yn dod i law sefydliadau GIG Cymru, nid yw'r rhain wastad yn berthnasol i Iechyd Cyhoeddus Cymru. Caiff Cyfarwyddiadau Gweinidogol a gyhoeddir drwy gydol y flwyddyn eu rhestru ar wefan Llywodraeth Cymru.

Yn ystod 2019/20, cyhoeddwyd 1 Cyfarwyddyd Gweinidogol (Offerynnau Anstatudol) gan Lywodraeth Cymru yr oedd yn ofynnol i Iechyd Cyhoeddus Cymru weithredu arno. Roedd y Cyfarwyddyd Gweinidogol yn cyfeirio at Effeithiau Treth Pensiwn ar gyfer clinigwyr yn ystod 2019/20. Fe wnaethom gydymffurfio â'r cyfarwyddyd.

Rydym wedi gweithredu ar bob un o Gylchlythyron Iechyd Cymru a gyhoeddwyd yn ystod 2019/20 ac a oedd yn berthnasol i Iechyd Cyhoeddus Cymru ac wedi ymateb iddynt. O'r 31 a gyhoeddwyd, roedd 20 yn berthnasol i Iechyd Cyhoeddus Cymru. Roedd yn ofynnol gweithredu ar 15, roedd dau er gwybodaeth ac roedd tri'n rhai ar gyfer cydymffurfio.

## 10. Cyrff a Letyir

Rydym wedi parhau i letya dau gorff yn ystod 2019/20:

### 10.1 Cydweithrediad Iechyd GIG Cymru

Sefydlwyd Cydweithrediad Iechyd GIG Cymru yn 2015 ar gais Prif Weithredwyr GIG Cymru i wella lefel y cydweithio rhwng cyrff GIG Cymru, GIG Cymru a'i randdeiliaid. Mae gwaith y Cydweithrediad yn rhoi cymorth i wella ansawdd gofal ar gyfer cleifion ac, yn y bôn, i wella gwasanaethau'r GIG ledled Cymru.

Swyddogaethau craidd y Cydweithrediad yw:

- Cynllunio gwasanaethau ar draws ffiniau sefydliadol i gefnogi nodau strategol
- Rheoli rhwydweithiau clinigol, rhaglenni strategol a phrosiectau ar draws ffiniau sefydliadol
- Cydlynu gweithgareddau a thimau ar draws GIG Cymru gyda golwg ar symleiddio prosesau presennol.

Lletyir y Cydweithrediad gan Iechyd Cyhoeddus Cymru, ar ran GIG Cymru, dan gytundeb lletya ffurfiol, a lofnodwyd gan y deg Prif Weithredwr Bwrdd Iechyd ac Ymddiriedolaeth GIG yn GIG Cymru a Chyfarwyddwr y Cydweithrediad. Mae

gan y Cydweithrediad linell adrodd glir tuag i fyny i Grŵp Gweithredol y Cydweithrediad (Prif Weithredwyr yn cwrdd yn fisol) ac, yn y pen draw, i Fforwm Arweinyddiaeth y Cydweithrediad(Cadeiryddion a Phrif Weithredwyr yn cwrdd bob chwarter fwy neu lai). Mae Grŵp Gweithredol y Cydweithrediad a Fforwm Arweinyddiaeth y Cydweithrediad yn cymeradwyo cynllun gwaith y Cydweithrediad yn flynyddol.

Mae cytundeb lletya'n bodoli ers 2015, cafodd y cytundeb cyfredol ei estyn gan y Bwrdd ym mis Mawrth 2020, ac mae'n rhedeg tan 31 Mawrth 2021. Mae'r cytundeb yn darparu manylion cyfrifoldebau Bwrdd Iechyd Cyhoeddus Cymru a'r corff a letyir. Mae'r Bwrdd yn cael sicrwydd ynghylch cydymffurfio â thelerau'r cytundeb drwy gynhyrchu Adroddiad a Datganiad Llywodraethu Blynyddol gan y Cydweithrediad. Cafodd y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu Corfforaethol Adroddiad 2019/20 ym mis Mawrth 2020.

Mae gan y Cydweithrediad ei broses rheoli risgiau ei hun (sy'n cydymffurfio â pholisi a gweithdrefnau perthnasol Iechyd Cyhoeddus Cymru) ac mae risgiau o'i Gofrestr Risgiau Corfforaethol yn cael eu huwchgyfeirio at Fwrdd Iechyd Cyhoeddus Cymru fel y bo'n briodol.

### 10.2 Uned Cyflawni Ariannol

Cafodd yr Uned Cyflawni Ariannol (yr Uned) ei sefydlu'n ffurfiol ym mis Ionawr 2018, yn dilyn cyhoeddiad gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol.

Diben yr Uned yw gwella'r capasiti i:

- Fonitro a rheoli risg ariannol yn GIG Cymru ac ymateb yn gyflym lle mae sefydliadau'n dangos tystiolaeth o fethiant ariannol posibl
- Cyflymu'r gyfradd ledled Cymru o ran mabwysiadu arfer da mewn rheolaeth ariannol ac effeithlonrwydd technegol a dyrannol.

Lletyir yr Uned gan Iechyd Cyhoeddus Cymru dan gytundeb lletya ffurfiol a lofnodwyd gan Iechyd Cyhoeddus Cymru, Cyfarwyddwr yr Uned Cyflawni Ariannol a'r Cyfarwyddwr Cyllid, y Grŵp Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, Llywodraeth Cymru. Mae'r Uned yn atebol i'r Cyfarwyddwr Cyllid, yn Grŵp Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn Llywodraeth Cymru a chytunir ar y rhaglen waith flynyddol a chaiff ei monitro drwy gyfarfodydd rheolaidd gyda Llywodraeth Cymru.

Mae'r Bwrdd yn cael sicrwydd ynghylch cydymffurfio â thelerau'r cytundeb letya drwy Adroddiad a Datganiad Sicrwydd Blynyddol a gynhyrchir gan yr Uned. Cafodd y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu Corfforaethol Adroddiad 2019/20 ym mis Mawrth 2020.

## 11. Staff ac Ymgysylltu â Staff

Rydym yn ymgysylltu â'n staff mewn nifer o ffyrdd sy'n rhan o'r rhwystrau a gwrthbwysau a weithredir gennym i alluogi llywodraethu da.

I gefnogi'r Bwrdd a'r Weithrediaeth, mae gennym un grŵp ymgynghorol ffurfiol – y Fforwm Partneriaeth Lleol, y Cydbwyllgor Negodi gynt.

Yn 2019/20, rhoddodd y Fforwm Partneriaeth Lleol ystyriaeth i'r materion canlynol:

- Arolwg Staff
- Iechyd Meddwl
- Atal Trais yn GIG Cymru
- Fframwaith Cymhwysedd
- Diwedd y Mislif
- Sefydlu Rheolwyr
- Prosiectau Newid Sefydliadol
- Safonau'r Gymraeg
- Strategaeth Pobl
- Cynllunio'r Gweithlu
- Siarter Marw i Weithio
- Ymgynghorwyr Triniaeth Deg
- Datblygiad Cyflog

Mae'r Grŵp hefyd wedi cynnwys Iechyd Galwedigaethol, Salwch ac Amser Cyfleusterau fel eitemau sefydlog ar yr agenda ym mhob cyfarfod, ac mae'r Fforwm hefyd wedi gwneud sylwadau a'r lawer o bolisïau a'u hargymell i gael eu cymeradwyo.

Cafodd amodau gorchwyl y Fforwm Partneriaeth Lleol eu hadolygu yn 2019/20, ac fe'u cymeradwywyd gan y Pwyllgor Pobl a Datblygu Sefydliadol ar 2 Hydref 2019. Mae'r Fforwm Partneriaeth Lleol wedi cwrdd bum gwaith yn ystod 2019/20.

Mae gennym hefyd Grŵp Negodi Meddygol a Deintyddol ar y Cyd. Mae Senedd Nyrsio'r sefydliad yn cynghori ac yn darparu diweddariadau ar faterion proffesiynol sy'n berthnasol i weithwyr Nyrsio a Bydwreigiaeth proffesiynol. Mae'r ffora hyn yn darparu mecanweithiau sy'n darparu ei gwneud yn bosibl rhoi adborth i uwch reolwyr ar berfformiad sefydliadol neu unrhyw faterion eraill y mae staff yn dymuno'u codi, sydd o gymorth gyda thryloywder.

Yn ychwanegol at y mecanweithiau partneru ffurfiol hyn, mae gennym broses ymgynghori sy'n agored i'r holl staff ar gyfer polisïau sefydliadol newydd a diwygiedig, cynhadledd staff flynyddol (gan gynnwys ein rhaglen gwobrau staff, sef Diolch!), digwyddiadau ymgysylltu â staff, y maent i gyd yn cael eu defnyddio i gynnal sgyrsiau defnyddiol gyda'n cydweithwyr yn unigol ac mewn grwpiau. Defnyddir y mecanweithiau hyn ochr yn ochr â blog agored, fforwm ar y we a ffyrdd rhithwir eraill i staff rannu eu gwaith a'u barn, gan gynnwys grŵp Facebook Staff Iechyd Cyhoeddus Cymru, y mae dros hanner y gweithlu bellach yn aelodau ohono. Yn ystod y flwyddyn, rydym wedi rhedeg digwyddiadau ymgysylltu gyda staff i rannu'r Cynllun Tymor Canolig Integredig ac i ysgogi trafodaeth am y gwerthoedd a'r hyn y maent yn ei olygu i'r holl staff ar draws y sefydliad. Cynhaliodd y tîm Pobl a Datblygu Sefydliadol sesiynau fforwm agored hefyd ar draws y sefydliad i ymgysylltu â staff a'u cynnwys yn y broses o ddatblygu ein Strategaeth Pobl 2030.

Darparodd Arolwg Staff GIG Cymru 2018 ddadansoddiad o ymgysylltiad â'r gweithlu a rhai dangosyddion diwylliannol ehangach. 56% oedd ein cyfradd ymateb i'r arolwg. Yn dilyn cyhoeddi'r canlyniadau tuag at ddiwedd 2018, rydym wedi cynnal grwpiau ffocws ledled Cymru, gan roi cyfle i bobl egluro unrhyw ganlyniadau amwys, dathlu canlyniadau cadarnhaol, darparu enghreifftiau penodol o bryderon, yn ogystal ag arfer da ac awgrymu argymhellion ar gyfer newid a gwella, a fydd yn cael yr effaith fwyaf. Mae'r allbynnau o'r grwpiau ffocws wedi arwain at ddatblygu cynllun gweithredu ar yr arolwg staff i'r sefydliad ar gyfer 2019/2020, sydd wedi'i groesgyfeirio â'n cynllun blynyddol ac mae'r Tîm Gweithredol a'n Bwrdd yn cael diweddariad rheolaidd am gynnydd. Ar ben hynny, rydym wedi datblygu dull drafft o archwilio, dadansoddi, diagnosio a gwella ein diwylliant, yr oeddem yn bwriadu ei drafod a'i gwblhau'n ddiweddarach yn 2020.

## 12. Adolygu Effeithiolrwydd

Fel Prif Weithredwr a Swyddog Atebol, mae gennyf gyfrifoldeb am adolygu effeithiolrwydd y system o reolaeth fewnol. Caiff yr adolygiad o'r system o reolaeth fewnol ei lywio gan waith yr archwilwyr mewnol, y Swyddogion Gweithredol yn y sefydliad sydd â chyfrifoldeb am ddatblygu a chynnal y fframwaith rheolaeth fewnol, a sylwadau a wnaed gan archwilwyr allanol yn eu llythyr archwilio ac adroddiadau eraill.

Mae'r Bwrdd a Phwyllgorau wedi adolygu effeithiolrwydd y system o reolaeth fewnol o ran y sicrwydd a gafwyd. Y Gofrestr Risgiau Strategol yw'r mecanwaith ar gyfer monitro risgiau strategol yn fanwl ac mae'r Bwrdd a Phwyllgorau'n craffu arno. Ar ôl adolygu'r system o reolaeth fewnol, gallaf gadarnhau ei bod yn effeithiol am ddarparu'r sicrwydd angenrheidiol ar gyfer y Bwrdd a Phwyllgorau.

Cwblhaodd pob Pwyllgor hunanasesiad yn ystod 2019/20 drwy weithdai Effeithiolrwydd Pwyllgorau. Mae cynllun gweithredu'n deillio o hyn a fydd yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor. Mae'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu Corfforaethol wedi cwblhau holiadur hunanasesu a bydd yn ystyried y canfyddiadau ymhellach mewn gweithdy sydd yn yr arfaeth ar gyfer 2020/21, lle bydd y Pwyllgor hefyd yn adolygu ei rôl a diben y Pwyllgor ochr yn ochr â'r Blaenoriaethau Strategol.

*(Ceir rhagor o wybodaeth am y cylch Effeithiolrwydd yn adran 2.1.5 o'r adroddiad hwn)*


### 12.1 Archwilio Mewnol

Mae'r tîm archwilio mewnol yn rhoi i'r Swyddog Atebol, a'r Bwrdd drwy'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu Corfforaethol, lif o sicrwydd ar y system o reolaeth fewnol. Fel Prif Weithredwr, rwyf wedi comisiynu rhaglen o waith archwilio sydd wedi cael ei chyflawni'n unol â Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus gan Bartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru. Cytunir ar gwmpas y gwaith hwn gyda'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu Corfforaethol ac mae'n canolbwyntio ar feysydd risg arwyddocaol a blaenoriaethau gwella lleol.

Mae'r farn ar y cyfan gan y Pennaeth Archwilio Mewnol am lywodraethu, rheoli risgiau a rheolaeth yn deillio o'r rhaglen archwilio seiliedig-ar-risgiau hon ac yn cyfrannu at y darlun o sicrwydd sydd ar gael i'r Bwrdd wrth adolygu effeithiolrwydd a chefnogi ein hymgais i wella'n barhaus.

Mae'r Pennaeth Archwilio Mewnol wedi dod i'r casgliad canlynol:

**Sgôr Sicrwydd Rhesymol**



Melyn

Yn fy marn i gall y Bwrdd gymryd **Sicrwydd rhesymol** bod trefniadau i sicrhau llywodraethu, rheoli risg a rheolaeth fewnol, o fewn y meysydd hynny a adolygwyd, wedi'u dylunio'n addas ac yn cael eu cymhwyso'n effeithiol. Mae angen sylw gan reolwyr i rai materion o ran dyluniad neu gydymffurfio â rheolaeth gydag effaith isel neu gymedrol ar gyswllt â risg weddillol nes byddant wedi'u datrys.

Adroddwyd wrth y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu Corfforaethol ar y gwaith archwilio a wnaed yn ystod 2019/20.

Mae'r sylfaen dystiolaeth y mae'r farn ar y cyfan wedi'i seilio arni fel a ganlyn:

- Asesiad o'r ystod o farnau unigol sy'n deillio o aseiniadau archwilio seiliedig-ar-risg yn y cynllun Archwilio Mewnol yr adroddwyd arnynt wrth y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu Corfforaethol drwy gydol y flwyddyn. Mae'r asesiad hwn wedi ystyried perthnasedd cymharol y meysydd hyn a chanlyniadau unrhyw archwiliadau dilynol o ran canlyn arni â gwelliannau mewn rheolaeth. Canlyniad aseiniadau archwilio sydd wedi cael eu cyhoeddi ar ffurf drafft ar gyfer y sefydliad cyn cyhoeddi'r farn hon, ond nad adroddwyd arnynt wrth y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu Corfforaethol eto
- Canlyniadau unrhyw waith archwilio sy'n gysylltiedig â'r Safonau Iechyd a Gofal gan gynnwys, os yn briodol, y dystiolaeth sydd ar gael ac a ddefnyddiwyd gan y Bwrdd i benderfynu ar ei ddatganiad mewn perthynas â'r hunanasesiad ar gyfer y modiwl Llywodraethu, Arweinyddiaeth ac Atebolrwydd. Adolygiadau sicrwydd eraill, sy'n effeithio ar farn y Pennaeth Archwilio Mewnol gan gynnwys gwaith archwilio a wnaed mewn sefydliadau eraill.

Fel y nodir uchod, mae'r canlyniadau manwl hyn wedi cael eu cyfuno i greu darlun o sicrwydd ar draws y sefydliad.

Hefyd, mae'r Pennaeth Archwilio Mewnol wedi ystyried cyswllt â risg weddillol ar draws yr aseiniadau hynny lle nodwyd sicrwydd cyfyngedig mewn adroddiadau. Lle gwneir newidiadau i'r cynllun archwilio yna cyflwynir y rhesymau i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu Corfforaethol i'w hystyried a'u cymeradwyo. Er hynny, mae'r farn yn gyfyngedig i'r meysydd hynny, y cynhaliwyd adolygiad archwilio ohonynt; mae'r Pennaeth Archwilio Mewnol yn ystyried effaith newidiadau a wnaed i'r cynllun wrth ffurfio'i farn ar y cyfan.

Effeithiwyd ar y rhaglen gan yr angen i ymateb i bandemig COVID-19 gyda rhai archwiliadau wedi'u gohirio, eu canslo neu eu cwtogi wrth i'r sefydliad ymateb i'r pandemig. Mae'r adolygiad arfaethedig o gynllunio'r gweithlu, adrodd ar ddigwyddiadau, a'r Adolygiad cyfarwyddiaethol o Sgrinio Llygaid Diabetig Cymru, a oedd yn y cynllun gwreiddiol ac i fod i ddigwydd yn chwarter pedwar, wedi cael eu gohirio.

Mae'r Pennaeth Archwilio Mewnol wedi'i argyhoeddi bod cwmpas y gweithgarwch archwilio mewnol yn ystod y cyfnod adrodd wedi bod yn ddigon i ddarparu Barn Flynyddol y Pennaeth Archwilio Mewnol. Wrth ffurfio'r Farn mae'r Pennaeth Archwilio Mewnol wedi ystyried effaith yr archwiliadau nad ydynt wedi cael eu cwblhau'n llawn.

*(Ceir rhagor o wybodaeth am yr Adroddiadau Archwilio Mewnol a gafwyd gan y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu Corfforaethol yn adran 2.4.1 o'r adroddiad hwn)*

## 12.2 Atal Twyll

Cafodd yr Arbenigwr Atal Twyll Lleol Arweiniol ar gyfer Iechyd Cyhoeddus Cymru ei enwebu i'r swydd gan ddechrau o 1 Ebrill 2012. Cwblhaodd y Swyddog ei hyfforddiant Atal Twyll ym mis Rhagfyr 2000 ac fe'i hachredwyd ym mis Ionawr 2001.

Yn ystod 2019/20 bu tri atgyfeiriad i'r swyddogaeth Atal Twyll yr oedd yn ofynnol ymchwilio ymhellach iddynt. I grynhoi,

- Mae un achos wedi cael ei gau heb ganfod unrhyw dwyll ac felly nid oedd unrhyw weithredu pellach yn ofynnol
- Mae un achos bron â chael ei gwblhau
- Mae un achos yn mynd rhagddo ar hyn o bryd ar y cyd ag Adran y Gweithlu yn y sefydliad a Gwasanaeth Cyflogres Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru.

Ceisir cyngor ynghylch sut i fwrw ymlaen â phob achos unigol gan Wasanaeth Atal Twyll y GIG (Cymru) ac unwaith y mae'r ymchwiliad i'r honiadau wedi cael ei gwblhau, ceir barn gyfreithiol hefyd gan yr Isadran Twyll Arbenigol – Gwasanaeth Erlyn y Goron wrth ystyried pa un a oes tystiolaeth ddigonol i warantu ac ategu erlyniad troseddol.

## 12.3 Archwilio Allanol – Archwilio Cymru (AC*)

Archwilydd Cyffredinol Cymru yw'r archwilydd allanol statudol ar gyfer y GIG yng Nghymru. Mae AC yn cyflawni'r rôl archwilydd allanol ar gyfer Iechyd Cyhoeddus Cymru ar ran yr Archwilydd Cyffredinol.

Cwblhaodd AC yr Asesiad Strwythuredig ar gyfer 2019 ac adroddodd fel a ganlyn:

*"Ein casgliad cyffredinol o waith asesiad strwythuredig 2019 yw y caiff yr Ymddiriedolaeth, ar y cyfan, ei harwain a'i llywodraethu'n dda a'i bod wedi gwneud cynnydd da wrth addasu ei phrosesau a'i strwythurau er mwyn cyflawni ei blaenoriaethau strategol yn well. Mae'r Ymddiriedolaeth wedi cynllunio rhaglen waith uchelgeisiol ar gyfer gweddill 2019-20, gan gynnwys diwygio'r mesurau canlyniad yn ei strategaeth hirdymor, addasu ei fframwaith perfformiad a datblygu fframwaith i fesur gwerth ac effaith. Yn y dyfodol, byddem yn disgwyl i'r Ymddiriedolaeth gydgysylltu ffrydiau gwaith er mwyn sicrhau ei bod yn creu cysylltiadau perthnasol ac nad yw'n dyblygu gwaith. Byddwn yn anelu at adolygu cynnydd fel rhan o asesiad strwythuredig y flwyddyn nesaf.*

*Ar y cyfan, caiff yr Ymddiriedolaeth ei harwain a'i llywodraethu'n dda, ac mae'n nodi ffyrdd o wella ansawdd data, trefniadau rheoli digwyddiadau a seiberddiogelwch. Mae'r Bwrdd yn parhau i weithredu'n effeithiol ac yn chwilio am gyfleoedd i wella. Mae gan yr Ymddiriedolaeth drefniadau effeithiol ar gyfer rheoli perfformiad a risg ac mae'n nodi gwelliannau lle ceir bylchau neu wendidau. Mae'r Ymddiriedolaeth wedi gwneud cynnydd da wrth gysoni ei strwythurau a'i phrosesau â'i blaenoriaethau strategol ac mae'n craffu ar rannau o'r busnes nad yw ei Bwrdd na'i phwyllgorau fel arfer yn eu hystyried".*

*Mae Archwilio Cymru wedi newid ei enw o Swyddfa Archwilio Cymru i Archwilio Cymru o 1 Ebrill 2020 ond cyfeirir at y sefydliad fel Archwilio Cymru drwy'r ddogfen hon i gyd.

## 12.4 Ansawdd Data

Roedd y Bwrdd o'r farn bod yr wybodaeth a gafodd ef a'i bwyllgorau allweddol yn ystod 2019/20 wedi rhoi cymorth ar gyfer gwaith craffu a sicrwydd ar y cyfan, er bod bylchau mewn rhai meysydd.

Sefydlwyd y Pwyllgor Gwybodaeth ac Ymchwil ym mis Ebrill 2019. Un o'i ddibenion allweddol yw rhoi cyngor a sicrwydd i'r Bwrdd ynghylch trefniadau ansawdd data a llywodraethu gwybodaeth yn y sefydliad.

Ym mhob Pwyllgor, mae aelodau'n cael sicrwydd ynghylch y risgiau a aseiniwyd i'r Pwyllgor (drwy'r Gofrestr Risgiau Strategol a'r Gofrestr Risgiau Corfforaethol) a Llywodraethu Gwybodaeth (drwy'r Adroddiad ar Berfformiad Llywodraethu Gwybodaeth).

Ar y cyfan, cafodd y Pwyllgor sicrwydd o'u gwaith i graffu ar yr amryw bapurau a chyflwyniadau a roddwyd iddynt. Canfuwyd maes allweddol ar gyfer datblygu fel a ganlyn:

- Yn dilyn cyflwyniad a phapur i'r Pwyllgor ym mis Tachwedd 2019, ynghylch Rheoli Ansawdd Data, hysbysodd y Pwyllgor, o ystyried dibyniaeth y sefydliad ar ddata cywir, y byddai angen llinell amser ddiwygiedig ar gyfer gweithredu unwaith y byddai archwiliad sylfaenol wedi cael ei gynnal. Bydd canlyniadau'r archwiliad sylfaenol a llinell amser ddiwygiedig yn cael eu cyflwyno i'r Pwyllgor yn 2020/21.

## 13. Casgliad

Fel Swyddog Atebol, mae gennyf gyfrifoldeb am adolygu effeithiolrwydd y system o reolaeth fewnol. Caiff fy adolygiad o'r system o reolaeth fewnol ei lywio gan waith yr archwilwyr mewnol, a'r swyddogion gweithredol o fewn y sefydliad sydd â chyfrifoldeb am ddatblygu a chynnal y fframwaith rheolaeth fewnol, a sylwadau a wnaed gan archwilwyr allanol yn eu llythyr archwilio ac adroddiadau eraill.

Mae'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol hwn yn cadarnhau bod Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi parhau i aeddfedu fel sefydliad ac nad oes unrhyw faterion arwyddocaol o ran rheolaeth fewnol na llywodraethu wedi cael eu hadnabod. Bydd y sefydliad yn parhau i fynd i'r afael â risgiau allweddol a sefydlu trefniadau llywodraethu da a rheolaethau priodol drwy'r sefydliad i gyd.

Fel y dynodir drwy'r datganiad hwn i gyd, mae'r angen i gynllunio ac ymateb i bandemig COVID-19 wedi cael effaith arwyddocaol ar y sefydliad, y GIG ehangach a chymdeithas yn ei chyfanrwydd. Mae wedi creu'r angen am ymateb deinamig, sydd wedi cyflwyno nifer o gyfleoedd yn ychwanegol at y risgiau. Bydd yr angen i ymateb i'r pandemig a chael adferiad ar ei ôl yn aros gyda'r sefydliad a chymdeithas ehangach drwy gydol 2020/21 a'r tu hwnt. Byddaf yn sicrhau bod ein Fframwaith Llywodraethu yn ystyried yr angen hwn ac yn ymateb iddo.

Gallaf gadarnhau y bu gan y Bwrdd a'r Tîm Gweithredol system gadarn ac effeithiol o reolaeth fewnol, sy'n darparu sicrwydd rheolaidd, yn gyson ag amcanion strategol a risgiau strategol y sefydliad.

Llofnod:



Dr Tracey Cooper
Dyddiad: 25 Mehefin 2020

**Dr Tracey Cooper**
Prif Weithredwr a Swyddog Atebol,
Iechyd Cyhoeddus Cymru

## Datganiad Llywodraethu Blynyddol – Atodiad 1: Aelodaeth/Presenoldeb y Bwrdd a Phwyllgorau 2019/20

| Enw | Swydd | Aelodaeth o bwyllgorau'r bwrdd | Presenoldeb mewn cyfarfodydd 2019/20*** |
|---|---|---|---|
| Jan Williams OBE | Cadeirydd | • (Cadeirydd) Y Bwrdd<br>• (Cadeirydd) Y Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol a Thelerau Gwasanaeth<br>• Y Pwyllgor Gwybodaeth ac Ymchwil<br>• Datblygu'r Bwrdd<br>Nodyn: mae gan Gadeirydd y Bwrdd wahoddiad sefydlog i holl Bwyllgorau'r Bwrdd ond mae'n Aelod o'r Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol a Thelerau Gwasanaeth a'r Pwyllgor Gwybodaeth ac Ymchwil.<br>Hefyd yn bresennol:<br>• Y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu Corfforaethol**<br>• Y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Gwella**<br>• Y Pwyllgor Pobl a Datblygu Sefydliadol** | 10/10<br>7/7<br>2/4<br>6/6<br><br>2/5<br>2/4<br>0/4 |
| Dr Tracey Cooper | Prif Weithredwr | • Y Bwrdd<br>• Datblygu'r Bwrdd<br>• Y Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol a Thelerau Gwasanaeth (1 Tachwedd 2019 tan 31 Mawrth 2020)<br>• Y Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol a Thelerau Gwasanaeth** (1 Ebrill 2019 tan 31 Hydref 2019)<br>• Y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu Corfforaethol**<br>Nodyn: mae gan y Prif Weithredwr (PW) wahoddiad sefydlog i holl Bwyllgorau'r Bwrdd ond dim ond y Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol a Thelerau Gwasanaeth y mae'n ei fynychu'n rheolaidd.<br>Rhaid i'r PW fod yn bresennol yn un o gyfarfodydd y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu Corfforaethol bob blwyddyn. | 9/10<br>6/6<br><br>6/7<br>2/5 |
| Jyoti Atri | Cyfarwyddwr Gweithredol Interim Iechyd a Llesiant | • Y Bwrdd<br>• Datblygu'r Bwrdd<br>• Y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Gwella** | 8/10<br>5/6<br>2/4 |

| Enw | Swydd | Aelodaeth o bwyllgorau'r bwrdd | Presenoldeb mewn cyfarfodydd 2019/20*** |
|---|---|---|---|
| Rhiannon Beaumont-Wood | Cyfarwyddwr Gweithredol Ansawdd, Nyrsio a Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd | • Y Bwrdd<br>• Datblygu'r Bwrdd<br>• Y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Gwella**<br>• Y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu Corfforaethol **<br>• Y Pwyllgor Pobl a Datblygu Sefydliadol** | 8/10<br>6/6<br>4/4<br>4/5<br>4/4 |
| Professor Mark Bellis OBE | Cyfarwyddwr Polisi ac Iechyd Rhyngwladol, Canolfan Gydweithio Sefydliad Iechyd y Byd ar Fuddsoddi ar gyfer Iechyd a Llesiant | • Y Bwrdd*<br>• Datblygu'r Bwrdd *<br>• Y Pwyllgor Gwybodaeth ac Ymchwil** | 6/10<br>4/6<br>1/4 |
| Sian Bolton | Cyfarwyddwr Pontio ar gyfer Gwybodaeth | • Y Bwrdd*<br>• Datblygu'r Bwrdd *<br>• Y Pwyllgor Gwybodaeth ac Ymchwil** | 8/10<br>6/6<br>4/4 |
| Dr John Boulton | Cyfarwyddwr Interim ar gyfer Gwella Ansawdd a Diogelwch Cleifion y GIG/ Cyfarwyddwr y Gwasanaeth Gwella 1000 o Fywydau (1 Ebrill 2019 – 31 Awst 2019 – Secondiad o Fwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan)<br><br>Cyfarwyddwr Gwella Ansawdd a Diogelwch Cleifion y GIG/ Cyfarwyddwr y Gwasanaeth Gwella 1000 o Fywydau / Gwelliant Cymru (1 Medi 2019 tan 31 Mawrth 2020) | • Y Bwrdd*<br>• Datblygu'r Bwrdd *<br>• Y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Gwella**<br>• Y Pwyllgor Gwybodaeth ac Ymchwil** | 9/10<br>6/6<br>1/4<br>0/4 |

| Enw | Swydd | Aelodaeth o bwyllgorau'r bwrdd | Presenoldeb mewn cyfarfodydd 2019/20*** |
|---|---|---|---|
| Philip Bushby | Cyfarwyddwr Pobl a Datblygu Sefydliadol | • Y Bwrdd*<br>• Datblygu'r Bwrdd *<br>• Y Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol a Thelerau Gwasanaeth**<br>• Y Pwyllgor Pobl a Datblygu Sefydliadol** | 10/10<br>6/6<br>6/7<br>4/4 |
| Helen Bushell | Ysgrifennydd y Bwrdd a Phennaeth Uned Fusnes y Bwrdd | • Y Bwrdd*<br>• Datblygu'r Bwrdd *<br>• Y Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol a Thelerau Gwasanaeth**<br>• Y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu Corfforaethol<br>• Y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Gwella**<br>• Y Pwyllgor Pobl a Datblygu Sefydliadol<br>• Y Pwyllgor Gwybodaeth ac Ymchwil** | 10/10<br>6/6<br>7/7<br>5/5<br>4/4<br>2/4<br>3/4 |
| Kate Eden | Is-Gadeirydd a Chyfarwyddwr Anweithredol | • Y Bwrdd<br>• Datblygu'r Bwrdd<br>• Y Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol a Thelerau Gwasanaeth**<br>• Y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu Corfforaethol<br>• (Cadeirydd) Y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Gwella<br>• Y Pwyllgor Gwybodaeth ac Ymchwil | 7/10<br>5/6<br>6/7<br>2/2<br>4/4<br>4/4 |
| Dyfed Edwards | Cyfarwyddwr Anweithredol<br>(Awdurdod Lleol 1 Ebrill 2019 tan 3 Rhagfyr 2019 - Penodiad 0.5. Yn gweithredu'n llawn-amser o 1 Ebrill 2019 tan 3 Rhagfyr 2019.)<br>Wedi'i benodi'n Gyfarwyddwr Anweithredol (Cyffredinolwr) llawn-amser ar 4 Rhagfyr 2019) | • Y Bwrdd<br>• Datblygu'r Bwrdd<br>• (Cadeirydd) Y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu Corfforaethol<br>• Y Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol a Thelerau Gwasanaeth<br>• Y Pwyllgor Pobl a Datblygu Sefydliadol | 10/10<br>5/6<br>5/5<br>4/7<br>4/4 |

| Enw | Swydd | Aelodaeth o bwyllgorau'r bwrdd | Presenoldeb mewn cyfarfodydd 2019/20*** |
|---|---|---|---|
| Huw George | Dirprwy Brif Weithredwr a Chyfarwyddwr Gweithredol Gweithrediadau a Chyllid | • Y Bwrdd<br>• Datblygu'r Bwrdd<br>• Y Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol a Thelerau Gwasanaeth**<br>• Y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu Corfforaethol**<br>• Y Pwyllgor Pobl a Datblygu Sefydliadol** | 9/10<br>5/6<br>4/7<br>5/5<br>3/4 |
| Yr Athro Shantini Paranjothy | Cyfarwyddwr Anweithredol (Prifysgol) | • Y Bwrdd<br>• Datblygu'r Bwrdd<br>• (Cadeirydd) Y Pwyllgor Gwybodaeth ac Ymchwil<br>• Cydnabyddiaeth Ariannol a Thelerau Gwasanaeth<br>• Y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Gwella<br>• Y Pwyllgor Pobl a Datblygu Sefydliadol | 6/10<br>5/6<br>4/4<br>3/7<br>2/2<br>2/2 |
| Yr Athro Stephen Palmer | Cyfarwyddwr Anweithredol | • Y Bwrdd<br>• Datblygu'r Bwrdd<br>• Y Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol a Thelerau Gwasanaeth<br>• Y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Gwella<br>• Y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu Corfforaethol | 5/10<br>5/6<br>6/7<br>4/4<br>4/5 |
| Judith Rhys | Cyfarwyddwr Anweithredol (Y Trydydd Sector) | • Y Bwrdd<br>• Datblygu'r Bwrdd<br>• Y Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol a Thelerau Gwasanaeth<br>• Y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu Corfforaethol<br>• (Cadeirydd) Y Pwyllgor Pobl a Datblygu Sefydliadol<br>• Y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Gwella | 9/10<br>5/6<br>4/7<br>2/2<br>4/4<br>3/3 |
| Dr Quentin Sandifer | Cyfarwyddwr Gweithredol Gwasanaethau Iechyd y Cyhoedd a Chyfarwyddwr Meddygol | • Y Bwrdd<br>• Datblygu'r Bwrdd<br>• Y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Gwella**<br>• Y Pwyllgor Pobl a Datblygu Sefydliadol **<br>• Y Pwyllgor Gwybodaeth ac Ymchwil** | 8/10<br>6/6<br>4/4<br>2/4<br>2/4 |

| Enw | Swydd | Aelodaeth o bwyllgorau'r bwrdd | Presenoldeb mewn cyfarfodydd 2019/20*** |
|---|---|---|---|
| Alison Ward CBE | Cyfarwyddwr Anweithredol (Awdurdod Lleol - Penodiad 0.5) | • Y Bwrdd<br>• Datblygu'r Bwrdd<br>• Y Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol a Thelerau Gwasanaeth<br>• Y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu Corfforaethol | 5/10<br>5/6<br>3/7<br>1/3 |

* Maent yn mynychu cyfarfodydd y Bwrdd, ond nid ydynt yn aelodau o'r Bwrdd ac felly nid oes hawliau pleidleisio ganddynt.

** Maent yn mynychu cyfarfodydd y Pwyllgor, ond nid ydynt yn aelodau o'r Pwyllgor ac felly nid oes hawliau pleidleisio ganddynt.

*** Nifer gwirioneddol y cyfarfodydd a fynychwyd/nifer y cyfarfodydd yr oedd yn bosibl eu mynychu. Mae hyn yn amrywio o un unigolyn i'r llall gan bod rhai wedi ymuno â'r Pwyllgor ran o'r ffordd drwy'r flwyddyn.

+ Mae dyraniad rolau hyrwyddwyr yn cael ei adolygu, ac rydym yn disgwyl am gadarnhad gan Lywodraeth Cymru.

Nodyn – Gall Aelodau'r Tîm Gweithredol fynychu Pwyllgorau eraill ar gais.

# Adroddiad Cydnabyddiaeth Ariannol a Staff

## 1. Adroddiad Cydnabyddiaeth Ariannol a Staff

1.1 Mae'r wybodaeth yn yr adroddiad hwn yn ymwneud â chydnabyddiaeth ariannol uwch-reolwyr a gyflogir gan Iechyd Cyhoeddus Cymru a materion eraill sy'n ymwneud â phobl.

1.2 Mae'r Datganiad Polisi Cyflog (Atodiad 3) yn cyflwyno safbwynt strategol Iechyd Cyhoeddus Cymru ar gydnabyddiaeth ariannol i uwch-reolwyr ac yn rhoi datganiad clir o'r egwyddorion sy'n sail i benderfyniadau am y modd y caiff cyllid cyhoeddus ei ddefnyddio.

1.3 Dyma'r diffiniad o "Uwch-reolwyr":

*'y bobl mewn uwch swyddi y mae ganddynt awdurdod neu gyfrifoldeb am gyfarwyddo neu reoli prif weithgarwch corff y GIG. Mae hyn yn golygu'r rhai sy'n dylanwadu ar benderfyniadau'r endid yn ei gyfanrwydd yn hytrach na phenderfyniadau cyfarwyddiaethau neu adrannau unigol.'*

1.4 Yn achos Iechyd Cyhoeddus Cymru, ystyrir mai'r Uwch-reolwyr yw'r rheini sy'n mynychu cyfarfodydd Bwrdd yr Ymddiriedolaeth yn rheolaidd, h.y. y Cyfarwyddwyr Gweithredol, y Cyfarwyddwyr Anweithredol, a gweddill y Cyfarwyddwyr ar Lefel y Bwrdd. Ynghyd, y Tîm Gweithredol yw'r enw ar y Cyfarwyddwyr Gweithredol a'r Cyfarwyddwyr ar Lefel y Bwrdd. Er nad yw'n aelod ffurfiol o'r Tîm Gweithredol, mae Ysgrifennydd y Bwrdd a Phennaeth Uned Fusnes y Bwrdd hefyd yn rhan o'r diffiniad o Uwch-reolwr.

## 2. Y Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol a Thelerau Gwasanaeth

2.1 Mae Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol a Thelerau Gwasanaeth Iechyd Cyhoeddus Cymru yn ystyried ac yn cymeradwyo cyflogau, dyfarniadau cyflog, a thelerau ac amodau cyflogaeth y Tîm Gweithredol ac aelodau eraill o uwch-staff allweddol.

2.2 Mae'r Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol a Thelerau Gwasanaeth hefyd yn ystyried ac yn cymeradwyo ceisiadau sy'n ymwneud â'r Cynllun Gadael Swydd yn Gynnar o Wirfodd, taliadau dileu swyddi, ac ymddeoliadau cynnar.

2.3 Y Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol a Thelerau Gwasanaeth, o fewn y Fframwaith a osodir gan Lywodraeth Cymru, sydd wedi bod yn penderfynu ar gyflogau a thelerau gwasanaeth pob Cyfarwyddwr Gweithredol, a bydd hyn yn parhau.

2.4 Yn ystod 2019/20, dyma pwy oedd Aelodau Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol a Thelerau Gwasanaeth Iechyd Cyhoeddus Cymru:

- Jan Williams OBE (Cadeirydd)
- Dr Tracey Cooper (Prif Weithredwr). Daeth y sawl sy'n Brif Weithredwr yn aelod o'r pwyllgor o fis Tachwedd 2019
- Judith Rhys (Cyfarwyddwr Anweithredol)
- Yr Athro Shantini Paranjothy (Cyfarwyddwr Anweithredol)
- Kate Eden (Is-Gadeirydd a Chyfarwyddwr Anweithredol)
- Alison Ward (Cyfarwyddwr Anweithredol)
- Dyfed Edwards (Cyfarwyddwr Anweithredol)
- Yr Athro Stephen Palmer (Cyfarwyddwr Anweithredol).

2.5 Caiff perfformiad y Cyfarwyddwyr Gweithredol ei asesu yn unol ag amcanion unigol a pherfformiad cyffredinol Iechyd Cyhoeddus Cymru. Nid yw Iechyd Cyhoeddus Cymru yn gwneud taliadau bonws o unrhyw fath.

2.6 Gwneir yr holl daliadau yn unol â'r amlen gyflog yn llythyr blynyddol Prif Weithredwr GIG Cymru ar y mater hwn. Yr Uwch-reolwyr sydd i gael dyfarniadau cyflog yw'r rheini sydd wedi'u talu ar y graddfeydd cyflog 'Meddygol a Deintyddol' neu 'Agenda ar gyfer Newid', a'r rheini sydd mewn 'Swyddi Gweithredol ac Uwch'.

2.7 Yn ystod 2019/2020, nododd Bwrdd Iechyd Cyhoeddus Cymru nad oedd wedi recriwtio i swyddi'r Cyfarwyddwr Gweithredol Iechyd a Lles a'r Cyfarwyddwr Gwybodaeth, er gwaethaf ymdrechion helaeth, a chymeradwyodd ymestyn y trefniadau dros dro tan ddiwedd y flwyddyn.

- 25 Gorffennaf 2019 – cymeradwywyd estyniad i gyfnod Jyoti Atri fel Cyfarwyddwr Gweithredol Iechyd a Llesiant Dros Dro tan ddiwedd 2019.
- 25 Gorffennaf 2019 – cymeradwywyd estyniad i gyfnod Sian Bolton fel Cyfarwyddwr Pontio, Gwybodaeth tan ddiwedd 2019.

2.8 Yn ystod 2019/20, cymeradwyodd y Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol a Thelerau Gwasanaeth y canlynol (ar ôl ymgynghori â Llywodraeth Cymru pan oedd hynny'n briodol):

- 28 Mawrth 2019 – cymeradwywyd y newid i gyflog Dr Quentin Sandifer, gan nodi addasiadau i lwfansau penodol yn ymwneud â'i rôl arwain ym maes Iechyd y Cyhoedd ac yn benodol y newid o'r taliad Dyfarniad Rhagoriaeth Glinigol i daliad Dyfarniad Ymrwymiad. Arweiniodd hyn at ostyngiad yn y cyflog cyffredinol fel y nodir yn Atodiad 1a. Er i'r penderfyniadau hyn gael eu gwneud yn y flwyddyn ariannol flaenorol, ni ddigwyddodd y newid ei hun tan 1 Ebrill 2019 ac felly mae wedi'i gynnwys yn yr adroddiad hwn.
- 27 Mehefin 2019 – cymeradwywyd penodiad Dr John Boulton yn Gyfarwyddwr Gwella Ansawdd a Diogelwch Cleifion y GIG ac yn Gyfarwyddwr Gwasanaeth Gwella 1000 o Fywydau (Gwelliant Cymru) ar ôl cyfweliad a phroses asesu lwyddiannus ar 24 Mehefin 2019, yn amodol ar gytuno ar gyflog a chymeradwyaeth ddilynol gan Lywodraeth Cymru.
- 22 Awst 2019 – cymeradwywyd cyflog Dr John Boulton, Cyfarwyddwr Gwella Ansawdd a Diogelwch Cleifion y GIG/ Cyfarwyddwr Gwasanaeth Gwella 1000 o Fywydau (Gwelliant Cymru).
- 27 Ionawr 2020 – cymeradwywyd estyniad i gyfnod Jyoti Atri fel Cyfarwyddwr Gweithredol Iechyd a Llesiant Dros Dro tan 31 Gorffennaf 2020.
- 27 Ionawr 2020 – cymeradwywyd estyniad i gyfnod Sian Bolton fel Cyfarwyddwr Pontio, Gwybodaeth tan 31 Gorffennaf 2020.

Taliadau Gadael Swydd yn Gynnar o Wirfodd a Dileu Swyddi:

- Cymeradwywyd pedwar cais, gwerth cyfanswm o £130,348 o dan y Cynllun Gadael Swydd yn Gynnar o Wirfodd.
- Cymeradwywyd un taliad dileu swydd gwerth cyfanswm o £40,889 ac un taliad dileu swydd o £7,434 sy'n cael ei ariannu'n llwyr gan y rhaglen Camau Cynnar Gyda'n Gilydd ac wedi'i awdurdodi gan yr Is-bwyllgor Cyllid, Risg a Rheolaeth Fewnol. Rhaglen ar y cyd yw hon y mae Iechyd Cyhoeddus Cymru yn aelod ohoni gyda Heddlu De Cymru a sefydliadau eraill.

## 3. Datgeliadau Cyflog a Phensiwn

3.1 Mae manylion cyflogau a buddiannau pensiwn yr Uwch-reolwyr sy'n berthnasol i'r adroddiad hwn i'w gweld yn Atodiadau 1 a 2.

3.2 Nod yr un ffigur ar gyfer cydnabyddiaeth ariannol (Atodiad 1) yw rhoi ffigur cynhwysfawr sy'n cynnwys yr holl daliadau a roddir i Uwch-reolwyr yn y cyfnod adrodd, gan gynnwys elfennau sefydlog a newidiol ynghyd â darpariaeth pensiwn.

3.3 Mae'r un ffigur yn cynnwys y canlynol:

- Cyflog a ffioedd, o ran yr elfennau pensiynadwy ac amhensiynadwy
- buddiannau mewn nwyddau neu wasanaethau (trethadwy, cyfanswm i'r £100 agosaf)
- buddiannau sy'n gysylltiedig â phensiwn – y buddiannau sy'n cronni i Uwch-reolwyr drwy aelodaeth o gynllun pensiwn diffiniedig cyfranogol.

3.4 Ni roddir bonysau sy'n gysylltiedig â pherfformiad blynyddol neu dymor hir.

3.5 Dangosir ffigurau cyflog blynyddol cyn unrhyw ostyngiadau o ganlyniad i unrhyw gynllun aberthu cyflog.

3.6 Cyfrifir gwerth y buddiannau sy'n gysylltiedig â phensiwn a gronnwyd yn ystod y flwyddyn fel y cynnydd gwirioneddol yn y pensiwn wedi'i luosi ag 20, ynghyd ag unrhyw gynnydd gwirioneddol yng ngwerth cyfandaliad y pensiwn (yn achos

aelodau sydd â hawl i gyfandaliad), namyn y cyfraniadau a wnaed gan y gweithiwr. Nid yw'r cynnydd gwirioneddol yn cynnwys cynnydd yn sgil chwyddiant nac unrhyw gynnydd neu ostyngiad yn sgil trosglwyddo hawliau pensiwn.

3.7 Mae Atodiad 2 yn dangos cyfanswm buddiannau pensiwn yr holl Uwch-reolwyr. Y gyfradd chwyddiannol a ddefnyddiwyd ar gyfer ffigur 2018/19 yw 2.4% fel y nodir yng nghanllawiau Greenbury 2019/20.

## 4. Perthynas Cydnabyddiaeth Ariannol

4.1 Mae gofyn i gyrff y GIG yng Nghymru ddatgelu'r berthynas rhwng cydnabyddiaeth ariannol y Cyfarwyddwr a gaiff y cyflog uchaf yn eu sefydliad a chanolrif y gydnabyddiaeth ariannol a roddir i weithlu'r sefydliad. Rhoddir y wybodaeth hon yn nodyn 10.6 y Datganiadau Ariannol.

## 5. Adroddiad Staff 2019/20

### 5.1 Nifer yr Uwch-reolwyr

Ar 31 Mawrth 2020, roedd 10 o Uwch-reolwyr yn rhan o'r Tîm Gweithredol (gan gynnwys swydd Ysgrifennydd y Bwrdd a Phennaeth Uned Fusnes y Bwrdd); roeddent hefyd yn aelodau o'r Bwrdd neu'n mynychu'i gyfarfodydd yn rheolaidd. Dyma fanylion eu telerau a'u hamodau:

| | |
|---|---|
| Ymgynghorydd (Meddygol a Deintyddol): | 1 |
| Graddfa Gyflog Swyddi Gweithredol ac Uwch: | 6 |
| Agenda ar gyfer Newid Cymru: | 3 |

### 5.2 Niferoedd Staff

Mae'r tabl canlynol yn dangos nifer cyfartalog y staff a gyflogwyd gan Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru, yn ôl y grwpiau a ddiffinnir yn y cyfrifon blynyddol.

| | Cyflogir yn barhaol (gan gynnwys Cyfnod Penodol) Cyfwerth ag amser cyflawn | Staff Asiantaeth Cyfwerth ag amser cyflawn | Staff ar secondiad mewnol Cyfwerth ag amser cyflawn | Cyfanswm 2019/20 Cyfwerth ag amser cyflawn | Cyfanswm 2018/19 Cyfwerth ag amser cyflawn |
|---|---|---|---|---|---|
| Gweinyddol, clerigol ac aelodau o'r bwrdd | 981 | 22 | 41 | 1,044 | 940 |
| Staff ambiwlans | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Meddygol a deintyddol | 90 | 0 | 25 | 115 | 105 |
| Ar y gofrestr nyrsio, bydwreigiaeth | 56 | 0 | 6 | 62 | 58 |
| Staff proffesiynol, gwyddonol a thechnegol | 509 | 0 | 2 | 511 | 489 |
| Gwasanaethau clinigol ychwanegol | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Gweithwyr proffesiynol perthynol i iechyd | 61 | 1 | 0 | 62 | 59 |
| Gwyddonwyr gofal iechyd | 0 | 8 | 0 | 8 | 0 |
| Ystadau ac ategol | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Myfyrwyr | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| **Cyfanswm** | **1,697** | **31** | **74** | **1,802** | **1,651** |

## 5.3 Cyfansoddiad y Staff

Roedd rhywedd yr Uwch-reolwyr a gweithwyr eraill ar 31 Mawrth 2020 fel a ganlyn:

| | Gwryw | Benyw |
|---|---|---|
| Uwch-reolwyr | 50% | 50% |
| Gweithwyr eraill | 23% | 77% |

Daeth Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Gwybodaeth am y Bwlch Cyflog Rhwng y Rhywiau) 2017 i rym ar 6 Ebrill 2017, ac maent yn ei gwneud yn ofynnol i gyflogwyr yng Nghymru a Lloegr sydd â 250 neu fwy o weithwyr gyhoeddi cyfrifiadau statudol bob blwyddyn sy'n dangos y bwlch cyflog rhwng eu gweithwyr gwrywaidd a benywaidd.

- cymedr y bwlch cyflog rhwng y rhywiau o ran cyflog fesul awr;
- canolrif y bwlch cyflog rhwng y rhywiau o ran cyflog fesul awr;
- cyfran y gwrywod a'r benywod ym mhob chwartel cyflog.

Yn Iechyd Cyhoeddus Cymru, ar 31 Mawrth 2019, roedd cymedr a chanolrif y cyflog fesul awr yn ôl rhywedd fel a ganlyn:

| Rhywedd | Cymedr Cyfradd Fesul Awr (£) | Canolrif Cyfradd Fesul Awr (£) |
|---|---|---|
| Gwryw | 22.73 | 18.74 |
| Benyw | 17.98 | 15.07 |
| Gwahaniaeth | 4.75 | 3.67 |
| Bwlch Cyflog % | 20.89 | 19.57 |

Mae'r ffigurau'n dangos bod bwlch rhwng y gwrywod a'r benywod yn y sefydliad. Mae hyn oherwydd cyfran uchel y benywod yn rhai o'r graddau is, ynghyd â chyfran uchel y gwrywod yn rhai o'r graddau uwch, lle nad oes cynifer o staff. Byddwn yn adolygu proffil rhywedd ein gweithlu yn ein gwasanaethau, gan ganfod a oes unrhyw rwystrau i recriwtio a gwneud cynnydd. Byddwn yn cymryd y camau angenrheidiol i fynd i'r afael â hyn, gan gyflwyno ymyriadau sydd wedi'u targedu i gefnogi benywod sy'n cydbwyso ymrwymiadau domestig a gyrfa.

## 5.4 Data am Absenoldeb Salwch

Mae'r tabl canlynol yn rhoi gwybodaeth am nifer y diwrnodau a gollwyd oherwydd salwch yn ystod 2018/19 a 2019/20:

| | Nifer 2019-2020 | Nifer 2018-2019 |
|---|---|---|
| Diwrnodau a gollwyd (hirdymor) | 15,316 | 15,467 |
| Diwrnodau a gollwyd (tymor byr) | 7,575 | 6,823 |
| Cyfanswm y diwrnodau a gollwyd | 22,891 | 22,294 |
| Cyfanswm blynyddoedd staff | 1,699 | 1,586 |
| Diwrnodau gwaith a gollwyd ar gyfartaledd | 898 | 880 |
| Cyfanswm y staff a gyflogwyd yn y cyfnod (nifer) | 1,866 | 1,786 |
| Cyfanswm y staff a gyflogwyd yn y cyfnod heb absenoldeb (nifer) | 848 | 837 |
| Canran y staff heb absenoldeb salwch | 47.50% | 46.27% |

Mae'r cyfraddau absenoldeb salwch yn Iechyd Cyhoeddus Cymru yn 2019/2020 wedi cynyddu fymryn, gyda nifer y diwrnodau a gollir oherwydd salwch 598 yn uwch nag yn 2018/2019. Ym misoedd olaf 2019/2020, bu cynnydd yn y cyfraddau absenoldeb salwch o'u cymharu â 2018/2019, ac mae'n debygol bod hynny oherwydd y pandemig Covid-19.

Serch hynny, bu mymryn o gynnydd yng nghanran y staff na fu'n absennol o gwbl oherwydd salwch.

Y Rheolwr Llinell dan sylw sy'n rheoli pob achos o salwch hirdymor, gyda chymorth cynrychiolydd o'r tîm Adnoddau Dynol. Mae nifer y diwrnodau a gollwyd oherwydd absenoldeb salwch hirdymor wedi lleihau fymryn (1%) ers y llynedd.

Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi cyflwyno Polisi Rheoli Absenoldeb yn y Gwaith Cymru Gyfan ers ychydig dros flwyddyn (ers mis Rhagfyr

2018), ac mae'r tîm Pobl a Datblygu Sefydliadol yn glynu at yr amserlen ar gyfer rhoi hyfforddiant am y polisi newydd i bob Rheolwr Llinell o fewn y cyfnod o ddwy flynedd y cytunwyd arno.

## 5.5 Y polisïau staffio a ddefnyddiwyd yn ystod y flwyddyn ariannol

Mae polisïau'r Ymddiriedolaeth ar gyfer y gweithlu yn rhoi sylw i bob elfen ym maes cyflogaeth, o recriwtio a dethol i hyfforddiant a datblygu, i delerau ac amodau gwasanaeth a therfynu cyflogaeth. Mae'r polisïau hyn hefyd yn cyflwyno'r egwyddorion sy'n dylanwadu ar sut y bydd Iechyd Cyhoeddus Cymru yn cyflawni ei waith ym maes cyflogaeth, a'i ddisgwyliadau o'r holl staff. Caiff rhai o'r polisïau hyn eu datblygu a'u hadolygu gyda sefydliadau eraill y GIG ar sail "Cymru gyfan", ac mae'n orfodol eu mabwysiadu. Caiff yr holl bolisïau cyflogaeth eraill eu datblygu a'u hadolygu drwy weithdai polisi, a bydd rhanddeiliad amrywiol o'r sefydliad yn bresennol yn y gweithdai hyn.

At hynny, mae gan Iechyd Cyhoeddus Cymru ystod o bolisïau sy'n galluogi pobl sydd â nodweddion gwarchodedig (gan gynnwys anabledd) i gael eu cyflogi gan yr Ymddiriedolaeth, ac i aros yn eu gwaith pan fydd hynny'n briodol os bydd nodwedd warchodedig yn dod yn berthnasol iddynt yn ystod eu cyfnod yn y swydd. Mae gennym drefniadau gweithio hyblyg i staff i'w galluogi i ddygymod â'u sefyllfaoedd a'u hanghenion personol, ynghyd â gwasanaeth Iechyd Galwedigaethol sy'n gallu rhoi cyngor am wneud addasiadau rhesymol pan fydd angen hynny. Mae ein Polisi Recriwtio a'n gwybodaeth i ymgeiswyr yn hyrwyddo'r defnydd o iaith gynhwysol a chroesawgar, ac yn sicrhau y byddwn yn gwneud addasiadau rhesymol i'r broses os bydd angen. Mae gennym hefyd ganllawiau i staff sy'n pontio yn y gweithle, er mwyn helpu unigolion a rheolwyr drwy'r broses.

Mae Polisi Recriwtio Iechyd Cyhoeddus Cymru yn cyfeirio at gael gwared ar bob ffurf ar wahaniaethu yn unol â Deddf Cydraddoldeb 2010. Mae gan Iechyd Cyhoeddus Cymru gynllun sy'n gwarantu cyfweliad i ymgeiswyr anabl os ydynt yn bodloni'r gofynion hanfodol ym manyleb y person ar gyfer y swydd y maent yn gwneud cais amdani. Pan wahoddir hwy i gyfweliad, gofynnir i bob ymgeisydd a oes angen gwneud unrhyw addasiadau i'w galluogi i fod yn bresennol.

Pan benodir ymgeisydd anabl, mae Iechyd Cyhoeddus Cymru yn gyfrifol am wneud unrhyw addasiadau rhesymol i'r gweithle neu am ddarparu cyfarpar ychwanegol i helpu'r gweithiwr newydd yn ei swydd. Mae hyn fel arfer yn dilyn asesiad, cyngor a chefnogaeth gan Wasanaeth Iechyd Galwedigaethol yr Ymddiriedolaeth.

Ym mis Gorffennaf 2019, fe'n haseswyd a rhoddwyd inni Statws Arweinydd Hyderus o ran Anabledd. Ni yw'r ail sefydliad yn y GIG yng Nghymru i gael y statws hwn. Gwnaed llawer o waith i adolygu a gwella prosesau, ymwybyddiaeth a'n hamgylchedd i gyrraedd y pwynt hwn, ac mae'r adborth gan staff anabl wedi bod yn gadarnhaol. Mae hyn hefyd yn datblygu ein henw da fel cyflogwr cynhwysol, gan feithrin hyder ymhlith staff a darpar ymgeiswyr am swyddi.

Mae Polisi Rheoli Presenoldeb yn y Gwaith Cymru Gyfan, a gyflwynwyd ym mis Rhagfyr 2018, yn canolbwyntio ar sicrhau bod rheolwyr yn adnabod ac yn deall eu staff, ac yn rhoi pwyslais ar weithio mewn partneriaeth i gefnogi unigolion yn y gweithle. Mae'r polisi'n rhoi pwyslais hefyd ar lesiant pobl yn hytrach nag ar reoli absenoldeb, a'i nod yw cefnogi unigolion i aros yn y gweithle. Mae'r polisi'n cynnwys camau i helpu pobl i ddychwelyd yn raddol i'r gwaith, heb golli cyflog, ac mae'n gwneud gwelliannau er mwyn gallu penodi pobl sydd â phroblemau iechyd sylfaenol. Mae mwy o bwyslais ar roi cyngor a chefnogaeth (Rhaglen Cymorth i Weithwyr, Iechyd Galwedigaethol, Meddygon Teulu, Ffisiotherapi, Cwnsela ac ati) er mwyn galluogi'r sefydliad i helpu pobl i ddychwelyd yn gynt i'r gwaith, ac i roi mwy o gefnogaeth iddynt aros yn y gwaith. Pan na fydd yn bosibl i unigolion ddychwelyd i'w swyddi, edrychir ar y posibilrwydd o'u hadleoli mewn swyddi gwahanol, gyda'r disgwylid y bydd holl sefydliadau'r GIG, ac nid Iechyd Cyhoeddus Cymru'n unig, yn cefnogi'r broses honno. Rhoddir pwyslais pellach ar adleoli pobl dros dro i swyddi gwahanol, ac mae hynny'n helpu unigolion i ddychwelyd i'r gwaith yn gynt os nad ydynt yn ddigon da i ddychwelyd i'w priod swyddi eto.

Ceir hefyd nifer o bolisïau, gweithdrefnau a chanllawiau sy'n gofalu am iechyd a lles staff, fel y Polisi a'r Pecyn Cymorth Gweithio Hyblyg, y Cynllun Seibiant Gyrfa, y Cynllun Prynu Gwyliau Blynyddol, a'r Polisi Atal Straen a Rheoli Iechyd Meddwl a Llesiant. Mae gan Iechyd Cyhoeddus Cymru hefyd wasanaeth cyfryngu i'w staff.

Ym mis Gorffennaf 2019, cawsom ein hasesu a rhoddwyd inni lefel Aur y Wobr Safon Iechyd Corfforaethol, a hynny'n gofyn am broses asesu

dros ddeuddydd mewn nifer o safleoedd. Roedd hyn yn galw am waith sylweddol gan bob rhan o'r sefydliad, ac ni fyddai wedi bod yn bosibl heb gyfraniad grŵp llesiant y gweithwyr a'n rhwydwaith o swyddogion cyswllt ym maes llesiant. Mae'r swyddogion hyn yn cyfeirio'u cydweithwyr at y gwaith sy'n mynd rhagddo i wella lles pobl, ac yn hwyluso cyfathrebu dwyffordd yn ein holl safleoedd a chanolfannau. Rydym yn dal i wneud cynnydd drwy wahanol gamau y system wobrau, i gyrraedd lefel Platinwm yn y pen draw.

Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi ymrwymo i greu amgylchedd gwaith heb aflonyddu na bwlio, gan sicrhau bod pob aelod o staff yn cael ei drin ag urddas a pharch, ac yn trin pawb arall ag urddas a pharch. Mae ein Proses Urddas yn y Gwaith yn hyrwyddo urddas a pharch yn y gwaith ac yn cefnogi ac yn helpu gweithwyr a allai fod yn profi bwlio, aflonyddu ac/neu erledigaeth.

Mae'r holl staff yn cael yr un cyfleoedd gwerthuso, drwy broses 'Fy Nghyfraniad', a'r un cyfleoedd hyfforddiant a datblygu gyrfa. Mae disgwyl iddynt gymryd rhan yn yr hyfforddiant statudol a gorfodol sy'n berthnasol i'w swyddi.

O ran newid sefydliadol ymhlith y staff ac ailstrwythuro gwasanaethau, mae Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi mabwysiadu Polisi Newid Sefydliadol Cymru Gyfan, ac mae ganddo Bolisi Dileu Swyddi a Chynllun Gadael Swydd yn Gynnar o Wirfodd.

Mae holl bolisïau'r gweithlu'n cael eu hadolygu a'u datblygu ar y cyd â'r undebau llafur cydnabyddedig, yn unol ag amserlen adolygu a datblygu y cytunwyd arni.

Caiff y polisïau eu cyhoeddi ar wefan Iechyd Cyhoeddus Cymru.

## 5.6 Materion eraill sy'n ymwneud â staff

Mae Rhwydweithiau Amrywiaeth y Staff yn parhau i dyfu a gwreiddio'u hunain yn y sefydliad. Mae bellach gennym rwydweithiau i Fenywod, Gofalwyr, staff LGBT+, staff Anabl, a staff BAME. Mae aelodau'r rhwydweithiau hyn wedi cymryd rhan weithgar yn y broses o ddatblygu Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2020 – 2024, a gaiff ei gyhoeddi yn ystod 2020.

Rydym wedi parhau i gynnal digwyddiadau codi ymwybyddiaeth amrywiol drwy gydol y flwyddyn, ac roeddem yn bresennol yn nigwyddiadau Pride yn Abertawe, Llanelli a Chaerdydd. Unwaith eto, aethom ati i gynnal "Wythnos Amrywiaeth a Chynhwysiant" ym mis Ionawr, a honno'n cynnwys siaradwyr amrywiol, erthyglau ar y fewnrwyd, "Diwrnod Enfys", a chyfleoedd i staff ddathlu gwahaniaeth. Roedd llawer mwy o aelodau o staff yn rhan o bethau eleni, a chyfartaledd o tua 50 o bobl yn bresennol ym mhob digwyddiad, a gynhaliwyd ar nifer o safleoedd.

Am y trydydd tro, roeddem yn rhan o Fynegai Cydraddoldeb yn y Gweithle Stonewall, gan gyrraedd safle 100 o blith 502 o sefydliadau. Mae hynny'n golygu inni gyrraedd y 100 cyflogwr uchaf yn y Deyrnas Unedig am y tro cyntaf. Mae hyn yn golygu ein bod wedi codi 73 safle ers y flwyddyn flaenorol, a 238 safle i gyd ers inni ddechrau cymryd rhan dair blynedd yn ôl. Dyma ddangos yn glir y gwelliannau sydd wedi'u gwneud i greu diwylliant cynhwysol ac i roi gwerthoedd y sefydliad ar waith yn ymarferol.

## 5.7 Gwariant ar wasanaethau ymgynghori

At ddiben y cyfrifon statudol, diffinnir gwasanaethau ymgynghori fel aseiniadau ad-hoc/am gyfnod cyfyngedig nad ydynt yn cael eu hystyried yn gysylltiedig â gweithgareddau'r Ymddiriedolaeth o ddydd i ddydd. Gall hyn gynnwys gwariant ar wasanaethau fel y rhain:

- Gwasanaethau ymgynghori cyffredinol ym maes rheoli
- Materion cyfreithiol
- Adnoddau dynol
- Cyllid
- Gwasanaethau ymgynghori ym maes technoleg gwybodaeth
- Gwasanaethau eiddo/ystadau
- Marchnata a chyfathrebu
- Rheoli rhaglenni a phrosiectau

Yn ystod 2019/20, roedd gwariant Iechyd Cyhoeddus Cymru ar wasanaethau ymgynghori yn £448k o'i gymharu â £359k yn 2018/19.

## 5.8 Sicrwydd treth ar gyfer gweithio oddi ar y gyflogres

Mae gofyn i'r Ymddiriedolaeth ddatgelu unrhyw drefniadau sydd ganddi lle bydd unigolion yn cael eu talu drwy eu cwmnïau eu hunain neu oddi ar y gyflogres. Pan fydd taliadau wedi'u gwneud oddi ar y gyflogres, mae'r Ymddiriedolaeth wedi ceisio sicrwydd gan bob parti perthnasol bod y trefniadau treth priodol wedi'u dilyn. Caiff manylion y trefniadau hyn eu cyhoeddi ar wefan Iechyd Cyhoeddus Cymru.

## 5.9 Pecynnau gadael

Mae'r ffigurau a geir yn y nodyn hwn yn ymwneud â'r pecynnau gadael y cytunwyd arnynt yn ystod y flwyddyn. Gall y gwir ddyddiad gadael fod mewn cyfnod dilynol, ac mae'n bosibl bod y gwariant ar y costau gadael wedi'i gronni mewn cyfnod blaenorol. Mae'r data felly'n cael eu cyflwyno ar sail wahanol i gostau eraill staff a'r nodiadau gwariant a geir yn y cyfrifon.

| **Tabl 1**<br><br>**Band cost pecynnau gadael (gan gynnwys unrhyw elfen o daliad arbennig)** | **2019-20**<br><br>**Nifer yr achosion o ddileu swyddi yn orfodol** | **2019-20**<br><br>**Nifer yrymadawiadau eraill** | **2019-20**<br><br>**Cyfanswm nifer y pecynnau gadael** | **2019-20**<br><br>**Nifer yr ymadawiadau lle gwnaed taliadau arbennig** | **2018-19**<br><br>**Cyfanswm nifer y pecynnau gadael** |
|---|---|---|---|---|---|
| llai na £10,000 | 1 | 1 | 2 | 0 | 4 |
| £10,000 i £25,000 | 0 | 1 | 1 | 0 | 0 |
| £25,000 i £50,000 | 1 | 1 | 2 | 0 | 1 |
| £50,000 i £100,000 | 0 | 1 | 1 | 0 | 1 |
| £100,000 i £150,000 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| £150,000 i £200,000 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| mwy na £200,000 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| **Cyfanswm** | **2** | **4** | **6** | **0** | **6** |

| Band cost pecynnau gadael (gan gynnwys unrhyw elfen o daliad arbennig) | 2019-20<br>Cost yr achosion dileu swyddi gorfodo<br>£oedd | 2019-20<br>Cost yr ymadawiadau eraill<br>£oedd | 2019-20<br>Cyfanswm cost y pecynnau gadael<br>£oedd | 2019-20<br>Cost yr elfen arbennig mewn pecynnau gadael<br>£oedd | 2018-19<br>Cyfanswm cost y pecynnau gadael<br>£oedd |
|---|---|---|---|---|---|
| llai na £10,000 | 7,434[1] | 7,524 | 14,958 | 0 | 10,878 |
| £10,000 i £25,000 | 0 | 23,761 | 23,761 | 0 | 0 |
| £25,000 i £50,000 | 40,889 | 43,772 | 84,661 | 0 | 43,772 |
| £50,000 i £100,000 | 0 | 55,291 | 55,291 | 0 | 65,651 |
| £100,000 i £150,000 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| £150,000 i £200,000 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| mwy na £200,000 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| **Cyfanswm** | **48,323** | **130,348** | **178,671** | **0** | **120,301** |

[1] Dileu swydd wedi'i gyllido'n llawn gan Camau Cynnar Gyda'n Gilydd/Yr Is-bwyllgor Cyllid, Risg a Rheolaeth Fewnol; gweler adran 2.8

## 6. Datganiad Sicrwydd

6.1 Rwy'n cadarnhau nad oes unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol yn yr Adroddiad Blynyddol nad yw Swyddfa Archwilio Cymru yn ymwybodol ohoni. Fel Prif Weithredwr, rwyf wedi cymryd pob cam er mwyn sicrhau fy mod yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth berthnasol a sicrhau bod Swyddfa Archwilio Cymru yn ymwybodol o'r wybodaeth honno.

Llofnod:



Dr Tracey Cooper
Dyddiad: 25 Mehefin 2020

**Dr Tracey Cooper**
Prif Weithredwr a Swyddog Atebol,
Iechyd Cyhoeddus Cymru

## Atodiad 1a – Cydnabyddiaeth Ariannol Un Ffigur (2019/20)

(Archwiliedig)

| Enw a Theitl | Cyflog (bandiau £5k) | Arall (bandiau o £5,000) | Buddiannau mewn nwyddau (trethadwy i'r £100 agosaf) | Buddiant pensiwn (i'r £1,000 agosaf) | Cyfanswm (i'r bandiau £5k agosaf) |
|---|---|---|---|---|---|
| Dr Tracey Cooper, Prif Weithredwr | 155-160 | - | - | 39 | **195-200** |
| Huw George, Dirprwy Brif Weithredwr a Chyfarwyddwr Gweithredol Gweithrediadau a Chyllid[1] | 130-135 | - | - | 24 | **150-155** |
| Dr Quentin Sandifer, Cyfarwyddwr Gweithredol Gwasanaethau Iechyd Cyhoeddus a Chyfarwyddwr Meddygol | 150-155 | - | - | 0 | **150-155** |
| Rhiannon Beaumont-Wood, Cyfarwyddwr Gweithredol Ansawdd, Nyrsio a Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd | 105-110 | - | - | 17 | **125-130** |
| Jyoti Atri, Cyfarwyddwr Gweithredol Iechyd a Llesiant Dros Dro | 120-125 | - | - | 23 | **145-150** |
| Yr Athro Mark Bellis, Cyfarwyddwr Polisi, Ymchwil a Datblygu Rhyngwladol, Canolfan Gydweithredol Sefydliad Iechyd y Byd ar Fuddsoddi ar gyfer Iechyd a Lles | 120-125 | - | - | 26 | **150-155** |
| Dr John Boulton, Cyfarwyddwr Gwella Ansawdd a Diogelwch Cleifion/Cyfarwyddwr Gwasanaeth Gwella 1000 o Fywydau (Gwelliant Cymru)[2] | 120-125 | - | - | 36 | **155-160** |
| Philip Bushby, Cyfarwyddwr Pobl a Datblygu Sefydliadol[3] | 100-105 | - | 4,500 | 25 | **130-135** |
| Sian Bolton, Cyfarwyddwr Pontio, Gwybodaeth | 105-110 | - | - | 0 | **105-110** |
| Helen Bushell, Ysgrifennydd y Bwrdd a Phennaeth Uned Fusnes y Bwrdd | 70-75 | - | - | 20 | **90-95** |

## Atodiad 1a – Cydnabyddiaeth Ariannol Un Ffigur (2019/20) (parhad )

(Archwiliedig)

| Enw a Theitl | Cyflog (bandiau £5k) | Arall (bandiau o £5,000) | Buddiannau mewn nwyddau (trethadwy i'r £100 agosaf) | Buddiant pensiwn (i'r £1,000 agosaf) | Cyfanswm (i'r bandiau £5k agosaf) |
|---|---|---|---|---|---|
| **Cyfarwyddwyr Anweithredol:** | | | | | |
| Jan Williams OBE | 40-45 | - | - | 0 | **40-45** |
| Kate Eden | 15-20 | - | - | 0 | **15-20** |
| Judith Rhys | 5-10 | - | - | 0 | **5-10** |
| Yr Athro Shantini Paranjothy | 5-10 | - | - | 0 | **5-10** |
| Dyfed Edwards | 5-10 | - | - | 0 | **5-10** |
| Yr Athro Stephen Palmer | 5-10 | - | - | 0 | **5-10** |
| Alison Ward[4] | 5-10 | - | - | 0 | **5-10** |

[1] Mae'r cyflog yn cynnwys £575 a aberthwyd mewn perthynas â'r cynllun seiclo i'r gwaith.

[2] Daeth secondiad Dr John Boulton i Iechyd Cyhoeddus Cymru o Aneurin Bevan i ben ar 31 Awst 2019 pan gafodd ei benodi yn Gyfarwyddwr Gwella Ansawdd a Diogelwch Cleifion y GIG/Cyfarwyddwr Gwasanaeth Gwella 1000 o Fywydau (Gwelliant Cymru).

[3] Mae'r cyflog yn cynnwys £3,895 a aberthwyd mewn perthynas â char personol ar brydles.

[4] Nid yw Alison Ward yn cael buddiannau uniongyrchol gan fod y costau uchod yn cael eu talu'n uniongyrchol i'w chyflogwr.

## Atodiad 1b – Cydnabyddiaeth Ariannol Un Ffigur (2018/19)

(Archwiliedig)

| Enw a Theitl | Cyflog (bandiau £5k) | Arall (bandiau o £5,000) | Buddiannau mewn nwyddau (trethadwy i'r £100 agosaf) | Buddiant pensiwn (i'r £1,000 agosaf) | Cyfanswm (i'r bandiau £5k agosaf) |
|---|---|---|---|---|---|
| Dr Tracey Cooper, Prif Weithredwr | 150 - 155 | - | - | 37 | **190 – 195** |
| Huw George, Dirprwy Brif Weithredwr a Chyfarwyddwr Gweithredol Gweithrediadau a Chyllid | 125 - 130 | - | - | 25 | **150 – 155** |
| Dr Quentin Sandifer, Cyfarwyddwr Gweithredol Gwasanaethau Iechyd Cyhoeddus[1] | 160 - 165 | - | - | 21 | **180 – 185** |
| Rhiannon Beaumont-Wood, Cyfarwyddwr Gweithredol Ansawdd, Nyrsio a Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd[2] | 15 - 20 | - | - | 11 | **25 – 30** |
| Dr Christine Pickin, Cyfarwyddwr Gweithredol Iechyd a Llesiant[3] | 120 - 125 | 65 - 70 | - | 28 | **210 – 215** |
| Jyoti Atri, Cyfarwyddwr Gweithredol Iechyd a Llesiant Dros Dro[4] | 30 - 35 | - | - | 6 | **35 – 40** |
| Dr Aidan Fowler, Cyfarwyddwr Gwella Ansawdd a Diogelwch Cleifion/Cyfarwyddwr 1000 o Fywydau[5] | 40 - 45 | - | - | 26 | **65 – 70** |
| Yr Athro Mark Bellis, Cyfarwyddwr Polisi, Ymchwil a Datblygu Rhyngwladol | 120 - 125 | - | - | 25 | **145 – 150** |
| Dr John Boulton, Cyfarwyddwr Gwella Ansawdd a Diogelwch Cleifion/Cyfarwyddwr 1000 o Fywydau Dros Dro[6] | 60 - 65 | - | - | *** | **60 – 65** |
| Philip Bushby, Cyfarwyddwr Pobl a Datblygu Sefydliadol[1] | 100 - 105 | | - | 25 | **125 – 130** |

## **Atodiad 1b – Cydnabyddiaeth Ariannol Un Ffigur (2018/19)** (parhad)

(Archwiliedig)

| Enw a Theitl | Cyflog (bandiau £5k) | Arall (bandiau o £5,000) | Buddiannau mewn nwyddau (trethadwy i'r £100 agosaf) | Buddiant pensiwn (i'r £1,000 agosaf) | Cyfanswm (i'r bandiau £5k agosaf) |
|---|---|---|---|---|---|
| Sian Bolton, Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio ac Ansawdd, Dirprwyo[7] | 85 - 90 | - | - | 129 | 215 – 220 |
| Sian Bolton, Cyfarwyddwr Pontio, Gwybodaeth | 15 - 20 | | | 25 | 40 - 45 |
| Helen Bushell, Ysgrifennydd y Bwrdd | 0 - 5 | - | - | 0 | 0 – 5 |
| Eleanor Higgins, Ysgrifennydd y Bwrdd, Dirprwyo[9] | 0 - 5 | - | - | 2 | 5 – 10 |
| Catherine Steele, Ysgrifennydd y Bwrdd, Dirprwyo[10] | 20 - 25 | - | - | *** | 20 – 25 |
| Melanie Westlake, Ysgrifennydd y Bwrdd[11] | 20 - 25 | | - | 10 | 30 – 35 |
| **Cyfarwyddwyr Anweithredol:** | | | | | |
| Jan Williams | 40 - 45 | - | - | 0 | 40 - 45 |
| Terence Rose[12] | 5 - 10 | - | - | 0 | 5 - 10 |
| Kate Eden | 15 - 20 | - | - | 0 | 15 - 20 |
| Judith Rhys | 5 - 10 | - | - | 0 | 5 - 10 |
| Yr Athro Shantini Paranjothy | 5 - 10 | - | - | 0 | 5 - 10 |
| Dyfed Edwards[13] | 5 - 10 | - | - | 0 | 5 - 10 |
| Yr Athro Stephen Palmer[14] | 0 - 5 | - | - | 0 | 0 - 5 |
| Alison Ward[15] | 0 - 5 | - | - | 0 | 0 - 5 |

[1] Newidiodd bandiau cyflog Dr Quentin Sandifer a Philip Bushby oherwydd y cynnydd mewn cyflog (2%) a roddwyd i bob cyfarwyddwr o 01 Ebrill 2018

[2] Dychwelodd Rhiannon Beaumont-Wood o'i secondiad ym Mwrdd Iechyd Addysgu Powys ar 4 Chwefror 2019

[3] Gadawodd Dr Christine Pickin y sefydliad ar 24 Chwefror 2019

[4] Dechreuodd Jyoti Atri yn swydd dros dro'r Cyfarwyddwr Gweithredol Iechyd a Llesiant ar 25 Chwefror 2019. Roedd hi'n dirprwyo dros dro o 1 Ionawr 2019 tra oedd Dr Christine Pickin ar wyliau blynyddol ar ddechrau'r flwyddyn

[5] Gadawodd Dr Aidan Fowler y sefydliad ar 15 Gorffennaf 2018

[6] Dechreuodd Dr John Boulton secondiad ar 01 Awst 2018. Ad-delir holl gostau'r gyflogres i Fwrdd Iechyd Aneurin Bevan. Nid oes gwybodaeth am bensiwn ar gael.

[7] Gorffennodd Sian Bolton ddirprwyo yn swydd y Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio ac Ansawdd ar 4 Chwefror 2019 ac fe'i penodwyd yn Gyfarwyddwr Pontio y Gyfarwyddiaeth Wybodaeth ar 5 Chwefror am gyfnod o 6 mis

[8] Penodwyd Helen Bushell yn Ysgrifennydd y Bwrdd ar 11 Mawrth 2019

[9] Dirprwyodd Eleanor Higgins fel Ysgrifennydd y Bwrdd rhwng 1 Chwefror 2019 a 10 Mawrth 2019

[10] Secondiwyd Cathie Steele o Bwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru rhwng 12 Gorffennaf 2018 a 31 Ionawr 2019 i fod yn Ysgrifennydd y Bwrdd. Nid oes gwybodaeth am bensiwn ar gael.

[11] Secondiwyd Melanie Westlake i Lywodraeth Cymru ar 11 Gorffennaf 2018

[12] Gadawodd Terence Rose y sefydliad ar 31 Hydref 2018

[13] Penodwyd Dyfed Edwards ar 1 Mai 2018

[14] Penodwyd Stephen Palmer ar 1 Medi 2018

[15] Penodwyd Alison Ward ar 1 Ebrill 2018. Nid yw'n cael buddiannau uniongyrchol gan fod y costau uchod yn cael eu talu'n uniongyrchol i'w chyflogwr.

# Atodiad 2 – Buddiannau Pensiwn

(Archwiliedig)

| Enw a Theitl | Cynnydd gwirioneddol yn y pensiwn ar oed pensiwn, (bandiau £2,500) £'000 | Cynnydd gwirioneddol yn y cyfandaliad pensiwn ar oed pensiwn, (bandiau £2,500) £'000 | Cyfanswm pensiwn a gronnwyd ar oed pensiwn ar 31 Mawrth 2020 (bandiau £5,000) £'000 | Cyfandaliad ar oed pensiwn yn ymwneud â'r pensiwn a gronnwyd ar 31 Mawrth 2020 (bandiau £5,000) £'000 | Gwerth Trosglwyddo Arian Parod Cyfatebol ar 31 Mawrth 2020 £'000 | Gwerth Trosglwyddo Arian Parod Cyfatebol ar 31 Mawrth 2020 £'000 | Cynnydd gwirioneddol yn y gwerth trosglwyddo arian parod cyfatebol £'000 | Cyfraniad cyflogwr at y pensiwn rhanddeiliaid £'000 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Tracey Cooper, Prif Weithredwr | 2.5-5 | (2.5)-0 | 35-40 | 55-60 | 648 | 580 | 31 | 0 |
| Huw George, Dirprwy Brif Weithredwr a Chyfarwyddwr Gweithredol Gweithrediadau a Chyllid | 0-2.5 | (2.5)-0 | 45-50 | 105-110 | 934 | 866 | 29 | 0 |
| Dr Quentin Sandifer, Cyfarwyddwr Gweithredol Gwasanaethau Iechyd Cyhoeddus a Chyfarwyddwr Meddygol | (5)-(2.5) | (15)-(12.5) | 50-55 | 160-165 | 1,347 | 1,384 | 0 | 0 |
| Rhiannon Beaumont-Wood, Cyfarwyddwr Gweithredol Ansawdd, Nyrsio a Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd | 0-2.5 | 0-2.5 | 25-30 | 75-80 | 616 | 562 | 26 | 0 |
| Jyoti Atri, Cyfarwyddwr Gweithredol Iechyd a Llesiant Dros Dro | 0-2.5 | (2.5)-0 | 35-40 | 70-75 | 632 | 581 | 19 | 0 |
| Yr Athro Mark Bellis OBE, Cyfarwyddwr Polisi, Ymchwil a Datblygu Rhyngwladol, Canolfan Gydweithredol Sefydliad Iechyd y Byd ar Fuddsoddi ar gyfer Iechyd a Lles | 0-2.5 | 0 | 15-20 | 0 | 221 | 179 | 16 | 0 |
| Dr John Boulton, Cyfarwyddwr Gwella Ansawdd a Diogelwch Cleifion/Cyfarwyddwr Gwasanaeth Gwella 1000 o Fywydau (Gwelliant Cymru | 2.5-5 | 0 | 0-5 | 0 | 28 | 0 | 12 | 0 |
| Philip Bushby, Cyfarwyddwr Pobl a Datblygu Sefydliadol | 0-2.5 | 0 | 5-10 | 0 | 93 | 65 | 12 | 0 |
| Sian Bolton, Cyfarwyddwr Pontio, Gwybodaeth | 0-2.5 | 0-2.5 | 40-45 | 120-125 | 889 | 844 | 10 | 0 |
| Helen Bushell, Ysgrifennydd y Bwrdd a Phennaeth Uned Fusnes y Bwrdd | 0-2.5 | 0 | 0-5 | 0 | 14 | 0 | 5 | 0 |

# Atodiad 3 – Datganiad Polisi Cyflog 2019/20

## 1.0 Cyflwyniad a Diben

1.1 Diben y datganiad polisi hwn yw egluro safbwynt strategol Iechyd Cyhoeddus Cymru ar gydnabyddiaeth ariannol i uwch-reolwyr a rhoi datganiad clir o'r egwyddorion sy'n sail i benderfyniadau am y modd y caiff cyllid cyhoeddus ei ddefnyddio.

1.2 Caiff y Datganiad Polisi Cyflog (y "datganiad") ei lunio ar gyfer pob blwyddyn ariannol, yn unol ag egwyddorion a safonau gofynnol Llywodraeth Cymru fel yr amlinellir y rheini yn y ddogfen "Tryloywder Tâl Uwch-reolwyr yn y Sector Cyhoeddus Datganoledig yng Nghymru", sy'n cynnwys cyfres o egwyddorion lefel uchel ynghylch adrodd am gyflogau uwch-reolwyr. Mae'r ddogfen honno'n pennu trefniadau ac egwyddorion mewn cyfres o safonau a gofynion anstatudol i sefydliadau'r sector cyhoeddus datganoledig yng Nghymru. Mae'n cynnwys gofyniad i gyhoeddi adroddiadau blynyddol ynghyd â datganiad polisi cyflog blynyddol.

1.3 Diben y datganiad yw rhoi tryloywder ynghylch sut y mae Iechyd Cyhoeddus Cymru yn gosod cyflogau ei uwch-reolwyr (nid yw hyn yn cynnwys staff a gyflogir ar delerau ac amodau cyflogaeth a bennir yn genedlaethol), drwy nodi:

a) y diffiniad o "swyddi uwch-reolwyr" a fabwysiadwyd gan Iechyd Cyhoeddus Cymru at ddibenion y datganiad polisi cyflog,

b) y diffiniad o "weithwyr ar y cyflog isaf" a fabwysiadwyd gan Iechyd Cyhoeddus Cymru at ddibenion y datganiad polisi cyflog,

c) rhesymau Iechyd Cyhoeddus Cymru dros fabwysiadu'r diffiniadau hyn, a

d) y berthynas rhwng cyflog swyddi uwch-reolwyr a thâl y gweithwyr ar y cyflog isaf.

## 2.0 Y Fframwaith Deddfwriaethol

Wrth benderfynu ar gyflogau a chydnabyddiaeth ariannol ei holl weithwyr, bydd Iechyd Cyhoeddus Cymru yn cydymffurfio â'r holl ddeddfwriaeth cyflogaeth berthnasol. Mae hyn yn cynnwys Deddf Cydraddoldeb 2010, Rheoliadau Cyflogaeth Ran-amser (Atal Triniaeth Lai Ffafriol) 2000, Rheoliadau Gweithwyr Asiantaeth 2010, a phan fyddant yn berthnasol, Rheoliadau Trosglwyddo Ymgymeriadau (Diogelu Cyflogaeth). O ran gofynion Cyflog Cyfartal y Ddeddf Cydraddoldeb, mae Ymddiriedolaeth y GIG yn sicrhau nad oes gwahaniaethu yn ei strwythurau cyflog i weithwyr sy'n gweithio o dan Delerau ac Amodau Cenedlaethol y GIG (Agenda ar gyfer Newid), Llawlyfr Staff Meddygol a Deintyddol (Cymru) a'r garfan o Swyddi Gweithredol ac Uwch. Mae hefyd yn sicrhau y gellir cyfiawnhau pob gwahaniaeth mewn cyflog yn wrthrychol drwy ddefnyddio dulliau Gwerthuso Swyddi sy'n bodloni gofynion cydraddoldeb, a'r rheini sicrhau bod cysylltiad uniongyrchol rhwng cyflogau a gofynion, galwadau a chyfrifoldebau'r swydd.

## 3.0 Strwythur Cyflogau

Diffinnir swyddi uwch gan Iechyd Cyhoeddus Cymru fel swyddi'r holl staff nad yw'r Agenda ar gyfer Newid na chontractau Meddygol a Deintyddol yn berthnasol iddynt (ac eithrio ein Cyfarwyddwr Gweithredol Gwasanaethau Iechyd Cyhoeddus sydd hefyd yn cyflawni swydd y Cyfarwyddwr Meddygol o dan Gontract Meddygol a Deintyddol, a'r Cyfarwyddwr Ymchwil Polisi a Datblygu Rhyngwladol, sy'n cael ei dalu ar raddfa gyflog yr Agenda ar gyfer Newid).

Cyfeirir at y garfan hon o staff fel staff sydd mewn "Swyddi Gweithredol ac Uwch".

a) Mewn perthynas â'r datganiad hwn, dyma'r Swyddi Gweithredol ac Uwch yn Ymddiriedolaeth y GIG:

**Prif Weithredwr**

**Dirprwy Brif Weithredwr / Cyfarwyddwr Gweithredol Gweithrediadau a Chyllid**

**Cyfarwyddwr Gweithredol Iechyd a Llesiant**

**Cyfarwyddwr Gweithredol Gwasanaethau Iechyd Cyhoeddus**

**Cyfarwyddwr Gweithredol Ansawdd, Nyrsio a Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd**

**Cyfarwyddwr Gwella Ansawdd a Diogelwch Cleifion y GIG/Cyfarwyddwr Gwelliant Cymru**

**Cyfarwyddwr Pobl a Datblygu Sefydliadol**

**Cyfarwyddwr Polisi ac Iechyd Rhyngwladol, Canolfan Gydweithredol Sefydliad Iechyd y Byd ar Fuddsoddi ar gyfer Iechyd a Lles**

**Cyfarwyddwr Gwybodaeth**

b) Caiff y "gweithwyr ar y cyflog isaf" yn Iechyd Cyhoeddus Cymru eu talu £17,652 y flwyddyn (£9.05 yr awr) yn unol â'r Bandiau Cyflog a'r pwyntiau cyflog a bennir yn genedlaethol yng Nghymru.

c) Mae'r diffiniadau o swyddi uwch a'r gweithwyr ar y cyflog isaf yn cyd-fynd â'r darpariaethau cenedlaethol a bennir ac a osodir gan Lywodraeth Cymru fel y nodir yn a) uchod.

d) Pennir cydnabyddiaeth ariannol y swyddi uwch drwy broses gwerthuso swyddi (Gwerthuso Swyddi Uwch) ac mae Llywodraeth Cymru yn gorfod cytuno ar yr holl gyflogau. Pennir cydnabyddiaeth ariannol y gweithwyr ar y cyflog isaf drwy ddefnyddio'r system Gwerthuso Swyddi genedlaethol (Agenda ar gyfer Newid), a gosodir cyflogau holl bwyntiau colofnau cyflog yr Agenda ar gyfer Newid (gan gynnwys y pwyntiau isaf) ar ôl cael argymhellion gan y Corff Adolygu Cyflogau. O 1 Ionawr 2015, addaswyd pwyntiau isaf y colofnau i ymgorffori'r Cyflog Byw.

e) Mae'r broses flynyddol o gyflwyno tystiolaeth i'r cyrff adolygu cyflogau (Corff Adolygu Cyflogau'r GIG a Chorff Adolygu ar Gydnabyddiaeth Ariannol Meddygon a Deintyddion) yn golygu bod modd cynnal asesiad annibynnol o gyflogau'r GIG. Mae'r cyrff adolygu cyflogau'n rhoi sylw i'r ystyriaethau canlynol wrth wneud eu hargymhellion:

- yr angen i recriwtio, cadw ac ysgogi staff addas sy'n abl a chymwys;
- amrywiadau rhanbarthol/lleol mewn marchnadoedd llafur a'u heffeithiau ar recriwtio a chadw staff;
- y cyllid sydd ar gael i'r Adrannau Iechyd, fel y pennir yn Nherfynau Gwariant Adrannol y Llywodraeth;
- targed chwyddiant y Llywodraeth;
- yr egwyddor o gyflog cyfartal am waith o werth cyfartal yn y GIG;
- y strategaeth gyffredinol y dylai'r GIG sicrhau bod cleifion yn ganolog i bopeth mae'n ei wneud, a'r dulliau y bydd yn eu defnyddio i gyflawni hynny.

f) Mae gwybodaeth am gyflogau uwch-reolwyr i'w gweld yn Atodiad 1a i'r adroddiad Cydnabyddiaeth Ariannol a Staff.

g) Dull Iechyd Cyhoeddus Cymru o reoli talent yn fewnol yw rhannu'r holl swyddi gwag a chyfleoedd yn fewnol er mwyn annog cynnydd mewn gyrfa a datblygiad ein holl weithwyr. At hynny, drwy ein prosesau ar gyfer cynllunio'r gweithlu, byddwn yn dadansoddi anghenion dysgu ac yn gwneud gwaith i gynllunio ar gyfer olyniaeth er mwyn canfod anghenion datblygu'r holl staff. Ystyr cynllunio ar gyfer olyniaeth yw'r broses o adnabod swyddi hanfodol, asesu'r aelodau presennol o staff a allai lenwi yn y swyddi hyn o fewn nifer o amserlenni (yn barod nawr; 1-2 flynedd a 2-5 mlynedd) a datblygu cynlluniau gweithredu er mwyn i'r unigolion dan sylw ymgymryd â'r swyddi hynny.

h) Nid yw Iechyd Cyhoeddus Cymru yn defnyddio unrhyw system sy'n rhoi cyflog sy'n gysylltiedig â pherfformiad ar gyfer swyddi uwch-reolwyr.

i) Mae gan Iechyd Cyhoeddus Cymru ddull cynhwysfawr o ymdrin â pherfformiad, datblygu ac adolygu, a dyma'r polisïau / prosesau sy'n cefnogi hyn:

**Pecyn Cymorth Strategol ar gyfer Cynllunio'r Gweithlu**

**Polisi fy Nghyfraniad i (Gwerthuso Perfformiad)**

**Fframwaith Sgiliau Craidd a Hyfforddiant**

**Rhaglen Dysgu a Datblygu**

**Rhaglen Datblygu Sgiliau Rheoli ac Arwain**

**Polisi a Phroses Cynefino**

j) Dyma'r pwyntiau cyflog uchaf ac isaf a bennwyd gan Iechyd Cyhoeddus Cymru o dan yr Agenda ar gyfer Newid:

Y pwynt uchaf - £103,860
Y pwynt isaf - £17,652

k) Dyma'r polisïau taliadau diswyddo sydd gan Iechyd Cyhoeddus Cymru:

- yr hyn a nodir yn Adran 16 y Llawlyfr Telerau ac Amodau Gwasanaeth, y cytunwyd arno'n genedlaethol, ar gyfer dileu swyddi. Dim ond drwy gytundeb cenedlaethol rhwng y llywodraeth, cyflogwyr a'r undebau llafur y gellir amrywio'r amodau hyn;
- y cynllun Gadael Swydd yn Gynnar o Wirfodd, sy'n ei gwneud yn ofynnol i Lywodraeth Cymru awdurdodi i unrhyw daliad sydd i'w wneud;
- Polisi Newid Sefydliadol GIG Cymru sy'n darparu dull cyson ar gyfer rheoli newid sefydliadol ac yn darparu ar gyfer adleoli a diogelu cyflog;

- Polisi Dileu Swyddi Iechyd Cyhoeddus Cymru sy'n cyflwyno dull sefydliadol ar gyfer rheoli sefyllfaoedd lle bydd achosion o ddileu swyddi (neu risg o ddileu swyddi).

## 4.0 Pecyn Taliadau a Chydnabyddiaeth Ehangach

l) Dyma'r buddiannau ychwanegol a gynigir gan Iechyd Cyhoeddus Cymru:

- **Gwyliau blynyddol** – Bydd staff yn cael lwfans o 27 diwrnod y flwyddyn o wyliau blynyddol ynghyd â gwyliau banc, gan godi i 29 diwrnod ar ôl pum mlynedd a 33 diwrnod ar ôl deng mlynedd.
- **Gweithio hyblyg** –.Mae'r Ymddiriedolaeth yn cynnig polisi gweithio hyblyg i helpu staff i gydbwyso bywyd cartref a bywyd gwaith, gan gynnwys: opsiynau gweithio gartref, oriau rhan-amser a rhannu swydd.
- **Pensiwn** – Rydym yn rhan o gynllun pensiwn y GIG. Os bydd staff yn ymuno â chynllun pensiwn y GIG, bydd yr Ymddiriedolaeth yn cyfrannu 20.6% at eu pensiwn.
- **Talebau Gofal Plant** – Mae modd i'r holl staff sydd â phlant fod yn aelodau o'r cynllun talebau gofal plant.
- **Cynllun seiclo i'r gwaith** – Mae'r Ymddiriedolaeth yn rhan o gynllun seiclo i'r gwaith, sy'n cynnig arbedion o hyd 42% oddi ar gost beic newydd.
- **Benthyciadau teithio** – Mae benthyciadau ar gyfer tocyn tymor teithio ar gael i staff yn ddi-log (yn flynyddol).
- **Iechyd a lles** – Mae cynlluniau iechyd a lles ar gael drwy'r holl Ymddiriedolaeth, gan gynnwys aelodaeth o gampfeydd drwy Gymru am bris gostyngol.
- **Iechyd Galwedigaethol** – Mae'r holl staff yn gallu defnyddio ein gwasanaethau Iechyd Galwedigaethol: gall y gwasanaeth helpu staff gyda rheoli straen, cwnsela cyfrinachol a brechiadau tymhorol.
- **Cynllun prydlesu car** – Mae cynllun partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru yn galluogi staff Iechyd Cyhoeddus Cymru i wneud cais i brydlesu car, at ddefnydd busnes a phersonol.

## 6.0 Rhoi cymorth i staff ar gyflogau is

Fel y GIG yn ehangach, mae Iechyd Cyhoeddus Cymru yn sicrhau bod ei holl weithwyr yn cael y cyflog byw.

# Adroddiad Atebolrwydd ac Archwilio Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Mae'r gwariant yn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth berthnasol. Mae'r taliadau am y gwasanaethau a ddarperir gan sefydliadau'r sector cyhoeddus yn cael eu trosglwyddo i dalu cost lawn darparu'r gwasanaethau hynny. Rydym yn sicrhau bod arian cyhoeddus yn cael ei ddefnyddio'n briodol ac er mwyn cyflawni'r amcanion arfaethedig.

Pan fyddwn yn cynnal gweithgareddau nad ydynt yn cael eu hariannu'n uniongyrchol gan Lywodraeth Cymru byddwn yn derbyn incwm i gwmpasu ein costau.  Cyhoeddir manylion pellach am yr incwm a dderbynnir yn y cyfrifon blynyddol; yn nodyn 4 o dan y teitl 'refeniw gweithredol arall'.

Gallwn gadarnhau ein bod wedi cydymffurfio â'r broses o ddyrannu costau a'r gofynion codi tâl a amlinellir yng nghanllawiau Trysorlys EM yn ystod y flwyddyn.

Cawsom ein hysbysu gan ein cynghorwyr cyfreithiol bod gwerth £3,613,000 o honiadau o esgeuluster meddygol neu esgeuluster cyflogwr honedig yn ein herbyn wedi cael eu hasesu, ac nid ydynt yn debygol iawn o fod yn llwyddiannus.  Pe byddai'r honiadau yn ein herbyn yn llwyddiannus, gellir adennill £3,463,000 o'r ffigur hwn o Gronfa Risg Cymru. Felly, £150,000 yw'r atebolrwydd net i Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru.

# Tystysgrif ac adroddiad archwilydd annibynnol ar Archwilydd Cyffredinol Cymru i'r Senedd

## Adroddiad ar yr archwiliad o'r datganiadau ariannol

### Barn

Rwy'n tystio fy mod wedi archwilio datganiadau ariannol Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2020 o dan Adran 61 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004. Mae'r rhain yn cynnwys y Datganiad o Incwm Cynhwysfawr, y Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol, y Datganiad Llif Arian a'r Datganiad o Newidiadau yn Ecwiti Trethdalwyr a'r nodiadau cysylltiedig, gan gynnwys crynodeb o'r polisïau cyfrifyddu arwyddocaol. Mae'r fframwaith adroddiadau ariannol a gymhwyswyd wrth eu paratoi yn gyfraith berthnasol ac mae Llawlyfr Adroddiadau Ariannol Trysorlys EM yn seiliedig ar y Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol.

Yn fy marn i, mae'r datganiadau ariannol:

- yn rhoi golwg wir a theg o sefyllfa Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru ar 31 Mawrth 2020 a'i gwarged am y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny; ac
- maent wedi'u paratoi'n briodol yn unol â Deddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006 a'r cyfarwyddiadau a wnaed yn ei chylch gan Weinidogion Cymru.

### Sail ar gyfer barn

Cynhaliais fy archwiliad yn unol â'r gyfraith berthnasol a'r Safonau Rhyngwladol ar Archwilio yn y DU. Disgrifir fy nghyfrifoldebau o dan y safonau hynny ymhellach yng nghyfrifoldebau'r archwilydd am archwilio yn adran datganiadau ariannol fy adroddiad. Rwy'n annibynnol ar yr ymddiriedolaeth yn unol â'r gofynion moesegol sy'n berthnasol i'm harchwiliad o'r datganiadau ariannol yn y DU gan gynnwys Safon Foesegol y Cyngor Adrodd Ariannol, ac rwyf wedi cyflawni fy nghyfrifoldebau moesegol eraill yn unol â'r gofynion hyn. Credaf fod y dystiolaeth archwilio yr wyf wedi'i chael yn ddigonol ac yn briodol i roi sail i'm barn.

### Pwyslais mater

Tynnaf sylw at Nodyn 24 o'r datganiadau ariannol, sy'n disgrifio effaith Cyfarwyddyd Gweinidogol a gyhoeddwyd ar 18 Rhagfyr 2019 i Ysgrifennydd Parhaol Llywodraeth Cymru, a oedd yn ei chyfarwyddo i ariannu rhwymedigaethau treth pensiwn Clinigwyr y GIG a ysgwyddwyd gan gyrff GIG Cymru mewn perthynas o'r flwyddyn ariannol 2019-20. Mae'r Ymddiriedolaeth wedi datgelu bodolaeth atebolrwydd wrth gefn ar 31 Mawrth 2020, ac nid yw fy marn i wedi'i haddasu mewn perthynas â'r mater hwn.

### Casgliadau sy'n ymwneud â busnes gweithredol

Nid oes gennyf unrhyw beth i'w adrodd mewn perthynas â'r materion a ganlyn y mae'r Safonau Rhyngwladol ar Archwilio yn y DU yn ei gwneud yn ofynnol i mi adrodd i chi lle:

- nid yw'n briodol defnyddio'r sail cyfrifyddu busnes gweithredol wrth baratoi'r datganiadau ariannol; neu
- nid yw'r Prif Weithredwr wedi datgelu yn y datganiadau ariannol unrhyw ansicrwydd arwyddocaol a nodwyd a allai fwrw amheuaeth sylweddol ynghylch gallu'r ymddiriedolaeth i barhau i fabwysiadu sail busnes gweithredol cyfrifyddu am gyfnod o 12 mis o leiaf o'r dyddiad yr awdurdodir cyhoeddiad y datganiadau ariannol.

### Gwybodaeth arall

Mae'r Prif Weithredwr yn gyfrifol am y wybodaeth arall yn yr adroddiad blynyddol a'r cyfrifon. Mae'r wybodaeth arall yn cynnwys y wybodaeth a gynhwysir yn yr adroddiad blynyddol ac eithrio'r datganiadau ariannol a fy adroddiad archwilydd arno. Nid yw fy marn ar y datganiadau ariannol yn cwmpasu'r wybodaeth arall ac nid wyf yn mynegi unrhyw fath o gasgliad sicrwydd arnynt, ac eithrio i'r graddau y nodir yn benodol fel arall yn fy adroddiad.

Mewn cysylltiad â fy archwiliad o'r datganiadau ariannol, fy nghyfrifoldeb i yw darllen y wybodaeth arall er mwyn nodi anghysondebau arwyddocaol â'r datganiadau ariannol archwiliedig a nodi unrhyw wybodaeth sy'n ymddangos yn gwbl anghywir ar sail y wybodaeth a gefais wrth gyflawni'r archwiliad, neu sy'n gwbl anghyson â'r wybodaeth honno. Os deuaf yn ymwybodol o unrhyw gamddatganiadau neu anghysondebau arwyddocaol amlwg, byddaf yn ystyried y goblygiadau ar gyfer fy adroddiad.

### Barn ar reoleidd-dra

Yn fy marn i, ym mhob ffordd berthnasol, mae'r gwariant a'r incwm yn y datganiadau ariannol wedi'u cymhwyso at y dibenion a fwriadwyd gan y Senedd ac mae'r trafodion ariannol a gofnodir yn y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu rheoli.

## Adrodd ar ofynion eraill

### Barn ar faterion eraill

Yn fy marn i, mae'r rhan o'r adroddiad tâl sydd i'w harchwilio wedi'i pharatoi'n briodol yn unol â Deddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006 a'r cyfarwyddiadau a wnaed yn ei chylch gan Weinidogion Cymru.

Yn fy marn i, yn seiliedig ar y gwaith a wnaed yn ystod fy archwiliad:

- mae'r wybodaeth a roddir yn y Datganiad Llywodraethu Blynyddol ar gyfer y flwyddyn ariannol y paratoir y datganiadau ariannol ar ei chyfer yn gyson â'r datganiadau ariannol a pharatowyd y Datganiad Llywodraethu Blynyddol yn unol â chanllawiau Gweinidogion Cymru; a
- mae'r wybodaeth a roddir yn yr Adroddiad Atebolrwydd ar gyfer y flwyddyn ariannol y paratoir y datganiadau ariannol ar ei chyfer yn gyson â'r datganiadau ariannol a pharatowyd yr Adroddiad Atebolrwydd yn unol â chanllawiau Gweinidogion Cymru.

### Materion yr wyf yn adrodd arnynt fel eithriad

Yng ngoleuni'r wybodaeth a'r ddealltwriaeth o'r ymddiriedolaeth a'i hamgylchedd a gafwyd yn ystod yr archwiliad, nid wyf wedi nodi camddatganiadau arwyddocaol yn yr Adroddiad Atebolrwydd na'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol.

Nid oes gennyf unrhyw beth i'w adrodd mewn perthynas â'r materion canlynol, yr wyf yn adrodd i chi amdanynt, os, yn fy marn i:

- ni chadwyd cofnodion cyfrifyddu cywir;
- nid yw'r datganiadau ariannol yn cytuno â'r cofnodion a'r ffurflenni cyfrifyddu;
- ni ddatgelir gwybodaeth a bennir gan Drysorlys EM neu Weinidogion Cymru ynghylch cydnabyddiaeth a thrafodion eraill; neu
- nid wyf wedi derbyn yr holl wybodaeth ac esboniadau sydd eu hangen arnaf ar gyfer fy archwiliad.

### Adroddiad

Nid oes gennyf unrhyw sylwadau i'w gwneud ar y datganiadau ariannol hyn.

## Cyfrifoldebau

### Cyfrifoldebau'r Cyfarwyddwyr a'r Prif Weithredwr

Fel yr eglurwyd yn llawnach yn y Datganiadau o Gyfrifoldebau Cyfarwyddwyr a Phrif Weithredwyr a nodir ar dudalennau 6 a 7 o'r Adroddiad Atebolrwydd, mae'r Cyfarwyddwyr a'r Prif Weithredwr yn gyfrifol am baratoi datganiadau ariannol sy'n rhoi golwg wir a theg ac am reolaeth fewnol o'r math y mae'r Cyfarwyddwyr a'r Prif Weithredwr yn penderfynu sy'n angenrheidiol er mwyn galluogi datganiadau ariannol i gael eu paratoi sy'n rhydd o gamddatganiadau arwyddocaol, p'un ai oherwydd twyll neu wall.

Wrth baratoi'r datganiadau ariannol, mae'r Cyfarwyddwyr a'r Prif Weithredwr yn gyfrifol am asesu gallu'r ymddiriedolaeth i barhau fel busnes gweithredol, gan ddatgelu, fel sy'n berthnasol, faterion sy'n ymwneud â busnes gweithredol a defnyddio sail cyfrifyddu busnes gweithredol oni bai ei fod yn amhriodol.

### Cyfrifoldebau'r archwilydd dros archwilio'r datganiadau ariannol

Fy amcanion yw cael sicrwydd rhesymol ynghylch a yw'r datganiadau ariannol yn eu cyfanrwydd yn rhydd o gamddatganiadau arwyddocaol, boed hynny o ganlyniad i dwyll neu wall, a chyhoeddi adroddiad archwilydd sy'n cynnwys fy marn. Mae sicrwydd rhesymol yn lefel uchel o sicrwydd ond nid yw'n warant y bydd archwiliad a gynhelir yn unol â'r Safonau Rhyngwladol ar Archwilio yn y DU bob amser yn canfod camddatganiad arwyddocaol

pan fydd yn bodoli. Gall camddatganiadau ddeillio o dwyll neu wall ac fe'u hystyrir yn berthnasol pe gellid yn rhesymol ddisgwyl iddynt, yn unigol neu'n gyfan gwbl, ddylanwadu ar benderfyniadau economaidd defnyddwyr a wneir ar sail y datganiadau ariannol hyn.

Mae disgrifiad pellach o gyfrifoldebau'r archwilydd dros archwilio'r datganiadau ariannol ar wefan y Cyngor Adrodd Ariannol www.frc.org.uk/auditorsresponsibilities. Mae'r disgrifiad hwn yn rhan o fy adroddiad archwilydd.

## Cyfrifoldebau am reoleidd-dra

Mae'r Prif Weithredwr yn gyfrifol am sicrhau rheoleidd-dra trafodion ariannol.

Mae'n ofynnol i mi gael digon o dystiolaeth i roi sicrwydd rhesymol bod y gwariant a'r incwm wedi'u cymhwyso at y dibenion a fwriadwyd gan y Senedd a bod y trafodion ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu rheoli.

Adrian Crompton
Archwilydd Cyffredinol Cymru
2 Gorffennaf 2020

24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd
CF11 9LJ

# Datganiadau Ariannol 2019/20

# Datganiad o Incwm Cynhwysfawr
## ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2020

| | Nodyn | 2019-20 £000 | 2018-19 £000 |
|---|---|---|---|
| Refeniw o weithgarwch gofal cleifion | 3 | **105,300** | 94,334 |
| Refeniw gweithredu arall | 4 | **47,611** | 41,047 |
| Treuliau gweithredu | 5.1 | **(152,952)** | (135,403) |
| **(Diffyg)/gwarged gweithredu** | | **(41)** | (22) |
| Refeniw buddsoddi | 6 | **73** | 48 |
| Enillion a cholledion eraill | 7 | **10** | 0 |
| Costau cyllid | 8 | **0** | 0 |
| **Gwarged a gadwyd** | 2.1.1 | **42** | 26 |
| **Incwm Cynhwysfawr Arall** | | | |
| **Eitemau na fyddant yn cael eu hailddosbarthu i gostau gweithredu net:** | | | |
| Enillion/(colledion) net ar ailbrisio eiddo, offer a chyfarpar | | **46** | 40 |
| Enillion/(colledion) net ar ailbrisio asedau anniriaethol | | **0** | 0 |
| Symudiadau mewn cronfeydd wrth gefn eraill | | **0** | 0 |
| Enillion/(colledion) net ar ailbrisio PPE ac asedau anniriaethol a ddelir i'w gwerthu | | **0** | 0 |
| Lleihad mewn gwerth a gwrthdroadau | | **0** | 0 |
| Trosglwyddiadau rhwng cronfeydd wrth gefn | | **0** | 0 |
| Addasiad ailddosbarthu ar waredu asedau ariannol sydd ar gael i'w gwerthu | | **0** | 0 |
| **Is-gyfanswm** | | **46** | 40 |
| **Eitemau y gellir eu hailddosbarthu wedyn i gostau gweithredu net** | | | |
| Enillion/(colledion) net ar ailbrisio asedau ariannol a ddelir i'w gwerthu | | **0** | 0 |
| **Is-gyfanswm** | | **0** | 0 |
| **Cyfanswm yr incwm cynhwysfawr arall am y flwyddyn** | | **46** | 40 |
| **Cyfanswm yr incwm cynhwysfawr am y flwyddyn** | | **88** | 66 |

# **Datganiad o Sefyllfa Ariannol**
## ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2020

| | | Nodyn | **31 March 2020 £000** | 31 March 2019 £000 |
|---|---|---|---|---|
| **Asedau nad ydynt yn gyfredol** | Eiddo, offer a chyfarpar | 13 | **11,941** | 11,352 |
| | Asedau anniriaethol | 14 | **1,334** | 913 |
| | Masnach a symiau derbyniadwy eraill | 17.1 | **0** | 327 |
| | Asedau ariannol eraill | 18 | **0** | 0 |
| | **Cyfanswm yr asedau nad ydynt yn gyfredol** | | **13,275** | 12,592 |
| **Asedau cyfredol** | Stocrestrau | 16.1 | **866** | 569 |
| | Masnach a symiau derbyniadwy eraill | 17.1 | **14,379** | 11,372 |
| | Asedau ariannol eraill | 18 | **0** | 0 |
| | Arian parod ac arian parod cyfatebol | 19 | **8,819** | 5,146 |
| | | | **24,064** | 17,087 |
| | Asedau nad ydynt yn gyfredol a ddelir i'w gwerthu | 13.2 | **0** | 0 |
| | **Cyfanswm Asedau Cyfredol** | | **24,064** | 17,087 |
| **Cyfanswm yr asedau** | | | **37,339** | 29,679 |
| **Rhwymedigaethau cyfredol** | Masnach a symiau eraill sy'n daladwy | 20 | **(18,898)** | (12,219) |
| | Benthyciadau | 21 | **0** | 0 |
| | Rhwymedigaethau ariannol eraill | 22 | **0** | 0 |
| | Darpariaethau | 23 | **(1,206)** | (1,284) |
| | **Cyfanswm y rhwymedigaethau cyfredol** | | **(20,104)** | (13,503) |
| **Asedau/(rhwymedigaethau) cyfredol net** | | | **3,960** | 3,584 |
| **Cyfanswm yr asedau llai rhwymedigaethau cyfredol** | | | **17,235** | 16,176 |
| **Rhwymedigaethau nad ydynt yn gyfredol** | Masnach a symiau eraill sy'n daladwy | 20 | **(1,381)** | (1,004) |
| | Benthyciadau | 21 | **0** | 0 |
| | Rhwymedigaethau ariannol eraill | 22 | **0** | 0 |
| | Darpariaethau | 23 | **(1,291)** | (1,672) |
| | **Cyfanswm y rhwymedigaethau nad ydynt yn gyfredol** | | **(2,672)** | (2,676) |
| **Cyfanswm yr asedau a ddefnyddiwyd** | | | **14,563** | 13,500 |
| **A ariennir gan ecwiti trethdalwyr:** | Cyfalaf difidend cyhoeddus | | **13,444** | 12,469 |
| | Enillion argadwedig | | **609** | 567 |
| | Cronfa ailbrisio wrth gefn | | **510** | 464 |
| | Cronfeydd wrth gefn eraill | | **0** | 0 |
| | **Cyfanswm ecwiti'r trethdalwyr** | | **14,563** | 13,500 |

Cymeradwywyd y datganiadau ariannol gan y Bwrdd ar 25 Mehefin 2020 a'u llofnodi ar ran y Bwrdd gan:

Prif Weithredwr a Swyddog Atebol 

# Datganiad o Newidiadau Ecwiti'r Trethdalwyr 2019-20

| | Cyfalaf Difidend Cyhoeddus £000 | Enillion argadwedig £000 | Cronfa ailbrisio wrth gefn £000 | Cyfanswm £000 |
|---|---|---|---|---|
| **Newidiadau ecwiti trethdalwyr ar gyfer 2019-20** | | | | |
| **Balans ar 1 Ebrill 2019** | 12,469 | 567 | 464 | **13,500** |
| Gwarged/(diffyg) a gadwyd am y flwyddyn | | 42 | | **42** |
| Enillion/(colled) net ar ailbrisio eiddo, offer a chyfarpar | | 0 | 46 | **46** |
| Enillion/(colledion) net ar ailbrisio asedau anniriaethol | | 0 | 0 | **0** |
| Enillion/(colledion) net ar ailbrisio asedau ariannol | | 0 | 0 | **0** |
| Enillion/(colledion) net ar ailbrisio asedau a ddelir i'w gwerthu | | 0 | 0 | **0** |
| Enillion/(colledion) net ar ailbrisio asedau ariannol a ddelir i'w gwerthu | | 0 | 0 | **0** |
| Lleihad mewn gwerth a gwrthdroadau | | 0 | 0 | **0** |
| Symudiadau mewn cronfeydd wrth gefn eraill | | 0 | 0 | **0** |
| Trosglwyddiadau rhwng cronfeydd wrth gefn | | 0 | 0 | **0** |
| Addasiad ailddosbarthu ar waredu asedau ariannol sydd ar gael i'w gwerthu | | 0 | 0 | **0** |
| Cronfeydd wrth gefn a gafodd eu dileu wrth ddiddymu | 0 | | | **0** |
| Symudiad yn ystod y flwyddyn | 0 | 42 | 46 | **88** |
| Cyfalaf Difidend Cyhoeddus newydd a dderbyniwyd | 975 | | | **975** |
| Cyfalaf Difidend Cyhoeddus a ad-dalwyd yn y flwyddyn | 0 | | | **0** |
| Cyfalaf Difidend Cyhoeddus a ddiddymwyd/ ddilëwyd | 0 | | | **0** |
| Symudiadau eraill mewn PDC yn y flwyddyn | 0 | | | **0** |
| **Balans ar 31 Mawrth 2020** | 13,444 | 609 | 510 | **14,563** |

# Datganiad o Newidiadau Ecwiti'r Trethdalwyr 2018-19

| | Cyfalaf Difidend Cyhoeddus £000 | Enillion argadwedig £000 | Cronfa ailbrisio wrth gefn £000 | Cyfanswm £000 |
|---|---|---|---|---|
| **Newidiadau ecwiti trethdalwyr ar gyfer 2018-19** | | | | |
| **Balans ar 31 Mawrth 2018** | 13,017 | 597 | 368 | **13,982** |
| **Addasiad ar gyfer Gweithredu IFRS 9** | 0 | 0 | 0 | **0** |
| **Balans ar 1 Ebrill 2018** | 13,017 | 597 | 368 | **13,982** |
| Gwarged/(diffyg) a gadwyd am y flwyddyn | | 26 | | **26** |
| Enillion/(colled) net ar ailbrisio eiddo, offer a chyfarpar | | 0 | 40 | **40** |
| Enillion/(colledion) net ar ailbrisio asedau anniriaethol | | 0 | 0 | **0** |
| Enillion/(colledion) net ar ailbrisio asedau ariannol | | 0 | 0 | **0** |
| Enillion/(colledion) net ar ailbrisio asedau a ddelir i'w gwerthu | | 0 | 0 | **0** |
| Enillion/(colledion) net ar ailbrisio asedau ariannol a ddelir i'w gwerthu | | 0 | 0 | **0** |
| Lleihad mewn gwerth a gwrthdroadau | | 0 | 0 | **0** |
| Symudiadau mewn cronfeydd wrth gefn eraill | | 0 | 0 | **0** |
| Trosglwyddiadau rhwng cronfeydd wrth gefn | | (56) | 56 | **0** |
| Addasiad ailddosbarthu ar waredu asedau ariannol sydd ar gael i'w gwerthu | | 0 | 0 | **0** |
| Cronfeydd wrth gefn a gafodd eu dileu wrth ddiddymu | 0 | | | **0** |
| Symudiad yn ystod y flwyddyn | 0 | (30) | 96 | **66** |
| Cyfalaf Difidend Cyhoeddus newydd a dderbyniwyd | 0 | | | **0** |
| Cyfalaf Difidend Cyhoeddus a ad-dalwyd yn y flwyddyn | (548) | | | **(548)** |
| Cyfalaf Difidend Cyhoeddus a ddiddymwyd/ ddilëwyd | 0 | | | **0** |
| Symudiadau eraill mewn PDC yn y flwyddyn | 0 | | | **0** |
| **Balans ar 31 Mawrth 2019** | 12,469 | 567 | 464 | **13,500** |

# Datganiad o Lif Arian Parod
## Ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2020

| | Nodyn | **2019-20 £000** | 2018-19 £000 |
|---|---|---|---|
| **Llif arian parod o weithgarwch gweithredu** | | | |
| Gwarged/(diffyg) gweithredu | SOCI | **(41)** | (22) |
| Symudiadau mewn cyfalaf gwaith | 30 | **3,926** | 179 |
| Addasiadau llif arian eraill | 31 | **3,536** | 3,791 |
| Darpariaethau a ddefnyddiwyd | | **(999)** | (2,897) |
| Llog a dalwyd | | **0** | 0 |
| **Mewnlif (all-lif) arian parod net o weithgarwch gweithredu** | | **6,422** | 1,051 |
| | | | |
| **Llifau arian parod o weithgarwch buddsoddi** | | | |
| Llog a dderbyniwyd | | **73** | 48 |
| (Taliadau) ar gyfer eiddo, offer a chyfarpar | | **(3,048)** | (1,398) |
| Elw o waredu eiddo, offer a chyfarpar | | **10** | 0 |
| (Taliadau) am asedau anniriaethol | | **(759)** | (439) |
| Elw o waredu asedau anniriaethol | | **0** | 0 |
| (Taliadau) am fuddsoddiadau gyda Llywodraeth Cymru | | **0** | 0 |
| Elw o waredu buddsoddiadau gyda Llywodraeth Cymru | | **0** | 0 |
| (Taliadau) ar gyfer asedau ariannol | | **0** | 0 |
| Elw o waredu asedau ariannol | | **0** | 0 |
| **Mewnlif/(all-lif) arian parod net o weithgarwch buddsoddi** | | **(3,724)** | (1,789) |
| **Mewnlif/(all-lif) arian parod net cyn ariannu** | | **2,698** | (738) |

| | Nodyn | **2019-20 £000** | 2018-19 £000 |
|---|---|---|---|
| **Llifau arian parod o weithgarwch ariannu** | | | |
| Cyfalaf Difidend Cyhoeddus a dderbyniwyd | | **975** | 0 |
| Cyfalaf Difidend Cyhoeddus a ad-dalwyd | | **0** | (548) |
| Benthyciadau a gafwyd gan Lywodraeth Cymru | | **0** | 0 |
| Benthyciadau eraill a gafwyd | | **0** | 0 |
| Benthyciadau a ad-dalwyd i Lywodraeth Cymru | | **0** | 0 |
| Benthyciadau eraill a ad-dalwyd | | **0** | 0 |
| Derbyniadau cyfalaf erail | | **0** | 0 |
| Elfennau cyfalaf o brydlesi cyllid ac ar-SOFP PFI | | **0** | 0 |
| Arian parod a drosglwyddwyd (i)/oddi wrth gyrff eraill GIG Cymru | | **0** | 0 |
| **Mewnlif/(all-lif) arian parod net o weithgarwch ariannu** | | **975** | (548) |
| **Cynnydd/(gostyngiad) net mewn arian parod ac arian parod cyfatebol** | | **3,673** | (1,286) |
| **Arian parod [ac] arian parod cyfatebol** | | | |
| **ar ddechrau'r flwyddyn ariannol** | 19 | **5,146** | 6,432 |
| **Arian parod [ac] arian parod cyfatebol** | | | |
| **ar ddiwedd y flwyddyn ariannol** | 19 | **8,819** | 5,146 |